# Cyfraith Bwyd

## Canllaw Ymarfer (Cymru)

# TABL O ADRANNAU A PHENODAU

TABL O'R DIWYGIADAU A GYHOEDDWYD ........................................................................ 5

RHAGAIR........................................................................................................................ 6

**ADRAN 1: GWEINYDDU ......................................................................... 8**

PENNOD 1.1: MATERION RHYNG-AWDURDOD ......................................................... 8

PENNOD 1.2: CYMWYSTERAU A PHROFIAD ............................................................ 9

PENNOD 1.3: GWRTHDARO BUDDIANNAU .............................................................. 10

PENNOD 1.4: COFNODION SEFYDLIADAU BUSNES BWYD .................................... 11

PENNOD 1.5: COFRESTRIAD SEFYDLIADAU BUSNES BWYD ................................ 12

PENNOD 1.6: ADEILADAU'R GORON A'R HEDDLU .................................................. 13

PENNOD 1.7: DIGWYDDIADAU A PHERYGLON BWYD............................................ 16

**ADRAN 2: CYFATHREBU.......................................................................18**

PENNOD 2.1: DATGELU GWYBODAETH ..................................................................18

PENNOD 2.2: RHYBUDDION BWYD ..........................................................................19

PENNOD 2.3: CYFATHREBIADAU A CHANLLAW'R ASIANTAETH...........................20

PENNOD 2.4: GWYBODAETH I'W CHYFLWYNO I'R ASIANTAETH..........................21

PENNOD 2.5: CYSWLLT AG AELOD-WLADWRIAETHAU ERAILL............................22

**ADRAN 3: GORFODI CYFFREDINOL** .................................................... 28

PENNOD R 3.1: YMAGWEDD AT ORFODAETH .......................................................28

PENNOD R 3.2: HYSBYSIADAU GWELLA HYLENDID / HYSBYSIADAU GWELLA .29

PENNOD 3.3: GWEITHDREFNAU GWAHARDD.........................................................34

PENNOD 3.4: MEDDIANNU A CHADW .......................................................................46

PENNOD 3.5: RHUBYDDION CYMRYD CAMAU ADFER / RHYBUDDION CADW… 50

PENNOD 3.6: DARPARIAETHAU RHEOLI TYMHEREDD..........................................51

PENNOD 3.7: BWYDYDD WEDI'U RHEWI'N GYFLYM..............................................56

PENNOD 3.8: GWASTRAFF BWYD.............................................................................69

PENNOD 3.9: GWERTHU O BELL /ARCHEBU DRWY'R POST.................................71

PENNOD 3.10: DŴR POTEL.........................................................................................74

PENNOD 3.11: RHEOLEIDDIO MEINI PRAWF MICROBIOLEGOL............................77

PENNOD 3.12: MEWNFORIO BWYD O DRYDYDD GWLEDYDD..............................78

**ADRAN 4: ARCHWILIADAU ........ 79**

PENNOD 4.1: ARCHWILIADAU ........ 79

PENNOD 4.2: YR ARCHWILIAD ........ 80

PENNOD 4.3: ARCHWILIO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL – GOFYNION YCHWANEGOL........ 82

PENNOD 4.4: ARCHWILIO LLONGAU AC AWYRENNAU........ 83

PENNOD 4.5: CAMAU GWEITHREDU YN DILYN ARCHWILIAD........ 89

**ADRAN 5: SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL ........ 90**

PENNOD 5.1: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 ........ 90

PENNOD 5.2: OPSIYNAU GORFODI MEWN SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 ........ 92

PENNOD 5.3: MATERION YN YMWNEUD Â MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW ........ 93

PENNOD 5.4: MATERION YN YMWNEUD Â CHIG FFRES........ 94

**ADRAN 6: SAMPLU A DADANSODDI ........ 95**

**ADRAN 7: MONITRO ARCHWILIADAU ........ 101**

**ADRAN 8: ATODIADAU........ 102**

ATODIAD 1: RHESTR TERMAU ........ 102

ATODIAD 2: ARWEINIAD YR ASIANTAETH AR OFYNION DEDDFWRIAETH HYLENDID BWYD........ 104

ATODIAD 3: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 - CYFFREDINOL........ 107

ATODIAD 4: SIART LLIF Y BROSES GYMERADWYO ........ 115

ATODIAD 5: CIG………........ …116

ATODIAD 5A: CANLLAW I SWYDDOGION GORFODI'R GYFRAITH AR FATERION BWYD HALAL ........ 129

ATODIAD 6: MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW ........ 133

ATODIAD 7: CYNHYRCHION PYSGODFEYDD........ 143

ATODIAD 8: LLAETH AMRWD A CHYNNYRCH LLAETH...... ………………………154

ATODIAD 9: CYNHYRCHION ŴY AC ŴY HYLIF........ 170

ATODIAD 10: CANOLFANNAU PACIO WYAU ........ 174

ATODIAD 11: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL SY'N AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 – TEMPLEDI FFURFLENNI ........ 177

ATODIAD 12: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL SY'N AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 – FFEILIAU AWDURDODAU BWYD ........ 197

ATODIAD 13: YMAGWEDD TUAG AT ORFODAETH - GOFYNIAD AR GYFER GWEITHDREFNAU RHEOLI DIOGELWCH BWYD AR SAIL EGWYDDORION HACCP ........ 199

ATODIAD 14: MEWNFORIO BWYD O DRYDYDD GWLEDYDD ........ 207

# TABL O DDIWYGIADAU A WNAED

| Rhif Diwygiad | Llofnodwyd | Dyddiad |
|---|---|---|
| Diwygiad Rhif 1 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 2 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 3 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 4 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 5 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 6 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 7 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif. 8 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 9 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 10 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 11 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 12 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 13 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 14 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 15 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 16 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 17 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 18 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 19 | __________________ | _______ |
| Diwygiad Rhif 20 | __________________ | _______ |

Llofnodwch a nodwch y dyddiad i gadarnhau bod diwygiadau a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cymryd lle'r tudalennau perthnasol.

# RHAGAIR

Mae'r Canllaw Ymarfer hwn wedi'i gyhoeddi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (yr Asiantaeth) i gynorthwyo Awdurdodau Bwyd wrth gyflawni'u dyletswydd statudol i orfodi'r gyfraith bwyd berthnasol. Mae'n ganllaw anstatudol, mae'n ategu'r Cod Ymarfer statudol, ac yn rhoi cyngor cyffredinol ar ymagwedd at orfodaeth neu ar y gyfraith lle gall ei bwriad fod yn aneglur.

Dylai awdurdodau bwyd fod yn ymwybodol nad yw cyfraith sy'n ymwneud â bwyd wedi'i llunio o angenrheidrwydd dan Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae cyfraith sy'n gymwys i fwyd yn gynwysedig hefyd a/neu wedi'i llunio dan, Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987, Deddf Disgrifiadau Masnach 1968, ac yn uniongyrchol o dan Reoliadau CE.

Nid yw swyddogion Awdurdodau Bwyd sydd wedi'u hawdurdodi dan Adran 5(6) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 i gyflawni dyletswyddau dan y Ddeddf honno a Rheoliadau a wnaed oddi tani wedi'u hawdurdodi'n awtomatig i ddelio â'r gyfraith bwyd dan unrhyw ddeddfwriaeth arall. Mae'n ofynnol hefyd cael awdurdodiad ar wahân mewn perthynas â deddfwriaeth arall e.e. deddfwriaeth a wnaed dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, gan gynnwys Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006[1] a'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006[2], y gall swyddogion gael eu hawdurdodi'n gyffredinol neu'n arbennig o danynt.

Mae'r canllaw hwn yn diweddaru pob canllaw blaenorol a gyhoeddwyd gyda'r Cod Ymarfer, a wnaed yn flaenorol dan Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn unig.

Mae deunydd yn y canllaw blaenorol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i ystyried Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, a'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau perthnasol yr UE.

Mae'r Canllaw Ymarfer hwn yn ystyried argymhellion a wnaed gan Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO) yr UE hefyd yn dilyn eu harchwiliadau o wasanaethau rheoli bwyd y DU.

Dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol bod Erthygl 8(5) Rheoliad 852/2004[3] yn amodi y bydd canllawiau ar arfer da a lunnir yn unol â Chyfarwyddeb 93/43/EEC (a elwir yn y DU yn "Industry Guides to Good Hygiene Practice") yn parhau i fod yn gymwys wedi i'r Rheoliad hwnnw ddod i rym, cyhyd â'u bod yn gydnaws â'i amcanion.

Tynnir sylw at y canllaw ar gwmpas a dull cynnal archwiliadau swyddogol o sefydliadau yn amodol ar gymeradwyaeth dan Reoliad 853/2004[4].

Mae cyfeiriadau at benodau, paragraffau ac atodiadau at y rhannau perthnasol o'r ddogfen hon oni nodir fel arall.

---

[1] SI 2006 Rhif 31 (W5)
[2] SI 2006 Rhif 590 (W66)
[3] Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd
[4] Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn pennu rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd yn tarddu o anifeiliaid

Mae’r arweiniad a gynhwysir yn y ddogfen hon yn cael ei roi yn ddidwyll, ac mae’n cydsynio â dealltwriaeth yr Asiantaeth o ofynion cyfreithiol perthnasol.

Ni ddylai, fodd bynnag, gael ei gymryd fel datganiad neu ddehongliad awdurdodol o’r gyfraith gan mai gan y Llysoedd yn unig y mae’r grym hwnnw. Mae unrhyw enghreifftiau sy’n cael eu rhoi yn eglurhaol ac nid yn gynhwysfawr.

Cynghorir Awdurdodau Bwyd yn gryf i ymgynghori â’u hadrannau cyfreithiol eu hunain wrth ystyried camau gorfodi ffurfiol.

# ADRAN 1: GWEINYDDU

## PENNOD 1.1: MATERION RHYNG-AWDURDOD

### 1.1.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn berthnasol i ardaloedd o Loegr lle mae dwy haen o awdurdod lleol ac mae pob haen yn Awdurdod Bwyd.

### 1.1.2: Gwasanaeth i Ddefnyddwyr

Efallai nad yw'r rhaniad cyfrifoldebau gorfodi rhwng Awdurdodau Bwyd Cynghorau Dosbarth a Chynghorau Sir mewn dwy ardal yn union amlwg i ddefnyddwyr.

Dylai Awdurdodau Bwyd yn yr ardaloedd hyn felly amcanu i ddarparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd sydd, cyn belled ag y mae defnyddwyr yn y cwestiwn, yn wasanaeth mor ddi-dor, mor effeithiol ac mor hygyrch â phosibl.

# PENNOD 1.2: CYMWYSTERAU A PHROFIAD

## 1.2.1: Cyflwyniad

Mae’r Bennod hon yn delio â chymwysterau a phrofiad swyddogion awdurdodedig Awdurdodau Bwyd.

## 1.2.2: Cydgyfrannu Arbenigedd

Dylai Awdurdodau Bwyd ystyried nodi cronfa o swyddogion awdurdodedig o fewn eu grŵp cyswllt lleol neu ranbarthol, y mae eu profiad a’u cymwysterau’n cwmpasu’r ystod o sefydliadau cynnyrch-benodol yn amodol ar gymeradwyaeth dan Reoliad 853/2004 a sefydliadau busnes bwyd sy’n ymgymryd â gweithgareddau arbenigol neu gymhleth risg uchel.

Gall Awdurdodau Bwyd nad oes ganddynt swyddogion â chymwysterau a phrofiad addas i archwilio gweithgareddau felly ofyn am gymorth gan swyddogion o’r fath wedyn.

# PENNOD 1.3: GWRTHDARO BUDDIANNAU

Mae’r holl wybodaeth berthnasol am achosion o wrthdaro buddiannau wedi’i chynnwys yn y Cod Ymarfer.

# PENNOD 1.4: COFNODION SEFYDLIADAU BUSNES BWYD

## 1.4.1: Cyflwyniad

Mae’r Bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel y maent a wnelont â chofnodion busnes bwyd.

## 1.4.2: Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu cofrestriad diogelu data yn cwmpasu’u holl resymau dros gadw data, gan gynnwys ei gyflenwi i asiantaethau eraill at ddibenion sicrhau iechyd a diogelwch cyhoeddus a gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol.

Mae’n rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (mae’r ddwy ohonynt yn gweithredu Cyfarwyddebau perthnasol CE) mewn perthynas ag unrhyw ddata a gwybodaeth a ddelir ganddynt.

Os oes gan Awdurdodau Bwyd unrhyw amheuon ynghylch rhyddhau data neu wybodaeth, dylent ofyn am gyngor cyfreithiol a/neu gysylltu â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth; ei wefan yw www.informationcommissioner.gov.uk.

## PENNOD 1.5: COFRESTRIAD SEFYDLIADAU BUSNES BWYD

Mae’r holl wybodaeth berthnasol am gofrestriad sefydliadau busnes bwyd wedi’i chynnwys yn y Cod Ymarfer.

# PENNOD 1.6: ADEILADAU'R GORON A'R HEDDLU

## 1.6.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn delio â gorfodi cyfraith bwyd mewn adeiladau'r Goron a'r heddlu. Mae'r canllaw anstatudol hwn yn ymwneud â'r ymagwedd at orfodi yn adeiladau'r Goron neu mewn adeiladau a ddelir gan yr heddlu; nid yw'n berthnasol i adeiladau a ddelir gan y GIG neu Ymddiriedolaethau GIG gan nad yw'r rhain yn adeiladau'r Goron. Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys arweiniad statudol, y mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd ei ddilyn, yn ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd yn y cyfryw adeiladau.

## 1.6.2: Cwmpas Cymhwyso Cyfraith Bwyd (Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006)

Mae cwmpas Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn ymestyn i adeiladau'r heddlu, adeiladau'r Goron ac i bobl yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron. Mae gan swyddogion awdurdodedig felly y pŵer i fynd i mewn i adeiladau'r heddlu ac adeiladau'r Goron i ymchwilio i gŵynion ac i gynnal archwiliadau yn yr un modd ag y gwnânt mewn unrhyw fusnes bwyd arall.

Gan nad oes eithriadau penodol ar gyfer rhai aelodau o'r Teulu Brenhinol neu rai cartrefi swyddogol Brenhinol fel y rhoddir gan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (gweler Paragraff 1.6.3 isod), dylai Awdurdodau Bwyd ddefnyddio disgresiwn wrth arfer eu pwerau mewn perthynas ag adeiladau'r Goron. Yn ymarferol, dylai Awdurdodau Bwyd fabwysiadu'r un ymagwedd at orfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas ag adeiladau'r Goron ag y gwnânt mewn perthynas â Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

## 1.6.3: Cwmpas Cymhwyso Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Mae cwmpas Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn ymestyn i adeiladau'r heddlu, y rhan fwyaf o adeiladau'r Goron (yn amodol ar yr eithriadau a nodir yn y paragraff isod), ac i bobl yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron. Mae gan swyddogion awdurdodedig felly y pŵer i fynd i mewn i adeiladau'r heddlu a'r rhan fwyaf o adeiladau'r Goron i ymchwilio i gŵynion ac i gynnal archwiliadau yn yr un modd ag y gwnânt mewn unrhyw fusnes bwyd arall.

Nid yw darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gymwys, fodd bynnag, i'w Mawrhydi y Frenhines neu Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru yn bersonol, nag i adeiladau a feddiannir ganddynt yn eu rhinweddau preifat fel eu cartrefi swyddogol preifat yn Sandringham neu Highgrove.

## 1.6.4: Dull Cynnal ac Amlder Archwiliadau

Dylai busnesau bwyd mewn adeiladau'r Goron neu adeiladau'r heddlu, ac eithrio cyfleusterau arlwyo dros dro neu gyfleusterau arlwyo maes mewn gwersylloedd hyfforddi milwrol, gael eu cynnwys yn rhaglen archwiliadau cynlluniedig yr Awdurdod Bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer.

Dylai ceginau parhaol sy'n gwasanaethu gwersylloedd hyfforddi milwrol gael eu harchwilio ar adegau pan gânt eu defnyddio, o fewn terfynau cyfyngiadau

diogelwch a fydd yn ddibynnol ar y sefydliad sy'n defnyddio'r cyfleuster ar y pryd.

Ni ddylai ceginau maes symudol gael eu harchwilio fel arfer gan yr Awdurdod Bwyd.

## 1.6.5: Gorfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Yn wahanol i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, nid yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn eithrio'r Goron os yw'n torri'r Rheoliadau. Golyga hyn y gellir erlyn y Goron os yw'n torri'r Rheoliadau. Fodd bynnag, fel y soniwyd ym Mharagraff 1.6.2 uchod, dylai Awdurdodau Bwyd ddefnyddio disgresiwn wrth arfer eu pwerau mewn perthynas ag adeiladau'r Goron, ac, yn ymarferol, dylent fabwysiadu'r un ymagwedd at orfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas ag adeiladau'r Goron ag y gwnânt mewn perthynas â Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

## 1.6.6: Gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990

### 1.6.6.1: Atebolrwydd

Dywed Adran 54(2) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 nad yw'r Goron yn atebol yn droseddol os yw'n torri'r Ddeddf neu'r Rheoliadau neu'r Gorchmynion a wnaed oddi tani. Golyga hyn na ellir erlyn y Goron os yw'n mynd yn groes i'r Ddeddf etc.

Gall Awdurdod Bwyd, fodd bynnag, wneud cais, yn Adran Mainc y Frenhines yn yr Uchel Lys, am ddatganiad bod unrhyw weithred neu hepgoriad y Goron, sy'n gyfystyr â thorri Deddf Diogelwch Bwyd 1990 neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf, yn anghyfreithlon.

Dylid ystyried hunaniaeth perchennog y busnes bwyd dan sylw yn ofalus os yw cwestiwn gweithredu dan gyfraith bwyd yn codi.

Gall arlwywyr contract sy'n gweithredu yn adeiladau'r Goron gael eu herlyn gan nad ydynt dan reolaeth yr eithriad hwn. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus hefyd i'r cwestiwn ynghylch methiant pwy a arweiniodd at dorri'r rheol.

Er y gall arlwywyr contract sy'n gweithredu yn adeiladau'r Goron gael eu herlyn, fe all methiannau strwythurol fod yn gyfrifoldeb y Goron ei hun.

Dylai unrhyw gais dan Adran 54(2) gael ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Pennaeth Adran a'i anfon at y Cyfreithiwr dros yr Adran berthnasol o'r Llywodraeth.

Dylai'r wŷs gael ei hanfon at brif swyddog corff Anadrannol y Llywodraeth.

### 1.6.6.2: Sefyllfa Gweision Sifil Unigol neu Weision Unigol y Llywodraeth

Er bod y Goron yn ddiogel rhag cael ei herlyn dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, gall unigolion yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron gael eu herlyn o hyd

yn yr un modd ag unrhyw berson arall. Fe allai methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyfraith bwyd felly wneud gwas sifil unigol neu was unigol y Llywodraeth yn agored i risg erlyn.

Ni ddylai Awdurdodau Bwyd ystyried erlyn gwas sifil unigol neu was unigol y Llywodraeth yn lle dwyn achos yn erbyn y Goron. Dim ond pe bai'r amgylchiadau wedi arwain at erlyn unigolyn yn achos unrhyw fusnes arall y dylid ystyried gweithredu felly.

**1.6.6.3: Hysbysiadau Statudol**

Nid yw cyflwyno hysbysiad gwahardd brys ynddo'i hun yn gwneud y derbynnydd yn atebol yn droseddol. Gellir cyflwyno hysbysiadau o'r fath ar y Goron felly lle mai'r Goron yw'r gweithredydd busnes bwyd dan sylw.

Dylid cyflwyno hysbysiadau gwahardd brys ar yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Pennaeth Adran priodol ac anfon copi at y Cyfreithiwr fel y disgrifiwyd uchod.

Er mwyn gallu gweithredu ar hysbysiadau felly heb oedi gormodol, dylid anfon copi hefyd at y person sydd â gofal am yr adeiladau dan sylw, e.e. Llywodraethwr carchar, neu Swyddog Llywodraethol sefydliad milwrol.

Dylai Awdurdodau Bwyd wneud cais yn y ffordd arferol i Lys Ynadon am orchymyn gwahardd brys ar y cyfan neu ran o adeiladau'r Goron, neu i atal gweithrediad proses neu driniaeth, neu ddefnyddio darn o gyfarpar mewn busnes sy'n cael ei redeg gan y Goron.

Dylid cofio, fodd bynnag, er y gall Llys Ynadon bennu gorchymyn gwahardd brys, ni all bennu gorchymyn gwahardd, gan mai lle bu euogfarn dan gyfraith bwyd perthnasol yn unig y gellir gwneud gorchymyn gwahardd.

Gall gweithredydd y busnes bwyd yn adeiladau'r goron apelio yn y ffordd arferol i Lys Ynadon yn erbyn hysbysiad gwella a gall ymddangos hefyd ei fod yn dadlau yn erbyn pennu gorchymyn gwahardd brys.

Gall y Goron apelio hefyd yn erbyn gwrthodiad i roi tystysgrif yn codi gorchymyn gwahardd brys.

Gall Awdurdod Bwyd wneud cais am ddatganiad yn yr Uchel Lys os yw busnes sy'n cael ei redeg gan y Goron yn methu cydymffurfio â gorchymyn gwahardd brys.

# PENNOD 1.7: DIGWYDDIADAU A PHERYGLON BWYD

## 1.7.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn delio â digwyddiadau a pheryglon bwyd sy'n cael eu nodi gan Awdurdodau Bwyd.

## 1.7.2: Gwybodaeth a Geir yn Lleol a All Ddynodi Problem Ehangach

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am ymchwilio i a delio â bwyd sy'n methu cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd yn eu hardaloedd. Gall Awdurdodau Bwyd nodi problemau potensial mewn nifer o ffyrdd fel:

- Yn dilyn archwiliad microbiolegol neu ddadansoddiad cemegol o samplau a gyflwynwyd i Archwiliwr Bwyd neu Ddadansoddwr Cyhoeddus;

- O ganlyniad i gŵynion gan aelodau'r cyhoedd, naill ai'n uniongyrchol neu drwy drydydd parti, er enghraifft, yr heddlu, canolfannau cynghori, etc;

- Drwy hysbysiadau gan gwmni gweithgynhyrchu, cymdeithas fasnach, cyfanwerthwr, manwerthwr, mewnforiwr neu arlwywr;

- Gwybodaeth gan asiantaethau gorfodi mewn gwledydd eraill;

- O ganlyniad i hysbysiad gan feddyg teulu am un neu fwy o achosion o glefydau trosglwyddadwy, gan gynnwys salwch yn cael ei gludo mewn bwyd, neu gan yr Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC), neu Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS).

Ni fwriadwyd i'r enghreifftiau uchod fod yn rhai cynhwysfawr.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r Archwiliwr Bwyd a/neu'r Dadansoddwr Cyhoeddus, dylid cael samplau lle bo modd o fwydydd neu gynhwysion perthnasol a samplau priodol (cyfog, carthion) o unrhyw bersonau yr effeithiwyd arnynt, a'u hanfon i'w harchwilio/dadansoddi. Gall yr eitemau hyn fod yn hynod bwysig o ran nodi achos y salwch a gallant achub bywydau hyd yn oed.

## 1.7.3: Canllaw ar Gŵynion am Fwyd

### 1.7.3.1: Hysbysiad o Gŵynion am Fwyd

Fel rheol gyffredinol dylai unrhyw un y gellir ei erlyn/herlyn o ganlyniad i gŵyn gan ddefnyddiwr gael ei hysbysu bod y gŵyn wedi'i gwneud cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Dylai'r Awdurdod Bwyd fel arfer hysbysu unrhyw un sydd â diddordeb cyn gynted â bod ymchwiliadau cychwynnol yn dangos y gall fod sail gref i gŵyn. Dylid hysbysu diffynyddion potensial eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Gall yr hysbysiad fod drwy unrhyw fodd, ond dylid ei gadarnhau yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol. Dylai’r hysbysiad ysgrifenedig gynnwys dyddiad a natur y gŵyn.

Gall fod amgylchiadau eithriadol lle gallai hysbysiad rwystro ymchwiliad. Mewn amgylchiadau felly dim ond pan na fyddai’n niweidio ymchwiliadau pellach y dylai hysbysiad gael ei wneud.

**1.7.3.2: Cynnwys Awdurdodau Bwyd Eraill**

Os yw ymchwiliad i gŵyn yn dod â phroblem neu broblem botensial i’r golwg y tu allan i faes yr Awdurdod Bwyd gorfodi, dylid hysbysu’r Awdurdodau Bwyd eraill yr effeithir arnynt cyn gynted â phosibl, ac, os yw’n briodol, yn unol ag Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

**1.7.3.3: Ymchwiliad Gwyddonol o Samplau Cwynion am Fwyd**

Bydd angen i’r swyddog awdurdodedig ystyried p’un a oes angen cynnal ymchwiliad gwyddonol o fwyd sy’n destun cwyn. Os yw’r swyddog awdurdodedig yn amheus o gwbl, dylid gofyn am gyngor gan y Dadansoddwr Cyhoeddus a/neu’r Archwiliwr Bwyd a fydd yn gallu cynghori ar y ffurf ar ymchwiliad gwyddonol a all fod yn briodol, yn enwedig lle mae gofyn am gyfuniad o ddadansoddiad ac archwiliad.

Os yw’r swyddog awdurdodedig o’r farn y dylai sampl o gŵyn am fwyd gael ei dadansoddi, dylid ei hanfon at y Dadansoddwr Cyhoeddus. Pe bai rhaid gwneud archwiliad microbiolegol o’r sampl, dylid ei hanfon at Archwiliwr Bwyd. Os oes angen unrhyw ymchwiliad arall, dylai’r bwyd gael ei anfon at arbenigwr â chymwysterau addas sy’n gallu rhoi tystiolaeth pe ddigwydd erlyniad.

Gall testun cwyn neu barti arall â diddordeb ofyn am sampl bwyd y gŵyn am fwyd fod ar gael i helpu gydag ymchwiliad mewnol. Dylai’r Awdurdod Bwyd geisio cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol cyn belled â bod y cais ddim yn cyfaddawdu storio, dadansoddi, ac archwilio priodol y sampl neu ei gwerth tystiolaethol.

# ADRAN 2: CYFATHREBU

## PENNOD 2.1: DATGELU GWYBODAETH

Mae gwybodaeth berthnasol am ddatgelu gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer. Mae Pennod 1.4 y Canllaw hwn yn berthnasol hefyd.

## PENNOD 2.2: RHYBUDDION BWYD

Mae'r holl wybodaeth berthnasol ar gyfathrebiadau a chanllaw'r Asiantaeth wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer.

# PENNOD 2.3: CYFATHREBIADAU A CHANLLAW'R ASIANTAETH

Mae'r holl wybodaeth berthnasol ar gyfathrebiadau a chanllaw'r Asiantaeth wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer.

# PENNOD 2.4: GWYBODAETH I'W CHYFLWYNO I'R ASIANTAETH

Mae'r holl ddeunydd perthnasol ar wybodaeth sydd i'w chyflwyno i'r Asiantaeth wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer.

# PENNOD 2.5: CYSWLLT AG AELOD-WLADWRIAETHAU ERAILL

## 2.5.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn delio â gweinyddu'r trefniadau cyswllt Ewropeaidd, a'r ymagwedd at y trefniadau hynny sydd i'w gweithredu gan yr Asiantaeth o 1 Ebrill 2006. Mae darpariaethau manwl ar gymorth a chydweithrediad gweinyddol ag Aelod-Wladwriaethau eraill yn cael eu nodi yn Erthyglau 34 i 38 Rheoliad 882/2004[5].

## 2.5.2 Rôl yr Asiantaeth

Mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn y DU yn cael eu cyflawni'n unol â Rheoliad 882/2004.

Yr Asiantaeth, o 1 Ebrill 2006, yw'r corff cyswllt dynodedig at ddibenion Erthygl 35 Rheoliad 882/2004 ac, yn hynny o beth, mae'n gyfrifol am gynorthwyo a chydgysylltu'r cyfathrebu rhwng awdurdodau cymwys a throsglwyddo a derbyn ceisiadau am gymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal cysylltiadau uniongyrchol, cyfnewid gwybodaeth neu gydgysylltu rhwng staff Awdurdodau Lleol mewn Aelod-Wladwriaethau gwahanol.

Mewn perthynas â cheisiadau am gymorth gan Aelod-Wladwriaethau eraill, mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol am gydymffurfio, neu fel arall, â chyfraith bwyd y DU yn cael ei darparu heb oedi, ac eithrio gwybodaeth na ellir ei rhyddhau oherwydd ei bod yn destun achos cyfreithiol.

Bydd yr Asiantaeth yn delio â materion sy'n dod o dan gategorïau A a B (gweler Pennod 2.5 y Cod Ymarfer).

## 2.5.3 Rôl yr Awdurdodau Bwyd

Mae "Egwyddor Ewropeaidd yr Awdurdod Cartref" a fabwysiadwyd gan Fforwm Ewropeaidd yr Ymarferwyr Gorfodi Cyfraith Bwyd (FLEP) yn ffurfio sail y trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn ymwneud â'r DU. Bydd rôl yr Awdurdod Bwyd wrth ddarparu cymorth gweinyddol yn dibynnu ar ba un a yw'n gweithredu fel "Awdurdod Cartref", "Awdurdod Gorfodi" neu "Awdurdod Cychwynnol", a diffinnir y termau hynny fel a ganlyn:

- Mae "Awdurdod Cartref" yn golygu'r awdurdod gorfodi cyfraith bwyd yn yr Aelod-Wladwriaeth sydd â chyfrifoldeb daearyddol am yr ardal y mae sylfaen gyfrifol gwneud penderfyniadau y fenter bwyd ynddi (e.e. gall hwn fod yn ffatri, y brif swyddfa neu'r cyfeiriad ar label y cynnyrch);

[5] Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau gwirio cydymffurfio â chyfraith bwydydd anifeiliaid a bwyd, iechyd anifeiliaid a rheolau iechyd anifeiliaid

- Mae “Awdurdod Gorfodi” yn golygu’r awdurdod gorfodi cyfraith bwyd mewn Aelod-Wladwriaeth sy’n ymchwilio i droseddau neu ymholiadau’n ymwneud â chynhyrchion bwyd a dderbynnir o Aelod-Wladwriaethau eraill;

- Mae “Awdurdod Cychwynnol” yn golygu’r awdurdod gorfodi cyfraith bwyd mewn Aelod-Wladwriaeth y mae menter wedi ei datganoli yn cynhyrchu neu’n pecynnu nwyddau neu wasanaethau yn ei hardal. Mae gan yr Awdurdod Cychwynnol gyfrifoldeb arbennig am sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau sy’n cael eu cynhyrchu yn ei ardal yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Gellir cyfuno swyddogaethau’r Awdurdod Cartref a’r Awdurdod Cychwynnol mewn rhai ardaloedd.

### 2.5.4 Ymholiadau gan Aelod-Wladwriaethau

Bydd ceisiadau am wybodaeth neu gymorth gweinyddol a dderbynnir gan yr Asiantaeth yn cael eu trosglwyddo ymlaen i’r Awdurdod Cartref priodol i weithredu. Gall yr ymateb dilynol gael ei wneud naill ai drwy’r Asiantaeth neu’n uniongyrchol i’r Awdurdod Gorfodi yn yr Aelod-Wladwriaeth dan sylw, os yw’n briodol.

### 2.5.5 Dogfennaeth

Yn unol ag Erthygl 36(2) Rheoliad 882/2004, mae’n rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod dogfennau yn cael eu hanfon ymlaen heb oedi gormodol. Mae Erthygl 36(2) yn caniatau trosglwyddo dogfennau ar eu ffurf wreiddiol, neu ddarparu copïau ohonynt.

### 2.5.6 Datgelu Gwybodaeth

Mae Erthygl 7 Rheoliad 882/2004 yn nodi’r gofynion cyffredinol mewn perthynas â thryloywder a chyfrinachedd. Mae Erthygl 34 yn amodi bod Erthyglau 35 – 40 y Rheoliad hwnnw, sy’n delio â chymorth a chydweithrediad gweinyddol rhwng Aelod-Wladwriaethau “na fydd yn rhagfarnu rheolau cenedlaethol sy’n berthnasol i ryddhau dogfennau sy’n wrthrych, neu’n berthnasol i, weithrediadau llys neu reolau wedi’u hanelu at amddiffyn diddordeb masnachol personau naturiol neu gyfreithiol”.

Dylai Awdurdodau Bwyd felly sicrhau bod unrhyw achos o ryddhau gwybodaeth yn gydnaws â deddfwriaeth genedlaethol gan gynnwys honno sy’n ymwneud â Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth (gweler Pennod 1.4 yn ogystal).

### 2.5.7 Defnyddio Gwybodaeth mewn Achos Troseddol

Dim ond â chydsyniad blaenorol yr Aelod-Wladwriaeth anfon y gellir defnyddio gwybodaeth mewn achos troseddol. Lle mae Aelod-Wladwriaeth yn barti i gytundeb neu gonfensiwn rhyngwladol ar gyd-gymorth, rhaid dilyn y gweithdrefnau a bennir yn y cyfryw offerynnau.

Mae Aelod-Wladwriaethau'r UE yn bartïon i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Gyd-Gymorth mewn Materion Troseddol[6]. Mae'r Confensiwn hwn gofyn bod ceisiadau am wybodaeth sydd i'w defnyddio fel tystiolaeth mewn achos troseddol yn cael ei throsglwyddo drwy'r awdurdod perthnasol.

Yr awdurdod perthnasol yn y DU yw "Awdurdod Canolog y Deyrnas Unedig", sy'n rhan o Uned Cydweithrediad Barnwrol y Swyddfa Gartref. Mae'r Awdurdod Canolog yn cysylltu â'r awdurdodau barnwrol yn yr Alban.

Rhaid hysbysu'r Asiantaeth am bob cais drwy'r Awdurdod Canolog er mwyn iddi allu cyflawni'i rôl fel corff cyswllt unigol y DU.

Cyfeiriad Awdurdod Canolog y DU yw:

Home Office
UK Central Authority
5th Floor, Fry Building,
Marsham Street,
London
SW1P 4DF.

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n hysbys, pan wneir y cais, ei bod yn ofynnol i'w defnyddio mewn achos troseddol, yn cael ei sicrhau gan yr Aelod-Wladwriaeth trwy lythyr cais dan Adran 3 Deddf Cyfiawnder Troseddol (Cydweithrediad Rhyngwladol) 1990.

Nid yw Awdurdodau Bwyd yn "awdurdodau erlyn dynodedig" at ddibenion y Ddeddf uchod a rhaid gofyn am lythyrau cais felly gan Ynad Heddwch neu Farnwr.

Lle mae Awdurdodau Bwyd yn dymuno defnyddio gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chyflwyno gan Aelod-Wladwriaeth arall, dylid gofyn yn yr un modd am lythyr cais gan Ynad Heddwch neu Farnwr.

Rhaid i'r cais ofyn yn ffurfiol am gydsyniad yr Awdurdod Cartref (neu gyfwerth) yn yr Aelod-Wladwriaeth dan sylw i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr achos.

### 2.5.8 Diffyg Cydymffurfio â Deddfwriaeth

Pan fydd yn amlwg, tra'n cyfnewid gwybodaeth, nad yw masnachwr wedi cydymffurfio â rheolau'r UE neu ddeddfwriaeth genedlaethol, mae'n ofynnol i'r Aelod-Wladwriaeth lle mae'r achos honedig o ddiffyg cydymffurfio wedi digwydd i adrodd i'r Aelod-Wladwriaeth arall ar gamau a gymerwyd a chamau i atal hynny rhag digwydd eto. Gall y naill Aelod-Wladwriaeth wedyn benderfynu a ddylid anfon copi o'r adroddiad at y Comisiwn Ewropeaidd hefyd. Dylai

[6] Deddf Cyngor 29 Mai 2000 yn sefydlu, yn unol ag Erthygl 34 y Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd, y Confensiwn ar Gyd-Gymorth mewn Materion Troseddol rhwng Aelod-Wladwriaethau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd C197, 12 .07.2000.

Awdurdodau Bwyd anfon copi o bob adroddiad at yr Asiantaeth. Bydd yr Asiantaeth yn penderfynu p’un a ddylid hysbysu’r Comisiwn.

# Hysbysiad o Ddigwyddiad i'r Asiantaeth Safonau Bwyd
# Cyfnewid Gwybodaeth: Materion Bwyd Arferol

## Llenwch pob rhan o'r ffurflen hon mewn priflythrennau neu deip

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriwyd at** (Aelod-Wladwriaeth) | | **Gwybodaeth yn Unig*** | | **Cyfeirnod EA:** | |
| | | **Camau y Gofynnir Amdanynt*** | | **Cyfeirnod Asiantaeth:** | |

* (ticiwch fel bo'n briodol)

**Enw a Chyfeiriad yr Awdurdod Gorfodi:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddog Cyswllt**: | | **Ffôn:** | |
| **E-bost:** | | **Ffacs:** | |

**Disgrifiad llawn o'r cynnyrch (i gynnwys enw'r cynnyrch neu enw brand, codau adnabod):**

**Natur y gŵyn/cais:**

**Dyddiad yr Hysbysiad:** **Llun:** **Oes** ☐ **Nag oes** ☐

**Enw a Chyfeiriad y Gwneuthurwr, Pecynnwr, Manwerthwr, Cyfanwerthwr (lle bo'n briodol):**

**Manylion yr Ymchwiliad gan EA**: Cynhwyswch fanylion am bwy gysylltwyd â nhw h.y. mewnforiwr, unrhyw Awdurdod Cartref priodol y DU, a chynhwyswch fanylion mesurau neu gamau a gymerwyd a chanlyniad yr ymchwiliad.

**Camau y gofynnir i'r Asiantaeth eu cymryd:** Pennwch yn gynhwysfawr natur y wybodaeth y gofynnir amdani.

**A oes bwriad i ddefnyddio'r wybodaeth i erlyn?**

**Oes:** ☐ **Nag oes:** ☐ **Efallai:** ☐ (Ticiwch fel bo'n briodol)

**Os "efallai" byddwch yn ymwybodol o oedi oherwydd yr angen i ail-gadarnhau gwybodaeth at ddibenion erlyn. Mewn perthynas â throseddau dan ddeddfwriaeth Bwyd y DU, rhowch fanylion unrhyw waharddiadau amser.**

**Llofnodwyd……………………………………… Dyddiad anfon:………………………………**

**Anfonwch y ffurflen hon wedi'i llenwi at Hygiene Technical Support Branch, Room 415C, Aviation House, 125 Kingsway, London WC2B 6NH.**

# ADRAN 3: GORFODI CYFFREDINOL

## PENNOD 3.1: YMAGWEDD AT ORFODAETH

### 3.1.1: Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE): Cod Ymarfer B

Gellir gweld Codau Ymarfer PACE, gan gynnwys Cod Ymarfer B PACE ar wefan Heddlu'r Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad canlynol:

http://police.homeoffice.gov.uk/operational-policing/powers-pace-codes/pace-codes.html

# PENNOD 3.2: HYSBYSIADAU GWELLA HYLENDID / HYSBYSIADAU GWELLA

## 3.2.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn delio â defnyddio hysbysiadau gwella hylendid dan Reoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, a defnyddio hysbysiadau gwella dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 mewn cysylltiad â materion safonau bwyd.

## 3.2.2: Yr Ymagwedd Orfodi

Cyflawni cydymffurfio yn y dull mwyaf effeithiol posibl ddylai fod yn brif amcan camau gorfodi bob amser.

Mae'r arfer o roi cyngor, a chyfathrebu trwy lythyr ynghylch materion gorfodi, yn ymagweddau sefydledig at orfodi y mae busnesau bwyd yn eu deall. Anogir gweithdrefnau o'r fath felly ba bryd bynnag y maent yn debygol o sicrhau cydymffurfio â gofynion cyfraith bwyd o fewn amser sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau.

I'r gwrthwyneb, nid yw cyflwyno hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad gwella yn atal camau cyfochrog fel erlyn ar gyfer materion sy'n destun yr hysbysiad. Gall cam gweithredu felly fod yn briodol yn arbennig lle mae amodau'n ddifrifol neu'n dirywio.

## 3.2.3: Cyflwyno Hysbysiadau

Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn gofyn am gyflwyno hysbysiad gwella hylendid i weithredydd busnes bwyd. Er ei bod yn annhebygol y caiff ei ddefnyddio (gweler Paragraff 3.2.3 y Cod Ymarfer), mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gofyn am gyflwyno hysbysiad gwella ar berchennog busnes bwyd.

Dylai hysbysiadau gwella hylendid neu hysbysiadau gwella gael eu cyflwyno fel arfer naill ai trwy eu rhoi i weithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd yn bersonol, neu yn eu cartref swyddogol arferol neu eu cartref swyddogol hysbys diwethaf trwy wasanaeth post neu gludwr sy'n cynnwys prawf postio neu anfon ac, yn ddelfrydol, prawf derbyn.

Nid yw bob amser yn bosib nodi pwy yw gweithredydd y busnes bwyd ac mae Rheoliad 28(2) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu cyfeirio hysbysiad gwella hylendid at "weithredydd y busnes bwyd" a'i adael yn yr adeilad a enwir. Yn yr un modd, mae Adran 50(2) y Ddeddf yn caniatáu cyfeirio hysbysiad gwella at y "perchennog " neu'r "deiliad" a'i ddosbarthu i'r adeilad a enwir os na ellir nodi pwy yw perchennog y busnes bwyd.

Dylai'r swyddog sy'n cyflwyno hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad gwella sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod y person sy'n gyfrifol am weithredu yn cael copi hefyd, yn enwedig lle nad y rheolwr lleol yw gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd.

### 3.2.4: Drafftio Hysbysiadau

Dylai fod yn eglur o'r hysbysiad gwella hylendid neu'r hysbysiad gwella beth yn union mae'n ofynnol i'r derbynnydd ei wneud, a pham; dylai fod wedi'i ddrafftio'n glir felly ac yn hawdd ei ddeall.

Gan fod methu cydymffurfio â gofynion hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad gwella o fewn y cyfnod penodedig yn drosedd, dylai swyddog sydd wedi penderfynu cyflwyno hysbysiad ystyried a yw hysbysiad unigol â therfyn amser unigol yn briodol. Byddai methiant i gydymffurfio ag un neu fwy o eitemau hysbysiad felly yn fethiant i gydymffurfio â'r hysbysiad cyfan ac yn gyfystyr â throsedd unigol.

Gall y dewis arall, sef cyflwyno hysbysiadau lluosog, pob un â therfyn amser gwahanol, fod yn fwy priodol lle mae achosion lluosog o dramgwyddiadau dan sylw. Gall hysbysiadau ar wahân â therfynau amser ar wahân fod yn haws i ymdrin â hwy hefyd os oes apêl. Byddai apêl yn erbyn hysbysiad unigol yn ymwneud â thramgwyddiadau lluosog yn arwain at atal yr hysbysiad cyfan nes delio â'r apêl.

Mewn perthynas â Hysbysiadau Gwella Hylendid sy'n gofyn am wneud gwaith adeileddol, dylai'r swyddog fel arfer drafod manylion unrhyw waith felly gyda gweithredydd y busnes bwyd, neu gyda pherson sy'n gweithredu ar ran y gweithredydd sydd mewn sefyllfa i awdurdodi'r gwaith, cyn bod hysbysiad yn cael ei roi. Fodd bynnag, ni ddylai cyflwyno hysbysiad gael ei oedi'n ormodol os na ellir dod i gytundeb neu os na ellir cysylltu â pherson cyfrifol.

### 3.2.5: Terfynau Amser

Dylai hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad gwella nodi'n glir y terfyn amser ar gyfer gorfod cwblhau mesurau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad. Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn pennu lleiafswm cyfnod o 14 diwrnod.

Gellir gwneud apêl yn erbyn y terfyn amser, felly mae'n rhaid iddo fod yn realistig ac yn gyfiawnadwy, a rhaid iddo ystyried graddau a chymhlethdod y mesurau gofynnol.

Dylai'r terfyn amser gael ei drafod a'i gytuno fel arfer gyda gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd neu â pherson sy'n gweithredu ar ran y gweithredydd / perchennog sydd mewn sefyllfa i gytuno terfyn amser, cyn bod hysbysiad yn cael ei roi. Fe all y swyddog, fodd bynnag, bennu terfyn amser heb gytundeb felly os na ellir dod i gytundeb neu os na ellir cysylltu â pherson cyfrifol.

Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth bennu terfyn amser:

- Y risg i iechyd y cyhoedd;
- Natur y broblem;

- Argaeledd atebion.

### 3.2.6: Ymestyn Terfynau Amser

Er bod rhaid cydymffurfio â hysbysiadau gwella hylendid neu hysbysiadau gwella erbyn y terfyn amser penodedig, dylai Awdurdodau Bwyd roi ystyriaeth ddyledus i unrhyw anawsterau go iawn a all ddigwydd wrth geisio cydymffurfio â'r terfyn amser hwnnw.

Nid oes darpariaeth benodol yn y rheoliadau i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad, ond gall fod yn afresymol peidio â chaniatáu estyniad os oes gan weithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd reswm go iawn dros fod angen mwy o amser.

Dylid cynghori'r gweithredydd / perchennog pan fydd yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno y dylai unrhyw gais am estyniad amser gael ei wneud yn ysgrifenedig cyn bod yr hysbysiad yn dod i ben.

Os yw'r swyddog o'r farn bod y cais yn un rhesymol, dylai wneud nodyn o'r rhesymau am ei benderfyniad ar ffeil berthnasol y sefydliad. Dylid tynnu'r hysbysiad presennol yn ôl wedyn a chyflwyno hysbysiad newydd yn adlewyrchu'r terfyn amser newydd ar gyfer gorfod cydymffurfio.

Fodd bynnag, ni ddylai'r swyddog fyth gyflwyno hysbysiad felly'n awtomatig. Wrth ystyried cais am estyniad i'r terfyn amser, dylai'r swyddog ystyried bob amser p'un a yw'r ffeithiau bryd hynny'n cyfiawnhau estyniad felly, gan ystyried:

- Y risg i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r diffyg pe bai estyniad yn cael ei roi;

- Y rheswm dros y cais;

- Y mesurau unioni cysylltiedig;

- Cofnod cydweithredu'r gweithredydd / perchennog yn y gorffennol;

- Unrhyw gamau dros dro y mae'r gweithredydd / perchennog yn bwriadu'u cymryd i gywiro'r diffyg.

### 3.2.7: Gweithiau ag Effaith Gyfwerth

Dylai hysbysiadau esbonio'n glir bod Rheoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, fel sy'n briodol, yn caniatáu i weithredydd busnes bwyd / perchennog busnes bwyd i gyflawni mesurau ag effaith gyfwerth o leiaf â'r rheiny a bennir mewn hysbysiad gwella hylendid / hysbysiad gwella ac argymell bod mesurau eraill yn cael eu trafod gyda'r swyddog a gyflwynodd yr hysbysiad cyn cychwyn ar waith er mwyn osgoi gwariant diangen neu waith amhriodol.

Dylai'r Awdurdod Bwyd ymateb yn ysgrifenedig i unrhyw gais gan weithredydd / perchennog i amrywio'r gwaith, a dylai unrhyw fesurau eraill a gytunir gael eu cadarnhau yn ysgrifenedig.

Dylai anghydfodau gael eu hystyried gan swyddog arwain yr Awdurdod Bwyd dros ddiogelwch bwyd, neu gan y pennaeth gwasanaeth neu uwch reolwr arall.

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y gweithdrefnau ganddynt i ystyried materion felly, er mwyn iddi fod yn amlwg i'r gweithredydd / perchennog bod adolygiad priodol.

### 3.2.8: Cydymffurfio

Dylai'r swyddog a gyflwynodd yr hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad gwella gysylltu â'r busnes bwyd a monitro'r gwaith sy'n cael ei wneud ac annog gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd i hysbysu'r swyddog pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Dylai swyddog awdurdodedig arall fonitro'r gwaith os nad yw'r swyddog a gyflwynodd yr hysbysiad yn gallu gwneud hynny.

Dylai'r gwaith gael ei wirio cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl derbyn yr hysbysiad ei fod wedi'i gwblhau, a dylai'r swyddog gadarnhau'n ysgrifenedig bod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol.

### 3.2.9: Apeliadau

Dylai fod yn glir i dderbynnydd hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad gwella bod hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad.

Dylai'r hysbysiad gynnwys manylion yr hawl i apelio felly, a dylid darparu enw a chyfeiriad y Llys lleol perthnasol i'r derbynnydd.

Hefyd, dylid gofyn i weithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd i hysbysu'r swyddog os oes apêl yn cael ei gwneud.

### 3.2.10: Trafodaethau Eraill gyda'r Awdurdod Bwyd

Er bod gan weithredydd busnes bwyd / perchennog busnes bwyd hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gwella hylendid neu hysbysiad gwella, dylai'r Awdurdod Bwyd fod yn barod i drafod hysbysiad a'i ofynion yn anffurfiol gyda'r gweithredydd / perchennog os dymunant wneud hynny.

Dylai'r Awdurdod Bwyd yn yr un modd fod yn barod i drafod gofynion unrhyw lythyr neu gamau gorfodi eraill.

Os yw gweithredydd / perchennog yn dynodi bod gofynion hysbysiad yn anghyson â dehongliad neu arfer Awdurdodau Bwyd eraill, dylai'r Awdurdod Bwyd roi ystyriaeth i farnau'r "awdurdod cartref" fel y'u diffinnir yn Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS.

Dylai fod trefniadau mewnol gan Awdurdodau Bwyd ar gyfer ystyried ceisiadau felly am drafodaethau pellach, ac ystyried y modd y gwnânt y trefniadau hyn yn hysbys i weithredwyr / perchenogion.

Dylai unrhyw anghydfodau sy'n codi gael eu cyfeirio at y swyddog arwain dros ddiogelwch bwyd, neu at uwch reolwr priodol sy'n cael ei enwebu gan y swyddog arwain bwyd.

### 3.2.11: Canllaw Arall

[Mae canllaw pellach ar ddefnyddio a pharatoi hysbysiadau gwella hylendid wedi'i gyhoeddi gan LACORS].

# PENNOD 3.3: GWEITHDREFNAU GWAHARDD

## 3.3.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn delio'n gyntaf â defnyddio gweithdrefnau gwahardd at ddibenion hylendid a gweithdrefnau rhybudd cymryd camau adfer / rhybudd ataliad dan Reoliadau 7, 8 a 9 yn y drefn honno o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a'r gweithdrefnau cau gwirfoddol cysylltiedig. Yna mae'n delio â gweithdrefnau gwahardd Adran 11 ac Adran 12 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, y gweithdrefnau cau gwirfoddol cysylltiedig a gwahardd personau dan Adran 11 y Ddeddf, mewn cysylltiad â materion safonau bwyd.

## 3.3.2: Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

### 3.3.2.1: Rheoliad 7 Gweithdrefnau Gwahardd at Ddibenion Hylendid

Gall Llys Ynadon wneud gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid dan Reoliad 7 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 i:

- Gwahardd defnyddio proses neu driniaeth at ddibenion y busnes os cyflawnir yr amod risg iechyd;
- Gwahardd defnyddio'r adeiladau neu'r cyfarpar at ddibenion y busnes bwyd neu unrhyw fusnes bwyd tebyg os yw adeiladwaith yr adeilad neu ddefnyddio unrhyw gyfarpar yn cyflawni'r amod risg iechyd;
- Gwahardd defnyddio'r adeiladau neu'r cyfarpar at ddibenion unrhyw fusnes bwyd os yw cyflwr neu amodau o hynny yn cyflawni'r amod risg iechyd.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Bwyd erlyn gweithredydd y busnes bwyd yn llwyddiannus yn gyntaf am drosedd dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Bydd y llys yn gwneud gorchymyn os yw o'r farn bod yr adeiladau, y cyfarpar, y driniaeth a/neu'r broses yn cyflawni'r amod risg iechyd yn ôl Rheoliad 7(2).

Gall y Llys wneud gorchymyn hefyd yn gwahardd gweithredydd busnes bwyd rhag rheoli unrhyw fusnes bwyd, neu fath arbennig o fusnes bwyd.

### 3.3.2.2: Rheoliad 8 Gweithdrefnau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid

Gall swyddog awdurdodedig gyflwyno hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid dan Reoliad 8 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 os cyflawnir yr amod risg iechyd mewn perthynas â busnes bwyd, a bod risg niwed ar fin digwydd i iechyd. Effaith yr hysbysiad yw cau'r adeiladau ar unwaith, neu atal defnyddio cyfarpar, neu ddefnyddio proses neu driniaeth. Yn wahanol i Reoliad 7, ni ellir defnyddio'r pwerau hyn yn erbyn person.

Mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig wneud cais i Lys Ynadon am orchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid cyn pen tridiau o gyflwyno hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid, a diwrnod cyflwyno'r hysbysiad yw Diwrnod 1.

Mae'n rhaid i'r gweithredydd gael o leiaf un diwrnod cyfan o hysbysiad o'r bwriad i wneud y cais.

#### 3.3.2.3: Rheoliad 9 Rhybuddion Cymryd Camau Adfer / Rhybuddion Cadw

Gweler paragraff 3.5 y Cod Ymarfer.

### 3.3.3: Deddf Diogelwch Bwyd 1990

#### 3.3.3.1: Adran 11 Gweithdrefnau Gwahardd

Gall Llys Ynadon wneud gorchymyn gwahardd dan Adran 11 y Ddeddf i:

- Gau adeilad bwyd;
- Gwahardd adeilad rhag cael ei ddefnyddio at fathau penodol o fusnes bwyd;
- Atal defnyddio darn o gyfarpar ar gyfer unrhyw fusnes bwyd, neu fusnes bwyd penodol;
- Gwahardd proses benodol;
- Gwahardd y perchennog rhag rheoli unrhyw fusnes bwyd.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Bwyd erlyn perchennog y busnes bwyd yn llwyddiannus yn gyntaf am dorri cyfraith bwyd berthnasol.

Bydd y llys yn gwneud gorchymyn os yw o'r farn bod yr adeilad, y cyfarpar neu broses yn peri risg niwed i iechyd.

Gall y Llys wneud gorchymyn hefyd yn gwahardd perchennog neu reolwr rhag rheoli busnes bwyd.

#### 3.3.3.2: Adran 12 Gweithdrefnau Gwahardd Brys

Gall swyddog awdurdodedig gyflwyno hysbysiad gwahardd brys dan Adran 12 y Ddeddf os oes risg niwed i iechyd ar fin digwydd mewn adeilad bwyd. Effaith yr hysbysiad yw cau'r adeilad ar unwaith, neu atal defnyddio'r cyfarpar neu broses, er yn wahanol i Adran 11, ni ellir defnyddio'r pwerau hyn yn erbyn person.

Mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig wneud cais i Lys Ynadon am orchymyn gwahardd brys cyn pen tridiau o gyflwyno hysbysiad gwahardd brys, a diwrnod cyflwyno'r hysbysiad yw Diwrnod 1.

Er nad oes gofyniad cyfreithiol i'r cais gael ei wrando cyn pen y tridiau, dylid gofyn i'r Llys restru'r cais i'w wrando ar y cyfle cynharaf posibl.

Mae'n rhaid i'r perchennog gael o leiaf un diwrnod cyfan o hysbysiad o'r bwriad i wneud y cais.

Wedi iddo gael ei wneud, mae gorchymyn gwahardd brys yn disodli hysbysiad gwahardd brys.

### 3.3.4: "Amod Risg Iechyd" / "Risg Niwed (ar Fin) Digwydd i Iechyd"

Dim ond os cyflawnir yr "amod risg iechyd" y gellir defnyddio Rheoliadau 7 ac 8 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mewn perthynas â Rheoliad 7, mae'n rhaid bod risg o niwed i iechyd, ac mewn perthynas â Rheoliad 8, mae'n rhaid bod risg niwed ar fin digwydd i iechyd. Dim ond os cyflawnir yr "amod risg iechyd" y gellir defnyddio Adran 11 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, a dim ond os oes "risg ar fin digwydd" i iechyd y gellir defnyddio Adran 12.

Mewn perthynas â Rheoliad 8 Rheoliadau Hylendid Iechyd (Cymru) 2006 ac Adran 12 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, mae'r ymadrodd "ar fin digwydd" yn amodi'r gair "risg". Mae'n rhaid bod risg niwed ar fin digwydd i iechyd o hyd cyn y gellir cyflwyno hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid neu hysbysiad gwahardd brys. Y risg o niweidio sy'n gorfod bod ar fin digwydd. Fe all y niwed ei hun ddigwydd rhywdro yn y dyfodol, ond mae'n hanfodol dangos y gallai ddigwydd i'r cam gweithredu lwyddo. Ni fydd pawb sy'n agored i'r risg niwed yn dioddef y niwed mewn gwirionedd. Bod yn agored i'r risg niwed sy'n galluogi cymryd camau gweithredu.

### 3.3.5: Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Mewn perthynas â hylendid bwyd, gall yr amod risg iechyd dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 fodoli os yw amodau mewn adeiladau, er enghraifft, neu broses neu driniaeth ddiffygiol, yn cario risg uchel o achosi haint yn cael ei chludo mewn bwyd.

Mae bwydydd sy'n cynnwys lefelau niweidiol potensial o ficro-organebau pathogenig yn peri risg sydd ar fin digwydd, a dylid eu meddiannu neu'u cadw dan Reoliad 27 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 trwy ddefnyddio Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (gweler hefyd Rheoliad 23 yn hyn o beth). Fodd bynnag, dylid delio â'r broses neu'r driniaeth a wnaeth y bwyd yn agored i'r halogiad microbiolegol hwn dan Reoliad 8 Rheoliadau Hylendid Iechyd (Cymru) 2006.

### 3.3.6: Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Mewn perthynas â safonau bwyd, fe all yr amod risg iechyd dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fodoli, er enghraifft:

- Os yw proses neu driniaeth yn cyflwyno cemegyn teratogenig (un sy'n niweidio ffetws sy'n datblygu yn y groth) i fwyd, ond ni fydd y niwed yn amlwg nes i'r babi gael ei eni;

- Os yw proses neu driniaeth yn cyflwyno cemegyn genowenwynig (un sy'n niweidio genynnau neu gromosomau) i fwyd, ac efallai na fydd ei effeithiau yn amlygu'u hunain nes bod epil annormal neu diwmor llidiog yn digwydd rhyw bryd yn y dyfodol.

Mae bwydydd sy'n cynnwys lefelau niweidiol potensial o gemegolion felly yn peri risg sydd ar fin digwydd, a dylid eu meddiannu neu'u cadw dan Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Fodd bynnag, dylid delio â'r broses neu'r driniaeth a wnaeth y bwyd yn agored i'r halogiad cemegol hwn dan Adran 12 Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

## 3.3.7: Meini Prawf ar gyfer Gweithredu

### 3.3.7.1: Gweithdrefnau Gwahardd at Ddibenion Hylendid / Gweithdrefnau Gwahardd

Mae'r meini prawf ar gyfer gweithredu yn dibynnu ar yr amodau yn Rheoliad 7(2) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 11(2) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cael eu bodloni, h.y. bod naill ai adeiladwaith neu gyflwr yr adeilad, neu unrhyw gyfarpar neu ddefnydd o unrhyw broses neu driniaeth yn golygu risg o niwed i iechyd.

Dylai swyddog awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu p'un a yw adeilad, proses, triniaeth neu ddarn o gyfarpar neu'i ddefnydd yn golygu risg o niwed i iechyd.

Egwyddor gyffredinol cyfraith trosedd yw bod cyfrifoldeb i brofi ar y parti sy'n haeru'r mater cadarnhaol y dylai'r llys wneud gorchymyn. Mae'r baich darbwyllol yn aros gyda'r erlyniad gydol yr achos (ac eithrio lle mae'r amddiffyniad yn codi gorffwylledd, gwrthwynebiad statudol i'r amod neu lle mae'r statud yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb). Mae rheol debyg yn gymwys mewn achos sifil.

### 3.3.7.2: Gweithdrefnau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid / Gweithdrefnau Gwahardd Brys

Yn achos Rheoliad 8(2) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 12(2) Deddf Diogelwch Bwyd 1990, mae'r cais yn cael ei wneud gan yr Awdurdod Bwyd ac felly mae'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb i brofi a'r baich darbwyllol. Mae'r gofynion tystiolaethol angenrheidiol yn cael eu nodi yn ôl eu trefn yn Rheoliad 7(2) a 7(4) a Rheoliad 8(1) a 8(4) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, ac Adran 11(2) ac 11(4) ac Adran 12(1) a (4) Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

Dylai swyddog awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu p'un a yw adeilad, proses, triniaeth neu ddarn o gyfarpar neu'i ddefnydd yn golygu risg niwed ar fin digwydd i iechyd.

Mae canllaw pellach i'w weld ym Mharagraff 3.3.9.

## 3.3.8: Gofyn am Gyngor Ychwanegol

Dylai swyddogion awdurdodedig ofyn am gyngor meddygol arbenigol neu gyngor arall os yw proses neu driniaeth yn cynhyrchu bwyd sydd i weld yn cynnwys cemegolion neu sylweddau eraill a all greu risg o niwed ar fin digwydd

i iechyd, neu lle mae'r broses neu'r driniaeth dan sylw ei hun yn gofyn am wybodaeth arbenigol neu arbenigedd arall[7].

Gall swyddog awdurdodedig sy'n arfer hawl mynediad dan Reoliad 14 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 32 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 gael cwmni unrhyw un arall sy'n angenrheidiol, gan gynnwys arbenigwr neu arbenigwyr.

Y swyddog awdurdodedig, fodd bynnag, sy'n gorfod bod yn fodlon bod yr amod risg iechyd yn cael ei gyflawni mewn perthynas â'r busnes bwyd.

### 3.3.9: Gohirio Gweithredu Di-oed

Gall fod amgylchiadau lle gall cau ar unwaith fod yn ddiangen, er y byddai risg ar fin digwydd i iechyd fel arfer.

Ni fyddai cyflwr adeilad bwyd adwerthu, er enghraifft, a fyddai fel arfer yn peri risg ar fin digwydd, o angenrheidrwydd yn gwarantu cau ar unwaith pe bai'r cyflwr yn cael ei ganfod ar ddiwedd oriau masnachu yn unig.

Mewn achos felly, fe allai'r swyddog awdurdodedig benderfynu peidio â phennu gwaharddiad brys pe bai, er enghraifft, gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd yn mynd ati i gael tîm o lanhawyr contract i wella'r sefyllfa yn ystod y nos.

Fe allai'r risg mewn amgylchiadau felly fod yn fach iawn, gan na fyddai'r adeilad yn agored i'r cyhoedd. Byddai'r swyddog awdurdodedig yn rhydd i benderfynu y bore canlynol p'un a yw'r risg sydd ar fin digwydd yn parhau i fodoli neu wedi'i dileu.

### 3.3.10: Cyflwyno'r Hysbysiad neu'r Gorchymyn

Nid oes raid i orchymyn gwahardd at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd neu orchymyn gwahardd brys – bob un ohonynt yn cael eu gwneud gan y Llysoedd – gael ei gyflwyno o angenrheidrwydd gan y swyddog awdurdodedig a gychwynnodd y gweithredu. Fe ddylai, fodd bynnag, gael ei gyflwyno gan swyddog sy'n gymwys i esbonio diben y gorchymyn neu i ddelio â rhwystr.

Os na ellir trosglwyddo gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd neu orchymyn gwahardd brys i weithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd yn bersonol, dylid trosglwyddo copi o'r ddogfen i bwy bynnag fyddai'n gyfrifol am gydymffurfio â chau ar unwaith neu gamau gwahardd, e.e. y rheolwr.

Dylai'r swyddog awdurdodedig sicrhau bod y gweithredydd / perchennog yn ymwybodol o'r materion sy'n golygu risg sydd ar fin digwydd. Er bod hyn wedi'i gynnwys yn y model o hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendidyn y Cod Ymarfer a'r hysbysiad gwahardd brys penodedig, efallai na fydd y

[7] Mae'r Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd yn cadw rhestr o arbenigwyr mewn meysydd penodol.

gweithredydd / perchennog yn deall pa gamau y mae angen eu cymryd i ddileu'r risg sydd ar fin digwydd a gall esboniad pellach fod yn angenrheidiol.

### 3.3.11: Dulliau o Gyflwyno'r Hysbysiad neu'r Gorchymyn

Dylid gwneud pob ymdrech i gyflwyno gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd neu orchymyn gwahardd brys drwy eu ddosbarthu i weithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd, neu bob un o'r gweithredwyr / perchenogion yn achos partneriaeth etc, â llaw.

Gall y swyddog awdurdodedig, os oes angen, ymgynghori â Chlerc yr Ynadon i weld a fyddai modd cyflwyno gorchymyn cyn bod y gweithredydd / perchennog yn gadael y Llys, os yw'r gweithredydd / perchennog yn bresennol.

Gall cyflwyno'r hysbysiad neu'r gorchymyn ar nifer o bartneriaid achosi anawsterau, yn enwedig lle nad yw partner yn y DU ar y pryd. Cyn gynted â bod yr hysbysiad neu'r gorchymyn wedi'i gyflwyno'n briodol ar unhryw un o'r partneriaid y mae'n weithredol.

Os nad oes modd cyflwyno'r ddogfen â llaw yna dylai'r swyddog awdurdodedig gyflwyno'r ddogfen trwy wasanaeth post neu gludwr sy'n cynnwys prawf postio neu anfon ac, yn ddelfrydol, prawf derbyn.

Gall y ddogfen gael ei hanfon ar ffacs at y gweithredydd / perchennog er gwybodaeth cyn ei chyflwyno'n ffurfiol, ond rhaid i gopi caled ddilyn er mwyn iddi gael ei chyflwyno'n iawn.

Gall fod yn ddefnyddiol i gofnodi amser cyflwyno'r ddogen, hyd yn oed pan ddefnyddir y gwasanaeth post.

Cyn gynted â bod y ddogfen wedi'i chyflwyno'n gyfreithlon drwy un o'r dulliau a grybwyllir yn Rheoliad 28 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 50 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, daw'r gwaharddiad ar ddefnyddio'r adeilad, neu gyfarpar at ddibenion unrhyw fusnes bwyd, neu fath penodol o fusnes bwyd, neu waharddiad ar broses neu driniaeth, yn effeithiol o dan y gorchymyn ac mae'r hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid neu'r hysbysiad gwahardd brys yn peidio â bod yn weithredol.

### 3.3.12: Tystiolaeth Ofynnol

Dylai'r swyddog awdurdodedig gasglu tystiolaeth ddigonol i'w chyflwyno i'r Llys er mwyn profi unrhyw achos.

Mae'n bwysig bod nodiadau cyfoes, gan gynnwys brasluniau a ffotograffau, yn cael eu cymryd yn ystod archwiliad gan y gall fod angen eu defnyddio mewn tystiolaeth i Lys. Gall samplau o bryfed, baw neu halogyddion eraill fod yn ddefnyddiol hefyd.

Er nad oes angen i swyddogion awdurdodedig gael tyst gyda hwy, fe all fod achlysuron pan fydd adroddiadau gweledol yn arbennig o berthnasol ac y byddai manteision o gael tyst i faterion.

Os oes nodyn o archwiliad yn cael i ysgrifennu gan swyddogion ar ddiwedd ymweliad, neu yn ystod ymweliad, dylent fodloni'u hunain cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny ei fod yn gywir, er mwyn iddynt allu dibynnu arno yn y Llys.

### 3.3.13: Gorchmynion Gwahardd at Ddibenion Hylendid / Gorchmynion Gwahardd

Yn ystod archwiliad o adeilad cyn gwrandawiad Llys am drosedd dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, gall y swyddog awdurdodedig ganfod nad yw'r mater(ion) sydd wedi arwain at yr erlyniad naill ai wedi'i ddileu neu ei fod wedi'i ddileu ond ei fod wedi digwydd eto.

Os yw gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd yn cael ei ddyfarnu'n euog, efallai y tynnir sylw'r Llys at ddarpariaethau Rheoliad 7(1) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(1) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 er mwyn i'r Llys allu ystyried gwneud gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid neu orchymyn gwahardd ar yr adeilad, proses neu gyfarpar, gan hynny'n sicrhau dileu'r risg niwed i iechyd.

### 3.3.14: Gwahardd Person

Pan fo gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd, gall y swyddog awdurdodedig deimlo ei bod yn briodol i ofyn i'r Llys ystyried gwneud gorchymyn mewn perthynas â'r gweithredydd / perchennog hwnnw.

Mae amgylchiadau pan all camau felly fod yn briodol yn cynnwys troseddau niferus fel methiant i lanhau, methiant i gynnal a chadw cyfarpar, diystyrwch agored o risgiau iechyd, neu greu risg i iechyd trwy ddefnyddio bwyd anniogel yn fwriadol.

### 3.3.15: Cais i'r Llys

Mae gan rai Awdurdodau Bwyd swyddogion awdurdodedig dan Adran 223 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gynrychioli'r Awdurdod Bwyd mewn achos gerbron Llys yr Ynadon.

Lle nad yw trefniant felly'n bodoli, dylai'r Awdurdod Bwyd geisio cytuno gweithdrefnau. Dylai'r Awdurdod Bwyd drafod rhaglen fanwl o gamau ffurfiol gyda'i gyfreithiwr ymgyfreitha, a chyda clerc y Llys Ynadon lleol, a dylai esbonio manylion arfer Llys lleol er mwyn ceisio datrys unrhyw anawsterau potensial o gael amser Llys ar fyr rybudd. Gellid cychwyn hyn gan gyswllt anffurfiol â Swyddfa Clerc yr Ynadon er mwyn sicrhau, os yw'n bosibl o gwbl, bod ceisiadau am orchmynion gwahardd brys yn cael eu hwyluso.

Mae'n rhaid hysbysu gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd bod y swyddog awdurdodedig yn bwriadu gwneud cais am orchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid neu orchymyn gwahardd brys. Mae'n

rhaid i'r gweithredydd / perchennog gael hysbysiad un diwrnod cyfan o leiaf cyn y cais.

### 3.3.16: Camau i'w Cymryd Cyn y Gwrandawiad

Dylai'r swyddog awdurdodedig drefnu monitro'r adeilad rhwng cyflwyno hysbysiad a'r gwrandawiad Llys. Nid oes rhaid i'r swyddog a gyflwynodd yr hysbysiad wneud y gwaith monitro o angenrheidrwydd.

Dylai'r adeilad gael ei ail-archwilio ychydig cyn y gwrandawiad (o ddewis y diwrnod blaenorol neu ar ddiwrnod y gwrandawiad ei hun) gan y swyddog a gyflwynodd yr hysbysiad.

Os nad yw hyn yn bosibl, dylai swyddog awdurdodedig â phrofiad perthnasol gynnal yr ail-archwiliad. Felly y dylai fod hefyd pe canfuwyd unrhyw achos o dorri rheolau yn ystod y monitro.

Diben yr ail-archwiliad yw casglu tystiolaeth am gyflwr presennol yr adeilad neu'r cyfarpar ar gyfer y gwrandawiad Llys. Os yw'n briodol, gellir casglu mwy o dystiolaeth.

Dylai'r swyddog awdurdodedig nodi unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers cyflwyno'r hysbysiad. Er enghraifft, gallai'r amgylchiadau a arweiniodd at gyflwyno'r hysbysiad fod wedi gwaethygu, neu fe allai amgylchiadau eraill nad oedd yn bresennol yn wreiddiol fod yn peri risg nawr hefyd.

Os yw'r swyddog awdurdodedig yn ystyried dwyn sylw'r Llys at Reoliad 7(1) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(1) y Ddeddf Diogelwch Bwyd fel bod gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid neu orchymyn gwahardd yn erbyn gweithredydd busnes bwyd / perchennog busnes bwyd i'w ystyried, mae'n bwysig bod tystiolaeth addas yn cael ei chasglu i'w chyflwyno i'r Llys.

Mae'n bwysig bod y swyddogion awdurdodedig yn briffio'u cynghorwyr cyfreithiol ar yr agwedd iechyd cyhoeddus ar yr achos sydd ar waith, gan gynnwys y sail iechyd cyhoeddus ar gyfer y gofynion cyfreithiol sydd wedi'u torri, fel y gallant hwy, yn eu tro, bwysleisio i'r Llys pa mor ddifrifol yw'r cyhuddiadau.

### 3.3.17: Gwybodaeth i'w Rhoi i'r Llys

Mae gwybodaeth y gall y Llys ofyn amdani yn cynnwys:

- Cyflwr yr adeilad neu gyfarpar, ar adeg y drosedd a phan gafodd yr adeilad ei ail-archwilio cyn y gwrandawiad;

- Tystiolaeth bod gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd wedi bod yn gysylltiedig â chyflawni troseddau mewn man arall, a oedd yn tueddu dangos gwendidau mewn rheolaeth (fe allai'r swyddog awdurdodedig orfod ymchwilio i ganfod a yw'r gweithredydd / perchennog wedi bod yn gysylltiedig ag euogfarnau mewn adeilad bwyd blaenorol ac am beth oedd yr euogfarnau hyn).

Mae'n arfer arferol i'r rheiny sy'n erlyn i ganfod a fu unrhyw euogfarnau blaenorol neu rybuddion, ac i gael manylion i'w cyflwyno i'r Llys pe ddigwydd bod yr erlyniad yn llwyddiannus. Gellir eu defnyddio hefyd mewn tystiolaeth os bodlonir gofynion Adran 101 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Gall gwybodaeth am hanes blaenorol y masnachwr gael ei chadw ar gofrestr Ganolog Euogfarnau y Swyddfa Masnachu Teg (OFT)[8], yn enwedig os yw'r masnachwr yn gweithredu o nifer o safleoedd neu ardaloedd Awdurdodau Bwyd gwahanol. Anogir Awdurdodau Bwyd i ddefnyddio'r gofrestr i ganfod hanes perthnasol wrth ystyried erlyniad neu rybudd ffurfiol, ac i hysbysu'r OFT am erlyniadau llwyddiannus a rhybuddion ffurfiol er mwyn gallu'u cynnwys ar y Gofrestr.

### 3.3.18: Gosod yr Hysbysiad neu'r Gorchymyn ar yr Adeilad

Mae Rheoliadau 7 ac 8 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adrannau 11 a 12 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cyfarwyddo y dylai copi o'r gorchymyn neu'r hysbysiad gael ei osod mewn lle amlwg ar yr adeilad gan yr Awdurdod Bwyd cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn neu gyflwyno hysbysiad.

Diben hyn yw hysbysu'r cyhoedd, sy'n cynnwys unrhyw un a all ddefnyddio'r adeilad neu'r cyfarpar, bod yr adeilad wedi'i gau neu fod proses neu ddarn o gyfarpar wedi'u gwahardd rhag cael eu defnyddio.

Dylai swyddog awdurdodedig sy'n gymwys i esbonio ystyr a phwysigrwydd yr hysbysiad, gymryd y cam hwn. Dim ond os yw hynny'n ofyniad gan yr Awdurdod Bwyd y mae angen i dyst fynd gyda'r swyddog. Nid oes angen i'r swyddog a gychwynnodd y gweithredu fod yn gysylltiedig o angenrheidrwydd.

Dylai'r swyddog awdurdodedig, os oes modd, osod y ddogfen yn sownd y tu fewn i'r adeilad, ond mewn man lle gellir ei gweld yn glir a'i darllen o'r tu allan, y tu fewn i wydr ffenest flaen arddangos o ddewis.

Os nad oes man felly ar gael, dylai'r swyddog ddefnyddio barn broffesiynol ynglŷn â'r lle gorau sydd ar gael ac os yw'n angenrheidiol gosod ail gopi o'r ddogfen ar du allan yr adeilad, gan ofalu, cyn belled â bo modd, ei fod yn cael ei gadw'n ddiogel rhag y tywydd a fandaliaeth bosibl. Dylai'r Awdurdod Bwyd drefnu i wneud archwiliadau o'r ddogfen bob hyn a hyn er mwyn gwneud yn siwr ei fod yno o hyd.

### 3.3.19: Tynnu neu Ddifwyno Hysbysiadau neu Orchmynion Heb Awdurdod

Nid yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 na Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cyfeirio at ddifwyno neu dynnu gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid, gorchymyn

[8] The Office of Fair Trading, Central Register of Convictions, Craven House, 40 Uxbridge Road, Ealing, London, W5 2BS.

gwahardd neu orchymyn neu hysbysiad gwahardd brys. Mae deddfwriaeth arall, fodd bynnag, yn cwmpasu hyn.

Mae Adran 1 Deddf Difrod Troseddol 1971 yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw berson ddinistrio neu ddifrodi eiddo sy'n berchen i rywun arall heb achos rhesymol.

Mae hysbysiad gwahardd brys yn eiddo'r Awdurdod Bwyd. Os yw'r swyddog awdurdodedig yn canfod bod hysbysiad wedi'i dynnu neu'i ddifwyno, dylai osod hysbysiad newydd yn ei le cyn gynted â phosibl, ac ystyried cychwyn achos am ddifrod troseddol.

Mae Adran 63 Deddf Llysoedd Ynadon 1980 yn galluogi Llys sy'n gwneud gorchymyn i wneud darpariaethau sy'n ategol iddo, fel pennu gofyniad na ddylid difwyno neu dynnu'r gorchymyn. Mae mynd yn groes i ofyniad felly yn gosbadwy â dirwy o £5,000, neu ddirwy o £50 y diwrnod lle mae'r achos o dorri gofyniad yn parhau yn dilyn penderfyniad Llys am y tor-gofyniad, neu garchariad am ddeufis yn y naill achos. Dylai'r swyddog awdurdodedig ofyn i'r Llys ar adeg gwneud gorchymyn i wneud darpariaethau sy'n ategol iddo dan Adran 63 Deddf Llysoedd Ynadon 1980.

Lle mae gorchymyn wedi'i dynnu neu'i ddifwyno, dylai'r swyddog gychwyn achos dan Adran 63(3) Deddf Llysoedd Ynadon 1980 am anufudd-dod i ofyniad y Llys na ddylid ei dynnu na'i ddifwyno. Gellir cychwyn achos felly drwy wneud cwyn yn ysgrifenedig i'r Llys, yn datgan pa bryd y gwnaethpwyd y gorchymyn, beth oedd ei delerau a'r modd yr oedd gofyniad y gorchymyn wedi'i dorri.

### 3.3.20: Codi'r Hysbysiad neu'r Gorchymyn

Mae'n rhaid i weithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd wneud cais yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Bwyd am dystysgrif yn codi gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid, gorchymyn gwahardd neu orchymyn neu hysbysiad gwahardd brys. O dderbyn cais felly, dylai'r swyddog awdurdodedig ail-archwilio'r adeilad cyn gynted â phosibl a phenderfynu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, neu beth bynnag cyn pen 14 diwrnod, p'un a ellir codi'r hysbysiad neu'r gorchymyn.

Dylai'r penderfyniad ynghylch rhoi'r dystysgrif ai peidio gael ei wneud gan y swyddog a gychwynnodd y gweithredu os ydyw hyn yn bosibl, neu os nad ydyw, gan swyddog awdurdodedig arall â'r cymwysterau a'r profiad perthnasol.

Os yw'r Awdurdod Bwyd o'r farn bod yr amod risg iechyd wedi'i ddileu, dylid gwneud trefniadau i'r dystysgrif dan Reoliad 7(7) neu 8(8) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, neu Adran 11(6) neu 12(8) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel sy'n briodol i gael ei rhoi mor fuan â phosibl, a pheth bynnag cyn pen 3 diwrnod. Gellir anfon y dystysgrif dros y ffacs, er y gelllir hysbysu'r perchennog ar lafar am y penderfyniad, gan hynny'n caniatáu ail-agor yr adeilad ar unwaith.

Os yw'r swyddog awdurdodedig o'r farn nad yw'r amod risg iechyd wedi'i ddileu, dylid gwneud trefniadau dan Reoliad 7(7)(b) neu 8(9)(b) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, neu Adran 11(7)(b) neu Adran 12(9)(b) Deddf

Diogelwch Bwyd 1990 fel sy'n briodol i'r Awdurdod Bwyd roi hysbysiad o risg barhaus i iechyd mor fuan â phosibl. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi rhesymau pam nad yw'n fodlon bod yr amod risg iechyd wedi'i ddileu.

Er y gellir rhoi tystysgrif yn codi hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid neu hysbysiad gwahardd brys cyn y gellir gwrando'r cais am orchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid neu orchymyn gwahardd brys, fe ellir erlyn y gweithredydd / perchennog o hyd am y drosedd (troseddau) yn erbyn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel sy'n briodol.

Dylai'r Awdurdod Bwyd ofalu bod y llys yn cael ei hysbysu am y sefyllfa hon.

Dim ond ar gais gan y gweithredydd / perchennog i'r Llys a wnaeth y gorchymyn y gellir codi gorchymyn gwahardd at ddibenion iechyd neu orchymyn gwahardd ar weithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd.

### 3.3.21: Torri Hysbysiad Neu Orchymyn

Mae person sy'n torri gorchymyn gwahardd at ddibenion hylendid neu orchymyn gwahardd yn fwriadol yn euog o drosedd dan Reoliad 7(5) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(5) Deddf Diogelwch Bwyd 1990, yn y drefn honno. Mae person sy'n torri gorchymyn neu hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid neu orchymyn neu hysbysiad gwahardd brys yn fwriadol yn euog o drosedd dan Reoliad 8(5) neu (6) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 12(5) neu (6) Deddf Diogelwch Bwyd 1990, yn y drefn honno.

Dylai'r swyddog awdurdodedig gychwyn achos am y drosedd dan y ddeddfwriaeth briodol trwy osod gwybodaeth gerbron Llys yr Ynadon.

Os yw'r swyddog awdurdodedig o'r farn bod tystiolaeth ddigonol i ddangos bod y perchennog yn annhebygol o ymateb i wŷs, dylid gwneud cais am warant yn hytrach na gwŷs. Bydd y Llys yn penderfynu p'un a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau'r gweithredu hwn a gall ofyn i'r swyddog awdurdodedig am ei farn ynghylch a ddylid cefnogi'r warant â mechnïaeth. Dylai'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio'i farn broffesiynol ac ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol yn ei benderfyniad.

Dylai'r Awdurdod Bwyd wneud trefniadau wrth gefn â'i adran gyfreithiol, fel nad oes unrhyw oedi o ran gwneud cais gerbron y llys pe bai hysbysiad neu orchymyn yn cael ei dorri.

### 3.3.22: Apeliadau: Gwrthodiad Awdurdod Bwyd i Roi Tystysgrif Nad yw'r Amod Risg Iechyd yn Bodoli Bellach

Mae Rheoliad 20(1)(b) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 37 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu i unrhyw un sy'n cael ei gythruddo gan benderfyniad Awdurdod Bwyd i wrthod rhoi tystysgrif nad oes risg i iechyd mwyach i apelio trwy gŵyn i'r Llys Ynadon. Y terfyn amser ar gyfer apêl felly

yw un mis o'r dyddiad y cyflwynodd yr Awdurdod Bwyd yr hysbysiad o'i wrthodiad i godi'r gwaharddiad.

Dylai'r sawl sy'n derbyn hysbysiad o wrthodiad ddeall yn glir ei hawl i apelio. Dylai'r hysbysiad gynnwys, felly, neu gael ei ategu gan, fanylion yr hawl i apelio ac enw a chyfeiriad y Llys Ynadon perthnasol.

### 3.3.23: Iawndal

Mae Rheoliad 8(10) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 12(10) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn darparu i'r Awdurdod Bwyd ddigolledu gweithredydd y busnes bwyd / perchennog y busnes bwyd am golledion yn codi yn sgil cyflwyno hysbysiad gwahardd brys at ddibenion hylendid neu hysbysiad gwahardd brys os na wneir cais am orchymyn gwahardd brys at ddibenion hylendid neu orchymyn gwahardd brys fel sy'n briodol i'r llys cyn pen tridiau.

Mae iawndal yn daladwy os nad yw'r Llys yn fodlon bod risg niwed ar fin digwydd i iechyd yn bodoli pan gyflwynwyd yr hysbysiad.

Mae iawndal yn daladwy mewn perthynas ag "unrhyw golled" y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i gyflwyno'r hysbysiad ar gam.

Gall yr Awdurdod Bwyd asesu maint iawndal sy'n ddyledus gan ystyried (ymhlith pethau eraill) yr agweddau canlynol lle maent yn berthnasol:

- Hyd yr amser y cafodd y broses neu'r driniaeth ei hatal, neu y cafodd defnyddio'r adeilad neu'r cyfarpar ei wahardd, a pham;
- Colli masnach;
- Gwerth bwyd sydd wedi'i ddifetha;
- Colli ewyllys da;
- Colli cyflogau;
- Faint o'r niwed i fasnach y gellir ei gyweirio;
- Rhwymedigaeth y gweithredydd / perchennog i liniaru'i golled ei hun;

Neu, os yw gweithredydd / perchennog y busnes yn cytuno, gellir galw cymhwysydd colled i mewn.

# PENNOD 3.4: MEDDIANNU A CHADW

## 3.4.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn ymwneud â defnyddio pwerau cadw a meddiannu dan Reoliad 27 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a / neu Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, fel y'i diwygiwyd.

## 3.4.2: Cyffredinol

Rhagdybir dan y gyfraith bwyd bod pob bwyd wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl oni phrofir i'r gwrthwyneb.

Ni ddylid defnyddio pwerau cadw mewn perthynas â bwyd sydd eisoes wedi'i nodi'n glir gan fusnes bwyd fel bwyd nad yw wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl.

Gall swyddog gynorthwyo neu gynghori'r person sydd â gofal o'r bwyd fel sy'n briodol. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r bwyd yn cael ei ddefnyddio i'w fwyta gan bobl, yna dylai'r swyddog ddefnyddio'r gweithdrefnau statudol.

## 3.4.3: Pryd i Ddefnyddio Pwerau Cadw a Meddiannu

### 3.4.3.1: Bwyd Nad yw'n Cael ei Gynhyrchu, Ei Brosesu Neu'i Ddosbarthu yn Unol â'r Rheoliadau Hylendid

O dan Reoliad 27 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, gall swyddog awdurdodedig Awdurdod Bwyd, o archwilio unrhyw fwyd, ardystio nad yw wedi'i gynhyrchu, ei brosesu na'i ddosbarthu yn unol â'r Rheoliadau Hylendid fel y'u diffinnir yn Rheoliad 2. Gellir gweld tystiolaeth fodel at y diben hwn yn Atodiad 7 y Cod Ymarfer. Rhaid trin y bwyd wedyn at ddibenion Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel bwyd sy'n methu cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd. Rhaid i Awdurdodau Bwyd barhau i ddefnyddio'r ffurflenni a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990[9] wrth ddefnyddio pwerau o dan Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn dilyn rhoi tystysgrif fel y nodir uchod.

### 3.4.3.2: Bwyd Nad Yw'n Bodloni Gofynion Diogelwch Bwyd – Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Adran 9, fel y'i diwygiwyd

Os nad yw bwyd yn bodloni gofynion diogelwch bwyd am resymau heblaw am resymau hylendid, dylid defnyddio Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae Adran 9 y Ddeddf yn caniatáu cyflwyno hysbysiad cadw bwyd i atal defnyddio'r bwyd i bobl ei fwyta. Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd barhau i ddefnyddio'r ffurflenni a nodir yn Rheoliadau Meddiannu Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990 wrth ddefnyddio pwerau o dan Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

[9] SI 1990 Rhif 2614

### 3.4.4: Pwerau Penodol Meddiannu a Chadw ar gyfer Awdurdodau Bwyd Cynghorau Sir

Mae deddfwriaeth sy'n rhoi pwerau meddiannu a chadw i Awdurdodau Bwyd Cynghorau Sir yn cynnwys

- Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 1990[10]
- Rheoliadau Bwyd (Rheoli Arbelydriad) 1990[11]
- Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995[12]
- Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995[13]
- Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995[14]
- Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2002[15]
- Rheoliadau Bwyd (Cyffeithio Jeli) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002[16]
- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2004[17]
- Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004[18]
- Rheoliadau Bwyd (Tshili, Cynhyrchion Tshili, Cwrcwma ac Olew Palmwydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2005[19]

### 3.4.5: Cadw Bwyd

Mae angen i swyddogion awdurdodedig arfer barn ofalus, ac efallai y bydd angen iddynt ofyn am gyngor arbenigol, cyn defnyddio'u pwerau i gadw bwyd tra'n aros ymchwiliad pellach.

Yn aml gellir adnabod yn hawdd bwyd y mae amheuaeth ei fod yn achosi gwenwyn bwyd, ac felly gellir gwneud y penderfyniad i gadw yn gymharol hawdd.

Gall yr hysbysiad bennu bod y bwyd naill ai i'w gadw lle mae, neu ei symud i le a bennir gan y swyddog, tra'n aros ymchwiliadau pellach.

Fe all fod angen symud bwyd sy'n gofyn am amodau storio arbennig, fel oergell, i rywle arall, ac os felly dylai'r penderfyniad i ofyn bod y bwyd yn cael ei symud gael ei drafod gyda pherchennog y bwyd.

Mae angen ystyried yn ofalus y penderfyniad i gadw llwyth cyfan, cyfran, neu gyflenwad cyn cyflwyno rhybudd (gweler paragraff 3.4.9).

### 3.4.6: Meddiannu Bwyd

Gall fod gofyniad ar y swyddog i brofi mai'r bwyd a gyflwynir gerbron yr Ynad Heddwch yw'r bwyd a gafodd ei feddiannu. Dim ond os yw'r swyddog yn

---

[10] SI 1990 Rhif 1728
[11] fel y'u diwygiwyd, SI 1990 Rhif 2490
[12] fel y'u diwygiwyd, SI 1995 Rhif 3187
[13] fel y'u diwygiwyd, SI 1995 Rhif 3124
[14] fel y'u diwygiwyd SI 1995 Rhif 2133
[15] fel y'u diwygiwyd SI 2002 Rhif 3157 (W .293)
[16] fel y'u diwygiwyd SI 2002 Rhif 1090 (W115)
[17] fel y'u diwygiwyd, SI 2004 Rhif 1721 (W188)
[18] SI 2004 Rhif 3220 (W.270)
[19] SI 2005 Rhif 1540 (W119)

hyderus na chaiff ei symud, ei ddefnyddio ar gyfer ei fwyta gan gobl, neu na chaiff y dystiolaeth ei dinistrio y dylid gadael y bwyd.

### 3.4.7: Rhybudd Condemnio Bwyd

Dylid rhoi hysbysiad condemnio bwyd yn nodi manylion a lle'r ymddangosiad gerbron Ynad Heddwch i berchennog y bwyd pan fydd y penderfyniad i feddiannu'r bwyd wedi'i wneud. Gweinyddol yn unig yw'r hysbysiad hwn, a gall unrhyw swyddog awdurdodedig ei lofnodi felly.

Nid oes angen i'r swyddog sy'n dosbarthu'r hysbysiad feddu ar yr un cymwysterau â'r swyddog a wnaeth y penderfyniad i gadw neu feddiannu'r bwyd, ond dylai fod yn ddigon cymwys i esbonio diben yr hysbysiad ac i ddelio ag unrhyw rwystr.

Gall hysbysiad i berchennog y bwyd fod drwy ei drosglwyddo'n bersonol, dros ffacs, ffôn, e-bost, neu fodd cyflym arall o gyfathrebu.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion meddiannu bwyd, oherwydd yr hawl a gyflwynir gan Adran 9(5) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel y'i diwygiwyd i unrhyw berson a all fod yn agored i'w erlyn am werthu neu gynhyrchu bwyd anniogel i fynd gerbron Ynad Heddwch, i'w wrando ac i alw tystion.

### 3.4.8: Gweithredu Heb Archwilio

Mae darpariaethau Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn berthnasol hefyd i fwyd nad yw wedi cael ei archwilio (Adran 9(2)).

Gallai hyn fod yn berthnasol pan fydd gan y swyddog sail resymol i amau y byddai bwyta'r bwyd yn debygol o achosi clefyd yn cael ei gludo mewn bwyd neu glefyd trosglwyddadwy arall, neu ei fod fel arall wedi'i halogi gymaint na fyddai'n rhesymol iddo gael ei fwyta yn y cyflwr hwnnw.

Gall gwybodaeth o ffynhonnell ddibynadwy arall, e.e. Awdurdod Bwyd arall, yr HPA, y CCDC, neu'r Asiantaeth etc. fod yn ddigonol i alluogi swyddog awdurdodedig i weithredu heb archwilio.

Er nad yw archwilio'r bwyd yn angenrheidiol yn gyfreithiol mewn sefyllfaoedd felly, gall fod yn gam doeth serch hynny, at ddibenion adnabod yn unig hyd yn oed.

### 3.4.9: Delio â Llwythi, Cyfrannau neu Gyflenwadau o Fwyd

Mae Erthygl 14(2) Rheoliad 178/2002[20] yn diffinio bwyd anniogel ac mae'n berthnasol i Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae Adran 8(2) Deddf Diogelwch Bwyd 1990, fel y'i diwygiwyd, yn delio â bwyd sy'n methu cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, os yw'n anniogel o fewn ystyr Erthygl 14(2) Rheoliad 178/2002.

---

[20] Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd.

Mae Erthygl 14(6) Rheoliad 178/2002 yn ymwneud â'r sefyllfa lle mae bwyd yn rhan o slwyth mwy, cyfran neu gyflenwad o fwyd o'r un dosbarth neu ddisgrifiad. Mewn amgylchiadau felly rhagdybir, nes profi i'r gwrthwyneb, bod yr holl fwyd yn y llwyth, y gyfran neu'r cyflenwad yn methu cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

Dylai'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu p'un ai i gadw neu feddiannu'r llwyth, y gyfran neu'r cyflenwad cyfan. Dylid gofyn am gyngor arbenigol priodol os yw'n angenrheidiol.

Os yw swp, cyfran neu lwyth cyfan yn cael ei gadw, a'i bod yn dod yn glir wedi hynny mai rhan yn unig o'r bwyd sydd wedi'i gadw yr effeithiwyd arno ac mae angen ei feddiannu, gellir rhyddhau gweddill y llwyth etc. Dylid ystyried bob amser y darpariaethau iawndal dan Adran 9(7) Deddf Diogelwch Bwyd 1990, fel y'i diwygiwyd, os penderfynir ar y cwrs gweithredu hwn.

### 3.4.10: Gweithdrefnau Gwirfoddol

Dylid cofio y gall defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol gyfrannu at amddiffyniad mewn unrhyw erlyniad dilynol. Gellid dadlau, er enghraifft, nad oedd y bwyd wedi'i halogi gymaint bod rhaid ei feddiannu.

Byddai'r ffaith bod y bwyd wedi'i gondemnio gan Ynad Heddwch yn ddarbwyllol mewn unrhyw erlyniad, ond ni fyddai ynddo'i hun o angenrheidrwydd yn sefydlu trosedd. Byddai'n parhau'n angenrheidiol i achos gael ei brofi y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol. Yn hyn o beth, mae tystysgrifau dadansoddiad neu archwiliad o werth arbennig.

## PENNOD 3.5: RHYBUDDION CYMRYD CAMAU ADFER / RHYBUDDION CADW

Mae'r holl wybodaeth berthnasol am Rhybuddion Cymryd Camau Adfer a Rhybuddion Cadw wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer.

# PENNOD 3.6: DARPARIAETHAU RHEOLI TYMHEREDD

## 3.6.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn rhoi arweiniad ar orfodi Rheoliad 30 / Atodlen 4 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mewn perthynas ag amgylchiadau nad yw'r rheoliad hwn yn berthnasol iddynt a lle mae'n ofynnol cadw bwyd dan reolaeth tymheredd am resymau diogelwch, byddai gofynion cyffredinol Atodiad II sy'n cynnwys Pennod I, Paragraff 2 (d), Pennod III Paragraff 2(g), Pennod IV Paragraff 7, Pennod V Paragraff (2) a Phennod IX Paragraffau (2), (5), (6) a (7), Rheoliad 852/2004 yn berthnasol, fel sy'n briodol neu unrhyw ofynion rheoli tymheredd penodol yn Rheoliad 853/2004.

## 3.6.2: Ymagwedd Gyffredinol at Archwiliadau Tymheredd

Cyfnod 1 – Monitro Tymheredd yr Aer

Mae monitro tymheredd aer yn rhoi arwydd o berfformiad system rheweiddio dros amser, ac ni fydd darlleniad unigol ar unrhyw un adeg o angenrheidrwydd yn arwydd o dymheredd cynnyrch. Mae cofnodion monitro tymheredd aer yn dangos hanes tymheredd, gan gynnwys cylchoedd dadrewi, faint o weithiau yr agorir y drws, achosion o dorri i lawr etc. Dylid eu hystyried fel canllaw i'r modd y mae system benodol yn gweithio.

Cyfnod 2 – Profi Rhwng Paciau

Dylid defnyddio'r dull mesur tymheredd annistrywiol, neu brofi rhwng paciau, fel y cam nesaf fel arfer yn y broses orfodi. Gwneir hyn â stiliwr pen fflat wedi'i rag-oeri, sy'n addas ar gyfer mesur tymereddau arwyneb neu rhwng paciau.

Mae'n bwysig sicrhau cyswllt thermol da rhwng y cynnyrch a'r stiliwr wrth gymryd mesuriadau rhwng paciau. Dylid caniatau cyfanswm goddefiant o +2.8ºC (0.8ºC fel y pennir ar gyfer cywirdeb offer a 2ºC ar gyfer cyfyngiad y fethodoleg). Dylid bod yn ofalus i ganiatáu amser i'r darlleniad sefydlogi, ac i sicrhau bod darlleniad y tymheredd yn ymwneud â'r cynnyrch, nid yr aer o gwmpas, sy'n gallu digwydd os nad yw'r stiliwr wedi'i osod yn iawn rhwng y paciau. Dylid cynnal y prawf gan ymyrryd cyn lleied â phosibl â'r cynnyrch neu'i amgylchedd y rheolir ei dymheredd, yn enwedig y patrymau llif aer mewn cabinetau arddangos adwerthu. Ar gyfer cynhyrchion â chasin allanol bydd yn angenrheidiol i agor y casin a rhoi'r stiliwr tymheredd rhwng paciau.

Nid yw pob pac neu ddeunyddiau pecynnu'n addas ar gyfer prawf rhwng paciau. Mae paciau â siapiau afreolaidd lle nad oes modd gwneud cyswllt thermol da, deunyddiau pecynnu sy'n gweithredu fel ynysydd a chynhyrchion mewn cartonau neu baciau swigod lle mae gwagleoedd aer mawr bob un ohonynt yn enghreifftiau lle na all mesur tymheredd rhwng paciau fod yn ddigon cywir i ddynodi tymheredd cynnyrch. Mewn achosion felly, gall fod yn angenrheidiol fynd ymlaen at fesuriad tymheredd dinistriol.

Cyfnod 3 – Profi Cynnyrch (Dinistriol)

Os na fu mesuriad tymheredd “cyfnod 2” yn bosibl, neu os oes amheuaeth resymol ar ôl prawf “cyfnod 2” ynghylch cydymffurfio â gofynion tymheredd, bydd angen mynd ymlaen at y cam profi dinistriol.

Dim ond â’r sampl yn ei hamgylchedd â thymheredd wedi’i reoli y dylid paratoi samplau a mesur tymereddau fel arfer. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid symud y sampl i amgylchedd rheweiddiedig priodol, a bod y trosglwyddo ddim yn niweidio tymheredd y cynnyrch. Dylai unrhyw drosglwyddiad ddigwydd cyn paratoi’r sampl. Mae trosglwyddo cynhyrchion o fewn y gadwyn oer arferol e.e. o gerbyd i storfa oer, yn dderbyniol.

Pan fydd mesuriad “cyfnod 3” yn cael ei wneud, gall mewnosod y stiliwr tymheredd i’r bwyd olygu na ellir gwerthu’r bwyd. Mewn amgylchiadau felly, dylai’r swyddog awdurdodedig ystyried prynu’r bwyd dan sylw.

Mae dewis eitemau i’w profi yn fater i ddisgresiwn y swyddog. Fodd bynnag, os yw prawf “cyfnod 2” wedi’i gynnal ac ymddengys bod achos o dorri’r gofynion tymheredd perthnasol, ni ddylai fod yn angenrheidiol fel arfer i ddewis niferoedd mawr o eitemau ar gyfer prawf “cyfnod 3”.

Yn y lle cyntaf, dylid mynd ag eitemau ar gyfer prawf “cyfnod 3” o’r rhan gynhesaf o’r system rheweiddio. Gellir canfod hyn fel arfer drwy ddefnyddio dangosyddion tymheredd stribedi (grisial hylif) thermochromig. Er nad yw’r rhain yn rhoi darlleniad tymheredd manwl gywir, gallant roi canllaw defnyddiol i ddosbarthiad tymheredd cymharol o fewn system rheweiddio.

### 3.6.3: Cymryd Mesuriadau Tymheredd

Ni ddylai tymheredd cynnyrch gael ei niweidio gan, er enghraifft, agor drysau mewn cerbyd yn rhy aml neu am gyfnod rhy hir; ymyrryd â’r llen aer mewn cabinet oer, neu dynnu’r bwyd o’r amgylchedd rheweiddiedig am gyfnodau hir.

Dylai unrhyw gasys neu gartonau gael eu hail-selio a’u labelu’n briodol neu’u marcio â dyddiad ac amser yr archwiliad; enw’r person a’i agorodd, ac enw’r Awdurdod Bwyd. Diben hyn yw dangos bod y cas neu’r carton wedi’i agor ar gyfer archwiliad swyddogol ac mae’n dileu unrhyw amheuaeth o ymyrryd maleisus.

### 3.6.4: Goddefiant

Gall darlleniadau tymheredd “cyfnod 2” fod hyd at 2ºC yn gynhesach na gwir dymheredd y cynnyrch, yn enwedig cynnyrch â phecynnu trwchus. Gall symud nwyddau, cylchau dadrewi neu anghywirdeb offer fel y disgrifir isod effeithio arnynt yn ogystal.

Dylai swyddogion awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol mewn achosion ffiniol i benderfynu p’un a yw mesuriadau “cyfnod 2” pellach yn angenrheidiol cyn mynd ymlaen at “gyfnod 3”.

### 3.6.5: Gwirio a Chalibro Thermomedrau Mesur Gorfodaeth etc

Dylid gwirio cywirdeb y thermomedr neu ddyfais mesur tymheredd arall, ac unrhyw stilwyr datodadwy, yn erbyn thermomedr neu galibradwr cyfeirio sydd wedi'i ardystio i safon briodol, e.e. NPL, a dylid cofnodi'r canlyniad, cyn neu ar ôl cymryd unrhyw fesuriadau tymheredd sy'n debygol o arwain at gamau gorfodi.

Dylai cofnod o wiriad felly gael ei gyfeirnodi i dystysgrif galibro'r offer, a chynnwys rhifau cyfresol yr offer ac unrhyw stilwyr ymgyfnewidiol.

Os nad oes thermomedr cyfeirio ar gael, gellir gwirio'r synhwyrydd mewn cymysgedd rhew gwlyb. Os felly, dylid calibro'r system ar 0ºC. Tymheredd rhew gwlyb o ddŵr distyll yw 0ºC. Bydd dŵr yfed â chynnwys halen o 0.1% yn gostwng y pwynt toddi i -0.06ºC yn unig. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, gellir defnyddio dŵr yfed i wneud y rhew ar gyfer y weithred wirio. Dylid torri rhew yn ddarnau mân iawn, ei bacio i fflasg wactod gwddf llydan, ei wlychu â dŵr oer a'i droi. Dylid rhoi'r synhwyrydd yng nghanol y fflasg ar ddyfnder o 50mm o leiaf a'i gynhyrfu'n aml a darllen y tymheredd ar ôl tair munud wedi iddo sefydlogi. Gellir gwirio'r offeryn allddarllen ar wahân gan ddefnyddio atodion calibro ar ddau neu dri thymheredd gwahanol. Dylai'r cyfuniad o wirio'r system ar 0ºC a'r system gwirio'r offeryn sicrhau cywirdeb ar dymereddau uwch.

### 3.6.6: Rhag-oeri Offer

Dylai'r thermomedr neu ddyfais mesur tymheredd arall a'r stiliwr treiddio gael eu rhag-oeri cyn eu defnyddio i fesur tymheredd cynnyrch er mwyn sicrhau bod offer mor agos â phosibl at dymheredd y cynnyrch sy'n cael ei fesur. Mae rhag-oeri'n lleihau'r tebygolrwydd o gynnydd mewn tymheredd cynnyrch yn sgil tymheredd y stiliwr a'r weithred o wneud y twll, a gellir gwneud hyn fel arfer trwy adael yr offeryn a'r stiliwr yn yr un amgylchedd â'i dymheredd wedi'i reoli â'r sampl am ryw 10 munud. Cyhyd â bod ddim cynnydd sylweddol yn nhymheredd yr offeryn neu'r stiliwr, gellir gwneud mesuriadau dilynol ar ôl cyfnod rhag-oeri llawer byrrach.

### 3.6.7: Paratoi Samplau ar gyfer Mesur Tymheredd

Dim ond stilwyr mesur tymheredd sydd wedi'u dylunio'n benodol at y diben ddylid eu defnyddio i wneud twll yn y cynnyrch. Os nad yw'r stiliwr wedi'i ddylunio at y diben hwn, dylid defnyddio teclyn treiddio i gynnyrch sydd wedi'i rag-oeri. Dylai diamedr y twll ffitio'n glos â diamedr y stiliwr, a bydd ei ddyfnder yn dibynnu ar y math o gynnyrch sy'n cael ei brofi (fel y disgrifir isod).

### 3.6.8: Mesur Tymheredd Cynnyrch

Dylid paratoi'r cynnyrch i'w brofi a mesur ei dymheredd gyda'r cynnyrch yn ei amgylchedd â'i dymheredd wedi'i reoli. Mae'r gwaith mesur fel a ganlyn:

(a) Lle mae dimensiynau'r cynnyrch yn caniatáu hynny, mewnosodwch y stiliwr wedi'i rag-oeri i ddyfnder o 2.5cm o leiaf o arwyneb allanol agosaf y cynnyrch.

(b) Lle nad yw (a) yn bosibl, dylid mewnosod y stiliwr i leiafswm dyfnder o'r arwyneb sy'n 3 gwaith diamedr y stiliwr o leiaf. Gyda rhai cynhyrchion, oherwydd eu maint bach, mae'n rhaid cymryd mwy o ofal i osgoi cynnydd gormodol mewn tymheredd cynnyrch yn sgil trafod y sampl yn ddiangen.

Ni ellir treiddio'n foddhaol i rai bwydydd, oherwydd eu maint neu'u cyfansoddiad, i bennu'u tymheredd mewnol. Yn yr achosion hyn, dylid pennu tymheredd mewnol y pecyn bwyd drwy fewnosod stiliwr coes miniog addas wedi'i rag-oeri i ganol y pecyn er mwyn mesur y tymheredd mewn cyswllt â'r bwyd.

Efallai na fydd modd o hyd pennu tymheredd mewnol y cynnyrch yn gywir, yn enwedig yn achos cynhyrchion brau neu â gwead agored. Dylid mesur tymheredd cynhyrchion felly drwy dynnu'r cynnyrch yn ofalus o'i becyn, a gosod stiliwr pen fflat wedi'i rag-oeri yn gadarn rhwng dwy eitem o'r cynnyrch.

Ni ddylid cofnodi darlleniad y tymheredd nes iddo sefydlogi.

### 3.6.9: Cyfarpar a Ddefnyddir i Fesur Tymheredd Cynnyrch Oer

Dylai systemau mesur tymheredd sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gorfodi fodloni'r gofynion canlynol:

- Dylai'r system gyrraedd 90% o'i darlleniad terfynol cyn pen 3 munud;

- Dylai fod gan y system gywirdeb o +/-0.5ºC, neu well pan fydd y synhwyrydd yn mesur o fewn ystod tymheredd -20ºC i +30ºC;

- Ni ddylai'r cywirdeb newid o fwy na +/-0.3ºC pan ddefnyddir yr offeryn mewn tymereddau o -20ºC i +30ºC;

- Dylai dangosydd yr offeryn fod yn ddarllenadwy at o leiaf 0.1ºC;

- Dylai'r system fod yn un gadarn a gwrth-sioc;

- Dylai'r rhan o'r system sy'n sensitif i dymheredd gael ei hadeiladu i hwyluso cyswllt thermol da â'r bwyd ac yn hawdd i'w glanhau.

Dylai batri celloedd sych, nid trydan y prif gyflenwad, bweru'r offeryn mesur. Dylai'r offeryn gynnwys dull o wirio foltedd y batri i ddangos pan fydd angen newid neu ail-wefrio'r batri. Mae dyluniad y stiliwr yn dibynnu ar fath y mesuriad tymheredd.

- Ar gyfer profion cynnyrch: coes anhyblyg gadarn â blaen miniog sy'n addas i'w mewnosod i'r cynnyrch ac yn gallu cael ei diheintio;

- Ar gyfer profion rhwng paciau: pen fflat sy'n addas ar gyfer mesur rhwng paciau â chyswllt arwyneb da, màs thermol isel a dargludedd thermol uchel. Os nad oes stiliwr fflat addas ar gael, gellir adeiladu un trwy ddefnyddio synhwyrydd calibredig wedi'i grimpio yng nghanol sgwâr, (oddeutu 4cm o hyd) neu gylch (oddeutu 4cm mewn diamedr) neu haenen ddwbl o ffoil

alwminiwm. Dylai unrhyw geblau rhyng-gysylltiol fod yn hyblyg rhwng 0ºC a +30ºC.

## PENNOD 3.7: BWYDYDD WEDI'U RHEWI'N GYFLYM

### 3.7.1: Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor anffurfiol, anstatudol i Awdurdodau Bwyd ar wirio tymereddau a systemau monitro tymheredd wrth orfodi Rheoliadau Bwydydd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990[21], fel y'u diwygiwyd, (y Rheoliadau) sy'n gweithredu Cyfarwyddebau 89/108/EEC[22], 92/1/EEC[23] a 92/2/EEC[24] ym Mhrydain.

Nid yw bwyd dan reolaeth y Rheoliadau oni bai ei fod wedi'i labelu'n benodol neu wedi'i ddisgrifio fel bwyd "wedi'i rewi'n gyflym". Gellir ystyried y broses rhewi'n gyflym fel unrhyw ffurf ar rewi cyflym fel chwyth-rewi, rhewi ar blât, rhewi nitrogen hylif, etc.

### 3.7.2: Newidiadau Deddfwriaethol

Mae Cyfarwyddeb Comisiwn 92/1/EEC wedi'i diddymu a'i disodli gan Reoliad Comisiwn 37/2005[25] sy'n uniongyrchol berthnasol. Mae diwygiadau angenrheidiol i Reoliadau Bwydydd Wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990 yn dal o dan ystyriaeth. Pan benderfynir ar y rhain, bydd diwygiadau dilynol i'r bennod hon yn angenrheidiol.

Mae tri phrif bwynt gwahaniaeth rhwng Cyfarwyddeb 92/1/EEC a Rheoliad 37/2005. Yn gyntaf, yn achos cludiant, nid oes gofyniad mwyach i awdurdodau cymwys gymeradwyo'r offer mesur tymheredd sy'n cael eu defnyddio. Hefyd, o 1 Ionawr 2006, mae'n rhaid i'r holl offer mesur, a ddefnyddir mewn cludiant, warysau neu storfeydd bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym gydymffurfio â'r safonau CEN perthnasol[26]. Yn olaf, o 1 Ionawr 2006, bydd y ddeddfwriaeth yn berthnasol i gludiant rheilffordd am y tro cyntaf.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod darpariaethau trawsnewidiol sylweddol. Gellir parhau i ddefnyddio offer mesur sydd wedi'u gosod hyd at 31 Rhagfyr 2005, sy'n bodloni'r gofynion deddfwriaethol ar y pryd, hyd at 31 Rhagfyr 2009.

### 3.7.3: Rhannu'r Cyfrifoldeb Gorfodi Rhwng Cynghorau Sir a Chynghorau Dosbarth

Mae Rheoliad 7(2) yn gwneud pob Awdurdod Bwyd yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau yn ei ardal. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud yn bennaf ag ansawdd ffisegol bwyd, sydd yn gyffredinol yn gyfrifoldeb Awdurdodau Bwyd Cynghorau Sir. Fodd bynnag, er budd effeithlonrwydd, mae'n hwylus i Awdurdodau Bwyd

---

[21] Fel y'u diwygiwyd, SI 1990 Rhif 2615

[22] Cyfarwyddeb Cyngor 89/108/EEC ar 21 Rhagfyr 1988 ar frasamcan o gyfreithiau'r Aelod-Wladwriaethau sy'n ymwneud â bwydydd wedi'u rhewii'n gyflym ar gyfer eu bwyta gan bobl

[23] Cyfarwyddeb Comisiwn 92/1/EEC ar 13 Ionawr 1992 ar fonitro tymereddau yn y cyfrwng cludo, warysau a storfeydd bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym ar gyfer eu bwyta gan bobl

[24] Cyfarwyddeb Comisiwn 92/2/EEC ar 13 Ionawr 1992 yn pennu'r weithdrefnu samplu a dull y Gymuned o ddadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol tymereddau bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym ar gyfer eu bwyta gan bobl

[25] Rheoliad Comisiwn (CE) Rhif 37/2005 ar 12 Ionawr 2005 ar fonitro tymereddau yn y cyfrwng cludo, warysau a storfeydd bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym ar gyfer eu bwyta gan bobl

[26] Y Pwyllgor Ewropeaidd ar gyfer Safoni. www.cenorm.be

Cynghorau Dosbarth fod yn gysylltiedig â rhai agweddau ar orfodi'r Rheoliadau.

Mae Rhannau o Atodlen 1 y Rheoliadau yn ymwneud yn benodol â diogelwch ac ansawdd deunyddiau crai a natur y broses rhewi'n gyflym. Mae'r amodau a bennir yn ymwneud ag Awdurdodau Bwyd Cynghorau Sir a Chynghorau Dosbarth, a dylent gysylltu'n agos ynghylch gorfodi'r agweddau hyn ar y Rheoliadau. Yn benodol, dylent gysylltu ynghylch y rhaglen archwiliadau o adeiladau lle caiff bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym eu prosesu a'u pecynnu. Yn ystod archwiliadau felly, dylid gorfodi hefyd y darpariaethau yn ymwneud â chyfarpar fel sy'n ofynnol dan Reoliad 6.

Mae Awdurdodau Bwyd Cynghorau Dosbarth yn gyfrifol am roi cyngor lle mae methiant mewn cyfarpar rheweiddio yn codi amheuaeth ynghylch addasrwydd y bwyd ar gyfer ei fwyta gan bobl. At hynny, gan fod gan Gynghorau Dosbarth gyfrifoldeb am wirio tymereddau mewn storfeydd, cerbydau, sefydliadau adwerthu ac arlwyo i orfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, mae'n effeithiol iddynt o ran cost i orfodi tymheredd bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym fel y pennir yn Atodlen 1, 1(f) y Rheoliadau, fel y caiff ei amrywio gan 2(c).

Mae Rheoliad 4, sy'n ymwneud â phecynnu'r bwyd i'w ddiogelu rhag halogiad microbau a ffurfiau eraill ar halogiad yn ogystal â disychiad, yn fater diogelwch yn bennaf, a dylai fod yn gyfrifoldeb Awdurdodau Bwyd Cynghorau Dosbarth.

Mae'r ymraniad cyfrifoldebau gorfodi rhwng Awdurdodau Bwyd wedi'u nodi ym Mharagraff 3.7.3 y Cod Ymarfer.

## 3.7.4: Gofynion Tymheredd

Ar ôl rhewi'n gyflym, mae'r Rheoliadau yn pennu gofyniad am i fwyd perthnasol gael ei gadw ar -18ºC neu'n oerach na hynny.

Mae'n angenrheidiol, fodd bynnag, i sicrhau bod tymheredd bwyd wedi sefydlogi ar ôl rhewi a phecynnu cyn bod gofynion tymheredd y Rheoliadau'n cael eu cymhwyso. Mae eithriadau a ganiateir mewn perthynas â thymheredd bwyd yn berthnasol yn ystod dosbarthiad cyntaf, eilaidd a lleol fel y pennir yn Atodlen 1 (2)(c) y Rheoliadau.

*Nid* yw'n ofynnol i fannau arlwyo gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn gan nad yw'r arlwywr yn gwerthu'r bwyd fel bwyd "wedi'i rewi'n gyflym" ond yn hytrach yn paratoi'r bwyd i'w werthu ar ffurf oer neu wedi'i gynhesu.

## 3.7.5: Ymagwedd Fesul Cofnod at Orfodi

Mae'r ymagwedd fesul cyfnod at orfodi sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer, yn golygu'r canlynol:

- Gwirio tymheredd yr aer a chofnodion monitro tymheredd aer;

- Gwiriad annistrywiol o dymheredd bwyd os yw'r gwiriad cam cyntaf yn codi amheuaeth resymol ynghylch cydymffurfio â'r Rheoliadau;

- Mesuriad tymheredd dinistriol o'r bwyd ei hun os oes amheuaeth yn parhau ynghylch cydymffurfio â'r Rheoliadau wedi i'r ddau gam cyntaf gael eu cwblhau.

Dylai cam cychwynnol unrhyw wiriad i fonitro cydymffurfio â'r Rheoliadau gynnwys trafodaeth â'r perchennog neu berson cyfrifol arall am leoliad synwyryddion monitro tymheredd, y modd y mae tymereddau a gofnodant yn ymwneud â thymheredd gwirioneddol y bwyd, a'r modd y cyflawnir rheolaeth tymheredd.

Dim ond pan fydd amheuaeth resymol yn parhau bod bwyd yn cael ei gadw ar y tymereddau gofynnol y dylid mesur tymheredd dinistriol fel arfer, gan roi ystyriaeth i amrywiadau a ganiateir, wedi i gamau cynharach yn yr ymagwedd fesul cyfnod gael eu cwblhau.

Bydd mabwysiadu'r ymagwedd hon yn mynd â llai o amser hefyd, ac yn osgoi bwyd yn cael ei wneud yn anaddas i'w werthu yn ddianghenraid.

### 3.7.6: Gwiriadau Tymheredd Aer

Gwiriad o dymheredd aer ac unrhyw gofnodion monitro tymheredd aer ddylai fod y cam cyntaf yn yr ymagwedd fesul cyfnod at orfodi.

Dylai swyddogion awdurdodedig archwilio cofnodion monitro tymheredd aer lle maent yn bodoli. Er bod gofyniad ar weithredwyr i sicrhau bod tymereddau aer yn cael eu cofnodi, ac eithrio mewn cabinetau adwerthu a dosbarthu lleol, nid yw hyn yn atal defnyddio systemau ategol yn seiliedig ar fesuriadau tymheredd heblaw am dymereddau aer. Dylai camau gorfodi ddarfod yn y pwynt hwn os yw'r gwiriad tymheredd aer yn foddhaol.

Pwrpas monitro tymheredd aer yw dangos perfformiad cyfarpar rheweiddio, ac ni fydd darlleniad unigol ar unrhyw un adeg yn cyfateb yn uniongyrchol o angenrheidrwydd â thymheredd y bwyd.

Bydd cofnodion monitro tymheredd aer yn dangos hanes tymheredd, gan gynnwys cylchoedd dadrewi, faint o weithiau yr agorir y drws, achosion o dorri i lawr etc, ac maent yn ganllaw defnyddiol i'r modd y mae gosodiad penodol yn gweithio. Dylai'r cyfnod amser y dylai cofnodion gael eu cadw yn hwy nag un flwyddyn (Rheoliad 6A(2)(b)) fod yn gymesur ag uchafswm oes silff y bwydydd yr ymwnant â nhw.

#### 3.7.6.1: Archwiliadau Tymheredd Aer: Storfeydd Oer

Dylai mesurau gorfodi mewn storfeydd oer ffatri ganolbwyntio'n bennaf ar dymheredd cynnyrch sy'n mynd allan. Nid yw gofynion tymheredd y Rheoliadau yn gymwys nes bod y cynnyrch wedi'i sefydlogi'n thermol.

Mae angen i swyddogion awdurdodedig wirio bod storfa oer yn storfa gadw ar gyfer bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym ac nid yn cael ei defnyddio i sefydlogi tymheredd yn unig, nad yw'r Rheoliadau'n ei gwmpasu.

Fe all fod cyfleusterau storio oer oddi ar y safle gan weithgynhyrchwyr sy'n cael eu defnyddio i sefydlogi tymheredd, a bydd cludo'r bwydydd i'r safleoedd hyn cyn eu sefydlogi'n thermol yn angenrheidiol.

Dylai swyddogion awdurdodedig fod yn fodlon bod y synwyryddion monitro tymheredd mewn storfeydd oer wedi'u gosod yn briodol er mwyn dangos tymheredd cynnyrch yn gywir, a gallant wirio bod y synwyryddion yn rhoi darlleniadau cywir trwy eu cymharu yn erbyn eu hoffer calibredig eu hunain os oes angen.

**3.7.6.2: Gwiriadau Tymheredd Aer: Cludiant**

Dylai swyddogion awdurdodedig ganfod p'un a yw offeryn (offer) mesur tymheredd a ddefnyddir mewn cludiant (ac eithrio cerbydau dosbarthu lleol a rheilffyrdd, yn bodloni'r fanyleb a nodir yn Atodlen 2(e) y Rheoliadau, a bod cofnodion priodol yn cael eu gwneud (Rheoliad 6A (2)).

Roedd hyn i fodloni Erthygl 2(1) Cyfarwyddeb 92/1/EEC, a ofynnodd bod yr awdurdod cymwys yn cymeradwyo offer mesur felly. Tybir bod offer wedi'u cymeradwyo os ydynt yn cydymffurfio â'r fanyleb briodol yn y Rheoliadau.

Mae angen i synwyryddion tymheredd mewn cerbyd gael eu lleoli er mwyn eu bod dangos yn gywir beth yw'r tymheredd aer y cludir y llwyth ynddo. Mewn cerbydau byr neu aml-adran gall synhwyrydd sy'n mesur yr aer sy'n dod yn ôl i'r uned reweiddio fod yn ddigonol. Mewn cerbydau mwy, gall synhwyrydd ychwanegol wedi'i leoli ymhellach i lawr y siambr fod yn angenrheidiol i ddangos cylchrediad aer digonol.

Caiff bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym eu cludo'n rhyngwladol weithiau trwy gario'r cynnyrch mewn cynwysyddion wedi'u hinsiwleiddio y mae'n rhaid eu cysylltu i unedau rheweiddio annibynnol ("unedau clipio ymlaen"). Nid yw'r cyfarpar rheweiddio hwn yn rhan integrol o'r cynhwysydd, a gellir defnyddio systemau gwahanol ar gamau gwahanol yn y gadwyn ddosbarthu. Efallai na fydd cofnodion monitro tymheredd ar gael ar unwaith felly ar gyfer y daith gyfan, a bydd rhaid i swyddogion awdurdodedig lunio barn broffesiynol ynghylch a oes angen archwiliad pellach ai peidio.

Mae'n ofynnol gosod thermomedr gweladwy (Atodlen 2(g)) ar gerbydau dosbarthu lleol yn unig. Dylai'r synhwyrydd gael ei osod er mwyn iddo ddangos tymheredd yr aer sy'n dod yn ôl i'r uned reweiddio. Efallai na wnaiff cofnodion monitro tymheredd aer roi dynodiad cynrychiadol o dymheredd cynnyrch oherwydd bod drysau'n cael eu hagor yn aml mewn cerbydau dosbarthu lleol.

**3.7.6.3: Gwiriadau Tymheredd Aer: Cabinetau Arddangos Adwerthu**

Gall fod yn angenrheidiol i drafod gyda'r perchennog neu'r cynrychiolydd y modd y mae'r system monitro tymheredd mewn cabinetau adwerthu yn gweithio, a'r modd y mae ei darlleniadau yn ymwneud â thymheredd yr aer ar y llinell llwyth.

Mewn llawer o achosion, ni fydd synwyryddion yn cael eu gosod yn ffisegol ar y llinell llwyth. Dylai swyddogion awdurdodedig fodloni'u hunain felly bod

synwyryddion tymheredd wedi'u gosod o fewn cabinetau er mwyn i'w darlleniadau ddangos tymereddau ar y llinellau llwyth uchaf.

Er bod rhaid gosod thermomedrau mewn cabinetau arddangos adwerthu er mwyn iddynt fod yn hawdd i'r gweithredwr a'r swyddogion awdurdodedig eu gweld, nid oes rhaid iddynt fod yn weladwy i ddefnyddwyr o angenrheidrwydd. Mae allddarlleniad canolog mewn man rheoli sy'n cofrestru data o nifer o gabinetau mewn system yn bodloni'r gofyniad hwn.

Mewn cabinetau agored, gan gynnwys cabinetau fertigol agored, mae'n rhaid i thermomedrau fod yn ddangosol o'r tymheredd ar y llinell llwyth uchaf sydd wedi'i marcio'n glir, er nad yw'r llinell llwyth wedi'i marcio fel arfer mewn cabinetau fertigol agored gan yr ystyrir fel arfer mai ymyl blaen y silffoedd ydyw.

Dylai swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol hefyd bod llawer o fathau gwahanol o gyfarpar monitro a mesur tymheredd, ac na fydd y cyfan ohonynt yn rhoi arwydd darllenadwy ar unwaith o dymheredd.

Mae cabinet arddangos yn "bwynt gwerthiant adwerthu" ac felly mae'r goddefiant tymheredd ar gyfer dosbarthu lleol yn berthnasol hefyd i ystafelloedd oer wrth gefn mewn adeiladau adwerthu. Mae'r goddefiant mewn perthynas â chabinetau arddangos adwerthu yn oddefiant parhaol sy'n ystyried cylchoedd dadrewi cabinetau a'r graddiant tymheredd o fewn cabinet h.y. mae'n caniatáu ar gyfer gwres pelydrol a dylanwadau tebyg eraill sy'n effeithio ar dymheredd y paciau uchaf neu nesaf allan (cynhesaf) mewn cabinet.

### 3.7.7: Gwiriadau Tymheredd Annistrywiol

Os yw gwiriad tymheredd aer yn gadael amheuaeth resymol bod bwyd y mae'r Rheoliadau'n gymwys iddo yn cael ei gadw, neu wedi'i gadw ar y tymheredd gofynnol, yna dylid gwneud gwiriad tymheredd annistrywiol rhwng paciau. Dylai camau gorfodi ddarfod os yw canlyniad y gwiriad tymheredd annistrywiol yn foddhaol.

Dylai swyddogion awdurdodedig sicrhau bod cartonau neu gasys bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym sy'n cael eu hagor i'w harchwilio yn cael eu hail-selio a'u labelu'n briodol neu'u marcio â dyddiad ac amser yr archwiliad, enw'r swyddog, ac enw'r Awdurdod Bwyd. Diben hyn yw dangos bod y cas wedi'i agor ar gyfer archwiliad swyddogol ac i osgoi unrhyw amheuaeth o ymyrryd maleisus.

Nid yw pob pac neu ddeunyddiau pecynnu'n addas ar gyfer y math hwn o fesuriad. Mae paciau â siapiau afreolaidd lle nad oes modd gwneud cyswllt thermol da, deunyddiau pecynnu sy'n gweithredu fel ynysydd a chynhyrchion mewn cartonau neu baciau swigod lle mae gwagleoedd aer mawr bob un ohonynt yn enghreifftiau lle na all mesur tymheredd annistrywiol rhwng paciau fod yn ddigon cywir i ddynodi tymheredd cynnyrch. Os nad yw deunydd pecynnu'r bwyd yn addas ar gyfer y math hwn o fesuriad, gall fod yn angenrheidiol i fynd ymlaen yn uniongyrchol at fesuriad tymheredd dinistriol.

Wrth wneud gwiriadau tymheredd annistrywiol rhwng paciau, mae'n bwysig sicrhau cyswllt thermol da rhwng y cynnyrch a'r stiliwr. Dylid caniatáu

cyfanswm goddefiant o +2.8ºC (0.8ºC ar gyfer cywirdeb offer, a 2ºC ar gyfer cyfyngiad y fethodoleg).

Dylid cynnal gwiriadau gan ymyrryd cyn lleied â phosibl â'r cynnyrch a'i amgylchedd y rheolir ei dymheredd, yn enwedig y patrymau llif aer mewn cabinetau arddangos adwerthu. Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio stiliwr pen fflat wedi'i rag-oeri sy'n addas ar gyfer mesur tymereddau arwyneb neu rhwng paciau.

Dylid bod yn ofalus i ganiatáu amser i'r darlleniad sefydlogi tra'n sicrhau nad darlleniad tymheredd yr aer o gwmpas ydyw, e.e. gan nad yw'r stiliwr wedi'i osod yn iawn rhwng y paciau. Ar gyfer cynhyrchion â chasin allanol bydd angen agor y casin a mewnosod y stiliwr tymheredd rhwng paciau.

### 3.7.8: Mesur Tymheredd Dinistriol

Dylid defnyddio'r dull mesur tymheredd dinistriol lle na fu modd gwneud gwiriad tymheredd annistrywiol yn unig, neu lle mae amheuaeth resymol yn parhau ar ôl gwiriad tymheredd annistrywiol.

Dim ond â'r sampl yn yr amgylchedd rheweiddiedig y cafodd ei ddewis y dylid paratoi samplau a mesur tymheredd fel arfer. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd angen symud y sampl i amgylchedd rheweiddiedig cyn mesur ei dymheredd, a chymryd nad yw'r trosglwyddiad yn niweidio'i dymheredd. Dylai unrhyw drosglwyddiad ddigwydd cyn paratoi'r sampl. Mae trosglwyddo cynhyrchion o fewn y gadwyn oer arferol e.e. o gerbyd i storfa oer, yn dderbyniol.

Os oes mesuriad o dymheredd mewnol cynnyrch i'w wneud, dylai'r stiliwr a'r ddyfais treiddio i'r cynnyrch gael eu rhag-oeri. Dim ond stilwyr mesur tymheredd sydd wedi'u dylunio'n benodol at y diben ddylid eu defnyddio i wneud twll yn y sampl.

Mewn achosion eraill, rhaid defnyddio teclyn treiddio i gynnyrch wedi'i rag-oeri ar wahân. Mae rhag-oeri'n lleihau unrhyw gynnydd lleol mewn tymheredd cynnyrch yn sgil y weithred o wneud y twll, a gellir gwneud hyn fel arfer trwy adael yr offer a'r stiliwr yn yr un amgylchedd â'i dymheredd wedi'i reoli â'r sampl am ryw 10-15 munud. Cyhyd â bod ddim cynnydd sylweddol yn nhymheredd yr offeryn neu'r stiliwr, gellir gwneud mesuriadau dilynol ar ôl cyfnod rhag-oeri llawer byrrach.

Os ystyrir bod camau ffurfiol yn angenrheidiol, yna mae'n rhaid mesur tymheredd gwirioneddol y bwyd bob tro gan mai tymheredd y bwyd sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Dylai'r gweithredydd fod yn dyst i'r broses mesur tymheredd a'r darlleniadau o dymheredd bwyd os oes modd.

Os nad oes modd mesur tymheredd mewnol cynnyrch yn gywir, e.e. oherwydd bod y cynnyrch yn frau, dylid trin y cynnyrch yn yr un modd â bwydydd gronynnol (e.e. pys gleision etc). Dylid pennu tymheredd arwyneb y cynnyrch drwy dynnu'r cynnyrch yn ofalus o'i becyn a gosod stiliwr pen fflat wedi'i rag-oeri yn gadarn rhwng dau gynnyrch. Ystyrir bod gwneud hyn yn gywerth â'r dull

a nodir ym mharagraff 6.3(c) o Atodiad II, Cyfarwyddeb 92/2/EEC, a gellir ei ddefnyddio ar gyfer erlyniad.

## 3.7.9: Samplu

Cyn gallu gwneud mesuriad tymheredd annistrywiol neu ddinistriol, dylai'r swyddog awdurdodedig benderfynu ar y safleoedd y dylai'r samplau sydd i'w mesur gael eu cymryd ohonynt.

### 3.7.9.1: Samplu: Storfeydd Oer

Mae'n angenrheidiol sefydlu bod y cynnyrch wedi bod yn y storfa oer am gyfnod ddigon hir i'w dymheredd sefydlogi. Mae Paragraff 1.1 o Atodiad 1 Cyfarwyddeb 92/2/EEC yn datgan:

"Dylai samplau gael eu dewis o sawl pwynt allweddol yn y storfa oer, er enghraifft: yn agos at y drysau (lefelau uchaf ac isaf), yn agos at ganol y storfa oer (lefelau uchaf ac isaf), ac yn agos at ddychweliad aer yr uned oeri."

Gall fod yn angenrheidiol i gymryd nifer o samplau os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r safle cynhesaf neu os nad oes modd cymryd mesuriadau tymheredd aer o'r ardal a ddymunir.

Gan ddibynnu ar fynediad yn y storfa oer, gall fod yn bosibl cymryd nifer o ddarlleniadau tymheredd aer ar bwyntiau amrywiol er mwyn gwirio'r safle samplu a ddewiswyd. Dylid talu sylw i'r modd y mae'r cynnyrch wedi'i bentyrru yn y storfa, uchder y pentyrrau, ac unrhyw ffactor arall a all rwystro aer rhag cylchredeg yn rhydd o amgylch y storfa gan achosi "mannau cynnes" lleoledig.

### 3.7.9.2: Samplu: Cludiant

Dylid cymryd gofal penodol wrth samplu o gerbydau er mwyn sicrhau tarfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd rheweiddiedig.

Mae Paragraff 1.2(a) o Atodiad 1 Cyfarwyddeb 92/2/EEC yn datgan os yw'n angenrheidiol dewis samplau yn ystod cludiant dylent gael eu dewis:

".. o ran uchaf a gwaelod y cyflenwad gyferbyn ag ymyl yr agoriad o bob drws neu barau o ddrysau."

Mewn amgylchiadau lle mae'n ofynnol ymchwilio ymhellach, neu pan fo'r dadlwytho eisoes wedi'i gychwyn, fe all fod yn angenrheidiol dewis samplau wrth ddadlwytho cerbyd. Dylid dadlwytho'r cerbyd fel bod y cynnyrch sydd i'w brofi wedi'i farcio, neu y gellir ei adnabod, i gynnai archwiliad dilynol arno dan amodau â'r tymheredd wedi'i reoli, e.e. mewn storfa oer.

Mae Paragraff 1.2(b) o Atodiad 1 Cyfarwyddeb 92/2/EEC yn datgan:

"Dewiswch bedwar sampl o blith y pwyntiau allweddol dilynol:

- top a gwaelod y cyflenwad gyferbyn ag ymyl agoriadol y drysau,

- corneli top tua'r cefn o'r cyflenwad (ar bwynt cyn belled i ffwrdd ag sy'n bosibl o'r uned oeri),

- canol y cyflenwad,

- canol arwynebedd blaen y cyflenwad (cyn agosed ag sy'n bosibl at yr uned oeri),

- corneli top a gwaelod arwynebedd blaen y cyflenwad (cyn agosed ag sy'n bosibl at ddychweliad aer [mewnfa] yr uned oeri)."

Efallai y bydd angen addasu'r cynllun samplu hwn ar gyfer cerbydau â mwy nag un set o ddrysau gan y bydd dosbarthiad y tymheredd o fewn y cerbyd yn wahanol. Dylid dewis pedwar sampl o blith y pwyntiau samplu awgrymedig a ddangosir yn Ffigwr 1.





diagram text: pwynt samplo = sampling point

**Ffigwr 1. Pwyntiau samplu ar gyfer cerbydau â mwy nag un set o ddrysau**

#### 3.7.9.3: Samplu: Cabinetau Arddangos Adwerthu

Mae Paragraff 1.3 o Atodiad I Cyfarwyddeb 92/2/EEC yn datgan:

"Dylid dewis sampl ar gyfer profi o bob un o'r tri lleoliad sy'n cynrychioli'r pwyntiau cynhesaf o fewn y cabinet arddangos adwerthol a ddefnyddir."

Gall y proffil tymheredd o fewn cabinet adwerthu fod yn gymhleth, a gall yr un dyluniad cabinet hyd yn oed berfformio'n wahanol gan ddibynnu ar ei amgylchedd, y math o gynhyrchion a gynhwysa, a'r modd y mae'r cynhyrchion hyn wedi'u dosbarthu o fewn y cabinet.

Gall paramedrau allanol fel drafftiau a goleuadau effeithio ar ddosbarthiad y tymheredd mewn cabinet hefyd. Mewn cabinetau llorweddol, bydd y paciau cynhesaf ar yr wyneb yn gyffredinol lle maent yn agored i wres pelydrol o'r amgylchoedd. O'r rhain, paciau sydd bellaf i ffwrdd o waliau oer cabinet oeri cyswllt, i lawr y canol fel arfer, fydd â'r tymheredd cynhesaf (Ffigwr 2). Felly y bydd hi hefyd mewn cabinetau cyfunol.

Mewn cabinetau â chylchrediad aer gorfodol bydd y paciau cynhesaf wedi'i lleoli'n nodweddiadol ar haenen uchaf yr ochr lle mae'r aer yn dychwelyd, ar yr ymyl blaen fel arfer (Ffigwr 3). Fodd bynnag, gan y bydd lleoliad y mannau cynnes yn amrywio yn ôl perfformiad y cabinet, fe all y swyddog ddymuno gwirio bod y safleoedd yn briodol trwy ddefnyddio dulliau mesur tymheredd cyflym sy'n ddigon cywir at y diben hwn, e.e. stribedi thermochromig a/neu thermomedr is-goch.





diagram text: Golwg y cynllun = Plan view
Darlun ochr = Side elevation
safle samplo posibl = possible sampling position
safle samplo rhwng pecynnau = between-pack measuring position
a---b llinell lwytho = a---b load line
0.5W = 0.5 Ll
0.5L = 0.5H

**Ffigwr 2. Cabinet llorweddol – oeri cyswllt**





diagram text: Golwg y cynllun = Plan view
Darlun ochr = Side elevation
cefn = back
cefn = back
blaen = front
safle samplo posibl = possible sampling position
safle samplo rhwng pecynnau = between-pack measuring position
a---b llinell lwytho = a---b load line
blaen = front
0.25L = 0.25H
0.5L = 0.5H

**Ffigwr 3. Cabinet llorweddol – cylchrediad aer gorfodol**

Mae cabinetau arddangos fertigol fel arfer naill ai â blaen agored neu a chanddynt ddrws gwydr. Mae'r ddau fath yn defnyddio oeri trwy gylchrediad aer gorfodol, er bod manylion dylunio'n amrywio a bydd union batrwm y llif aer yn dibynnu ar leoliad y gwyntyllau. Gyda chabinetau blaen agored, yn gyffredinol bydd y safleoedd cynhesaf ar flaen y silff uchaf (Ffigwr 4). Mae'n llawer anoddach cyffredinoli'r safleoedd cywerth ar gyfer cabinetau â drysau gwydr, gan y bydd amlder agor y drysau a'r cyfnodau y cânt eu gadael ar agor gydol y dydd yn effeithio'n fawr ar dymheredd y bwyd. Yn nodweddiadol, paciau sydd agosaf at y drws, sy'n agored i wres pelydrol ac sydd bellaf o'r ffynhonnell oeri, fydd y rhai cynhesaf (Ffigwr 5). Gall defnyddio dulliau mesur tymheredd cyflym helpu nodi "mannau cynnes".





diagram text: a---b llinell lwytho = a---b load line
safle samplo posibl = possible sampling position
safle samplo rhwng pecynnau = between-pack measuring position

**Ffigwr 4. Cabinet fertigol agored**





diagram text: Golwg o'r ochr = Side elevation
Golwg o'r blaen = Front elevation
safle samplo posibl = possible sampling position
safle samplo rhwng pecynnau = between-pack measuring position

**Ffigwr 5. Cabinet fertigol â drws gwydr**

Mewn mannau adwerthu mawr, lle mae nifer o gabinetau union yr un fath sy'n dal cynhyrchion sy'n debyg o ran math a phecynnu wedi'u cysylltu ynghyd, gall fod yn ddigonol i samplu un uned yn unig, a bod unrhyw gofnodion tymheredd a/neu ddulliau cyflym eraill ddim yn dangos anghysondebau mawr mewn tymheredd aer rhwng yr unedau.

## 3.7.10: Gweithdrefn ar gyfer Mesur Tymheredd Cynnyrch

### (i) Rhag-oeri offer

Dylai'r stiliwr mesur tymheredd a'r offer treiddio i gynnyrch, fel pwnsh rhew, dril llaw neu daradr gael eu rhag-oeri cyn mesur tymheredd y cynnyrch. Dylai'r dull rhag-oeri sicrhau bod yr offer yn cydbwysoli mor agos â phosibl â thymheredd y cynnyrch.

**(ii) Paratoi samplau ar gyfer mesur tymheredd**

Dylai diamedr y twll a wneir yn y sampl gan ddefnyddio'r offer treiddio i gynnyrch ffitio'n glos â diamedr y stiliwr, a bydd ei ddyfnder yn dibynnu ar y math o gynnyrch (fel y disgrifir yn (iii)). Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw offeryn sy'n cael ei ddefnyddio i wneud twll mewn bwyd wedi'i rewi'n gyflym yn cael ei gadw'n finiog, a bod modd ei glanhau'n hawdd.

**(iii) Mesur tymheredd cynnyrch**

Dylai'r gwaith o baratoi'r sampl a mesur ei dymheredd gael ei wneud tra bod y sampl yn parhau yn yr amgylchedd rheweiddiedig dewisol. Dylid mesur fel a ganlyn:

(a) Lle mae dimensiynau'r cynnyrch yn caniatáu hynny, mewnosodwch y stiliwr wedi'i rag-oeri i ddyfnder o 2.5cm o leiaf o arwyneb allanol agosaf y cynnyrch.

(b) Lle nad yw (a) yn bosibl, dylid mewnosod y stiliwr i leiafswm dyfnder o'r arwyneb sy'n 3 gwaith diamedr y stiliwr o leiaf. Gyda rhai cynhyrchion, oherwydd eu maint bach, mae'n rhaid cymryd mwy o ofal i osgoi cynnydd gormodol mewn tymheredd cynnyrch yn sgil trafod y sampl yn ddiangen.

(c) Ni ellir drilio i rai bwydydd, oherwydd eu maint neu'u cyfansoddiad (e.e. pys gleision) i bennu'u tymheredd mewnol. Yn yr achosion hyn, dylid pennu tymheredd mewnol y pecyn bwyd drwy fewnosod stiliwr coes miniog addas wedi'i rag-oeri i ganol y pecyn er mwyn mesur y tymheredd mewn cyswllt â'r bwyd.

(d) Darllenwch y tymheredd a ddangosir pan fydd wedi cyrraedd gwerth sefydlog.

## 3.7.11: Delio â Bwyd sydd ar Dymheredd Uwch na'r Tymheredd Rhewedig Rhagnodedig

Os yw mesuriad tymheredd dinistriol yn cadarnhau bod y bwyd ar dymheredd uwch na hynny a ragnodir gan y Rheoliadau, ni fydd o reidrwydd yn methu gofynion diogelwch bwyd a gallai fod yn ffit i'w fwyta o hyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd unrhyw angen i weithredu dan Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Dylai'r swyddog awdurdodedig, fodd bynnag, gynghori'r perchennog am ddarpariaethau Adran 14 y Ddeddf, a thrafod pa gamau y mae'r perchennog yn bwriadu'u cymryd i ddelio â bwyd wedi'i rewi'n gyflym.

## 3.7.12: Manyleb Gyffredinol ar gyfer Offer Mesur Tymheredd

Dylai swyddogion wirio cywirdeb eu hoffer mesur tymheredd naill ai cyn, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl unrhyw gamau ffurfiol. Dylai swyddogion gyfeirio at Baragraff 3.6.5 y canllaw hwn, ac addasu'r fethodoleg i'r ystod -20°C i +30°C.

Dylai offer mesur tymheredd a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth ar gyfer erlyniad gael eu calibro'n briodol gan ddull dilys gwyddonol a meddu ar dystysgrif calibro gyfredol. Gall hyn gynnwys defnyddio tanc calibro, cyhyd â bod gan y tanc ei hun dystysgrif galibro gyfredol.

Dylai offer mesur tymheredd a ddefnyddir at ddibenion gorfodi fodloni'r manylion a ganlyn:

(a) Dylai'r amser ymateb gyflawni 90% o'r gwahaniaeth rhwng y darlleniad cyntaf a'r darlleniad olaf cyn pen tair munud;

(b) Mae'n rhaid i'r offeryn (allddarlleniad a stiliwr) fod â chywirdeb o +0.5°C o fewn yr ystod mesur -20°C i +30°C;

(c) Ni ddylid newid cywirdeb y mesur o fwy na 0.3°C yn ystod gweithrediad yn yr ystod tymheredd amgylchynol -20°C i +30°C;

(d) Dylai cydraniad dangos yr offeryn fod yn 0.1°C;

(e) Dylid gwirio cywirdeb yr offeryn (allddarlleniad a stiliwr) yn gyson;

(f) Dylai fod tystysgrif Calibro gyfredol gan yr offeryn (allddarlleniad a stiliwr);

(g) Gellir glanhau / diheintio'r stiliwr tymheredd yn hawdd;

(h) Mae'n rhaid i'r rhan o'r ddyfais fesur sy'n sensitif i dymheredd fod wedi'i dylunio er mwyn sicrhau cyswllt thermol da â'r cynnyrch;

(i) Rhaid diogelu'r cyfarpar trydanol yn erbyn effeithiau annymunol yn sgil lleithder yn anweddu.

# PENNOD 3.8: GWASTRAFF BWYD

## 3.8.1: Cyflwyniad

Mae’r Bennod hon yn rhoi arweiniad i Awdurdodau Bwyd ar reoli gwastraff bwyd.

Mae’r fframwaith deddfwriaethol sy’n rheoli adnabod, categoreiddio, arwahanu, casglu a gwaredu gwastraff bwyd yn cynnwys rheoliadau a gorchmynion sy’n cael eu gwneud dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

At ddibenion y bennod hon, mae “gwastraff bwyd” yn cynnwys deunydd bwyd nad yw’n ffit neu nad yw wedi’i fwriadu i’w fwyta gan bobl.

## 3.8.2: Archwilio Busnesau Bwyd

Dylai unrhyw archwiliad o fusnes bwyd, gan gynnwys archwiliadau o sefydliadau / adeiladau symudol, llongau, awyrennau a threnau, gynnwys gwirio’r trefniadau sydd gan y busnes ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff bwyd.

Dylai gwiriadau gynnwys yn ogystal y trefniadau sydd mewn porthladdoedd a meysydd awyr ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff bwyd wedi’i fewnforio o longau ac awyrennau (gweler Paragraff 4.4.3)

Dylai archwiliadau wirio bod bygythiadau i iechyd pobl neu anifeiliaid a all godi o waredu gwastraff bwyd yn anghyfreithlon, yn cael eu rheoli’n effeithiol trwy waredu’n briodol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

## 3.8.3: Ymchwiliadau Mawr

Gall awdurdodau bwyd ddod yn ymwybodol o achosion o dwyll bwyd ymddangosiadol yn ymwneud â chamddefnyddio gwastraff bwyd a allai fod â goblygiadau difrifol potensial i iechyd y cyhoedd neu anifeiliaid, e.e. cig anniogel yn cael ei ddargyfeirio i gadwyn fwyd pobl.

Fe all ymchwilio i achosion felly fod â goblygiadau adnoddau difrifol i Awdurdodau Bwyd, o ran amser ac adnoddau eraill. Serch hynny, mae’n hollbwysig bod y risgiau difrifol iawn i iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid y gall achosion felly eu golygu yn cael eu dwyn i sylw’r awdurdod gorfodi perthnasol ac yr ymchwilir iddynt yn ddi-oed, ac y cymerir pob cam angenrheidiol i ddelio â hwy’n drylwyr.

Fe all yr adnoddau sy’n ofynnol effeithio ar allu Awdurdod Bwyd i gynnal ei raglen archwilio a gorfodi arferol. Os yw amgylchiadau felly yn codi, mae’n bwysig bod yr Awdurdod Bwyd yn cysylltu â’r Asiantaeth cyn gynted ag sy’n ymarferol.

Bydd yr Asiantaeth a’r Awdurdod Bwyd yn gallu trafod opsiynau wedyn, gan gynnwys p’un a all cymorth fod ar gael, neu p’un a ddylai rhaglen archwilio’r

Awdurdod Bwyd gael ei hail-flaenoriaethu i sicrhau cynnal archwiliadau o adeiladau risg uchel.

# PENNOD 3.9: GWERTHU O BELL / ARCHEBU DRWY'R POST

## 3.9.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn rhoi arweiniad i Awdurdodau Bwyd ar orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell, a gwybodaeth am ofynion cyfreithiol generig eraill sy'n ymwneud â gwerthu o bell.

At ddibenion yr arweiniad hwn, mae "gwerthu bwyd o bell" yn golygu hysbysebu bwyd i'w werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr lle mae'r gwerthiant dilynol y bwyd i'r defnyddiwr yn digwydd heb fod y gwerthwr a'r prynwr yn cyfarfod wyneb yn wyneb. Mae enghreifftiau o werthu o bell yn cynnwys gwerthu bwyd trwy wefannau'r rhyngrwyd, trafodion drwy'r post, a gwerthiannau ffôn.

Mae'r materion gorfodi i Awdurdodau Bwyd sy'n ymwneud â gwerthu bwyd o bell yn dibynnu'n bennaf ar leoliad yr hysbysebwr a/neu'r gwerthwr.

## 3.9.2: Lleoliad y Gwerthwr

Mae gallu Awdurdodau Bwyd i orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell yn dibynnu ar leoliad y gwerthwr.

Mae'n bwysig cofio bod bwyd a brynir trwy wefannau'r rhyngrwyd yn golygu gwerthiant drwy'r we fyd-eang, ac y gallai'r gwerthwr felly fod yn unrhyw le yn y byd.

Os yw'r gwerthwr yn y DU, mae'r materion gorfodi ac amddiffyn defnyddwyr yn debygol o fod o fewn awdurdodaeth y DU, a bydd deddfwriaeth y DU yn rhwymo'r gwerthwr.

Yn yr un modd, os yw'r gwerthwr yn unrhyw le arall yn yr UE, mae deddfwriaeth yr Aelod-Wladwriaeth honno, gan gynnwys deddfwriaeth yr UE, yn debygol o fod yn gymwys i'r gwerthiant.

Fodd bynnag, ni ellir mynd i'r afael mor hawdd â'r anawsterau pan fydd y gwerthwr y tu allan i'r DU gan nad yw pwerau gorfodi'r Awdurdodau Bwyd a chyfreithiau amddiffyn defnyddwyr o bosib yn ymestyn ymhellach nag awdurdodaeth y DU. Mae gwahaniaethau pwysig, felly, rhwng trafodion gwerthu o bell yn y DU, yr UE a heb fod yn yr UE.

## 3.9.3: Lleoliad y Prynwr

Mae lleoliad y prynwr mewn trafodiad gwerthu o bell yn bwysig i'r graddau'n unig ei fod yn effeithio ar y rhwyddineb y gall y prynwr erfyn cywiro diffyg yn briodol, pe bai problem gyda'r trafodiad, e.e. bwyd heb fod yn ôl y disgrifiad, bwyd heb fod yn ffit i'w fwyta pan gaiff ei ddosbarthu etc.

## 3.9.4: Gwerthu Bwyd o Bell o'r DU

Mae gwerthu bwyd o bell o'r DU yn digwydd pan fydd yr hysbyseb bwyd i'w werthu neu'r trafodiad gwerthu ei hun yn digwydd o fewn awdurdodaeth system gyfreithiol y DU.

Mae cyfraith bwyd berthnasol yn ymdrin â gwerthu bwyd o bell o'r DU. Mae'n rhaid felly i fwyd sy'n cael ei werthu trwy ddull gwerthu o bell o'r DU, a hysbysebion am fwyd felly, yn gorfod cydymffurfio â'r un gofynion cyfreithiol â bwyd sy'n cael ei werthu o archfarchnad y stryd fawr neu fwyd a hysbysebir mewn papur cenedlaethol yn y DU.

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol felly am orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell o'r DU, gan gynnwys bwyd sy'n cael ei hysbysebu neu'i werthu drwy wefannau'r rhyngrwyd sy'n seiliedig yn y DU.

Dylai fod gan Awdurdodau Bwyd fodd priodol felly o fonitro'r dull gwerthu bwyd o bell gan fusnesau y maent yn gweithredu fel awdurdod cartref drostynt.

Dylai Awdurdodau Bwyd gynnwys asesiad o faterion perthnasol hylendid bwyd, diogelwch, hysbysebu, cyfansoddiad a labelu bwyd mewn archwiliadau wedi'u rhaglennu o fusnes sy'n gysylltiedig â gwerthu bwyd o bell o'r DU yn eu hardaloedd.

Dylai Awdurdodau Bwyd hefyd annog gwerthwyr bwyd darfodus o bell sy'n seiliedig yn eu hardaloedd i fabwysiadu arfer gorau drwy:

- Sicrhau cynnal rheolaethau tymheredd priodol yn ystod cludiant;
- Marcio llwythi yn glir ar y pecyn allanol â'r dyddiad anfon a'r dynodiad parhad priodol.

### 3.9.5: Gwerthu Bwyd o Bell o'r UE (Y Tu Allan i'r DU)

Mae gwerthu bwyd o bell o'r UE yn digwydd pan fydd hysbysebu bwyd ar werth neu'r trafodiad gwerthu ei hun yn digwydd y tu allan i awdurdodaeth system gyfreithiol y DU, ond o fewn awdurdodaeth Aelod-Wladwriaeth arall.

Ni all defnyddwyr y DU sy'n prynu bwyd gan werthwr o bell mewn Aelod-Wladwriaeth arall ddibynnu ar amddiffyniad cyfraith bwyd y DU.

Fodd bynnag, gan fod rhan fwyaf o gyfraith bwyd y DU yn deillio o reolau marchnad sengl yr UE, bydd darpariaethau tebyg i'r rheiny sy'n gymwys yn y DU yn gymwys yn yr Aelod-Wladwriaeth arall.

Yn gyffredinol dylai Awdurdodau Bwyd ddefnyddio rôl gysylltu'r Asiantaeth (Gweler Pennod 2.5 y Cod Ymarfer a'r Canllaw hwn) i ddatrys problemau'n ymwneud â gwerthu bwyd o bell o'r UE.

### 3.9.6: Gwerthu Bwyd o Bell o Drydydd Gwledydd

Mae gwerthu bwyd o bell o drydydd gwledydd yn digwydd pan fydd hysbysebu bwyd ar werth neu'r trafodiad gwerthu ei hun yn digwydd y tu allan i awdurdodaeth unrhyw Aelod-Wladwriaeth yr UE.

Ni all defnyddwyr y DU sy'n prynu bwyd gan werthwr o bell mewn trydedd wlad ddibynnu ar amddiffyniad cyfraith bwyd y DU.

### 3.9.7: Deddfwriaeth Gwerthu o Bell Generig

Mae'r gyfraith generig sy'n rheoleiddio gwerthu o bell yn y DU yn cael ei nodi yn Rheoliadau Amddiffyn Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000[27], sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/7/EC yn y DU.

Prif nod y ddeddfwriaeth hon yw hwyluso trafodion defnyddwyr gwerthu o bell ar draws ffiniau o fewn yr UE trwy bennu lefelau sylfaenol amddiffyniad defnyddwyr sy'n gymwys ledled yr UE, ni waeth pa Aelod-Wladwriaeth sydd ag awdurdodaeth gyfreithiol dros y trafodiad.

Mae'r Rheoliadau'n pennu isafswm lefelau gwybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i'r defnyddiwr gan werthwyr nwyddau neu wasanaethau o bell yn yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Enw'r cyflenwr a chyfeiriad daearyddol (yn hytrach na chyfeiriad rhyngrwyd);
- Disgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau;
- Y cyfnod y mae'r cynnig yn parhau yn agored;
- Y pris (gan gynnwys pob treth);
- Yr hawl i dynnu'n ôl;
- Y trefniadau ar gyfer dosbarthu unrhyw nwyddau.

Awdurdod cymwys canolog y DU sydd â chyfrifoldeb am y Rheoliadau hyn yw'r Adran Masnach a Diwydiant. Mae gorfodi yn gyfrifoldeb y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) ac Adrannau Safonau Masnachu.

Mae'r Adran Masnach a Diwydiant, OFT a LACORS bob un ohonynt wedi cyhoeddi canllaw ar y Rheoliadau ar gyfer busnesau, defnyddwyr, ac asiantaethau gorfodi. Mae copïau o'r canllaw ar gael naill ai'n uniongyrchol o wefan LACORS yn www.lacors.gov.uk neu drwy gysylltiadau o wefan LACORS i gyfeiriadau'r Adran Masnach a Diwydiant neu OFT ar y we. Os oes angen unrhyw gyngor pellach, dylai swyddogion gysylltu â'r Uned Rheoleiddio Contractau yn OFT.

### 3.9.8: Cyfeiriadau Eraill

Mae Canllaw ar Arfer Da ar gyfer y diwydiant bwyd archebu drwy'r post, a ddatblygwyd yn unol ag Erthygl 8 Rheoliad 852/2004, i'w gyhoeddi yn 2006. "Industry Guide to Good Hygiene Practice: Mail Order" [DN: i'w gyhoeddi yn 2006].

---

[27] SI 2000 Rhif 2334

## PENNOD 3.10: DŴR POTEL

### 3.10.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn rhoi arweiniad i Awdurdodau Bwyd ar orfodi Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu 1999[28], fel y'u diwygiwyd (y Rheoliadau).

### 3.10.2: Deddfwriaeth

Mae'r Rheoliadau'n trawsosod i ddeddfwriaeth y DU darpariaethau: Cyfarwyddeb y Cyngor 80/777/EEC, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 96/70/EC, mewn perthynas â dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon a Chyfarwyddeb y Cyngor 80/778/EEC yn cwmpasu dŵr ffynnon a dŵr potel, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC, mewn perthynas ag ansawdd dŵr i'w yfed gan bobl.

Cafodd y Rheoliadau eu diwygio gan Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Diwygiad) (Cymru) 2003[29] sy'n gweithredu, mewn perthynas â dŵr ffynnon a dŵr yfed potel, Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC mewn perthynas ag ansawdd dŵr wedi'i fwriadu i'w yfed gan bobl.

Daeth diwygiad pellach, Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Diwygiad) (Cymru) 2004[30] i rym ar 5 Ebrill 2004, ac maent yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/40/EC yn sefydlu'r rhestr, cyfyngiadau crynodiadau a gofynion labelu ar gyfer cyfansoddion dŵr mwynol naturiol a'r amodau ar gyfer defnyddio aer wedi'i gyfoethogi gan oson i drin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon.

### 3.10.3: Dŵr Mwynol Naturiol

Mae'r Rheoliadau pennu gofyniad ar i bob ffynhonnell dŵr mwynol naturiol y DU gael eu cydnabod gan yr Awdurdod Bwyd ar gyfer yr ardal y mae'r ffynhonnell ynddi.

Wedi rhoi cydnabyddiaeth, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Bwyd wneud gwiriadau bob hyn a hyn i sicrhau bod y ffynhonnell yn parhau'n rhydd o bob risg llygredd a bod cyfansoddiad y dŵr yn aros yn sefydlog.

Ni chaniateir gwerthu dŵr fel dŵr mwynol naturiol os na chydnabuwyd y ffynhonnell.

Mae rhestr o ffynonellau cydnabyddedig y DU ar gael ar wefan yr Asiantaeth yn http://www.food.gov.uk/foodindustry/mineralwaters

---

28 SI 1999 Rhif 1540
29 SI 2003 Rhif 3042 (W.287)
30 SI 2004 Rhif 1509 (W158)

Mae'r rhestr ddiweddaraf o'r holl ffynonellau cydnabyddedig yn yr UE ar gael ar wefan yr UE yn:

http://europa.eu.int/comm/food/food/labellingnutrition/water/index_en.htm

## 3.10.4: Cydnabod Dŵr Mwynol Naturiol

Mae ceisiadau am gydnabod dŵr mwynol naturiol ym Mhrydain yn cael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Bwyd. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Bwyd asesu'r holl wybodaeth y mae'r Rheoliadau'n gofyn amdani.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu'r Asiantaeth pa bryd bynnag y byddant yn cydnabod dŵr mwynol naturiol newydd, yn tynnu cydnabyddiaeth yn ôl, neu'n cymeradwyo newid yn enw'r ffynhonnell neu ddisgrifiad masnach dŵr mwynol naturiol.

Hefyd, dylai Awdurdodau Bwyd hysbysu'r London and Edinburgh Gazettes, am unrhyw gydnabyddiaeth, tynnu cydnabyddiaeth yn ôl neu newid yn enw'r ffynhonnell neu ddisgrifiad masnach dŵr mwynol naturiol.

Ni all dŵr mwynol naturiol gael ei roi mewn tancer, oni bai iddo gael ei roi mewn tancer at ddibenion *cam-fanteisio* ar y ffynnon cyn 15 Gorffennaf 1980. Gan hynny mae'n rhaid i ddŵr gael ei gludo o'r ffynnon i'r llinell becynnu mewn piblinell gaeëdig wedi'i gwneud o ddeunydd addas, a rhaid i'r system lenwi sicrhau nad oes halogi microbiolegol o'r dŵr yn digwydd cyn cau.

## 3.10.5: Labelu Dŵr Mwynol Naturiol

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys gofynion labelu manwl ar gyfer cynwysyddion dŵr mwynol naturiol y mae'n rhaid eu bodloni wrth becynnu dŵr mwynol naturiol.

## 3.10.6: Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed Potel Arall

Nid yw'r gweithdrefnau cydnabod a monitro gan Awdurdodau Bwyd sy'n berthnasol i ddŵr mwynol naturiol yn gymwys i ddŵr ffynnon a dŵr yfed potel arall, er bod y dyfroedd hyn dan reolaeth safonau cyfansoddiadol a microbiolegol penodol a nodir yn y Rheoliadau.

Fel arfer caiff dŵr ffynnon ei dynnu o gyflenwad dŵr preifat ac mae hwnnw hefyd felly dan reolaeth gofynion Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 1991[31], sy'n pennu pa mor aml y mae'r awdurdod lleol yn monitro ystod o baramedrau cyfansoddiadol a microbiolegol.

Fodd bynnag, fel dŵr mwynol naturiol, ni ellir rhoi dŵr ffynnon mewn tancer, oni bai ei fod yn cael ei gludo mewn tanceri ar 23 Tachwedd 1996 neu cyn hynny. Mae'r hawl i roi mewn tancer yn gysylltiedig â'r *ffynnon*, nid y sawl sy'n potelu.

## 3.10.7: Labelu Dŵr Ffynnon a Dŵr Potel Arall

Mae'n rhaid i unrhyw ddŵr potel a ddisgrifir fel "dŵr ffynnon" fodloni'r gofynion labelu perthnasol yn y Rheoliadau.

[31] SI 1991 Rhif 2790

Mae dŵr yfed potel dan reolaeth gofynion labelu cyffredinol Rheoliadau Labelu Bwyd 1996[32].

[32] fel y'u diwygiwyd, SI 1996 Rhif 1499

# PENNOD 3.11: RHEOLEIDDIO MEINI PRAWF MICROBIOLEGOL

## 3.11.1: Canllaw yr Asiantaeth i Weithredwyr Busnesau Bwyd

Cyhoeddodd yr Asiantaeth ganllaw diwygiedig ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd mewn perthynas â Rheoliad (CE) 2073/2005 ar Feini Prawf Microbiolegol ar gyfer Bwydydd ar 11 Ionawr 2006, i gyd-fynd â chymhwyso'r Rheoliad, y dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol ohono. Gellir gweld y canllaw hwn ar wefan yr Asiantaeth yn:

http://www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/eufoodhygieneleg/microbiolreg

Mae'r Asiantaeth yn bwriadu adolygu'r ddogfen arweiniad ar ôl 12 mis i ystyried y profiad a gafwyd o gymhwyso'r rheoliad. Mae'n gwahodd sylwadau felly ar gymhwyso'r rheoliad yn ymarferol, a'r canllaw hyd at 31 Rhagfyr 2006.

Cyswllt:

Joanna Higgins,
Campylobacter Strategy, Microcriteria, Research & Zoonoses Branch,
Microbiological Safety Division,
Food Standards Agency,
Room 816c,
Aviation House,
125 Kingsway,
London,
WC2B 6NH.

Ffôn: 020 7276 8960
Ffacs: 020 7276 8907
E-bost: micro.criteria@foodstandards.gsi.gov.uk

## 3.11.2: Datblygu Canllaw'r Asiantaeth Ymhellach

Prif nod y canllaw uchod yw helpu gweithredwyr busnesau bwyd y DU i ddeall gofynion deddfwriaeth newydd Ewrop. Arweiniodd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2005 at nifer o geisiadau am gyngor manwl pellach mewn meysydd fel gorfodi, cynhyrchu sylfaenol, busnesau bach a hyfforddiant. Mae prif rhanddeiliaid, gan gynnwys LACORS a CIEH, wedi'u gwahodd i gyfarfod y mae'r Asiantaeth yn ei drefnu ym mis Mawrth 2006 i drafod dwyn hyn yn ei flaen.

## 3.11.3: Arweiniad Arall

Dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol bod rhai sefydliadau masnach, fel y Consortiwm Adwerthu Prydeinig a'r Gymdeithas Bwyd Oer, wedi llunio canllaw ar gydymffurfio â'r rheoliad hwn.

## PENNOD 3.12: MEWNFORIO BWYD O DRYDYDD GWLEDYDD

Gweler Atodiad 14 y Canllaw hwn.

# ADRAN 4: ARCHWILIADAU

## PENNOD 4.1: ARCHWILIADAU

Mae'r holl ddeunydd perthnasol ar archwiliadau wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer.

# PENNOD 4.2: YR ARCHWILIAD

## 4.2.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn delio â hysbysu am archwiliadau a'u cyd-drefnu, a monitro nodau adnabod pysgod cregyn.

## 4.2.2: Hysbysiad am Archwiliad

Mae'r egwyddor gyffredinol ynghylch rhaghysbysu am archwiliadau yn cael ei nodi yn Rheoliad 882/2004 sy'n datgan yn Erthygl 3(2) y bydd "*rheoliadau swyddogol yn cael eu cynnal heb rybudd o flaen llaw, heblaw mewn achosion fel archwiliadau lle mae hysbysiad o flaen llaw i'r gweithredydd bwyd neu fusnes bwyd yn angenrheidiol. Gall rheoliadau swyddogol gael eu cynnal ar sail ad hoc*".

Bydd amgylchiadau, fodd bynnag, pan fydd yn fanteisiol rhoi hysbysiad ymlaen llaw, yn enwedig pan mai diben yr archwiliad yw gweld proses benodol ar waith. Dylai swyddogion awdurdodedig arfer disgresiwn yn y maes hwn dan arweiniad y nod tra phwysig o sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth bwyd (gweler hefyd Paragraff 1.6.4 y Cod Ymarfer ar gael mynediad i Adeiladau'r Goron).

## 4.2.3: Cyd-drefnu Archwiliadau

Lle mae angen i swyddogion awdurdodedig y swyddogaethau gorfodi amrywiol i archwilio'r un adeiladau, gall fod manteision i fusnesau bwyd, Awdurdodau Bwyd a defnyddwyr o gyd-drefnu'r archwiliadau. Mae hyn yn arbennig o wir am archwiliadau o adeiladau gweithgynhyrchu, lle gall cyd-drefnu wneud yr holl broses archwilio'n fwy effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, gall fod anawsterau ymarferol yn aml o ran cyd-drefnu archwiliadau. Er enghraifft, fe all fod angen i adeiladau gael eu harchwilio'n amlach at rai dibenion nag i eraill. Gall fod manteision penodol o gyd-drefnu ymweliadau i ystyried proses neu gynnyrch newydd, neu lle bu newidiadau sylweddol yn y gweithdrefnau rheoli ansawdd.

Ble bynnag y mae'n arferol ac yn briodol i wneud hynny, dylai Awdurdodau Bwyd gyd-drefnu archwiliadau o adeiladau bwyd. Dylai'r tîm archwilio gynnwys yr holl arbenigedd angenrheidiol i archwilio'r adeiladau dan sylw, a lle bydd yn briodol, arbenigwyr pellach mewn meysydd penodol technoleg bwyd[33].

## 4.2.4: Nodau Adnabod Pysgod Cregyn

Fel rhan o fonitro defnyddio nodau adnabod pysgod cregyn, dylai Awdurdodau Bwyd, o dro i dro, ddewis llwyth neu gyflenwad o fan adwerthu neu fwyty, a cheisio olrhain y llwyth neu'r cyflenwad yn ôl drwy ganolfan anfon, ac unrhyw ganolfan buro, i'r casglwyr gwreiddiol er mwyn sefydlu bod cofnodion sy'n ymwneud â'r llwyth a'r nod adnabod mewn trefn. Dylai Awdurdodau Bwyd gydweithredu ag Awdurdodau Bwyd eraill mewn unrhyw wiriad ar hap drwy'r gadwyn gynhyrchu a dosbarthu.

[33] Mae'r Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd yn cadw rhestr o arbenigwyr mewn meysydd penodol.

Os oes unrhyw wiriadau'n awgrymu nad yw dogfennau cofrestru, nodau adnabod neu gofnodion mewn trefn, dylai'r Awdurdod Bwyd gynnal ymchwiliad i sefydlu p'un a chadwyd yn iawn at y gweithdrefnau ai peidio. Mewn achosion felly, dylent hefyd ystyried cynyddu amlder gwiriadau ar hap drwy'r gadwyn ddosbarthu nes eu bod yn fodlon bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.

## PENNOD 4.3: ARCHWILIO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL – GOFYNION YCHWANEGOL

Mae'r holl wybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer.

# PENNOD 4.4: ARCHWILIO LLONGAU AC AWYRENNAU

## 4.4.1: Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn ychwanegu at y wybodaeth a roddwyd yn y Bennod gyfatebol yn y Cod Ymarfer i alluogi swyddogion awdurdodedig i ystyried agweddau ychwanegol yn ymwneud ag archwilio llongau ac awyrennau. Hefyd, ym Mharagraff 4.4.7, mae'n rhoi templed archwilio ar gyfer awyrennau, y gellir ei addasu, lle bydd yn briodol, ac nad yw'r gweithdrefnau a nodir yn y Cod ddim yn cael eu hesgeuluso. Gellir gweld templed Adroddiad Diogelwch Bwyd a Glanweithdra Llongau ar wefan LACORS (www.lacors.gov.uk).

## 4.4.2: Cyffredinol

Mae'r mathau o beryglon a all fod yn bresennol yn yr amgylchedd ar longau/awyrennau yn wahanol iawn i'r rheiny y gellid eu canfod mewn adeilad sefydlog.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Peryglon yn deillio o'r ffynonellau dŵr amrywiol a'i storio mewn tanciau ar fwrdd llong/awyren;
- Natur 24 awr gweithrediadau ar fwrdd llongau ac awyrennau;
- Natur amlddiwylliannol a rhyngwladol criwiau;
- Argaeledd bwydydd pan fydd y llong/awyren yn y porthladd yn unig;
- Y lle storio cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer bwydydd (sych, oer a rhewedig);
- Yr oed a'r amodau ar fwrdd;
- Cynllun sefydlog cyfleusterau cynhyrchu bwyd na ellir eu hehangu neu'u newid oherwydd materion adeileddol a diogelwch.

Mae'r amgylchedd ar fwrdd llong i bob pwrpas yn gymuned gaeëdig am gyfnodau hir yn ystod mordeithiau, ac mae hynny'n peri problemau penodol mewn perthynas â'r peryglon sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd a chanlyniadau potensial halogi. Mewn llongau teithwyr mawr, er enghraifft, gallai presenoldeb bwyd wedi'i halogi gan facteria neu docsinau gwenwyn bwyd fod yn ddifrodus iawn, ymhlith y teithwyr a'r criw. Hyd yn oed ar longau llai, neu longau â chriwiau llai, gall gwenwyn bwyd gael effaith sylweddol ar y gallu i hwylio'r llong yn ddiogel gan y gall aelodau allweddol y criw fod yn analluog.

Mae'r raddfa cynhyrchu bwyd ar fwrdd llongau'n amrywio'n fawr, o longau teithwyr a llongau cargo mawr â chriw mawr a niferoedd mawr o deithwyr (e.e. rhai llongau mordeithio â hyd at 900 o deithwyr a chriw o 800) i longau llai â chriw o 10 i 15 personél.

Mae prydau ar awyrennau yn cael eu paratoi'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, cyn ymadael, a gall rhywfaint o hwnnw fod ar gyfer teithiau sy'n dychwelyd.

Yn ystod unrhyw archwiliad o long neu awyren, mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain, ac

mae'n rhaid iddynt ystyried unrhyw ofynion awdurdod y porthladd a'r gweithredwr llongau neu gwmni hedfan.

Mewn llawer o achosion ni fyddai'n angenrheidiol archwilio awyrennau yn rheolaidd, os cafwyd digon o wybodaeth gan y cwmni hedfan a/neu'r Awdurdod Cartref (AC) priodol a bod y wybodaeth honno wedi'i dilysu.

Pan fydd cyflwyno hysbysiadau'n cael ei ystyried, dylid cofio nad yw "perchennog" angenrheidrwydd yn golygu "yr un sy'n berchen" trwy gyfraith achosion, gan mai'r person sy'n cynnal y busnes bwyd ydyw. Gall fod y cwmni sy'n rhedeg gweithredwr llongau neu gall fod yn gwmni sydd wedi'i gyflogi i weithredu'r busnes bwyd. Bydd angen i swyddogion awdurdodedig sefydlu pwy yw gweithredydd y busnes bwyd / perchen y busnes bwyd ym mhob achos.

Dylai copïau o adroddiadau archwiliadau gael eu hanfon at unrhyw gynghorwyr diogelwch bwyd a gyflogir gan weithredydd y llongau neu'r cwmni hedfan.

## 4.4.3: Gwastraff Arlwyo

Mae gwaredu gwastraff arlwyo rhyngwladol i safleoedd tirlenwi yn cael ei reoleiddio gan Reoliadau Cynhyrchion Sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) Rhif 4) 2004[34]. Mae DEFRA wedi nodi risgiau sylweddol i iechyd anifeiliaid os na ddelir â'r gwastraff hwn yn effeithiol yn y safle tirlenwi. Mae angen mesurau penodol i sicrhau nad yw clefyd yn cael ei gyflwyno i'r DU o safleoedd tirlenwi, sy'n derbyn y gwastraff hwn. Mae mecanwaith ar waith ar gyfer atal neu newid amodau safle tirlenwi wedi'i gymeradwyo i ddelio â gwastraff felly, os digwydd nad yw amodau'r gymeradwyaeth yn cael eu cadw.

## 4.4.4: Materion Eraill: Awyrennau

Dylai cwmnïau hedfan gael eu hannog i fabwysiadu, lle bod angen, codau ymarfer cymeradwy, er enghraifft, Canllawiau Diogelwch Bwyd y Byd IFCA/IFSA, ac i ddatblygu archwiliadau mewnol o gyflenwyr ac archwiliadau o awyrennau ac i wneud unrhyw adroddiadau ar gael i'r swyddog awdurdodedig.

Dylai adroddiadau felly, lle maent ar gael, ffurfio rhan o wiriadau cychwynnol y swyddog awdurdodedig. Hefyd, dylai swyddogion awdurdodedig roi ystyriaeth, lle bo hynny'n briodol, i'r Canllawiau hyn, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Chwefror 2003[35].

Dylid gofyn i arlwywyr awyrennau neu gyflenwyr bwyd eilaidd i wneud manylion cynhwysion prydau ar gael i gwsmeriaid eu cwmni hedfan. Dylai'r criw caban perthnasol gael mynediad i'r wybodaeth hon a gallu ei throsglwyddo ymlaen er budd teithwyr sydd ag alergeddau neu anoddefiadau bwyd.

Dylai swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol bod adroddiadau am achosion o salwch yn cael ei gludo mewn bwyd wedi bod, yn effeithio ar griw awyrennau, a gallai polisïau cwmnïau hedfan gynnwys y gofyniad i aelodau'r criw fwyta ar amserau gwahanol i'r teithwyr ac o fwydlenni gwahanol.

[34] SI 2004 Rhif. 3388
[35] www.ifcanet.com/teams/foodsafety

Gellir cynnal archwiliadau o awyrennau yn y ganolfan cynnal a chadw, gan ystyried unrhyw ddogfennaeth, er enghraifft, ar fanylion cyflenwi bwyd, hyfforddiant y criw caban a rheolaeth tymheredd bwyd, sy'n cael ei gyflenwi gan y cwmni hedfan neu Awdurdod Cartref.

Pan fydd yn angenrheidiol mynd ar fwrdd awyren, dylai'r amser gwirioneddol a dreulir ar ei bwrdd fod cyn fyrred â phosibl, gan y dylai'r rhan fwyaf o'r materion uchod fod yn weithdrefnau gweithredu safonol a gynhwysir yn nogfennaeth y cwmni hedfan. Fodd bynnag, os oes unrhyw achosion pryder yn ymwneud â'r uchod, dylai'r swyddog awdurdodedig hysbysu'r cwmni perthnasol neu'r Awdurdod Cartref, os yw wedi'i ddynodi, bod posibilrwydd yr ymgymerir â gwyliadwriaeth gynyddol, e.e. asesiad o lendid y gali, mwy o samplu dŵr ar gyfer ei ddadansoddi/archwilio, etc.

Mae achosion o oedi awyrennau yn gostus. Ni ddylid ymyrryd â gweithrediadau awyrennau felly oni bai bod risg ar fin digwydd i iechyd teithwyr neu'r criw. Os yw awyrennau ar y ffordd, dim ond os yw'n gwbl angenrheidiol y dylid ymgymryd ag archwiliadau, yn seiliedig ar wybodaeth gefndir yn ymwneud â'r math penodol o awyren, polisi cwmni, arlwywr awyren, rheolaeth tymheredd, etc. Hefyd, dylai swyddogion awdurdodedig ystyried agweddau ymarferol eu hamserlen archwilio a cheisio gweithio gyda'r criw/staff daear perthnasol i osgoi anawsterau diangen, a chofio mai prif amcan cwmni hedfan yw sicrhau diogelwch yr awyren, y teithwyr a'r criw.

Mae Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd wedi cyhoeddi "*Airline Catering Guidance for Inspectors*".

### 4.4.5: Materion Eraill - Llongau

Os caiff ei benodi, dylai'r Awdurdod Cartref ar gyfer y gweithredwr llongau sicrhau bod yr holl ddogfennaeth berthnasol ar gael iddo, (gweler isod am enghreifftiau o ddogfennaeth berthnasol), ar gyfer cysylltu ag Awdurdodau Bwyd perthnasol eraill ac er gwybodaeth iddynt. Ar gyfer llongau milwrol, gweler paragraff 4.4.4 yn y Cod Ymarfer.

Dylai Awdurdodau Bwyd sy'n derbyn ddefnyddio adroddiad yr archwiliad blaenorol i sicrhau: (a) os yw'n angenrheidiol, bod archwiliadau dilynol yn cael eu cynnal bryd hynny a/neu (b) nad yw archwiliadau sylfaenol yn cael eu cynnal yn amlach nag unwaith y flwyddyn, oni bai bod cyfiawnhad clir dros wneud hynny.

Mae'n arfer da hefyd i anfon copi o'r adroddiad at Awdurdod Bwyd y DU a gynhaliodd unrhyw archwiliad blaenorol, er mwyn iddynt allu gweld pa gamau, os o gwbl, oedd wedi'u cymryd o ganlyniad i'w harchwiliad blaenorol o'r llong.

Gellir archwilio llongau at ddibenion hyfforddi cyhyd â bod diben yr archwiliad yn cael ei egluro i'r Meistr a'u bod yn cytuno i gynnal archwiliad felly.

Enghreifftiau o ddogfennaeth berthnasol:

- Manylion/cyflenwyr bwyd;
- Canlyniadau samplau dŵr;

- Dadansoddiad o beryglon (HACCP);
- Cofnodion o dymereddau bwyd;
- Cofnodion Hyfforddiant y Person Sy'n Trin Bwyd.

### 4.4.6: Cyfeiriadau Eraill

Industry Guide to Good Hygiene Practice: Catering Guide – Ships; Chamber of Shipping, cyhoeddwyd gan Chadwick House Group (ISBN 1-904306-42-X).

### 4.4.7: Templed Archwiliad: Awyrennau – Ffurflen Adroddiad Archwiliad Diogelwch Bwyd

Awdurdod Bwyd: Maes Awyr:

Enw'r Swyddog Awdurdodedig: Dynodiad: Rhif Ffôn:

Dyddiad yr Archwiliad: Amser yr Archwiliad Taith Rhif:

Cwmni Hedfan neu Gwmni Awyrennau'n gweithredu'r awyren:

Cyfeiriad: Rhif Ffôn y Cwmni:

Person yn y Cwmni Awyrennau a gyfwelwyd/Dynodiad:

Rhif Cofrestru'r Awyren: Math o Awyren: Awdurdod Cartref:

1. Dyddiad archwiliad blaenorol: (os yw'n hysbys)

2. Arlwyaeth ar y Daith yn Ôl: Oes/Nag oes

3. Bwydydd risg uchel: Oes/Nag oes

4. Trefniadau seiliedig ar HACCP (√ ticiwch os yw'n foddhaol) ☐

5. Trefn Hyfforddi/Eithrio ☐

6. Rheoli plâu ☐

7. Amser/Rheoli tymheredd (taith allan) ☐

8. Rheoli tymheredd (arlwyaeth ar y daith yn ôl) ☐

9. Coginio/Aildwymo ☐

10. Hylendid y gali/mannau storio ☐

11. Glanhau/Rheoli gwastraff ☐

12. Toiledau ☐

13. Cyflenwad dŵr yfed ☐

14. Samplu ar awyren (bwyd/dŵr) ☐

Sylwer: dylid cael manylion eitemau 1 i 6 a 13 i 14 gan y cwmni hedfan (neu Awdurdod Cartref) cyn mynd ar awyren.

Sylwadau (gan gynnwys unrhyw samplau a gafwyd)

---

---

**Crynodeb o'r Camau i'w cymryd gan yr Awdurdod Bwyd (√ ticiwch y blwch(blychau))**

Canlyniad Boddhaol ☐ Dilyniant Gyda HQ/AC y cwmni ☐

Erlyniad ☐ Hysbysiad Gwahardd Brys ☐ Ffurfiol ☐

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cadw/Meddiannu Hysbysiad Gwella Hylendid | ☐ | Llythyr i ddilyn | ☐ | Cyngor llafar (nid i'r criw caban) | ☐ |

Llofnod y Swyddog ______________________

Llofnod y Person a gyfwelwyd ______________________

## PENNOD 4.5: CAMAU GWEITHREDU YN DILYN ARCHWILIAD

Mae'r holl wybodaeth berthnasol am gamau gweithredu yn dilyn archwiliad wedi'i chynnwys yn y Cod Ymarfer.

# ADRAN 5: SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL

## PENNOD 5.1: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004

### 5.1.1: Nodau Adnabod

(Gweler hefyd y Cod Ymarfer, Paragraff 5.1.12)

Mae'r gofynion ar gyfer ffurf y marc adnabod y mae sefydliadau, yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004, yn gorfod eu cymhwyso i'w cynnyrch fel sy'n briodol, yn cael eu nodi yn Atodiad II, Adran I B y Rheoliad hwnnw. Yn Unol â Pharagraff 5.1.12 y Cod Ymarfer, dylai'r Awdurdod Bwyd gytuno nod adnabod gyda phob sefydliad y mae'n ei gymeradwyo sydd (a) yn ymgorffori'r cod cymeradwyaeth y mae wedi'i ddyrannu a (b) yn bodloni gofynion Atodiad II, Adran I B Rheoliad 853/2004.

**5.1.1.1: Enghreifftiau o Fformatau Nodau Adnabod**

**PENNOD 3.6:**

**[DU]**
**[Cod Cymeradwyo'r Awdurdod] [Rhif Unigryw'r Awdurdod]**
**[CE]**

**[Y DEYRNAS UNEDIG]**
**[Cod Cymeradwyo'r Awdurdod] [Rhif Unigryw'r Awdurdod]**
**[CE]**

Sylwer: Mae fformatau eraill yn dderbyniol cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â gofynion Atodiad II, Adran I B Rheoliad 853/2004.

**5.1.1.2: Enghreifftiau o Nodau Adnabod**

PENNOD 3.7:

**Y DEYRNAS UNEDIG**
**XX 001**
**CE**

**DU**
**XX 001**
**CE**


### 5.1.2: 'Nod Arbennig' ar gyfer Briwgig/Paratoadau Cig/Cynhyrchion Cig: (Erthygl 8 Rheoliad 2073/2005)

(Gweler hefyd y Cod Ymarfer, Paragraff 5.1.12)

Mae'r DU wedi dewis defnyddio'r rhanddirymiad trosiannol a ddarperir gan Erthygl 8 Rheoliad 2073/2005 mewn perthynas â chydymffurfio â'r set gwerthoedd a bennir yn Atodiad I i'r Rheoliad hwnnw ar gyfer *Salmonella* mewn briwgig, paratoadau cig a chynhyrchion cig sydd wedi'u bwriadu ar gyfer

eu bwyta wedi'u coginio, yn cael eu rhoi ar farchnad genedlaethol Aelod-Wladwriaeth. Rhaid marcio cynhyrchion perthnasol â 'nod arbennig'.

**5.1.2.1: Fformat 'Nod Arbennig'**




*[Text for above:]*

**[DU]**
**[Cod Cymeradwyo'r Awdurdod] [Rhif Unigryw'r Awdurdod]**
**[C]**

Gofynion Penodol:

1. Dylai'r hirgrwn gyffwrdd pedair ochr yr hirsgwar sydd o'i amgylch, fel y dangosir.


2. O fewn yr hirgrwn, dylid cynnwys y llythrennau DU, rhif cymeradwyo'r adeilad gweithgynhyrchu/cynhyrchu, a'r llythyren C, i ddynodi bod y cynnyrch ar gyfer y farchnad genedlaethol yn unig.

3. Nid oes gofyniad maint ar gyfer y nod arbennig.

4. Rhaid bodloni'r gofynion cyffredinol a roddir yn Atodiad II, Adran I, B(5) Rheoliad 853/2004 ar gyfer y Nod Adnabod h.y. rhaid i'r nod arbennig:

   - gael ei arddangos yn glir;
   - bod yn ddarllenadwy;
   - bod mewn inc cadw; a
   - rhaid i'r llythrennau fod yn hawdd eu dehongli.

**5.1.2.2: Enghreifftiau o 'Nod Arbennig'**



## PENNOD 5.2: OPSIYNAU GORFODI MEWN SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004

Mae'r holl ddeunydd perthnasol ar opsiynau gorfodi mewn sefydliadau wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer.

## PENNOD 5.3: MATERION YN YMWNEUD Â MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW

Mae'r holl ddeunydd perthnasol ar opsiynau gorfodi mewn sefydliadau wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer ac yn Atodiad 6 y Canllaw hwn.

## PENNOD 5.4: MATERION YN YMWNEUD Â CHIG FFRES

Mae deunydd perthnasol yn ymwneud â chig ffres wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer ac yn Atodiad 5 y Canllaw hwn.

# ADRAN 6: SAMPLU A DADANSODDI

## PENNOD 6.1: SAMPLU A DADANSODDI[36]

### 6.1.1: Cyflwyniad

Mae'r Adran hon yn ymwneud â'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pan gaffaelir samplau bwyd dan Rheoliad 12 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 29 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, a gofynion cysylltiedig Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990[37].

### 6.1.2: Caffael Samplau

Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu caffael samplau naill ai drwy "bwrcasu" neu "gymryd". Mae'r dewis ar ddisgresiwn y swyddog awdurdodedig, a bydd yn ystyried polisi'r Awdurdod Bwyd. Lle mae maint neu amlder y samplu yn arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol i berchennog y bwyd, dylai'r Awdurdod Bwyd gynnig taliad ex-gratia os nad yw samplau'n cael eu pwrcasu. Dylai'r swyddog roi derbynneb i'r perchennog am yr holl samplau a gymerwyd gan y swyddog, neu gofnod ohonynt. Os rhagwelir y cymerir camau gorfodi yn dilyn archwiliad microbiolegol neu ddadansoddiad cemegol, dylai'r swyddog samplu bwrcasu'r sampl.

### 6.1.3: Tystysgrif a Roddir gan Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd

Mae gofyniad ar Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd i ddadansoddi neu archwilio samplau cyn gynted ag sy'n ymarferol a, chan ddibynnu ar drefniadau lleol, i roi tystysgrif yn nodi'r canlyniad i'w swyddog a gyflwynodd y sampl. Dylai Awdurdodau Bwyd drafod gyda'r Dadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd y modd y mae'r gofynion hyn i'w bodloni, gan gynnwys y modd y gellir hysbysu'n ddi-oed am ganlyniadau sy'n dangos risg sylweddol i iechyd cyhoeddus, neu lle mae terfynau amser deddfwriaethol yn gymwys, fel dŵr mewn dofednod.

### 6.1.4: Osgoi Halogi

Dylid bod yn ofalus i atal halogi samplau ac offer, a dylai cynwysyddion a ddefnyddir ar gyfer samplau fod yn lân ac yn sych. Mae'n bwysig osgoi defnyddio dulliau glanhau a diheintio a all adael gweddillion ar offer neu gynwysyddion a allai, yn eu tro, effeithio ar ganlyniadau'r dadansoddiad neu'r archwiliad (e.e. alcohol).

---

[36] Gweler hefyd "Food Standards and Feeding Stuffs Sampling, Practical Guidance for Enforcement Officers" gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd – cyhoeddwyd Mai 2004; http://www.food.gov.uk/enforcement/foodsampling/guidance/

[37] SI 1990 Rhif 2463

## 6.1.5: Parhad Tystiolaeth

Delir â samplau bwyd mewn labordy bwyd fel arfer, a delir â sbesimenau ysgarthion mewn labordy clinigol, sy'n gweithredu'n annibynnol ar yr Awdurdod Bwyd. Gall fod angen atgoffa personél labordai felly o bosibilrwydd camau cyfreithiol, yr angen i drin samplau bwyd a sbesimenau ysgarthion fel tystiolaeth, ac i sicrhau parhad tystiolaeth felly.

Rhaid cadw cofnodion felly o'r holl gamau cludiant, gan gynnwys:

- Dyddiadau ac amserau cludo;
- Adnabyddiaeth ceidwaid;
- Dyddiad ac amser derbyn yn y labordy;
- Adnabyddiaeth y person sy'n derbyn y sampl.

Ar gyfer samplau bwyd, dylai tymheredd cludiant gael ei fonitro, a'i gofnodi ar gyrraedd y labordy. Os yw'r sampl wedi'i phostio, dylid cadw prawf o gofnod o'r modd anfon at yr Archwiliwr Bwyd neu'r Microbiolegydd Clinigol. Dylid gwneud yr Archwiliwr Bwyd neu'r Microbiolegydd Clinigol yn ymwybodol y gallai canlyniadau eu harchwiliad o'r bwyd neu'r sbesimen(au) ysgarthion gael eu defnyddio fel tystiolaeth yn y Llys, a thrwy archwilio'r sampl/sbesimen, gall fod gofyniad arnynt i gyflwyno tystysgrif archwiliad, rhoi datganiad ysgrifenedig ar lw, a /neu roi tystiolaeth lafar ar lw yn y Llys.

Gall fod yn ofynnol i bersonél eraill y labordy roi tystiolaeth ynghylch trafod samplau bwyd a sbesimenau ysgarthion a'u profi a'u harchwilio mewn erlyniad troseddol.

Mae angen sicrhau felly bod modd olrhain yn llawn yn y labordy, gan gynnwys cofnodi pwy yw pawb sydd wedi bod yn gysylltiedig â thrafod ac archwilio'r sampl neu sbesimen, a'r camau a gymerwyd ganddynt. Yn benodol, dylai fod system yn y labordy ar gyfer cofnodi cyrhaeddiad y sampl neu'r sbesimen, a'i storio, a ddylai fod yn ddiogel. Ar gyfer samplau bwyd, dylai tymheredd storio fod ar lefel i leihau newid mewn microbau gymaint â phosibl, a dylai hynny gael ei fonitro gan ddefnyddio thermomedr calibredig neu ddyfais debyg arall. Mae cadw parhad yn y labordy yn hanfodol fel bod sicrwydd bod y canlyniad yn ymwneud â'r sampl/sbesimen a gyflwynwyd. Rhaid nad oes unrhyw bosibilrwydd y gallai'r canlyniad gyfeirio at sampl neu sbesimen gwahanol. Rhaid i'r canlyniadau beidio â chodi unrhyw amheuaeth ychwaith ynghylch eu dibynadwyedd, neu ddibynadwyedd neu gywirdeb gweithdrefnau labordy. Dylai unigolyn yn y labordy allu gwneud datganiad ar lw a darparu tystiolaeth lafar ar lw ar y pwyntiau hyn.

Dylid esbonio'n glir hefyd, os nad yw'r Archwiliwr Bwyd/Microbiolegydd Clinigol yn cynnal yr archwiliad, ond yn hytrach yn cael yr archwiliad wedi'i gynnal o dan ei gyfarwyddyd, gall fod gofyniad ar i'r person sy'n archwilio'r sampl neu sbesimen roi tystiolaeth yn ogystal.

## 6.1.6: Samplau i'w Dadansoddi

### 6.1.6.1: Maint Samplau i'w Dadansoddi

Dylai natur a maint unrhyw sampl fod o fath sy'n galluogi gwneud y dadansoddiad gofynnol. Bydd natur y samplau sy'n briodol yn dibynnu ar ddiben gwneud y dadansoddiad. Bydd y maint yn amrywio yn ôl y cynnyrch a'r math o ddadansoddiad sydd i'w gynnal. Dylid ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus os oes amheuaeth.

Dylid ystyried protocolau samplu cenedlaethol, lle maent yn bodoli. Gall rhai addasiadau i'r protocolau fod yn angenrheidiol yn achos llwythi mawr o fwydydd wedi'u mewnforio.

### 6.1.6.2: Cynwysyddion ar gyfer Samplau i'w Dadansoddi

Dylai samplau o fwyd heb ei ragbecynnu neu ganiau neu bacedi wedi'u hagor, gael eu rhoi yn gyntaf mewn cynwysyddion glân, sych, nad ydynt yn gollwng, fel jariau gwydr ceg lydan neu jariau plastig ansawdd bwyd, caniau metel di-staen neu fagiau plastig ansawdd bwyd tafladwy. Dylai jariau, poteli neu ganiau gael eu cau'n addas. Dylid selio bagiau plastig ansawdd bwyd tafladwy yn ddiogel ar ôl eu llenwi, fel nad oes modd iddynt ollwng na chael eu halogi wrth gael eu trafod yn arferol. Dylai samplau o ddiodydd alcoholaidd gael eu rhoi mewn poteli gwydr.

Dylai'r darnau olaf mewn cynhwysydd bob un ohonynt gael eu sicrhau â sêl sy'n dangos unrhyw ymyrryd, a'u labelu, gan nodi enw'r bwyd, enw'r swyddog, enw'r Awdurdod Bwyd, man, dyddiad ac amser y samplu a rhif adnabod. Lle bydd angen, dylid ei roi wedyn mewn ail gynhwysydd, fel bag plastig, a dylid ei selio mewn modd i sicrhau na ellir ymyrryd â'r sampl. Dylai copi o'r label bwyd os yw ar gael, ac unrhyw fanylion perthnasol eraill gael eu cyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus gyda rhan olaf.

### 6.1.6.3: Cludo a Storio Samplau i'w Dadansoddi[38]

Dylai darnau olaf o fwyd sy'n ddarfodus gael eu rheweiddio neu'u rhewi, yn ôl yr angen. Bydd y dull storio a ddefnyddir yn gwahaniaethu, gan ddibynnu ar ba un a yw'r darn terfynol i'w gyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus, neu'i gadw i'w gyflwyno o bosibl i Labordy Fferyllydd y Llywodraeth.

Dylai'r darn olaf sydd i'w gyflwyno o'r Dadansoddwr Cyhoeddus gael ei drosglwyddo cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl samplu, yn enwedig lle mae profion i'w gwneud am sylweddau a all ddirywio neu newid gydag amser (e.e. rhai plaladdwyr, sylffwr deuocsid, etc). Beth bynnag, lle mae amheuaeth ynghylch trefniadau neu gludiant addas ar gyfer samplau i'w dadansoddi, dylid ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus. Gan y gall fod angen storio darnau olaf am rai misoedd cyn eu cyflwyno i Labordy Fferyllydd y Llywodraeth, mae'n bwysig eu bod yn cael eu storio mewn modd priodol.

---

[38] Mae cyhoeddiad The Campden and Chorleywood Food Research Association "Guidelines for the preservation of official samples for analysis" (Canllaw CCFRA Rhif 36)yn cynnwys arweiniad pellach.

#### 6.1.6.4: Samplau sy'n Peri Anawsterau o'u Rhannu yn Ddarnau

Mae eithriad i rannu'r sampl yn dri darn yn gymwys lle mae'r swyddog awdurdodedig o'r farn nad yw rhannu'r sampl naill ai'n ymarferol yn rhesymol, neu'n debygol o rwystro dadansoddi'r sampl yn iawn. Mae Rheoliad 6(4) Rheoliadau Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990 yn caniatáu i sampl gael ei chyflwyno i'w dadansoddi'n gyfan heb ei rhannu yn dri. Nid oes rhan olaf ar gyfer y gwerthwr/perchennog, ac nid oes rhan olaf i'w chadw ychwaith. Rhaid bod yn ochelgar wrth ddefnyddio'r weithdrefn hon felly. Bydd sefyllfaoedd lle gall y weithdrefn hon gael ei defnyddio yn dibynnu ar y profion sydd i'w cynnal, ond gallant gynnwys y canlynol:

- Lle nad oes digon o'r cynnyrch ar gael i gydymffurfio â'r gweithdrefnau yn Rheoliadau 6(1) neu 6(2);

- Nid oes modd o storio darn olaf i'w ddadansoddi ymhellach fel gyda phrofion ar gyfer cig sydd wedi'i rewi'n flaenorol.

Gall y sefyllfa hon godi hefyd lle nad yw bwydydd wedi'u rhagbecynnu, ac ni ydynt yn homogenaidd ac mae'n anodd rhannu'r bwyd yn dri, fel bod pob darn yn cynnwys yr un gyfran o bob cynhwysyn, e.e. cynhyrchion cig â thalpiau o gig, pasteiod lle mae'n anodd rhannu'r crwst a'r llenwad yn dri, coctel ffrwythau/iogwrt â ffrwyth lle mae cynhwysyn i'w fesur.

Beth bynnag, lle mae sampl unigol yn cael ei chymryd yn unol â Rheoliad 6(4) rhaid hysbysu'r perchennog ei bod wedi cael ei chyflwyno i'w dadansoddi.

Mae Rheoliad 6(2) yn pennu eithriad o'r gweithdrefnau cyffredinol lle mae'r sampl yn cynnwys cynwysyddion heb eu hagor, ac y byddai eu hagor, ym marn y swyddog awdurdodedig, yn rhwystro dadansoddi'r sampl yn iawn. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r swyddog awdurdodedig rannu'r sampl yn ddarnau trwy roi cynwysyddion i dair rhan, a dylid trin pob rhan fel darn olaf.

Lle mae unrhyw amheuaeth, dylid ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus.

### 6.1.7: Samplau i'w Harchwilio

Nid yw'n ofynnol rhannu samplau sydd i'w harchwilio yn dri darn, gan fod dosbarthiad anhomogenaidd halogyddion bacteriol yn golygu na fydd unrhyw ddau sampl yr un fath. Nid yw'n briodol i gadw darn i'w archwilio yn hwyrach os oes dadl yn codi, gan na wnaiff bacteria oroesi eu storio am gyfnod maith o bosib, neu i'r gwrthwyneb, gall amlhau'n helaeth.

#### 6.1.7.1: Maint Samplau i'w Harchwilio

Dylai maint unrhyw sampl a gaffaelir fod o fath sy'n galluogi gwneud archwiliad boddhaol. Bydd y maint yn amrywio yn ôl amgylchiadau, ond dylai fod o leiaf 100 gram fel arfer. Mewn unrhyw achos o amheuaeth, dylid ymgynghori â'r Archwiliwr Bwyd.

### 6.1.7.2: Trafod Samplau i'w Harchwilio

Dylid sicrhau bod modd olrhain yn llawn wrth gymryd a thrafod y sampl, gan gynnwys cofnodi pwy yw'r rheiny sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r sampl, a'r hyn a wnaethant gyda'r sampl. Dylai samplau o fwyd heb ei ragbecynnu, neu o ganiau neu bacedi bwyd wedi'u hagor, gael eu rhoi yn gyntaf mewn cynwysyddion diheintiedig, nad ydynt yn gollwng, neu fagiau plastig diheintiedig tafladwy. Dylid selio bagiau samplu plastig diheintiedig tafladwy yn ddiogel ar ôl eu llenwi, fel nad oes modd iddynt ollwng na chael eu halogi wrth gael eu trafod yn arferol. Dylid gofyn am gyngor gan yr Archwiliwr Bwyd os oes unrhyw amheuaeth. Beth bynnag, bydd cysylltu â'r Archwiliwr Bwyd cyn cyflwyno samplau i'r labordy yn sicrhau bod gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn.

Dylai'r samplau, wedi'u pecynnu yn y modd hwn, gael eu sicrhau â sêl sy'n dangos unrhyw ymyrryd, a'u labelu, gan nodi:

- Y math o sampl bwyd;
- Enw'r Swyddog;
- Rhif adnabod yr arddangosyn (e.e.RG/1);
- Dyddiad, man ac amser y samplu.

Dylai cynwysyddion y gellir eu difrodi'n hawdd, neu gynwysyddion na ellir eu hunain gael eu gwneud fel bod modd gweld unrhyw ymyrryd, gael eu gosod mewn ail gynhwysydd wedyn, fel bag plastig, a dylid ei selio mewn modd sy'n sicrhau na ellir ymyrryd â'r sampl. Dylai copi o'r label bwyd, os yw ar gael, ac unrhyw fanylion perthnasol eraill gael eu cyflwyno i'r Archwiliwr Bwyd, e.e. technegau trafod bwyd/dulliau storio a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r bwyd a samplwyd.

Am wybodaeth gyffredinol am samplu, gweler cyhoeddiad LACORS "Guidance on Food Sampling for Microbiological Examination", Ionawr 2006. Mae Atodiad 3 y Canllaw hwnnw yn cynnwys manylion sydd i'w rhoi i'r Archwiliwr Bwyd, pan gyflwynir samplau.

Dylai swyddogion gymryd camau i sicrhau bod samplau i'w harchwilio, cyn belled ag y bod modd, yn cyrraedd y labordy mewn ansawdd heb newid yn ficrobiolegol o'r cyflwr a oedd yn bodoli pan gymerwyd y sampl. Yn ystod y broses samplu, mae'n hanfodol nad yw'r sampl yn cael ei halogi gan y swyddog samplu. Dylid cymryd camau priodol i osgoi halogi'r sampl a thwf neu farwolaeth microbau yn ystod samplu, cludo a storio. Dylai tymheredd y cludiant gael ei fonitro a'i gofnodi.

### 6.1.7.3: Trafod, Cludo a Storio Sbesimenau Ysgarthion i'w Harchwilio

Ar brydiau, bydd yn ofynnol i swyddogion ymchwilio i achosion yr adroddir amdanynt, neu achosion amheus o salwch yn cael ei gludo gan fwyd, a chael sbesimenau ysgarthion. Dylai fod cyflenwad parod o gynwysyddion priodol nad ydynt yn gollwng ar gyfer casglu sbesimenau ysgarthion gan swyddogion felly.

Dylai sbesimenau felly gael eu casglu cyn gynted â phosibl ar ôl cychwyn symptomau, a'u cyflwyno i'r labordy gan gynnwys manylion yr unigolyn ar y cynhwysydd ac ar unrhyw ddogfennaeth atodol.

Mae'n bwysig bod sbesimenau ysgarthion yn cael eu cludo i'r labordy cyn gynted â phosibl; fe allai na fydd rhai pathogenau pwysig yn goroesi'r newidiadau pH sy'n digwydd mewn sbesimenau carthion nad ydynt yn cael eu cyflwyno'n gyflym i'r labordy, hyd yn oes o'u rheweiddio wrth eu cludo. Bydd cysylltu â'r labordy yn helpu sicrhau bod y sbesimenau'n cael sylw di-oed wedi iddynt gyrraedd.

**6.1.7.4: Cais am Archwiliad**

Dylai'r swyddog sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i'r Archwiliwr Bwyd gyda'r sampl er mwyn sicrhau bod y sampl yn cael yr archwiliad mwyaf priodol ac i alluogi'r Archwiliwr i ddehongli'r canlyniadau.

# ADRAN 7: MONITRO ARCHWILIADAU

Mae'r holl ddeunydd perthnasol ar fonitro archwiliadau wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer.

# ADRAN 8: ATODIADAU

## ATODIAD 1: RHESTR TERMAU

| | |
|---|---|
| APHA | Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd |
| ABPO | Gorchymyn Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid 1999 |
| BSE | Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol |
| CCDC | Ymgynghorydd mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy |
| CDSC | Y Ganolfan Goruchwylio Clefydau Trosglwyddadwy |
| CEFAS | Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu |
| CIEH | Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd |
| CPHM (CD/EH) | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus (clefydau trosglwyddadwy/iechyd amgylcheddol) |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DH | Yr Adran Iechyd |
| DHI | Arolygiaeth Hylendid Llaeth |
| DTI | Yr Adran Masnach a Diwydiant |
| CE | Y Gymuned Ewropeaidd |
| EEA | Ardal Economaidd Ewropeaidd |
| EMIs | Arolygwyr Marchnata Wyau |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| FLEP | Ymarferwyr Gorfodi Cyfraith Bwyd |
| Framework Agreement | Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol |
| FVO | Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (y Comisiwn Ewropeaidd) |
| HA | Awdurdod Cartref (CA) |
| HACCP | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol |
| HPA | Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd |
| HPS | Health Protection Scotland (SCIEH gynt) |
| LACORS | Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol |
| MSM | Cig wedi'i Wahanu'n Fecanyddol |
| NAWDEPC | Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| NPHS Wales | Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru |
| OFT | Y Swyddfa Masnachu Teg |
| OPOAO | Cynhyrchion eraill yn dod o anifeiliaid |

| | |
|---|---|
| REHIS | Sefydliad Iechyd Amgylcheddol Brenhinol yr Alban |
| SEERAD | Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth yr Alban |
| SFI | Yr Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr |
| Seafish | Awdurdod Diwydiant Pysgod Môr |
| SFPA | Asiantaeth Amddiffyn Pysgod yr Alban |
| SFSORB | Bwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban |
| Yr Asiantaeth | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| TSE | Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy |
| UKAS | Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig |
| VMHA | Cynghorydd Milfeddygol ar Hylendid Cig |

# ATODIAD 2: CYSYLLTIADAU Â DEDDFWRIAETH, CANLLAW A FFURFLENNI (HYLENDID BWYD)

## Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) / Canllaw Ymarfer (Cymru)

*http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/copwales*

## Rheoliadau'n Gysylltiedig â Cymru

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (No.31 (Cy.5)):
*http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2006/20060031w.htm*

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 (No.590 (Cy.66)):
*http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2006/20060590w.htm*

## EU Regulations

Regulation (EC) No. 178/2002 laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety:
*http://europa.eu.int/eur-lex/pri/en/oj/dat/2002/l_031/l_03120020201en00010024.pdf*

Regulation (EC) No. 882/2004 on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules:
*http://europa.eu.int/eur-lex/pri/en/oj/dat/2004/l_191/l_19120040528en00010052.pdf*

Regulation (EC) No. 852/2004 on the hygiene of foodstuffs:
*http://europa.eu.int/eur-lex/lex/LexUriServ/site/en/oj/2004/l_226/l_22620040625en00030021.pdf*

Regulation (EC) No. 853/2004 laying down specific hygiene rules for food of animal origin:
*http://europa.eu.int/eur-lex/lex/LexUriServ/site/en/oj/2004/l_226/l_22620040625en00220082.pdf*

Regulation (EC) No. 854/2004 laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption:
*http://europa.eu.int/eur-lex/lex/LexUriServ/site/en/oj/2004/l_226/l_22620040625en00830127.pdf*

Regulation (EC) No 1688/2005 implementing Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council as regards special guarantees concerning salmonella for consignments to Finland and Sweden of certain meat and eggs:
*http://europa.eu.int/eur-lex/lex/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_271/l_27120051015en00170028.pdf*

Commission Regulation (EC) No 2073/2005 on microbiological criteria for foodstuffs:
http://europa.eu.int/eur-lex/lex/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_338/l_33820051222en00010026.pdf

Commission Regulation (EC) No 2074/2005 laying down implementing measures for certain products under Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council and for the organisation of official controls under Regulation (EC) No 854/2004 of the European Parliament and of the Council and Regulation (EC) No 882/2004 of the European Parliament and of the Council, derogating from Regulation (EC) No 852/2004 of the European Parliament and of the Council and amending Regulations (EC) No 853/2004 and (EC) No 854/2004:
http://europa.eu.int/eur-lex/lex/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_338/l_33820051222en00270059.pdf

Commission Regulation (EC) No 2076/2005 laying down transitional arrangements for the implementation of Regulations (EC) No 853/2004, (EC) No 854/2004 and (EC) No 882/2004 of the European Parliament and of the Council and amending Regulations (EC) No 853/2004 and (EC) No 854/2004:
http://europa.eu.int/eur-lex/lex/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_338/l_33820051222en00830088.pdf

**European Commission Guidance Documents**

European Commission Guidance Document on Regulation (EC) No. 852/2004 on the hygiene of foodstuffs:
http://europa.eu.int/comm/food/food/biosafety/hygienelegislation/guidance_doc_852-2004_en.pdf

European Commission Guidance Document on Regulation (EC) No. 853/2004 on the hygiene of food of animal origin:
http://europa.eu.int/comm/food/food/biosafety/hygienelegislation/guidance_doc_853-2004_en.pdf

European Commission Guidance Documents on the implementation of procedures based on HACCP principles and facilitation of the implementation of the HACCP principles in certain food businesses:
http://europa.eu.int/comm/food/food/biosafety/hygienelegislation/guidance_doc_haccp_en.pdf

**Food Standards Agency Guidance Documents (other than the Code of Practice and Practice Guidance)**

Draft FSA guidance on the requirements of food hygiene legislation:
http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/fsaguidefoodleg.pdf

Draft Summary guidance on the new food hygiene regulations for businesses making or handling foods of animal origin:
http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/summguidpoao011205.pdf

Draft Summary guidance on the new food hygiene regulations for businesses manufacturing food not of animal origin:
*http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/summguidnonpoao011205.pdf*

Draft Summary guidance on the new food hygiene regulations for restaurants, caterers and businesses selling food to the final consumer:
*http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/summguidcater011205.pdf*

Guidance on Commission Regulation (EC) No 2073/2005 of 15 November 2005 on microbiological criteria for foodstuffs:
*http://www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/eufoodhygieneleg/microbiolreg*

Draft Guide to Food Hygiene and other Regulations for the Meat Industry:
*http://www.food.gov.uk/foodindustry/meat/draftguidehygienemeat*

## Ffurflenni Model / Ffurflenni Templed ar Ffurf Microsoft Word

Ffurflenni model i'w defnyddio mewn cysylltiad â Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
*http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/hygieneregsformswelsh.doc*

Ffurflenni templed i'w defnyddio mewn cysylltiad â Chymeradwyo Sefydliadau Cynnyrch-Benodol
*http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/approvalformwelsh.doc*

Ffurflen Gais fodel ar gyfer Cofrestru Sefydliad Busnes Bwyd:
*http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/registrationformwelsh.doc*

Hysbysiad model o Gau Ardal(oedd) Gynhyrchu Dros Dro (Molysgiaid Dwygragennog Byw / Pysgod Cregyn):
*http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/shellfishformwelsh.doc*

Dogfen dempled ar gyfer Cofrestru Molysgiaid Dwygragennog Byw / Pysgod Cregyn Byw:
*http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/shellfishregwelsh.doc*

## Cofrestr Ganolog o Lythyrau yn Cael eu Hanfon gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i Awdurdodau Lleol

**Cymru:**
*http://www.food.gov.uk/multimedia/webpage/centralref_wales*

**DU:**
*http://www.food.gov.uk/multimedia/webpage/centralref_uk*

# ATODIAD 3: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 - CYFFREDINOL

## A.3.1: Cyflwyniad

Mae Erthygl 4 Rheoliad 853/2004 yn amodi na all sefydliadau sy'n trafod cynhyrchion yn dod o anifeiliaid y mae Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw yn pennu gofynion ar eu cyfer, weithredu oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo (sy'n cynnwys cymeradwyaeth amodol). Mae'r gofyniad hwn, fodd bynnag, yn amodol ar nifer o eithriadau sy'n cael eu nodi ym Mharagraff A.3.3, isod.

Mae gofynion perthnasol Rheoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004 yn gymwys i sefydliadau yn amodol ar gymeradwyaeth o dan y rheoliad olaf. Mae rhai o'r paragraffau canlynol wedi'u hatgynhyrchu o'r Cod Ymarfer er cyflawnrwydd.

## A.3.2: Rhannu Cyfrifoldebau Gorfodi

(O'r Cod Ymarfer, Paragraff 5.1.2)

Erys cyfrifoldeb gyda'r Awdurdodau Bwyd am gymeradwyaeth o, a gorfodi mewn perthynas â'r sefydliadau sy'n destun eu cymeradwyo o dan Reoliad 853/2004 nad yw eu rheolaeth yn gyfrifoldeb milfeddyg swyddogol. Bydd y sefydliadau "penodol-i-gynnyrch" hyn yn cynhyrchu unrhyw rai o'r canlynol, neu unrhyw gyfuniad ohonynt: Briwgig, Paratoadau Cig, Cig Wedi'i Wahanu'n Fecanyddol, Cynhyrchion Cig, Molysgiaid Dwygragennog Byw, Cynhyrchion Pysgodfeydd, Llaeth Amrwd (heblaw am laeth buwch amrwd), Cynhyrchion Llaeth, Wyau (nid cynnyrch cynradd) a Chynhyrchion Wyau, Coesau Brogaod a Malwod, Toddion Bloneg a Chriwsion Anifeiliaid, Stumogau, Pledrennau a Pherfeddion wedi'u trin, Gelatin a Colagen, a byddant yn cynnwys storfeydd oer penodol a marchnadoedd cyfanwerthu penodol. Mae Awdurdodau Bwyd hefyd yn gyfrifol am orfodi mewn perthynas â chanolfannau casglu a thanerdai sy'n cyflenwi deunydd crai er cynhyrchu gelatin neu golagen y bwriedir i'w fwyta gan bobl.

Mae'r Asiantaeth, drwy'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS), yn gyfrifol am gymeradwyo sefydliadau sy'n destun eu cymeradwyo o dan Reoliad 853/2004 lle milfeddyg swyddogol sy'n gyfrifol am reolaeth yn unol ag Erthygl 4(7) o Reoliad 854/2004[39] ac am orfodi mewn sefydliadau o'r fath pan fyddant wedi eu cymeradwyo. Sefydliadau o'r fath yw lladd-dai, sefydliadau trafod adar hela a ffatrïoedd torri sy'n gosod cig ffres ar y farchnad. Mae'r MHS hefyd yn gyfrifol am sefydliadau sydd wedi'u cydleoli â'r sefydliadau hyn lle cynhyrchir Briwgig, Paratoadau Cig, Cig Wedi'i Wahanu'n Fecanyddol, Cynhyrchion Cig, Toddion Bloneg a Chriwsion Anifeiliaid, Stumogau, Pledrennau a Pherfeddion wedi'u trin, Gelatin a/neu Cholagen hefyd.

Mae'r Asiantaeth hefyd yn gyfrifol am orfodi mewn perthynas â'r materion y mae Atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn eu rheoleiddio, i'r

[39] Rheoliad (CE) Rhif 854/2004 sy'n gosod rheolau penodol am drefnu rheolaeth swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid y bwriedir i'w bwyta gan bobl

graddau ag y mae'n gymwys o ran llaeth buwch amrwd y bwriedir i'w fwyta gan bobl.

## A.3.3: Eithriadau o'r Gofyniad am Gymeradwyaeth

### A.3.3.1: Cyflwyniad

Mae eithriadau o'r gofyniad am gymeradwyaeth wedi'u nodi yn Erthygl 1 Rheoliad 853/2004 sy'n rhoi manylion cwmpas y Rheoliad, ac yn Erthygl 4 sy'n amodi na chaiff sefydliadau sy'n amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004 weithredu oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo. Mae'r paragraffau canlynol yn delio â'r eithriadau amrywiol o'r gofyniad i gael cymeradwyaeth.

### A.3.3.2: Eithriadau: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1 (Cwmpas)

#### A.3.3.2.1: Erthygl 1(2) Rheoliad 853/2004: Bwyd sy'n Cynnwys Cynhyrchion yn Dod o Blanhigion a Chynhyrchion wedi'u Prosesu yn Dod o Anifeiliaid

(O'r Cod Ymarfer, Paragraff 5.1.4.2)

*2. Oni nodir yn unswydd i'r gwrthwyneb, nid yw'r Rheoliad hwn yn cymhwyso i fwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n tarddu o blanhigion a chynhyrchion wedi'u prosesu sy'n tarddu o anifeiliaid. Fodd bynnag, caiff cynhyrchion wedi'u prosesu sy'n deillio o anifeiliaid a ddefnyddir i baratoi'r fath fwyd eu cael a'u trin yn unol â gofynion y Rheoliad yma.*

Mae Erthygl 1(2) o Reoliad 853/2004 yn amodi "*Oni nodir yn unswydd i'r gwrthwyneb, nid yw'r Rheoliad hwn yn cymhwyso i fwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n tarddu o blanhigion a chynhyrchion wedi'u prosesu sy'n tarddu o anifeiliaid*". Dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol nad yw'r rheoliad yn gosod unrhyw isafswm o ran y cynnyrch sy'n tarddu o blanhigion, na'r cynnyrch wedi'i brosesu sy'n tarddu o anifeiliaid, y mae'n rhaid i fwydydd o'r fath eu cynnwys.

Gan hynny, ni fydd sefydliadau sy'n ymwneud yn unig â chynhyrchu bwyd o'r fath drwy gydosod cynhyrchion sy'n tarddu o blanhigion â chynhyrchion wedi'u <u>prosesu</u> sy'n tarddu o anifeiliaid, sy'n cyrraedd y sefydliad hwnnw yn y <u>cyflwr wedi'i brosesu hwnnw</u>, yn destun i Reoliad 853/2004 ac, yn hynny o beth, ni fydd arnynt angen eu cymeradwyo. Bydd angen i Awdurdodau Bwyd ystyried y diffiniadau o "gynhyrchion wedi'u prosesu", "cynhyrchion heb eu prosesu" a "phrosesu" yn Erthygl 2 o Reoliad 852/2004 yn hyn o beth.

Dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol y byddai angen i sefydliadau sy'n elwa ar yr eithriad hwn, yn ogystal â chydymffurfio â Rheoliad 852/2004, gydymffurfio ag Erthygl 1(2) o Reoliad 853/2004 sy'n gofyn bod sefydliadau o'r fath yn cael y cynhyrchion wedi'u prosesu sy'n tarddu o anifeiliaid yn unol â Rheoliad 853/2004 (h.y. o sefydliadau cymeradwy) a bod y cynhyrchion hynny'n cael eu trin yn unol â'r Rheoliad hwnnw.

#### A.3.3.2.2: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(3)(a) a (b): Defnydd / Treuliant Domestig Preifat

*3.Ni fydd y Rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â:*

*(a) chynhyrchu sylfaenol at ddefnydd domestig preifat;*

*(b) paratoi, trafod neu storio bwyd yn ddomestig at dreuliant domestig preifat;*

Mae Erthygl 1(3) (a) a (b) Rheoliad 853/2004 yn ailadrodd yr eithriadau yn Erthygl 1(2) (a) a (b) Rheoliad 852/2004, ac yn pwysleisio eithrio'r gweithgareddau hyn o gwmpas Rheoliadau Hylendid CE.

**A.3.3.2.3: Diffiniad o Adwerthu**

Mae Paragraffau A.3.3.2.4 *et seq* yn cynnwys manylion darpariaethau yn Rheoliad 853/2004 sydd naill ai'n sôn am 'adwerthu' neu'n hepgor gweithgareddau adwerthu o gwmpas y rheoliad hwnnw, oni nodir yn benodol i'r gwrthwyneb. Mae'n bwysig felly, wrth ystyried darpariaethau felly, i fod yn eglur ynghylch y diffiniadau o 'adwerthu' a 'defnyddiwr terfynol', sy'n cael eu rhoi yn Erthygl 3(7) Rheoliad 178/2002 fel a ganlyn:

*mae 'adwerthu' yn golygu trin a/neu brosesu bwyd a'i storio ar bwynt gwerthiant neu drosglwyddiad i'r cwsmer terfynol, ac yn cynnwys terminalau dosrannu, gweithrediadau arlwyo, ffreuturau ffatri, arlwyo sefydliadol, bwytai a gweithrediadau gwasanaeth bwyd tebyg, siopau, canolfannau dosbarthu archfarchnadoedd ac allfannau cyfanwerthwyr;*

*mae 'cwsmer terfynol' yn golygu'r cwsmer diwethaf o fwydydd na fydd yn defnyddio'r bwyd fel rhan o unrhyw fusnes na gweithrediad bwyd neu weithgaredd*

Mae eglurhad o'r hyn yr ystyrir yw 'adwerthu' yn cael ei roi i bob diben yn rhan gyntaf y diffiniad. Mae'r diffiniad yn mynd ymlaen wedyn i roi enghreifftiau penodol o weithgareddau yr ystyrir eu bod yn 'adwerthu', sy'n ymestyn ar y diffiniad craidd.

Mae '<u>allfannau</u> cyfanwerthwyr' yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o 'adwerthu'; <u>nid</u> yw'r diffiniadau ehangach "cyfanwerthu", "gweithgareddau cyfanwerthu" neu ddiffiniadau tebyg yn cael eu defnyddio, a dylai Awdurdodau Bwyd gofio'r gwahaniaeth hwn.  Un enghraifft fyddai sefydliad sy'n cyflenwi i'w gwsmeriaid ar sail "talu a chludo", cyhyd â bod elfen o'r cyflenwi hwnnw i'r defnyddiwr olaf, fel y'i diffinnir.

Er y gallai 'allfa cyfanwerthu' gael ei ystyried yn 'adwerthu' yn ôl y diffiniad, gall cymeradwyaeth fod yn angenrheidiol serch hynny, gan ddibynnu ar y gweithgareddau penodol yr ymgymerir â nhw. Os yw cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y mae Atodiad III Rheoliad 853/2004 yn pennu gofynion ar eu cyfer, yn cael eu trafod, ac nad yw'r cynhyrchion hyn yn cael eu cyflenwi i'r defnyddiwr olaf yn gyfan gwbl, neu nad ydynt yn cael eu cyflenwi i sefydliadau adwerthu eraill ar sail "ffiniol, lleoledig a chyfyngedig", byddai cymeradwyaeth yn ofynnol.

Bydd angen i sefydliadau sy'n hawlio eithriad felly gael eu hystyried ar sail achos wrth achos.

Dylai Awdurdodau Bwyd gofio hefyd bod 'Marchnad gyfanwerthu' yn cael ei ddiffinio ar wahân yn Atodiad I, Paragraff 8.2 Rheoliad 853/2004 fel a ganlyn:

*golyga 'Marchnad gyfanwerthu' fusnes bwyd sy'n cynnwys sawl uned ar wahân sy'n rhannu gosodiadau cyffredin ac adrannau lle mae bwydydd yn cael eu gwerthu i weithredwyr busnesau bwyd*

**A.3.3.2.4: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(3)(c), (d) a (e): Cyflenwi Meintiau Bach yn Uniongyrchol**

*3. Ni fydd y Rheoliad yma'n cael ei gymhwyso mewn perthynas â…*

*(c) cyflenwad uniongyrchol, gan y cynhyrchydd, o feintiau bychain o gynnyrch cynradd i'r cwsmer terfynol neu i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi'r cwsmer terfynol yn uniongyrchol;*

*(d) cyflenwad uniongyrchol, gan y cynhyrchydd, o feintiau bychain o gig o ddofednod a lagomorffiaid a laddwyd ar y fferm i'r cwsmer terfynol neu i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi'r fath gig yn uniongyrchol i'r cwsmer terfynol fel cig ffres;*

*(e) helwyr sy'n cyflenwi meintiau bach o anifeiliaid hela neu gig anifeiliaid hela yn uniongyrchol i'r cwsmer terfynol neu i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi'r cwsmer terfynol yn uniongyrchol.*

## *Erthygl 1(3)(c)*

Mae Erthygl 1(3)(c) Rheoliad 853/2004 yn ailadrodd yr eithriad yn Erthygl 1(2)(c) Rheoliad 852/2004. Gall cyflenwad uniongyrchol i ddefnyddiwr olaf fod drwy archeb drwy'r post neu werthiannau rhyngrwyd yn ogystal â thrwy ddosbarthu neu gasglu. Nid oes rhaid i'r defnyddiwr olaf fod yn lleol i'r cynhyrchydd sylfaenol. Mewn perthynas â chyflenwi meintiau bach o gynhyrchion sylfaenol i 'sefydliadau adwerthu lleol', dylid dehongli 'Lleol' yn yr un modd â 'Lleoledig' (gweler Paragraff 3.3.2.7).

## *Erthygl 1(3)(d)*

Mae gofynion mewn perthynas â'r cynhyrchwyr hynny sy'n elwa o'r eithriad a roddir gan Erthygl 1(3)(d) Rheoliad 853/2004 yn cael eu nodi yn Rheoliad 31/ Atodlen 5 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mae canllaw ar yr eithriad hwn yn cael ei roi yn Atodiad 5, Paragraff A.5.4.5 y Canllaw Ymarfer hwn.

## *Erthygl 1(3)(e)*

Mae canllaw ar yr eithriad a roddir gan Erthygl 1(3)(e) Rheoliad 853/2004 yn cael ei roi yn Atodiad 5, Paragraff A.5.4.4 y Canllaw Ymarfer hwn.

**A.3.3.2.5: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(5)(a) a (b): Eithriad Adwerthu Cyffredinol**

*5. (a) Oni nodir yn benodol i'r gwrthwyneb, ni fydd y Rheoliad yma'n gymwys i adwerthu.*

*(b) Fodd bynnag, bydd y Rheoliad yma'n gymwys i adwerthu pan fydd gweithrediadau'n cael eu cyflawni gyda'r bwriad o gyflenwi bwyd sy'n deillio o anifeiliaid i sefydliad arall…..*

Bwriad Rheoliad 853/2004 yw eithrio busnesau sy'n adwerthu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r defnyddiwr olaf (h.y. y cyhoedd) ac mae wedi'i olygu, yn gyffredinol, i fod yn gymwys i fusnesau sy'n cyflenwi busnesau eraill (e.e. arlwywyr, tafarndai, bwytai, manwerthwyr eraill).

Effaith Erthygl 1(5) yw, yn gyffredinol, nad yw Rheoliad 853/2004 yn gymwys i fanwerthu. Mae'r Rheoliad, fodd bynnag, yn gymwys i fanwerthu os yw bwyd sy'n dod o anifeiliaid yn cael ei gyflenwi i sefydliad arall oni bai yr ymgymerir â'r gweithgareddau yn Erthygl 1(5)(b)(i) neu (ii) (gweler Paragraff A.3.3.2.6). Mae'r Rheoliad yn gymwys hefyd lle dynodir hynny'n benodol. Gellir gweld

dynodiadau felly yn Atodiad III, Adran VII, Paragraff 3 (Molysgiaid Dwygragennog Byw) ac Atodiad III, Adran VIII, Paragraff 2 (Cynhyrchion Pysgodfeydd) sy'n amodi bod gofynion penodol yr Adrannau priodol hynny yn gymwys i fanwerthu.

#### A.3.3.2.6: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(5)(b)(i) a (ii): Eithriadau Adwerthu Eraill

*(b) Fodd bynnag, bydd y Rheoliad yma'n gymwys i adwerthu pan fydd gweithrediadau'n cael eu cyflawni gyda'r bwriad o gyflenwi bwyd sy'n deillio o anifeiliaid i sefydliad arall, oni bai fod:*

*(i) y gweithrediadau'n cynnwys storio neu gludo yn unig, ac yn yr achos hynny bydd y gofynion tymheredd penodol fel ag y nodir yn Atodiad III yn gymwys er hynny;*

*neu*

*(ii) y cyflenwad o fwyd sy'n deillio o anifeiliaid o'r sefydliad adwerthu ar gyfer sefydliadau adwerthu eraill yn unig ac, yn unol â chyfraith wladol, yn weithgaredd ymylol, lleoledig a chyfyngedig.*

### *Erthygl 1(5)(b)(i)*

Mae Erthygl 1(5)(b)(i) yn rhoi eithriad mewn perthynas â chyflenwi bwyd sy'n dod o anifeiliaid o sefydliad adwerthu i sefydliad arall lle mae'r gweithrediadau'n cynnwys storio neu gludiant yn unig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i fanwerthwyr sy'n elwa yn sgil yr eithriad hwn, serch hynny, sicrhau bod cydymffurfio â gofynion tymheredd perthnasol yn Atodiad III Rheoliad 853/2004.

### *Erthygl 1(5)(b)(ii)*

Mae Erthygl 1(5)(b)(ii) yn rhoi eithriad ar gyfer manwerthwyr sy'n eu caniatáu i gyflenwi bwyd yn dod o anifeiliaid, a fyddai fel arfer yn sbarduno'r angen am gymeradwyaeth, o'u sefydliad adwerthu i sefydliadau <u>adwerthu</u> eraill, ond dim ond os yw hwn yn weithgarwch ffiniol <u>a</u> lleoledig <u>a</u> chyfyngedig (gweler Paragraff A.3.3.2.7, isod).

Byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth, fodd bynnag, pe bai sefydliad yr ystyrir ei fod yn 'retail' yn ôl y diffiniad yn trafod cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y mae Atodiad III Rheoliad 853/2004 yn pennu gofynion ar eu cyfer <u>a</u> bod y cynhyrchion hyn yn cael eu cyflenwi i sefydliadau eraill <u>a</u> bod y cyflenwad:

- I sefydliadau heb fod yn rhai adwerthu e.e. gweithgynhyrchwyr, a/neu;
- I sefydliadau adwerthu, ond bod y cyflenwi'n golygu gweithgareddau <u>y tu hwnt</u> i'r rheiny y gellid ystyried eu bod yn ffiniol, yn lleoledig ac yn gyfyngedig.

#### A.3.3.2.7: "Ymylol, Lleoledig a Cyfyngedig"

Mae'r cysyniad o weithgarwch ffiniol, lleoledig a chyfyngedig yn cael ei ddisgrifio yng Nghronicliad 13 o Reoliad 853/2004 fel a ganlyn:

*…pan fod cyflenwad y bwyd sy'n deillio o anifail o sefydliad adwerthu i sefydliad arall yn weithgaredd ymylol, lleoledig a chyfyngedig. Dylai'r math yma o gyflenwad ond bod yn rhan*

*fach o fusnes y sefydliad; dylai'r sefydliadau sy'n cael eu cyflenwi fod wedi'u lleoli yn y cyffiniau agos; a dylai'r cyflenwad fod yn berthnasol i rai mathau o gynyrchiadau neu sefydliadau.*

<u>'Ymylol'</u>

Disgrifir 'Ymylol' yng Nghronicliad 13 o Reoliad 853/2004 fel rhan fach yn unig o fusnes y sefydliad.

Mae Dogfen Arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd ar Reoliad 853/2004 yn amodi y gellir dehongli 'ymylol' hefyd fel 'maint bach o fwyd sy'n deillio o anifail' mewn termau absoliwt, ond mae dehongliad o'r ymadrodd hwn yng Nghymru wedi'i gyfyngu'n unig i gig ffres neu gig wedi'i brosesu, gan gynnwys cynhyrchion cig, ond yn eithrio adar hela gwyllt a chig adar hela gwyllt (gweler Atodiad 5). Mewn perthynas â chynhyrchion yn dod o anifeiliaid ac eithrio'r rhain, dylai Awdurdodau Bwyd ddehongli 'rhan fach o fusnes y sefydliad' i olygu

*hyd at chwarter y busnes yn nhermau bwyd*

<u>'Lleoledig' / 'Lleol'</u>

Disgrifir 'Lleoledig' yng Nghronicliad 13 o Reoliad 853/2004 fel cyffiniau uniongyrchol y sefydliad sy'n cyflenwi.

Dylai Awdurdodau Bwyd ddehongli 'lleoledig' a 'lleol' eu dau i olygu:

***Gwerthiannau o fewn sir y sefydliadau cyflenwi ei hun yn ogystal â'r mwyaf o <u>naill ai</u>'r sir neu siroedd cyfagos <u>neu</u> 30 milltir/50 cilomedr o ffin sir y sefydliad cyflenwi.***

Yn hyn o beth, dylai Awdurdodau Bwyd ddehongli 'Sir' i olygu:

***Siroedd metropolitaidd neu an-fetropolitaidd yn Lloegr a Chymru fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Llundain 1963[40] (e.e. Llundain Fwyaf, Gogledd Swydd Efrog, Swydd Caerlŷr, Powys), awdurdod lleol yn yr Alban, neu sir weinyddol yng Ngogledd Iwerddon (e.e. Swydd Fermanagh).***

Mae hyn yn caniatáu ar gyfer anghydbwysedd rhwng awdurdodau trefol ag ychydig iawn o bellter rhyngddynt a phoblogaethau anghysbell pell oddi wrth ei gilydd, yn ogystal â'r rheiny ar y ffiniau neu a ffinir gan y môr.

<u>'Cyfyngedig'</u>

Mae 'cyfyngedig' yn cael ei ddisgrifio yng Nghronicliad 13 o Reoliad 853/2004 fel 'concerning only certain types of products or establishments'. Gwelir mai biwrocratig yw gorfod rhestru sefydliadau a chynhyrchion, a rhwystr potensial i fasnach ac mae, beth bynnag, gofynion cyfreithiol eraill ar gyfer olrhain cynhyrchion bwyd. Mewn perthynas â'r sector cig, dylai Awdurdodau Bwyd ddehongli 'cyfyngedig' fel y nodir yn Atodiad 5, Paragraff A.5.4.2. Mewn perthynas â chynhyrchion eraill yn dod o anifeiliaid, dylai Awdurdodau Bwyd

[40] Ac eithrio y caiff Ynysoedd Sili eu hystyried yn un wlad yr un. Yn achos rhai awdurdodau mwy yn yr Alban, efallai yr ystyrir bod terfyn meidrol yn fwy priodol.

ystyried p'un a yw'r cyflenwad wedi'i gyfyngu mewn rhyw ffordd mewn perthynas â naill ai:

- *Y cynhyrchion yn cael eu cyflenwi h.y. yn ôl categori cynnyrch fel y cyfeirir atynt yn Rheoliad 853/2004 (e.e. cynnyrch llaeth, cynnyrch pysgodfeydd etc.), neu;*

- *Y math o sefydliad adwerthu sy'n cyflenwi'r cynhyrchion, a/neu;*

- *Y math o sefydliad(au) adwerthu y mae'r cynhyrchion yn cael eu cyflenwi iddo.*

#### A.3.3.3: Eithriadau: Rheoliad 853/2004, Erthygl 4 (Gofyniad am Gymeradwyaeth)

#### A.3.3.3.1: Rheoliad 853/2004, Erthygl 4(2)

*…ni fydd sefydliadau sy'n trin y cynnyrch hynny sy'n deillio o anifeiliaid y mae Atodiad III i'r Rheoliad yma'n gosod y gofynion iddynt yn gweithredu oni bai bod yr awdurdod cymwys wedi eu cymeradwyo nhw… gydag eithriad o sefydliadau sy'n cyflawni:*

*(a) cynhyrchu cynradd;*

*(b) gweithrediadau cludo;*

*(c) storio cynnyrch nad yw angen amodau storio gyda thymheredd wedi'i reoli;*

*neu*

*d) gweithgareddau adwerthu eraill heblaw am y rhai y mae'r Rheoliad yma'n dilyn Erthygl 1(5)(b).*

Mae Erthygl 4(2) Rheoliad 853/2004 yn eithrio'r gweithgareddau uchod o gwmpas y Rheoliad.

## A.3.4: Cymeradwyaeth Amodol

(Mae'n cynnwys testun y Cod Ymarfer, Paragraff 5.1.8)

Mae Erthygl 31(2)(d) o Reoliad 882/2004 yn caniatáu rhoi cymeradwyaeth amodol i sefydliad, yn dilyn ymweliad â'r safle, nad yw'n cydymffurfio'n llwyr â gofynion cyfraith bwyd, ar yr amod bod y sefydliad yn bodloni'r holl ofynion o ran isadeiledd ac offer.

Dylai Awdurdodau Bwyd gofio bod gweithredydd busnes bwyd ond yn gallu gwneud cais am *gymeradwyo* sefydliadau sydd o dan eu rheolaeth; mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi cymeradwyaeth amodol i sefydliad nad yw'n cydymffurfio'n llwyr, ai peidio, yn aros gyda'r Awdurdod Bwyd. Dylid defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu a fyddai'n briodol rhoi cymeradwyaeth amodol, ar sail pob achos unigol.

Os rhoddir cymeradwyaeth amodol, rhaid cynnal ymweliad pellach o fewn tri mis o roi'r cymeradwyaeth amodol yn unol ag Erthygl 31(2)(d) o Reoliad 882/2004. Dylai'r ymweliad hwn fod yn archwiliad eilaidd (gweler 4.1.3). Mewn amgylchiadau priodol fel y nodir yn Erthygl 31(2)(d) o Reoliad 882/2004, gellir

ymestyn cymeradwyaeth amodol, ond cyfyngir hyn i uchafswm o chwe mis o ddyddiad rhoi'r cymeradwyaeth amodol yn wreiddiol. Dylid defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu a fyddai'n briodol rhoi cymeradwyaeth amodol, ar sail pob achos unigol.

Os yw cymeradwyaeth amodol yn cael ei roi, rhaid cynnal ymweliad arall o fewn tri mis i'r gymeradwyaeth amodol gael ei roi yn unol ag Erthygl 31(2)(d) o Reoliad 882/2004. Dylai'r ymweliad yma fod yn arolygiad eilaidd (gweler Paragraff 4.1.3 y Cod Ymarfer). Mewn amgylchiadau priodol fel ag y nodwyd yn Erthygl 31(2)(d) o Reoliad 882/2004, gellir ymestyn cymeradwyaeth amodol, ond mae'n gyfyngedig i fwyafswm o chwe mis o'r dyddiad cychwynnol lle rhoddwyd y gymeradwyaeth amodol. Dylid defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu a fyddai'n briodol i ymestyn cymeradwyaeth amodol, ar sail achosion unigol.


## A.3.5: Gweithdrefnau Cymeradwyo

(O'r Cod Ymarfer, Paragraff 5.1.5)

Mae Erthygl 31(2)(a) o Reoliad 882/2004 yn gorfodi awdurdodau cymwys i sefydlu gweithdrefnau i weithredwyr busnesau bwyd eu dilyn wrth wneud cais am gymeradwyo eu sefydliadau yn unol â Rheoliad 853/2004. Mae gweithdrefnau ar gyfer trafod ceisiadau am gymeradwyaeth wedi'u nodi ym Mharagraffau 5.1.6 a'r canlynol yn y Cod Ymarfer. Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau eu bod nhw, a gweithredwyr busnesau bwyd, yn dilyn y gweithdrefnau hyn fel y bo'n briodol. Dylai unrhyw wyriadau o'r gweithdrefnau hyn gael eu cofnodi a'u cadw gan yr Awdurdod Bwyd, a lle bynnag y bo'n bosibl, dylid eu cytuno â'r Awdurdod Bwyd ymlaen llaw.

Mae trosolwg o'r broses gymeradwyo wedi'i gosod mewn siart llif yn Atodiad 4 yn y Cod Ymarfer. Darperir cyfres o ffurflenni templed hefyd yn Atodiad 11 o'r Cod Ymarfer i gynorthwyo Awdurdodau Bwyd wrth weinyddu cymeradwyo. Tra dylid ystyried cynnwys y dogfennau hyn fel y lleiafswm y mae ei angen, gall Awdurdodau Bwyd eu haddasu fel bo'r angen i fodloni gofynion lleol.

## ATODIAD 4: SIART LLIF Y BROSES GYMERADWYO




*Os yw'r cais yn ymwneud â chanolfan buro molysgiaid dwygragennog byw, anfonwch gopi o'r cais at yr Asiantaeth er mwyn ymgynghori â CEFAS.

## ATODIAD 5: CIG

### A.5.1: Arweiniad

Mae Canllaw i'r Rheoliadau Hylendid Bwyd a Rheoliadau eraill ar gyfer y Diwydiant Cig wedi'i gynhyrchu ar gyfer gweithredwyr safleoedd cig y DU, yn enwedig y rheiny y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth a rheolaeth filfeddygol ar gyfer eu hadeiladau.

Gellir gweld drafft gweithio o'r Canllaw hwn ar wefan yr Asiantaeth yn:

http://www.food.gov.uk/foodindustry/meat/.

Mae Dyddiadur Rheoli Diogelwch Bwyd ar gyfer cynhyrchwyr cig wedi'i lunio at ddefnydd gwirfoddol, a gellir ei weld yn:

http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/foodmandiary2006.pdf

### A.5.2: Cymeradwyo Sefydliadau

Bydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am gymeradwyo sefydliadau yn amodol ar reolaeth filfeddygol (h.y. lladd-dai, safleoedd torri sy'n rhoi cig ffres ar y farchnad a sefydliadau trin anifeiliaid hela) yn ogystal ag unrhyw storfeydd oer cydleoledig, safleoedd cynhyrchion cig, cig mâl, paratoadau cig, adeiladau lle caiff cig ei wahanu'n fecanyddol a safleoedd cyd-gynhyrchion bwytadwy.

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am gymeradwyo sefydliadau nad ydynt dan reolaeth filfeddygol (ac eithrio ar gyfer adeiladau cydleoledig a ddisgrifir uchod) ac ar gyfer cofrestru sefydliadau sy'n cael eu heithrio rhag cymeradwyaeth.

### A.5.3: Gorfodaeth mewn Sefydliadau Cig

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn gyfrifol am orfodi mewn sefydliadau cig sy'n gofyn am reolaeth filfeddygol (gweler A.5.2 uchod).

#### A.5.3.1: Sefydliadau Cydleoledig

Mae'r MHS yn gyfrifol am orfodaeth mewn safleoedd cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig, safleoedd lle caiff cig ei wahanu'n fecanyddol, storfeydd oer neu safleoedd cyd-gynhyrchion bwytadwy sydd wedi'u cydleoli â lladd-dy, safle torri neu safle trin anifeiliaid hela cymeradwy. (Mae hwn yn newid i'r trefniant blaenorol a wnâi safleoedd cynhyrchion cig wedi'u cydleoli â safleoedd torri dan reolaeth gorfodaeth ddeuol yr Awdurdod Bwyd/MHS). Pan nad yw'n ofynnol i sefydliad cig cydleoledig gael cymeradwyaeth e.e. cigydd adwerthu, mae gorfodaeth Awdurdod Bwyd/MHS yn parhau'n gymwys.

#### A.5.3.2: Sefydliadau Annibynnol

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am orfodaeth mewn sefydliadau annibynnol sy'n cynhyrchu cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig a chig sy'n cael ei wahanu'n fecanyddol, ac mewn sefydliadau sydd wedi'u heithrio o dan Reoliad 853/2004.

### A.5.3.3: Storfeydd Oer

Mae canllaw'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynghori ei bod yn ofynnol i storfeydd oer cig cyfanwerth gael cymeradwyaeth ar y sail eu bod yn cael eu defnyddio mewn perthynas â gweithgareddau y mae Atodiad III Rheoliad 853/2004 yn pennu gofynion ar eu cyfer. Penderfynwyd dilyn y canllaw hwn. Nid oes gofyniad i storfeydd oer fod o dan reolaeth filfeddygol, ac mae Awdurdodau Bwyd felly yn gyfrifol am gymeradwyo storfeydd oer ac am orfodaeth mewn storfeydd oer, ac eithrio lle maent wedi'u cydleoli â lladd-dai, safleoedd torri neu sefydliadau trin anifeiliaid hela sydd wedi'u cymeradwyo.

Nid yw storfeydd oer annibynnol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr olaf yn unig (h.y. adwerthu) neu sy'n cyflenwi'r defnyddiwr olaf a sefydliadau eraill (gan gynnwys arlwywyr) ar sail "ffiniol, lleoledig a chyfyngedig" yn amodol ar gymeradwyaeth, ond byddant yn amodol ar ofynion perthnasol Rheoliad 852/2004.

### A.5.3.4: Anifeiliaid Hela Gwyllt

Mae eithriadau cyfyngedig i helwyr unigol a sefydliadau adwerthu (gweler A.5.4 isod) ond fel arall, mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n prosesu anifeiliaid hela gwyllt gael cymeradwyaeth fel sefydliadau trin anifeiliaid hela o dan reolaeth filfeddygol. Mae hyn yn cynnwys proseswyr sydd wedi bod yn cyflenwi'r farchnad genedlaethol yn unig o dan reolaeth awdurdodau bwyd, a rhai proseswyr graddfa fechan nad ydynt yn ymgymhwyso ar gyfer yr eithriadau heliwr a manwerthwr ac y gellir gofyn am gytundeb UE ar eu cyfer i amrywio lefel y rheolaeth filfeddygol swyddogol. Nes bod y broses gymeradwyo wedi'i chwblhau, maent yn aros yn amodol ar orfodaeth awdurdodau bwyd a gallant barhau i gyflenwi cig anifeiliaid hela o fewn y DU tra'n cydymffurfio â Rheoliad 852/2004 Atodiad II. Mae cynhyrchu sylfaenol anifeiliaid hela yn darfod pan fydd yn mynd i mewn i'r sefydliadau trin, ac felly mae'n rhaid i bob gweithredydd busnes bwyd sy'n prosesu anifeiliaid hela yn gig anifeiliaid hela gael cynlluniau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP.

Mae cyflenwi anifeiliaid hela drwy sefydliadau trin anifeiliaid hela (GHE) hefyd dan reolaeth rheolau penodol Rheoliad 853/2004 bellach. Un o'r rheolau hynny yw bod rhaid i "berson hyfforddedig" archwilio'r anifeiliaid hela yn syth ar ôl eu lladd. Dim ond anifeiliaid hela sydd wedi cael eu harchwilio felly y dylai GHE eu derbyn. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol, pan na fydd person hyfforddedig ar gael, gellir cyflwyno ceirw gyda'r pen a'r perfedd ar gyfer archwiliad post-mortem. Gellir gweld canllaw ar y gofyniad "person hyfforddedig" mewn canllaw ar wahân ar gyflenwi anifeiliaid hela gwyllt y tu allan i safle cymeradwy, fel y cyfeirir ato ym Mharagraff A.5.4.4 isod, ond y ffordd fwyaf cadarn o ddangos y wybodaeth angenrheidiol yw meddu ar gymhwyster VRQ.

Mae Rheoliad 854/2004 yn cynnwys rheolau ar gyfer yr awdurdod cymwys, ac yn cynnwys gofyniad am archwiliad post-mortem swyddogol. Ni chaiff y gofyniad hwn ei weithredu mewn safle didrwydded nes iddo gael ei gymeradwyo. Yn y cyfamser, dylai'r gweithredydd, drwy ei weithdrefnau seiliedig ar HACCP, sicrhau bod unrhyw gig anifeiliaid hela sy'n cael ei roi ar y

farchnad ddomestig yn ffit i'w fwyta gan bobl. Dylai gweithredwyr safleoedd a gafodd drwydded cyn 31 Rhagfyr 2005 barhau i gyflwyno carcasau anifeiliaid hela gwyllt wedi'u bwriadu i'w hallforio i'r milfeddyg swyddogol.

### A.5.3.5: Cyd-gynhyrchion Bwytadwy

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am orfodaeth mewn sefydliadau annibynnol sy'n cynhyrchu cyd-gynhyrchion bwytadwy h.y. stumogau wedi'u trin, pledrennau a pherfeddion, toddion anifeiliaid a chriwsion, gelatin a cholagen

Mae canllaw ar wahân ar y cynhyrchion hyn i'w gael ar wefan yr Asiantaeth yn

http://www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/meatregsguid/coproductbyproductguide

## A.5.4: Eithriadau ar gyfer Cymeradwyaeth

(Gweler Atodiad 3 hefyd)

### A.5.4.1: Sefydliadau Adwerthu (Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(5)(b)(ii))

Mae'r eithriad ar gyfer sefydliadau adwerthu sy'n cyflenwi cynhyrchion yn dod o anifeiliaid i'r defnyddiwr olaf, neu sy'n cyflenwi sefydliadau eraill (gan gynnwys arlwywyr) ar sail ffiniol, lleoledig a chyfyngedig.

Un newid mawr cyn belled â bod cigyddion yn y cwestiwn yw, tra'r oedd y diffiniad blaenorol o "*gwsmer terfynol*" yn y Rheoliadau hylendid cig yn cynnwys arlwywyr, nid yw'r diffiniad yn y Rheoliad newydd yn eu cynnwys. Bellach mae "*cwsmer terfynol*" yn cael ei ddiffinio fel "*cwsmer diwethaf bwydydd na fydd yn defnyddio'r bwyd fel unrhyw ran o weithrediad neu weithgaredd busnes bwyd*", h.y. y cyhoedd. Golyga hyn yr ystyrir bod sefydliadau sy'n cyflenwi arlwywyr yn cyflenwi sefydliadau eraill yn hytrach na chyflenwi'r defnyddiwr terfynol.

Mae'r Rheoliadau'n pennu gofyniad ar sefydliadau sy'n torri cig sy'n cael ei roi ar y farchnad (h.y. yn hytrach na'i gyflenwi i'w brosesu ymhellach) i gael eu cymeradwyo fel safleoedd torri ac yn amodol ar reolaeth filfeddygol, oni bai bod y cyflenwi hwnnw ar sail ffiniol, lleoledig a chyfyngedig. Bydd cigyddion arlwyo sy'n cyflenwi eu holl gynnyrch neu ran fwyaf eu cynnyrch i'r farchnad arlwyo yn gorfod cael cymeradwyaeth mewn egwyddor felly, yn ogystal â chigyddion adwerthu sy'n cyflenwi arlwywyr a/neu sefydliadau eraill dros y trothwy ffiniol.

### A.5.4.2: Sefydliadau Adwerthu – Cyflenwi "ymylol, lleoledig a chyfyngedig" i sefydliadau eraill

Mewn perthynas â chig ffres neu gig wedi'i brosesu, gan gynnwys cynhyrchion cig, dylid dehongli'r termau 'ymylol', 'lleoledig' a 'chyfyngedig' (gweler A.5.4.1 uchod) fel:

- "Ymylol":

Mae Cronicliad 13 Rheoliad 853/2004 yn dehongli “ymylol” fel **‘**rhan fach o fusnes y sefydliad’, ond mae canllaw y Comisiwn Ewropeaidd yn pennu y gellir ei ddehongli hefyd fel ‘maint bach o fwyd sy’n deillio o anifail mewn termau absoliwt’. Felly:

(i) mae “a small part of the establishment’s business” yn golygu “**hyd at chwarter y busnes yn nhermau bwyd”** ; ac

(ii) mae “maint bach o fwyd sy’n deillio o anifail” yn golygu, mewn perthynas â chig (cig ffres neu gig wedi’i brosesu, ac eithrio anifeiliaid hela gwyllt a chig anifeiliaid hela gwyllt) **hyd at ddwy dunnell fetrig yr wythnos,** yn amodol ar y sefydliad a chanddo elfen fanwerthu wirioneddol i’w weithrediad yn cyflenwi i’r defnyddiwr olaf gyda rhan o’i gynhyrchiad cig.

(iii) Os yw (i) neu (ii) yn gymwys, ac eithrio mewn perthynas ag anifeiliaid hela gwyllt a chig anifeiliaid hela gwyllt, pan mai (i) yn unig sy’n berthnasol, mae’r sefydliad wedi’i eithrio o ofynion Rheoliad 853/2004.

**a**

- “Lleol” / ”lleoledig” (gweler Paragraff A.3.3.2.7). Dylid ymgynghori â’r Gangen Cymeradwyaeth yn Isadran Hylendid Cig a Milfeddygaeth yr Asiantaeth lle mae amgylchiadau eithriadol yn gymwys.

**a**

- “Cyfyngedig”

Ar gyfer anifeiliaid hela gwyllt a chig anifeiliaid hela gwyllt, mae’r cyflenwi’n amodol ar yr anifeiliaid hela’n cael eu harchwilio gan berson hyfforddedig. Rhaid i garcasau anifeiliaid hela gwyllt mawr gael datganiad person hyfforddedig yn datgan na welwyd unrhyw abnormaleddau naill ai cyn saethu nac ar ôl saethu. Ar gyfer cig arall, mae cyfyngiadau’n ymwneud â faint o gig a gyflenwir.

### A.5.4.3: Canllaw ar dorri cig i’w werthu’n uniongyrchol gan ffermwyr (e.e. mewn marchnadoedd ffermwyr)

Bydd yr eithriad "ymylol, lleoledig a chyfyngedig" yn caniatáu i gigydd dorri cig ar ran ffermwr a’i ddychwelyd i’r ffermwr hwnnw i’w werthu ymlaen, cyhyd â bod hyn yn rhan ffiniol o fusnes y cigydd hwnnw a bod y ffermwr y cyflenwir iddo yn lleol. Gan god hyn yn cael effaith debyg i’r "*Canllaw ar dorri cig ar gyfer gwerthiant uniongyrchol gan ffermwyr*", bydd y canllaw hwn yn darfod ar 1 Ionawr 2006.

### A.5.4.4: Anifeiliaid Hela Gwyllt

Mae’r eithriad ar gyfer cynhyrchwyr sylfaenol meintiau bach o garcasau anifeiliaid hela gwyllt naill ai’n uniongyrchol i’r defnyddiwr olaf neu i sefydliadau adwerthu lleol sy’n cyflenwi’r defnyddiwr olaf yn uniongyrchol. Gall cynhyrchwyr sylfaenol fod yn helwyr unigol neu ystadau saethu. Mae eithriad

ychwanegol ar gyfer cyflenwi meintiau bach o gig anifeiliaid hela gwyllt a gyflenwir naill ai'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf neu i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf. Mae'r eithriad hwn ar gael yn unig i'r heliwr unigol sy'n paratoi cig o garcasau y mae wedi'u saethu ei hun. Gall y cyflenwi i ddefnyddiwr olaf fod drwy archebu drwy'r post a gwerthiannau rhyngrwyd yn ogystal â dosbarthu/casglu. Nid oes rhaid i'r defnyddiwr olaf fod yn lleol i'r cynhyrchydd sylfaenol.

Mae'r DU yn dehongli 'bach' fel llai na 10,000 o anifeiliaid hela gwyllt bach a llai na 300 o anifeiliaid hela gwyllt mawr y flwyddyn. Mae'r dehongliad o "lleol" yr un fath ag ar gyfer "lleoledig" (gweler Paragraff A.4.4.3, uchod).

Mae'r tabl crynodeb yn Atodiad 1 i'r Atodiad hwn, yn rhoi gwybodaeth am ba elfennau o'r rheoliadau amrywiol sy'n gymwys i hela anifeiliaid hela gwyllt a'u rhoi ar y farchnad.

Gellir gweld arweiniad ar wahân ar gyflenwi anifeiliaid hela gwyllt y tu allan i safle cymeradwy ar wefan yr Asiantaeth yn http://food.gov.uk/foodindustry/meat.

### A.5.4.5: Lladd ar y fferm a thorri meintiau bach o ddofednod a lagomorffiaid

Mae Erthygl 1(3)(d) Rheoliad 853/2004[41] yn datgan nad yw'r Rheoliad yn gymwys i'r cynhyrchwr sy'n cyflenwi'n uniongyrchol meintiau bach o gig o ddofednod neu lagomorffiaid a ledir ar y fferm i'r defnyddiwr olaf neu i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi cig felly'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf. Mae Erthygl 1(4) yn mynd ymlaen i ddweud y bydd y rheolau sy'n rheoli'r personau a'r gweithgareddau sy'n elwa o'r eithriad hwn (yn ychwanegol at y rheiny a nodir yn Rheoliad 852/2004) yn cael eu nodi mewn cyfraith gwlad. Mae'r rheolau cenedlaethol hyn yn cael eu pennu yn Atodlen 5 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

#### A.5.4.5.1: Pa gynhyrchwyr sy'n elwa o'r eithriad hwn?

Mae'r eithriad yn gymwys i gynhyrchwyr dofednod (h.y. adar a ffermir ac eithrio ratidau) neu lagormorffiaid (h.y. cwningod, ysgyfarnogod a chnofilod) sy'n lladd eu hanifeiliaid eu hunain ar y fferm gynhyrchu, cyn belled â mai *meintiau bach [small quantities]* o gig sy'n cael eu cyflenwi.

Mae'r DU yn dehongli 'meintiau bach' fel:

- cynhyrchwyr sy'n lladd llai na 10,000 o adar neu lagomorffiaid y flwyddyn; neu

- gynhyrchwyr sy'n lladd dros 10,000 o adar neu lagomorffiaid y flwyddyn sy'n aelodau o gynllun yswiriant priodol ac sydd naill ai (a) yn pluo'n sych â llaw neu (b) yn lladd am 40 diwrnod y flwyddyn neu lai.

[41] Fel y'i diwygiwyd gan Erthygl 3 Rheoliad (EC) 2076/2005 (Mesurau Trosiannol a Gweithredu)

Ni ddylid cymhwyso'n absoliwt y terfyn o 10,000 o adar neu lagomorffiaid yn y categori cyntaf. Mae amrywiadau yn nifer y lladdiadau o gwmpas lefel y 10,000 yn dderbyniol a bod y lladdiadau blynyddol ddim mwy na 10,000 yn nodweddiadol. Dylid cymhwyso'r terfyn o 10,000 i gyfanswm nifer y dofednod neu lagomorffiaid yn cael eu lladd. Er enghraifft, byddai cynhyrchwr sy'n lladd 6,000 o ieir a 2,000 o dyrcwn yn cael ei eithrio, tra na fyddai un sy'n lladd 6,000 o ieir a 6,000 o dyrcwn yn cael ei eithrio.

Er nad oes terfyn i nifer yr adar neu lagomorffiaid y gall cynhyrchwyr yn yr ail gategori eu lladd, mae'r Asiantaeth yn rhagweld y bydd y cyfyngiadau'n cyfyngu cynhyrchiant i feintiau cymharol fach. Diben y cyfyngiadau ar y rheiny sy'n lladd dros 10,000 yw caniatáu i'r eithriad fod yn gymwys yn unig i'r cynhyrchwyr hynny lle mae risg iechyd cyhoeddus a aseswyd yn debygol o fod yn isel.

Wrth farnu p'un a yw cynllun yswiriant yn briodol, dylid rhoi ystyriaeth i p'un a oes gan y cynllun ofynion sy'n mynd y tu hwnt i leiafswm gofynion cyfreithiol mewn perthynas â diogelwch a hylendid bwyd a p'un a oes ganddo drefniadau gwirio annibynnol. Gall yr Asiantaeth gynghori mewn achosion o amheuaeth.

**A.5.4.5.2: Ble gellir gwerthu'r cig?**

Gall cig a gynhyrchir o dan yr eithriad hwn gael ei gyflenwi:

- yn uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf,

neu

- yn uniongyrchol i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi cig felly'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf.

Yn y categori cyntaf, byddai cyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf yn cynnwys archebu drwy'r post neu werthiannau rhyngrwyd, cyhyd â bod y cyflenwi yn *uniongyrchol* i'r defnyddiwr. Nid yw cyflenwadau felly yn gyfyngedig o angenrheidrwydd i gig ar ffurf cig ffres. Fe allent fod ar ffurf cynhyrchion cig neu baratoadau cig.

Yn yr ail gategori, rhaid i'r cyflenwi fod yn uniongyrchol i sefydliadau adwerthu lleol (ar ffurf cig ffres, paratoadau cig neu gynhyrchion cig), a gallai gynnwys y cynhyrchwr yn cyflenwi i fwytai neu sefydliadau arlwyo eraill. Mae'n rhaid i'r sefydliadau adwerthu a gyflenwir fod yn *lleol*. Dehonglir cyflenwi 'lleol' yr un fath â 'lleoledig' (gweler paragraff A4.4.2 uchod) ac, yn ychwanegol at hynny, unrhyw le yn y DU yn y pythefnos cyn y Nadolig a'r Pasg ac (ar gyfer gwyddau) Gŵyl Fihangel (*diwedd mis Medi*).

**A.5.4.5.3: Pa reolau sy'n gymwys?**

Mae Rheoliad 852/2004 yn gymwys i gynhyrchwyr sy'n elwa ar yr eithriad hwn. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, y gofyniad i gynnal gweithdrefnau sy'n seiliedig ar yr egwyddorion HACCP ac i gofrestru'r sefydliad â'r awdurdod bwyd lleol, yn ogystal â chydymffurfio â gofynion hylendid a hyfforddiant cyffredinol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r rheolau cenedlaethol yn Atodlen 5

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn gymwys. Mae'r rhain yn pennu rheolau ar labelu a chadw cofnodion.

Mae'r rheolau labelu yn pennu gofyniad bod y cig yn arddangos label neu nod arall yn glir, yn dynodi enw a chyfeiriad y fferm lle cafodd yr aderyn neu'r anifail ei ladd. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at unrhyw fanylion labelu sy'n ofynnol gan Reoliadau Labelu Bwyd 1996.

Mae'r rheol cadw cofnodion yn pennu gofyniad bod y cynhyrchwr yn cadw cofnod ar ffurf ddigonol i ddangos nifer yr adar a nifer y lagomorffiaid a dderbynnir i'r safle, a meintiau'r cig ffres a ddosberthir o'r safle yn ystod pob wythnos. Dylai cofnodion felly, er mwyn iddynt fod yn ddigonol, gofnodi'r wybodaeth hon o leiaf yn ôl rhywogaeth yr anifail yn cael ei ladd. Dylid cadw'r cofnodion am un flwyddyn a'u cyflwyno i swyddog awdurdodedig yr awdurdod bwyd ar gais.

## A.5.5: Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig - Torri Cig

Mae Paragraff 2 Adran VI o Atodiad III Rheoliad 853/2004 yn pennu bod angen safleoedd sy'n torri cig yn unig ar gyfer gwneud cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig neu gig sy'n cael ei wahanu'n fecanyddol, gydymffurfio â gofynion perthnasol Atodiad III Rheoliad 853/2004 ar gyfer safleoedd torri cig coch neu gig gwyn, ond na fydd angen cymeradwyaeth fel safleoedd torri arnynt.

## A.5.6: Paratoadau Cig a Chynhyrchion Cig a Geir Drwy ei Wahanu'n Fecanyddol o Esgyrn neu Ewynnau

Gall cenhedlaeth newydd o beiriannau gwahanu wahanu cig o esgyrn neu ewynnau, lle mae'r deunydd a geir (e.e. cig Baader, cig wedi tynnu'r ewynnau) yn cadw'r rhan fwyaf o strwythur ffibr ei gyhyrau. Felly nid yw deunydd felly'n bodloni'r diffiniad o Gig sy'n Cael ei Wahanu'n Fecanyddol yn Atodiad I Rheoliad 853/2004 CE, lle mae'r broses fecanyddol yn arwain at golli neu addasu strwythur ffibr y cyhyrau. Ni ellir ychwaith ystyried deunydd felly fel cig mâl gan ei fod yn cael ei gynhyrchu o dan bwysedd ac nid trwy dorri. Ymddengys y byddai deunydd felly'n dod o fewn diffiniad paratoad cig yn Atodiad 1 Rheoliad 853/2004 CE, sy'n cynnwys cig sydd wedi'i leihau'n ddarnau, neu wedi bod trwy broses annigonol i addasu strwythur y ffibr cyhyrau ac felly i ddileu nodweddion cig ffres.

Dylai sefydliadau sy'n cynhyrchu deunydd felly trwy ddefnyddio cig ffres o safle torri, ac sydd wedi'u bodloni eu hunain bod y deunydd a gynhyrchant yn bodloni gofynion paratoadau cig uchod, felly:

5. gael eu cymeradwyo fel <u>sefydliadau paratoadau cig</u> gan awdurdodau lleol pan fydd y safle yn safle annibynnol;

6. cael eu cymeradwyo fel <u>sefydliad paratoadau cig</u> gan yr Asiantaeth pan fyddant wedi'u cydleoli â lladd-dy, safle torri neu sefydliad trin anifeiliaid hela;

7. cydymffurfio â'r rheolau hylendid a'r rheolau profi microbiolegol ar gyfer paratoadau cig, nid y rheiny ar gyfer briwgig neu gig wedi'i wahanu'n fecanyddol.

## A.5.7: Lladd at ddefnydd domestig preifat

Lle lleddir at ddefnydd domestig preifat ac nad yw'r cig yn cael ei roi ar y farchnad (yn rhad ac am ddim neu beidio) mae gweithgarwch felly'n disgyn y tu hwnt i gwmpas Rheoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004. Fodd bynnag, mae'n anghyfreithlon i gyflenwi cig gwartheg, defaid a geifr i unrhyw drydydd parti, gan gynnwys aelodau'r teulu, oni bai y cydymffurfiwyd â Rheoliadau TSE (Lloegr) 2006, a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2006, a Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 1774/2002 yr UE. Yn ymarferol, dim ond os yw'r cig wedi'i ladd mewn lladd-dŷ cymeradwy y mae hyn yn bosibl. Mae arweiniad manylach yn Atodiad 2 i'r Ychwanegiad hwn.

## ATODIAD 5, YCHWANEGIAD 1: Y Sector Anifeiliaid Hela Gwyllt – Pa Reoliadau sy'n Gymwys i Ba Weithgareddau?

**Y SECTOR ANIFEILIAID HELA GWYLLT : PA REOLIADAU SY'N GYMWYS I BA WEITHGAREDDAU?**

| PA REOLIAD SY'N GYMWYS? | Rheoliad 852/2004 | Rheoliad 853/2004 | Rheoliad 854/2004 |
|---|---|---|---|
| **GWEITHGARWCH** | | | |
| **Saethu at ddefnydd personol** | Nag oes<br>Eithriad Erthygl 1.2a | Nag oes<br>Eithriad Erthygl 1.3a | Nag oes |
| **<u>Cyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf neu i fanwerthwyr lleol (sy'n cyflenwi'r defnyddiwr olaf yn uniongyrchol) meintiau bach o:</u>** | | | |
| ***a) carcasau cyfan gan gynhyrchwr sylfaenol (heliwr neu ystâd)*** | Nag oes<br>Eithriad Erthygl 1.2c<br>Rheolau cenedlaethol yn gymwys[1] | Nag oes<br>Eithriad Erthygl 1.3c | Nag oes |
| ***b) cig o garcasau (yn cael ei gyflwyno gan heliwr o'i saethu ei hun)*** | Yes<br>Safle i'w gofrestru fel busnes bwyd[4] ac i weithredu dan Atodiad II | Nag oes<br>Eithriad Erthygl 1.3e<br>Rheolau cenedlaethol yn gymwys[1] | Nag oes |
| **c) *cig o garcasau yn cael ei gyflwyno gan ystâd, wedi ei saeth gan eraill)***<br>• **Mae hwn yn fath o sefydliad trin anifeiliaid hela cymeradwy (AGHE)** | Oes | **Oes[2]**<br>Safle i'w gymeradwyo gan CA[3] | **Oes[2]** |
| 1. **<u>Cyflenwi carcasau cyfan i sefydliadau trin anifeiliaid hela cymeradwy (AGHEs)</u> *naill ai'n uniongyrchol o'r saethu neu o fwtri anifeiliaid hela yn cael ei weithredu gan gynhyrchwr sylfaenol*** | Oes<br>Safle i'w gofrestru fel busnes bwyd[4] ac i weithredu dan Atodiad I | Rhannau'n ymwneud â'r cynhyrchwr sylfaenol (gofynion "person hyfforddedig[5]" ac arferion hylendid<br>e.e. trin cychwynnol, rheolaethau tymheredd a chludiant) | Rhannau'n ymwneud â dogfennaeth ac arferion hylendid y cynhyrchwr sylfaenol, gan gynnwys archwiliad OV[6] o wybodaeth "person hyfforddedig"[5] |
| 2. **<u>Cyflenwi carcasau cyfan i sefydliadau trin anifeiliaid hela cymeradwy (AGHEs)</u> *<u>nid</u> gan y cynhyrchwr sylfaenol*** | Oes<br>Safle i'w gofrestru fel busnes bwyd[4] ac i wetihredu dan Atodiad II (gan gynnwys unrhyw fwtrïoedd anifeiliaid hela a cherbydau) | Rhannau'n berthnasol i ddogfennaeth a gyflenwyd yn wreiddiol gan "berson hyfforddedig[5]", ynghyd â rheolaethau tymheredd, trin hylan a chludiant | Rhannau'n berthnasol i arferion hylendid y cyflenwr, ynghyd ag OV[6] i archwilio dogfennaeth gan y "person hyfforddedig[5]" |
| 3. **<u>Pob sefydliad arall (heb fod yn fanwerthu) sy'n paratoi cig anifeiliaid hela gwyllt i'w roi ar farchnad ddomestig y DU neu'r farchnad allforio</u>**<br>• **Mae'r rhain yn sefydliadau trin anifeiliaid hela cymeradwy (AGHEs)** | Oes | Oes<br>Safle i'w gymeradwyo gan y CA[3] | Oes |

[1] Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad Cyfraith Bwyd Gyffredinol 2005). Y terfynau "meintiau bach" a bennir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar hyn o bryd (ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid) yw 10,000 o garcasau anifeiliaid hela gwyllt bach y flwyddyn neu 300 o garcasau anifeiliaid hela gwyllt mawr y flwyddyn (yn agored i'w adolygu cyn bo hir)

[2] *[Mewnosodwch manylion rhan-ddirymiad pan/os yw'n briodol]*

[3] Awdurdod Cymwys (h.y. yr Asiantaeth Safonau Bwyd)

[4] Gan yr Awdurdod Lleol

[5] Naill ai'r ciper neu'r rheolwr hela ar y parti hela/yn yr union gyffiniau, neu heliwr sydd wedi cwblhau hyfforddiant wedi'i ddarparu i fodlonrwydd yr Awdurdod Cymwys (gweler H2, Ychwanegiad III, Adran IV, Pennod I)

[6] Milfeddyg Swyddogol

## ATODIAD 5, YCHWANEGIAD 2: Lladd Da Byw yn Breifat – Canllaw ar gyfer Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr.

1. Lladd preifat yw lladd anifail at ddefnydd personol y perchennog. Ystyrir yn aml fod lladd a defnydd felly yn hawl dynol perchennog yr anifail.

2. Mae Erthygl 4 Rheoliad (CE) 853/2004 yn amodi na chaiff unrhyw berson gynnal busnes lladd-dy na rhoi cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ar y farchnad i'w bwyta gan bobl oni bai bod y safle wedi'i gymeradwyo o dan y Rheoliad hwnnw (eithriad - gweler paragraff 5 isod). Mae cyfreithlondeb y lladd y tu allan i safle cymeradwy yn dibynnu felly ar ai rhoi ar y farchnad yw'r bwriad. Diffinnir "gosod ar y farchnad" yn eang at ddibenion y Rheoliadau Hylendid i olygu "dal bwyd at bwrpas gwerthiant, gan gynnwys cynnig ar werth neu unrhyw ffurf arall ar drosglwyddiad p'un ai am ddim neu beidio a gwertiant, dosbarthiad a ffurfiau eraill o drosglwyddo eu hunain". Mae'r trafodiad sy'n sail i laddiad preifat (h.y. cyflenwi carcas yn ôl i'r perchennog) yn gyfystyr yn gyffredinol â rhoi ar y farchnad o dan y diffiniad uchod oherwydd:

a) yn gyffredinol byddai cyflenwi bwyd yn digwydd yn ystod busnes;

b) byddai cyflenwi felly yn y bôn yn gyfystyr â chontract i gyflenwi nwyddau, yn hytrach na gwasanaethau, yn gymaint â bod yr hyn a ddychwelir ar ôl lladd (h.y. y carcas neu gig wedi'i drin) yn wahanol yn sylfaenol o ran math i'r hyn a ddosbarthwyd i'r lladd-dy neu laddwr (h.y. yr anifail byw); a

c) Nid yw'r Rheoliadau Hylendid yn cynnwys unrhyw randdirymiad ar gyfer lladd preifat (ac eithrio hynny a ddisgrifir ym mharagraff 6 isod).

3. Mae Rheoliadau TSE (Cymru) 2006, a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2006, yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad 999/2001 y CE ar Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE). Arweiniodd y Rheoliad hwnnw i bob pwrpas at newid i sefyllfa lladd preifat. Fel pob Rheoliad arall y CE mae'n berthnasol yn uniongyrchol ym mhob Aelod-Wladwriaeth (h.y. mae'n gyfraith yn awtomatig yn y Gwladwriaethau hynny ag effaith o'r dyddiad y mae'n gymwys ohono).

4. Cyn belled â bod lladd preifat yn y cwestiwn, mae rheolaethau TSE y CE yn gymwys i'r graddau y darperir ar eu cyfer gan Reoliad 999/2001. Mae'n gymwys nid yn unig pan fydd gwerthu cig i'w fwyta gan bobl yn digwydd, ond hefyd lle mae cyflenwi i drydydd parti yn y gymuned. Golyga hyn bod y rheolaethau'n gymwys ym mhob sefyllfa lle mae trydydd parti ynghlwm. **Nid yw'n gyfreithlon mwyach, felly, i'r ffermwr gyflenwi cig wedi'i ladd yn breifat i weddill ei deulu heb fod wedi cymhwyso'r Rheoliadau TSE, gan yr ystyrir eu bod yn drydydd parti.** Yr unig eithriad yw lladdiad gwirioneddol preifat lle mae ffermwr yn lladd yr anifail ei hun, yn ei brosesu ei hun, ac yn ei fwyta ei hun.

5. Mae'r Rheoliad TSE yn gymwys **yn unig** i'r rhywogaethau hynny sy'n dueddol o gael TSE o dan reolaethau SRM: rhywogaethau buchol (gwartheg), dafadaidd (defaid) a gafrog (geifr). Nid yw rhywogaethau mochaidd (moch), dofednod, rhywogaethau anifeiliaid hela a ffermir a chwningod o dan reolaethau SRM, a gellir eu cyflenwi gan ffermwr i weddill ei deulu - er na chaiff eu cyflenwi i unrhyw drydydd parti. Byddai angen i unrhyw laddiad o anifail ar gyfer ei roi ar y farchnad i'w fwyta gan bobl ddigwydd mewn lladd-dy cymeradwy, fel nawr, ac eithrio fel y caniateir ar gyfer cyflenwi'n uniongyrchol, gan y cynhyrchwr, meintiau bach o gig o ddofednod neu lagomorffiaid a ledir ar y fferm i'r defnyddiwr olaf neu i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi cig felly yn uniongyrchol i'r

defnyddiwr olaf fel cig ffres (Gweler A.5.4.5 uchod yn ymwneud â lladd meintiau bach o ddofednod a lagomorffiaid ar y fferm).

6. Mae deddfwriaeth hefyd i amddiffyn lles da byw a ffermir (anifeiliaid cig coch a dofednod) yn ystod y broses gigydda neu ladd. Pa bryd bynnag y caiff da byw felly eu cigydda (marwolaeth a achosir drwy waedu neu barlysu) neu'u lladd (marwolaeth ar unwaith), rhaid gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 (fel y'u diwygiwyd). Gorfodir hyn gan y Gwasanaeth Hylendid Cig mewn lladd-dai cymeradwy. Y tu allan i safleoedd cymeradwy h.y. ar y fferm, mae'r Rheoliadau'n cael eu gorfodi gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol. Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn drosedd i achosi neu ganiatáu cynnwrf, boen neu ddioddef heb ei eisiau i unrhyw anifail neu aderyn yn ystod y broses gigydda neu ladd. Hefyd, maent yn pennu gofyniad i bawb sy'n cynnal gweithrediadau felly i feddu ar y wybodaeth a'r medr angenrheidiol i gyflawni'r tasgau mewn modd trugarog ac effeithlon yn unol â'r Rheoliadau. Dim ond y dulliau parlysu a lladd a ganiateir sy'n cael eu pennu yn y Rheoliadau y gellir eu defnyddio. Hefyd, mae'r Rheoliadau'n pennu gofyniad ar ran fwyaf y bobl sy'n gysylltiedig â'r broses gigydda neu ladd i feddu ar drwydded, er bod nifer o eithriadau o'r gofyniad hwn. Mae'r eithriadau hyn yn cynnwys:

   (i) cigydda neu ladd anifail neu aderyn gan y perchennog at ei ddefnydd/defnydd preifat ei hun;

   (ii) defnyddio bwled rydd i ladd anifail yn y cae; a

   (iii) lladd aderyn drwy afleoli'r gwddf ar safle lle cafodd yr aderyn ei fagu.

7. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn gyfrifol am ddeddfwriaeth ar iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r Humane Slaughter Association wedi cynhyrchu taflen o'r enw 'On-farm slaughter of Livestock for Consumption'. Mae hon yn rhoi gwybodaeth fanwl ar ddeddfwriaeth ac arfer gorau i ffermwyr ar ladd mewn modd trugarog ar y fferm. Gellir gweld pwyntiau cyswllt yn Atodiad A.

I gael mwy o wybodaeth, gweler y canllaw estynedig yn:

http://www.food.gov.uk/wales/regswales/regsguid_wales/privatekillwales

**ATODIAD 5, YCHWANEGIAD 2, ATODIAD A**

***Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – Gwaredu Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid***

| | |
|---|---|
| Jon Rouse | |
| Branch B, | ffôn: 020 7904 6385 |
| BSE Division | ffacs: 020 7904 6303 |
| Area 305 | e-bost: *jonathon.rouse@defra.gsi.gov.uk* |
| 1A Page Street | |
| London SWIP 4PQ | |

***Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – Materion Iechyd a Lles Anifeiliaid***

| | |
|---|---|
| Kirk Thompson | |
| Branch D, | ffôn: 020 7904 6554 |
| Animal Welfare Division | ffacs: 020 7904 6464 |
| Area 501 | e-bost: *kirk.thompson@defra.gsi.gov.uk* |
| 1A Page Street | |
| London SWIP 4PQ | |

***Humane Slaughter Association – 'On-Farm Slaughter of Livestock for Consumption'***

| | |
|---|---|
| Tess Benson | |
| HSA | ffôn: 01582 831919 |
| The Old School | ffacs: 01582 831414 |
| Brewhouse Hill | e-bost: *info@hsa.org.uk* |
| Wheathampstead | |
| Herts AL4 8AN | |

## ATODIAD 5A: CANLLAW I SWYDDOGION GORFODI'R GYFRAITH AR FATERION BWYD HALAL

### A5A.1: Cefndir

Gair o'r Arabeg yw *Halal*, sy'n golygu 'caniataol', ac mae gair cysylltiedig yn y Qur'an, sef *Tayyab*, sy'n golygu iachus ac yn addas i fodau dynol ei fwyta. O ran bwyd sy'n dod dan gategori *Halal,* ystyr hyn yw bwyd y caiff Mwslimiaid ei fwyta yn ôl cyfraith Islam. Gwrthwyneb *Halal* yw *Haram*, sy'n golygu 'gwaharddwyd gan Dduw, afiach, brwnt'. O ganlyniad, er enghraifft, yn achos unrhyw gig na wneir yn *Halal* drwy arferion lladd Islamaidd neu sy'n debygol o achosi salwch, e.e. cig sydd wedi'i heintio ac sy'n anaddas i'w fwyta, ni ellir ei ystyried yn *Halal*. Hefyd, ni ellir ystyried bod cig yn *Halal* os yw'n hŷn na'i "farc oes cynharaf". Os gwerthir bwyd *Haram* i Fwslim, bernir bod hyn yn ddifrifol iawn, oherwydd bod hynny'n achosi iddo/i fwyta bwyd a waherddir mewn Islam ac, yn ogystal, gallai fod yn fath o dwyll.

Mae Mwslimiaid yn ystyried yr Al Qur'an fel gwir eiriau Duw fel a ddatgelwyd i'r proffwyd olaf, Muhammed, a dyma ffynhonnell wreiddiol cyfraith Islam. Yn yr Al Qur'an, mae gwaharddiadau am fwyta porc, gwaed, burgyn ac alcohol, ymysg pethau eraill. Er mwyn i gynnyrch fod yn *Halal* (cyfreithlon) i Fwslimiaid ei fwyta, a chael ei ddisgrifio fel hynny, mae'n rhaid i'r holl gynhwysion fod yn *Halal*. Mae'r angen gan Fwslimiaid i fwyd fod yn *Halal* yn berthnasol p'un a yw'r gweithredydd busnes bwyd yn paratoi, trin, prosesu, gweithgynhyrchu, pecynnu, storio, mewnforio, dosbarthu, cyflenwi, cludo neu'n gwerthu bwyd, er elw ai peidio, o ffatri, warws, siop, tŷ bwyta, fan, neuadd bentref, canolfan gymunedol neu beiriant gwerthu.

### A5A.2: Enghreifftiau o ofynion cyfraith bwyd sy'n berthnasol i ofynion *Halal*

Mae llawer yn gyffredin rhwng agweddau ar ofynion *Halal* ac agweddau ar gyfraith bwyd. Mae'n rhaid i weithredydd busnes bwyd *Halal* gydymffurfio â chyfraith bwyd a hefyd â **Shariah (Cyfraith) Islam** sy'n berthnasol i fwyd. Y canlynol yw gofynion cyfreithiau ymborth **Islam**:

- Mae'n rhaid i gig a bwydydd eraill, gan gynnwys cynhwysion bwyd fod yn *Halal*, p'un a gawsant eu cynhyrchu gartref neu eu mewnforio.
- Mae'n rhaid caffael cig o ffynonellau *Halal*, e.e. mae'n rhaid i ladd-dy fod â'r cyfleusterau a'r personél i ladd anifeiliaid yn *Halal*. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am Shariah (Cyfraith) Islam sy'n berthnasol i ladd anifeiliaid yn *Halal*, a ddarperir gan Weithgor Sefydliadau Mwslimaidd yr Asiantaeth.
- Mae'n rhaid i gig fod yn iachus a bodloni gofynion diogelwch bwyd – os yw cig yn anaddas i fodau dynol ei fwyta, ni ellir ystyried ei fod yn *Halal*, hyd yn oed os caiff yr anifail ei ladd yn y modd a bennir.

Er mwyn bod yn *Halal*:

- Mae'n rhaid i'r anifail fod yn fyw, neu ei ystyried yn fyw, ar adeg y lladd yn y lladd-dy, ac mae'n rhaid lladd yr anifail yn unol â Shariah Islam a Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 (fel y'u diwygiwyd)[42]. Mae'n rhaid lladd anifeiliaid/adar drwy dorri rhydwelïau a gwythiennau'r gwddf.
- Ni chaiff unrhyw borc neu gynhwysion porc fod yn y bwyd.

[42] O dan Reoliad 22 "Ni fydd Atodlen 2 (sy'n ymwneud â stynio neu ladd anifeiliaid) yn berthnasol i unrhyw anifail a gaiff ei ladd yn unol ag Atodlen 12 (sy'n ymwneud â lladd drwy ddull crefyddol)".

- Ni cheir defnyddio unrhyw alcohol neu gyffur meddwol arall.
- Mae'n rhaid cynhyrchu unrhyw gynnyrch anifail, fel gelatin, o anifeiliaid a gaiff eu lladd yn unol â Shariah Islam.
- Mae'n rhaid i unrhyw fraster neu gig anifail ddod o anifeiliaid a laddwyd yn unol â Shariah Islam.
- Dylid cadw unrhyw fan paratoi ac unrhyw gyfarpar yn y fath gyflwr a fydd yn atal cyswllt rhwng, halogi neu gymysgu bwyd *Halal* â bwyd nad yw'n *Halal*.

Nid yw arddangos cig *Halal* a chig nad yw'n *Halal* yn yr un eiddo yn gwneud cig *Halal* yn gig an-*Halal* fel y cyfryw. Os caiff bwyd *Haram* agored, heb ei becynnu ei storio a'i arddangos ochr yn ochr â chig *Halal*, byddai'n rhaid eu gwahanu a'u labeli'n glir. Fodd bynnag, dylid nodi oherwydd y byddai unrhyw gyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng bwyd *Halal* a *Haram* (e.e. defnyddio'r un cyllyll neu fyrddau torri etc.) yn gwneud cig a chig adar *Halal* yn *Haram,* gallai hyn fod yn anodd ei gyflawni yn ymarferol.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i labelu bwyd sy'n an-*Halal*. Os disgrifir bod rhywbeth yn "HALAL", mae'n rhaid bod yn glir ynghylch pa gynnyrch y mae'r disgrifiad yn cyfeirio ato, os yw'r busnes am beidio â bod mewn perygl o gyflawni'r drosedd o gam-ddisgrifio'r bwydydd sydd ar werth.

Ar hyn o bryd, nid oes llawer o systemau cydnabyddedig o ardystio bod bwyd penodol yn *Halal.* Fodd bynnag, mae sefydliadau Mwslimaidd penodol yn cydweithio i ddatblygu bwrdd ardystio ambarél ar gyfer bwydydd *Halal*.

Dylai swyddogion sy'n cynnal arolygiadau rheolaidd, neu sy'n mynd ar drywydd cwynion, ystyried, lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac ar wahân i faterion hylendid, gwirio a yw bwyd sy'n honni ei fod yn *Halal* yn fwyd *Halal* mewn gwirionedd. Gellid gwneud hyn, er enghraifft, mewn unrhyw raglen anffurfiol i samplu bwyd, ar gyfer cig tun, lle byddai porc mewn gig yr honnir ei fod yn gig *Halal* yn amlwg yn *Haram* i Fwslim ac y byddai'n hawdd yn torri cyfraith bwyd i ran cyfansoddiad a labelu.

Os bydd swyddogion yn amau achos o gam-ddisgrifio cig ffres, dylent gydgysylltu â'r Milfeddyg Swyddogol (MS) - drwy swyddfa berthnasol y Gwasanaeth Hylendid Cig Rhanbarthol. Gweler Atodiad 2 am restr o gysylltiadau.

I grynhoi, gofynnir i swyddogion ystyried gweithredu, lle bo'n briodol, yn erbyn gweithredwyr busnes bwyd sy'n gwerthu ac yn cam-ddisgrifio bwydydd *Halal*, yn yr un modd ag y byddent yn gwneud yn unrhyw achos o dorri cyfraith bwyd ar eiddo sy'n ymwneud â bwyd yn gyffredinol.

Cydnabyddiaeth: Mae'r Asiantaeth yn gwerthfawrogi'r help a'r cyngor a gafodd gan aelodau Gweithgor Sefydliadau Mwslimaidd yr Asiantaeth wrth lunio'r ddogfen hon.

# ATODIAD 5A, YCHWANEGIAD 1

**(Cyfraith) Shariah Islam sy'n ymwneud â lladd anifeiliaid neu adar**

Yn ddelfrydol, dylai anifeiliaid ac adar fod wedi eu magu mewn amgylchedd naturiol.

- Ni ddylai eu bwyd gynnwys cynnyrch anifeiliaid.
- Mae'n rhaid gofalu am anifeiliaid ac adar mewn ffermydd neu walfeydd yn gywir. Mae'n rhaid rhoi bwyd a diod iddynt cyn eu lladd.
- Mae'n rhaid iddynt gael archwiliad cyn eu lladd er mwyn i anifeiliaid iach yn unig gael eu lladd.
- Yn y lladd-dy, ni chaiff anifeiliaid weld anifeiliaid eraill yn cael eu lladd, ac ni chânt weld gwaed. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid glanhau'r ardal cyn lladd yr anifail nesaf.
- Ni chaniateir unrhyw greulondeb i anifeiliaid neu adar ar unrhyw adeg.
- Mae'n rhaid i'r lladdwr fod yn Fwslim sydd wedi'i hyfforddi a'i drwyddedu'n briodol.
- Mae'n rhaid lladd pob anifail mewn lladd-dy â thrwydded.
- Dylid osgoi lleoedd lle caiff moch eu lladd.
- Mae'n rhaid i'r lladdwr ddefnyddio cyllell finiog (na cheir ei miniogi yng ngŵydd yr anifail). Mae'n rhaid iddo dorri gwythiennau a rhydwelïau'r gwddf, yn ogystal â'r sefnig a'r tracea, ond nid madruddyn y cefn oherwydd bod hyn yn cyfyngu ar gonfylsiwn sydd yn ei dro, yn atal y gwaed rhag cael ei ryddhau.
- Ar adeg y lladd, mae'n rhaid iddo ynganu *Bismillah Allahu Akbar* (Yn enw Duw, Duw yn y Goruchaf) gyda phob un anifail neu aderyn.
- Mae'n rhaid cydymffurfio â rheoliadau hylendid cig a hylendid cyffredinol bob amser.
- Ni cheir defnyddio yn fwyd i fodau dynol unrhyw garcasau y'u ceir yn anaddas mewn archwiliad post-mortem.

D.S. Cynhwysir hyn er gwybodaeth

# ATODIAD 5A, YCHWANEGIAD 2

## RHESTR CYSYLLTIADAU RHANBARTHOL Y GHC

| | | |
|---|---|---|
| **Rhanbarth Gogledd Lloegr**<br>(ymwneud â GDd Lloegr, Swydd Gaerhirfryn, Swydd Efrog a Humberside) | Ffôn:<br>Ffacs: | 01904 455685<br>01904 455539 |
| **Rhanbarth Canolbarth Lloegr**<br>(ymwneud ag o Swydd Gaer i East Anglia) | Ffôn:<br>Ffacs: | 01902 693396<br>01902 693337 |
| **Rhanbarth De a Gorllewin Lloegr**<br>(ymwneud ag o Gernyw i Gaint ac i'r gogledd i Swydd Rydychen) | Ffôn:<br>Ffacs: | 01823 330066<br>01823 332549 |
| **Rhanbarth Cymru**<br>(gan gynnwys Swydd Amwythig a Henffordd/Caerwrangon) | Ffôn:<br>Ffacs: | 02920 647800<br>02920 647808 |
| **Rhanbarth yr Alban**<br>(gan gynnwys Gogledd Cumbria) | Ffôn:<br>Ffacs: | 0131 244 8441<br>0131 244 8442 |

# ATODIAD 6: MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW

## A.6.1: Cyflwyniad

Mae'r Atodiad hwn yn cynnig canllaw penodol i Awdurdodau Bwyd i weithredu a gorfodi'r agweddau sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog yn Rheoliadau 852/2004, 853/2004 ac 854/2004. Yn unol ag Atodiad III, Adran VII(1) yn Rheoliadau 853/2004, mae cyfeiriadau at folysgiaid dwygragennog byw yn yr Atodiad hwn hefyd yn cynnwys echinodermau byw, tiwnigogion a gastropodau'r môr, ac eithrio canllawiau i'r ddarpariaeth ar gyfer puro molysgiaid dwygragennog byw.

## A.6.2: Eithrio Marchnadoedd Lleol

Yn unol ag Erthygl 1(3)(c), nid yw Rheoliad 853/2004 yn berthnasol i gyflenwi symiau bychain o folysgiaid dwygragennog byw yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol nac i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol. O ran molysgiaid dwygragennog byw, dylid ystyried bod swm bychan yn gyfanswm o ddim mwy na 25 tunnell mewn blwyddyn galendr. Gall y cyfanswm hwn gynnwys unrhyw rywogaeth, yn amodol ar derfynau uchaf ar gyfer rhywogaethau unigol, fel y nodir yn y tabl isod:

## A.6.3: Tabl

| **Rhywogaeth** | **Cyfanswm blynyddol uchaf** |
|---|---|
| Cocos | 25.0 tunnell |
| Wystrys | 5.0 tunnell |
| Cregyn y Brenin | 5.0 tunnell |
| Cregyn y Frenhines | 10.0 tunnell |
| Cregyn Gleision | 20.0 tunnell |
| Molysgiaid Dwygragennog Byw eraill | 10.0 tunnell |
| Gastropodau'r Môr | 20.0 tunnell |

Er nad yw Rheoliad 853/2004 yn berthnasol i'r lwfans hwn, cyfrifoldeb y casglwr, serch hynny, yw sicrhau bod y molysgiaid dwygragennog byw yn bodloni'r safonau penodedig ar gyfer rhoi cynnyrch terfynol ar y farchnad. Mae'n rhaid i unrhyw swm o'r daliad sy'n cynnwys molysgiaid dwygragennog byw darddu o ardal dosbarth 'A', sy'n dynodi bod y cynnyrch yn addas i'w roi ar y farchnad heb unrhyw driniaeth bellach.

## A.6.4: Triniaeth â Gwres

Mae molysgiaid dwygragennog byw sy'n barod i'w rhoi drwy broses gymeradwy i'w trin â gwres neu drwy brosesau eraill, e.e. rhewi, yn amodol ar ofynion Rheoliad 853/2004 sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw hyd at yr adeg pan fydd y prosesu'n dechrau mewn sefydliad cymeradwy. Ar ôl y pwynt hwnnw, fe'u hystyrir yn gynhyrchion pysgodfa.

Caiff y rheolaethau y mae'n rhaid eu harfer dros unrhyw broses i drin molysgiaid dwygragennog byw â gwres o ardaloedd Dosbarth B neu Ddosbarth C eu cyflwyno yn Atodiad III, Adran VII, Pennod II A (5) yn Rheoliad 853/2004.

## A.6.5: Trefniadau Cydgysylltu ar Bysgod Cregyn

Swyddog cydgysylltu ar bysgod cregyn yr Awdurdod Bwyd fydd man cyswllt cyntaf yr Asiantaeth o ran materion anrheolaidd sy'n ymwneud â gorfodi'r Rheoliadau.

Er mwyn gorfodi'r Rheoliadau'n effeithiol, mae'n hanfodol i Awdurdodau Bwyd ffiniol, gan gynnwys Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, yng Nghymru a Lloegr, gynnal trefniadau cydgysylltu effeithiol.

Dylai pob Awdurdod Bwyd yng Nghymru a Lloegr sydd mewn ardaloedd lle mae gweithgareddau masnachol i gasglu molysgiaid dwygragennog byw, gynnal, cyfranogi mewn, a bod â chynrychiolaeth ar grŵp cydgysylltu lleol ar bysgod cregyn.

Hefyd, dylai pob grŵp cydgysylltu lleol ar bysgod cregyn gynnwys cynrychiolwyr sefydliadau lleol a chenedlaethol perthnasol eraill, gan gynnwys Prif Swyddog Pysgodfeydd y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr DEFRA a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd (neu gynrychiolydd y labordy microfioleg a ddefnyddir gan yr Awdurdodau Bwyd os nad yw'n labordy ADI).

Dylai grwpiau cydgysylltu lleol ar bysgod cregyn ystyried cynnal cyfarfodydd cyfnodol ag aelodau'r diwydiant pysgod cregyn lleol, yn enwedig os oes trafferthion ynghylch gorfodi neu ddadansoddi'r Rheoliadau.

Dylai swyddogaethau'r grŵp cydgysylltu gynnwys:

- Nodi ardaloedd lleol i gyfnewid molysgiaid dwygragennog byw (os oes rhai) (gweithio gyda'r diwydiant);
- Cynlluniau samplu ar y cyd i fonitro ansawdd molysgiaid dwygragennog byw o ardaloedd penodedig (ac ardaloedd cynhyrchu newydd);
- Trefniadau i gyhoeddi dogfennau cofrestru;
- Trefniadau i wneud Hysbysiadau Cau sy'n ymwneud â dyfroedd o fwy nag un ardal Awdurdod Bwyd;
- Trefniadau i rwystro/galw yn ôl molysgiaid dwygragennog a effeithiwyd gan unrhyw Hysbysiad Cau;
- Gweithdrefnau hysbysu lleol effeithiol i gynghori partïon sydd â diddordeb ar gamau gweithredu o dan y Rheoliadau (os oes angen hysbysu o'r fath yn ôl y Rheoliadau);

- Cydlynu gweithdrefnau monitro lleol i sicrhau cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau.

## A.6.6: Hysbysu am Ardaloedd Penodedig i Gynhyrchu Molysgiaid Dwygragennog Byw (MDB) ac Ardaloedd i'w Cyfnewid

Bydd yr Asiantaeth yn darparu rhestr o ardaloedd penodedig i gynhyrchu ac i gyfnewid molysgiaid dwygragennog byw i Awdurdodau Bwyd bob blwyddyn a, lle bo angen hynny, ychwanegiadau a newidiadau i'r rhestr yn ystod y flwyddyn.

Dylai Awdurdodau bwyd anfon manylion perthnasol am ardaloedd penodedig i gynhyrchu MDB ac ardaloedd cyfnewid cymeradwy ymlaen at aelodau o'r diwydiant pysgod cregyn lleol, gan gynnwys casglwyr, trinwyr, gweithredwyr dosbarthu a chanolfannau puro ac unigolion a sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y dynodiad o ardaloedd cynhyrchu molysgiaid dwygragennog byw ac ardaloedd cyfnewid cymeradwy.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i'r Asiantaeth ail-ddynodi ardal cynhyrchu molysgiaid dwygragennog. Pryd bynnag y gwneir hyn, rhoddir gwybod i'r Awdurdodau Bwyd perthnasol. Dylai Awdurdodau Bwyd anfon pob gwybodaeth gyhoeddus sy'n ymwneud ag ail-ddynodi ardaloedd cynhyrchu ymlaen at aelodau'r diwydiant pysgod cregyn lleol fel y disgrifir uchod.

## A.6.7: Monitro Dogfennau Cofrestru

Dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol o'r manteision masnachol sydd i gamddefnyddio gweithdrefn y ddogfen gofrestru, e.e. drwy awgrymu bod molysgiaid dwygragennog byw wedi cael eu cymryd o ddyfroedd sy'n cynhyrchu molysgiaid sydd o ansawdd microfiolegol gwell.

Nid oes modd i Awdurdodau Bwyd fonitro pob un llwyth yn eu hardaloedd, nac i ganfod achosion o gamddefnyddio'r dogfennau cofrestru drwy ganolbwyntio adnoddau ar y mater hwn.

System briodol i fonitro llwythi a ddisgrifir fel ardaloedd dosbarth A, B ac C yw cymryd samplau ac ystyried canlyniadau'r prawf yn erbyn y safonau y cyfeirir atynt yn Atodiad III, Adran VII ym Mhennod V yn Rheoliad 853/2004. Ar nodyn gofalus, dylid sylweddoli y gall monitro *E. coli* mewn pysgod cregyn mewn unrhyw un ardal gynhyrchu roi canlyniadau amrywiol sylweddol, dros dro a thros gyfnod, oherwydd ffactorau amgylcheddol ac eraill, e.e. gallai ardaloedd dosbarth C ar brydiau roi canlyniadau unigol <230 *E.coli*/100g (oherwydd hyn, mae'r dosbarthiadau wedi'u seilio ar ddata cyfres amser yn hytrach na chanlyniadau unigol). Felly, ni ddylid ystyried bod sampl llwyth sy'n rhoi un canlyniad sy'n bodloni gofynion categori dosbarthiad penodol yn dystiolaeth derfynol y deilliodd y llwyth o'r un dosbarth o ardaloedd cynhyrchu.

Bydd Awdurdodau Bwyd yn cael bod cydgysylltu ag arolygiaethau statudol eraill, e.e. Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr lleol, yn ddefnyddiol wrth fonitro casglu molysgiaid dwygragennog byw a physgod cregyn eraill.

Mae'n rhaid rhoi stamp dyddiad ar y ddogfen gofrestru o ran pob un llwyth o bysgod cregyn pan gaiff y llwyth ei anfon at ganolfan ddosbarthu, canolfan buro, ardal gyfnewid neu ffatri brosesu gan weithredydd y ganolfan neu'r ardal. Mae'n ofynnol i weithredwyr gadw dogfennau cofrestru am 12 mis o leiaf. Mae'n ofynnol ar gasglwyr hefyd gadw copi o ddogfennau symud a lenwyd am yr un cyfnod.

### A.6.8: Samplu gan Weithredwyr

Dylai gweithredwyr canolfannau puro / dosbarthu cymeradwy gael trefniadau labordy digonol hefyd er mwyn sicrhau bod molysgiaid dwygragennog byw yn cydymffurfio â'r safonau iechyd y cyfeirir atynt yn Atodiad III, Adran VII, Pennod V yn Rheoliad 853/2004.

Dylai swyddogion fod yn ymwybodol nad yw'r Rheoliadau'n pennu pa mor aml y dylid cynnal y profion microfiolegol hyn.

Wrth bennu pa lefel o samplu sy'n briodol, dylai Awdurdodau Bwyd ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan yr Asiantaeth neu gan LACORS neu sydd wedi'i gynnwys mewn canllawiau gwirfoddol a luniwyd gan gymdeithasau masnach perthnasol.

### A.6.9: Labordai a Ddefnyddir mewn Cysylltiad â Chanolfannau Dosbarthu neu Buro

Mae'n rhaid i labordai a ddefnyddir gan weithredwyr canolfannau dosbarthu neu buro i archwilio samplau i ddiwallu eu hymrwymiadau o dan Atodiad III, Adran VII, Pennod V yn Rheoliadau 853/2004 gael eu cydnabod gan yr Awdurdod Bwyd. Gall cysylltiad uniongyrchol fod rhwng y labordy a'r ganolfan gymeradwy, neu gall fod yn Archwilydd Bwyd o'r Asiantaeth Diogelu Iechyd (ADI), neu'n unrhyw labordy priodol arall.

Fodd bynnag, bydd cydnabyddiaeth gan yr Awdurdod Bwyd yn amodol ar i'r labordy ddefnyddio dulliau archwilio microfiolegol sy'n dderbyniol i'w Asiantaeth. Mae'r dull cydnabyddedig presennol wedi'i atodi i'r papur o'r enw "Modification of the standard method used in the United Kingdom for counting *Escherichia coli* in live bivalve molluscs", a gyhoeddwyd yng Nghyfrol 1 Communicable Disease and Public Health ar 3 Medi 1998. Hefyd, efallai bydd Awdurdodau Bwyd am ystyried a gaiff y labordy ei achredu / a ddylid achredu'r labordy ar gyfer y dull(iau) perthnasol ac am gymryd rhan mewn cynllun sicrhau ansawdd allanol cydnabyddedig, fel y cynhelir gan yr ADI. Mae'r dull presennol a bennir yn y Rheoliad yn brawf Rhif Mwyaf Tebygol pum tiwb, tri gwanediad.

### A.6.10: Samplu Molysgiaid Dwygragennog Byw gan Awdurdodau Bwyd

Dylid anelu samplu gan Awdurdodau Bwyd at wirio canlyniadau profion a gynhelir gan gynhyrchwyr a gweithredwyr canolfannau. Dylid dilyn canlyniadau profion sy'n anghyson â'r rhain a ddangosir yng nghofnodion y ganolfan ei hun ag archwiliadau a phrofion eraill.

## A.6.11: Gwybodaeth am Safonau i'w Gweithredu

Mae gwybodaeth am y manylion sy'n ofynnol gan y Rheoliadau i'w chael mewn cyfres o lawlyfrau gweithredu ar gyfer y gwahanol fathau o systemau puro a ddefnyddir yn y DU, ac mewn dogfen ganllaw bellach "Procedures to Minimise Risks to Food Safety in Bivalve Mollusc Purification" a gyhoeddwyd gan Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr (Seafish). Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys argymhellion a fwriadwyd i helpu proseswyr pysgod cregyn i gyrraedd safonau uchel, yn ogystal â chydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb. Mewn rhai achosion, mae'r canllaw yn gwneud argymhellion ar gyfer arferion da yn y diwydiant, sydd y tu hwnt i ofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar Wefan Seafish, www.seafish.org.

Gall Awdurdodau Bwyd gyfeirio at y canllawiau i sicrhau agwedd gyson at ofynion y Rheoliadau, ond dylent osgoi defnyddio, i gefnogi gweithredu ffurfiol i orfodi, y rhannau hynny a dargedir at gyflawni arfer da yn y diwydiant a safonau uchel.

## A.6.12: Molysgiaid a Physgod Cregyn Eraill sy'n Methu â Bodloni'r Gofynion

Yn unol â Rheoliad 27 yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, gellir trin unrhyw folysgiaid dwygragennog byw neu bysgod cregyn eraill na chynhyrchwyd, na phroseswyd neu na ddosbarthwyd yn unol â'r Rheoliadau, at ddibenion Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel eu bod yn methu cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd a gellir eu meddiannu a'u dwyn o flaen Ynad Heddwch i'w condemnio, gan weithredu Cyfarwyddeb 91/67/EEC ar yr amodau iechyd anifeiliaid sy'n rheoli rhoi anifeiliaid a chynhyrchion acwafeithrin ar y farchnad.

## A.6.13: Trosglwyddo Molysgiaid Had i Ardaloedd Cynhyrchu Penodedig

Gellir trosglwyddo molysgiaid dwygragennog byw i ardaloedd nad ydynt wedi'u neilltuo fel ardaloedd cynhyrchu i'w "tyfu ymlaen" o fewn ardal gynhyrchu o unrhyw Ddosbarth. Mae'n rhaid i folysgiaid o'r fath fod yn "bysgod cragen had" go iawn. Mewn pysgodfeydd a reoleiddir at ddibenion cadwraeth o dan Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967, dim ond â chymeradwyaeth deiliad y Gorchymyn Rheoleiddio ar gyfer y bysgodfa honno y gellir trosglwyddo.

Caniateir trosglwyddo "pysgod cregyn molysgaidd dwygragennog had", h.y. molysgiaid dwygragennog anaeddfed a gymerwyd o ardal ddi-ddosbarth, i'w defnyddio i hau ardal gynhyrchu sydd â dosbarth, gyhyd ag y bônt yn aros yn yr ardal gynhyrchu benodedig am gyfnod nad yw'n llai na chwe mis cyn iddynt gael eu casglu i'w bwyta gan bobl. Nid yw hyn yn caniatáu symud pysgod cregyn molysgaidd dwygragennog aeddfed neu sydd wedi hanner datblygu o ardal ddi-ddosbarth i'w tyfu ymhellach am gyfnod byr cyn eu marchnata. Mae wedi'i gyfyngu i hau ardaloedd newydd neu ail-hau ardaloedd cynhyrchu sy'n bodoli eisoes â dosbarth. Os caiff ardaloedd newydd eu hau, mae'n rhaid pennu eu dosbarth cyn y ceir casglu. Dylai casglwyr roi gwybod i'r Awdurdod Bwyd perthnasol os ystyrir unrhyw weithredu o'r fath.

## A.6.14: Hysbysiadau Cau (cau ardaloedd casglu dros dro)

(Gweler Pennod 5.3 yn y Cod Ymarfer yn ogystal)

Argymhellir y dylai'r Awdurdod Bwyd gyhoeddi Hysbysiad Cau fel ffordd briodol o hysbysu partïon sydd â diddordeb lle bo'n fodlon y bydd bwyta rhywogaethau y mae'r Rheoliad yn ymdrin â hwy ac sydd wedi'u casglu o'r ardal yn debygol o fod yn beryglus i iechyd y cyhoedd. Gellid ystyried bod Hysbysiad Cau yn briodol os oedd yr ardal benodedig i gynhyrchu molysgiaid, er enghraifft, yn agored i lygredd sydyn neu ddamweiniol a effeithiodd ar ansawdd yr ardal gynhyrchu. Gallai defnyddio Hysbysiad Cau fod yn briodol hefyd pan fo problem leol gyda llygredd amgylcheddol a achosir gan lygriad cemegol neu blancton sy'n cynhyrchu tocsinau.

Fe allai fod amgylchiadau hefyd lle byddai'n briodol i'r Awdurdod Bwyd ystyried ceisio barn arbenigwyr priodol fel yr ymgynghorydd ar reoli clefydau trosglwyddadwy a'r microfiolegydd ymgynghorol yn yr ADI.

Mae Hysbysiad Cau patrymol yn Atodiad 9 yn y Cod Ymarfer.

**ATODIAD 6, YCHWANEGIAD 1: Nodyn Arweiniad i Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr – Molysgiaid Dwygragennog Byw / Pysgod Cregyn**

## NODYN ARWEINIAD I AWDURDODAU BWYD YNG NGHYMRU A LLOEGR

## MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW / PYSGOD CREGYN

**<u>MYNEGAI</u>**

<u>Cymeradwyo Sefydliadau</u>

1. Pryd mae angen i gasglwr neu driniwr pysgod cregyn ystyried dod yn ganolfan ddosbarthu gymeradwy?

2. A gaiff marchnadoedd mewndirol fod yn ganolfannau dosbarthu?

3. A oes angen rhifau cymeradwyo ar wahân er mwyn canolfannau dosbarthu a phuro sy'n gweithredu o'r un safle?

4. Pa leoliadau a ystyrir yn addas ar gyfer canolfannau dosbarthu a phuro?

5. A oes angen gallu gwahaniaethu'n ffisegol rhwng ardal waith y ganolfan ddosbarthu ac ardal waith y ganolfan buro, lle caiff y ddau weithgaredd eu cynnal ar yr un eiddo?

<u>Dogfennau cofrestru</u>

6. A gaiff Awdurdod Bwyd anfon dogfennau cofrestru at ddosbarthwyr pysgod cregyn yn ardal Awdurdod Bwyd arall?

<u>Nodau Adnabod</u>

7. Os yw canolfan ddosbarthu'n gwerthu pysgod cregyn byw i ddefnyddwyr unigol ar sail adwerthu, a oes angen defnyddio'r nod adnabod gyda phob gwerthiant?

<u>Pysgod Cregyn Had</u>

8. Beth yw'r cyfnod byrraf ar gyfer tyfu cregyn gleision had ymlaen cyn y gellir eu casglu i'w bwyta gan bobl?

## Cymeradwyo Sefydliadau

**1. Pryd mae angen i gasglwr neu driniwr pysgod cregyn ystyried dod yn ganolfan ddosbarthu gymeradwy?**

Mae Atodiad 1(2) yn Rheoliad 853/2004 yn diffinio canolfan ddosbarthu fel 'unrhyw sefydliad mewndirol neu ar y môr ar gyfer derbyn, trin, golchi, glanhau, graddio, rhwymo a phecynnu molysgiaid dwygragennog byw sy'n addas i bobl eu bwyta.' Mae'n rhaid i bob canolfan ddosbarthu fod wedi'i chymeradwyo. Oherwydd yr ystyrir bod llongau pysgota yn rhan o'r cynhyrchu cynradd, nid oes yn rhaid cymeradwyo llongau pysgota ar gyfer golchi a graddio molysgiaid dwygragennog byw ar y môr. Serch hynny, mae angen cofrestru llongau pysgota.

Mae Atodiad III, Adran VII, Pennod I yn Rheoliad 853/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob molwsg dwygragennog byw y bwriedir ei roi ar y farchnad fynd at y farchnad drwy ganolfan ddosbarthu. Yn y ganolfan ddosbarthu, cânt eu rhwymo, cânt nod adnabod, a chânt eu samplu. Nid oes angen i'r ganolfan ddosbarthu fod ar y draethlin, ond gallai fod cryn bellter i ffwrdd, mewn Aelod-Wladwriaeth arall hyd yn oed.

**2. A gaiff marchnadoedd mewndirol fod yn ganolfannau dosbarthu?**

Cânt. Byddai angen i'r farchnad fodloni'r amodau cymeradwyo yn yr un modd â chanolfannau dosbarthu eraill. Nid oes angen cymeradwyo marchnad fel canolfannau dosbarthu er mwyn galluogi marchnadoedd i ddadrwymo pecynnau o bysgod cregyn byw a anfonwyd eisoes o ganolfan ddosbarthu ac i rannu'r pecynnau i'r gwerthu i adwerthwyr neu ddefnyddwyr.

**3. A oes angen rhifau cymeradwyo ar wahân er mwyn canolfannau dosbarthu a phuro sy'n gweithredu o'r un safle?**

Nac oes. Os yw'r ddau ar yr un safle, dylid defnyddio'r un rhif ar gyfer y ganolfan ddosbarthu a'r ganolfan buro. Ni chaiff gwahanol ôl-ddodiaid (D a PC) eu defnyddio bellach i wahaniaethu rhwng canolfannau dosbarthu a phuro.

**4. Pa leoliadau a ystyrir yn addas ar gyfer canolfannau dosbarthu a phuro?**

Mae Rheoliad 853/2004, Atodiad III, Adran VII, Pennod III yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau dosbarthu a phuro gael eu lleoli ar dir nad yw'n agored i lifogydd yn sgil pen llanw arferol neu ddŵr ffo o ardaloedd cyfagos.

**5. A oes angen gallu gwahaniaethu'n ffisegol rhwng ardal waith y ganolfan ddosbarthu ac ardal waith y ganolfan buro, lle caiff y ddau weithgaredd eu cynnal yn yr un eiddo?**

Byddai'r angen i wahanu pysgod cregyn byw glân oddi wrth rai llygredig yn pennu hyn. Byddai hefyd er lles i'r busnes i fod ag ardaloedd gwahanol, pe byddai camau gweithredu gorfodi naill ai ar y ganolfan ddosbarthu neu'r ganolfan buro. Mewn ffatrïoedd bychain, mae hyn yn amodol ar asesiad risg gan yr Awdurdod Bwyd.

## Dogfennau cofrestru

**6. A gaiff Awdurdod Bwyd anfon dogfennau cofrestru at ddosbarthwyr pysgod cregyn yn ardal Awdurdod Bwyd arall?**

Fel rheol, yr Awdurdod Bwyd sydd â chyfrifoldeb dros yr ardal gasglu ddylai anfon dogfennau cofrestru. Mae hyn yn sicrhau y gellir rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol i gasglu i'r casglwyr. Fodd bynnag, gall Awdurdod Iechyd ganiatáu i gasglwyr wneud cais iddo am ddogfennau cofrestru ar gyfer casglu yn ardal Awdurdod Bwyd arall. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r ddau Awdurdod Bwyd gydgysylltu ynghylch dogfennau cofrestru a sicrhau bod y trefniadau'n gweithio'n effeithiol er mwyn helpu'r diwydiant ac osgoi camddefnyddio. Fel rheol, dylid cyfyngu trefniadau rhyngawdurdod fel hyn i Awdurdodau Bwyd sy'n ffinio.

## Nodau Adnabod

**7. Os yw canolfan ddosbarthu'n gwerthu pysgod cregyn byw i ddefnyddwyr unigol ar sail adwerthu, a oes angen defnyddio'r nod adnabod gyda phob gwerthiant?**

Fel rheol, nid yw Rheoliad 853/2004 yn berthnasol i adwerthu. O dan y rheoliad hwn, dim ond gofyniad sydd i nodau adnabod fynd gyda chyflenwadau o bysgod cregyn byw cyn eu hadwerthu. Ar ôl gwerthu pysgod cregyn byw, dylai'r adwerthwr gadw copi o'r ddogfen gofrestru am 12 mis o leiaf, neu gyhyd ag y bo'n ofynnol gan yr awdurdod cymwys. Felly, os yw canolfan ddosbarthu'n gweithredu fel adwerthwr, gall cadw cofnodion o ddosbarthu llwythi o bysgod cregyn byw drwy'r man adwerthu fod yn ddigon. Mae'r safbwynt hwn yn debyg ar gyfer pysgod cregyn byw a werthir drwy'r post.

## Pysgod Cregyn Had

**8. Beth yw'r cyfnod byrraf ar gyfer tyfu cregyn gleision had ymlaen cyn y gellir eu casglu i'w bwyta gan bobl?**

Y cyfnod byrraf ar gyfer tyfu cregyn gleision had go iawn ymlaen yw chwe mis.

## ATODIAD 6, YCHWANEGIAD 2: Dogfen Gofrestru Batrymol

---

**DOGFEN GOFRESTRU**
**MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW / PYSGOD CREGYN BYW**

(Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 – Erthygl 7 / Atodiad III, Adran VII, Pennod I)

---

Rhif Dogfen Gofrestru…………………………………………………………………………………………………..

Cyhoeddwyd gan: ……………………………………………………………….

Dyddiad Cyhoeddi: …………………………………………………………..

Enw'r casglwr

Llofnod y casglwr

……………………………………………………………………………………………………………………

Awdurdod Bwyd lle glaniodd y pysgod cregyn

Cyfeiriad y casglwr

……………………………………………………………………………………………………………………

Dyddiad casglu

Lleoliad yr ardal gynhyrchu [disgrifiad mor fanwl â phosibl] ac, os molysgiaid dwygragennog byw ydynt, dosbarth yr ardal gynhyrchu (A, B* neu C*)

……………………………………………………………………………………………………………………

Enw rhywogaeth y pysgod cregyn a symudir (enw cyffredin a gwyddonol) a swm y pysgod cregyn a symudir

Y cyrchnod ac (os yw'n berthnasol) rhif cymeradwyo

……………………………………………………………………………………………………………………

*Pan fydd pysgod cregyn yn tarddu o ardal gynhyrchu dosbarth B neu C:

Ardal gyfnewid ..……...……………………………………………………………………………………

Hyd y cyfnod cyfnewid ………………………………………………………………………………………

NEU

Cyfeiriad y Ganolfan Buro

……………………………………………………………………………………………………………………

Dyddiad Derbyn …………………………………………………

Lle y Derbyniwyd ………………………………………………..

[Dyddiad y Llofnod] …………………………………………….

**NODYN ATGOFFA – Mae'n rhaid i'r person sy'n derbyn y pysgod cregyn gadw'r ddogfen hon am gyfnod nad yw'n llai na 12 mis ac mae'n rhaid i'r casglwr gadw copi am yr un cyfnod.**

# ATODIAD 7: CYNHYRCHION PYSGODFEYDD

## A.7.1: Cyflwyniad

Mae'r Atodiad hwn yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Bwyd ar weithredu a gorfodi agweddau ar Reoliadau 852/2004, 853/2004 ac 854/2004 sy'n ymwneud â chynhyrchion pysgodfeydd.

## A.7.2: Awdurdod Cymwys

Yr Asiantaeth yw awdurdod cymwys canolog y DU sydd â chyfrifoldeb arwain dros y Rheoliadau hyn.

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau hylendid bwyd yr UE ar lefel leol, ac felly nhw sy'n cymeradwyo sefydliadau cynhyrchion pysgodfeydd, yn cofrestru marchnadoedd penodol a llongau pysgota, ac fel arall yn gorfodi Rheoliadau hylendid bwyd yr UE.

## A.7.3: Cwmpas Cymeradwyo

Nid yw'r Rheoliadau'n berthnasol i adwerthu os na nodir hynny'n benodol. Fodd bynnag, byddent yn berthnasol i weithrediadau a gynhelir i gyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd i sefydliadau eraill.

Mae angen i ocsiynau a marchnadoedd cyfanwerthu gael cymeradwyaeth a dylid eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion hylendid a thymheredd ac yn amodol i Reoliad 853/2004 Atodiad III Adran VIII Pennod II.

## A.7.4: Cyflenwi Symiau Bychain o Gynhyrchion Pysgodfeydd yn Uniongyrchol

Nid yw'r Rheoliadau'n berthnasol i gyflenwi symiau bychain o gynhyrchion pysgodfeydd (h.y. cynhyrchion cynradd) yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau adwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol. At ddibenion cynhyrchion pysgodfeydd (heb gynnwys molysgiaid dwygragennog byw) cyfanswm o ddim mwy na 25 tunnell o gynhyrchion pysgodfeydd mewn blwyddyn galendr yw swm bychan. Er nad yw'r Rheoliadau'n berthnasol i'r lwfans hwn, cyfrifoldeb y casglwr, serch hynny, yw sicrhau bod y cynhyrchion hyn yn bodloni'r safonau penodedig ar gyfer cynnyrch terfynol ar gyfer rhoi'r cynhyrchion pysgodfeydd hyn ar y farchnad. Mae'n rhaid i unrhyw swm o'r daliad sy'n cynnwys molysgiaid dwygragennog byw darddu o ardal dosbarth 'A', sy'n dynodi bod y cynnyrch yn addas i'w roi ar y farchnad heb unrhyw driniaeth bellach.

## A.7.5: Amodau yn ystod ac ar ôl Glanio

Un o'r mesurau ar iechyd y cyhoedd ac ansawdd yn y Rheoliadau yw archwilio a phrofi yn gyfnodol pa mor addas yw pysgod i'w bwyta gan bobl ar yr adeg pan fyddant yn glanio neu cyn eu gwerthu y tro cyntaf. Os caiff cynhyrchion

pysgodfeydd eu gwerthu mewn marchnad sy'n gysylltiedig â'r glanio, dylid cynnal yr archwiliadau hyn mewn lle yn y neuadd ocsiwn honno neu yn y farchnad gyfanwerthu, Fel rheol, ni ddylid bod angen cynnal unrhyw archwiliadau ar adeg glanio. Fel arfer, byddai archwiliad organoleptig ar gynhyrchion y bysgodfa yn bodloni'r gofyniad hwn.

Gall Awdurdod Bwyd awdurdodi trosglwyddo cynhyrchion pysgodfa o'r man glanio (cyn-gei) i gynhwysyddion i'w dosbarthu ar unwaith i sefydliad cymeradwy neu ocsiwn neu farchnad gyfanwerthu er mwyn cynnal y profion yno. Fel arfer ni ddylid bod angen trefniadau arbennig gyda'r Awdurdod Bwyd sy'n derbyn er mwyn gohirio profion i'w cynnal yn hwyrach mewn ocsiwn neu farchnad gyfanwerthu.

Fodd bynnag, i ohirio profion i sefydliad cymeradwy, mae'n rhaid cydgysylltu â'r Awdurdod Bwyd sy'n derbyn a chael eu cydsyniad, ac mae'n rhaid ystyried hanes y sefydliad sy'n derbyn o gydymffurfio a'r hyder yn ei reolwyr. Dylid tynnu awdurdod ar gyfer profion o'r fath yn ôl os oes unrhyw amheuaeth o anghydffurfio â gofynion y Rheoliadau.

Os bydd archwiliad organoleptic ar unrhyw gynnyrch yn codi amheuon ynghylch pa mor ffres yw'r cynnyrch, gall yr Awdurdod Bwyd ystyried cyflwyno'r cynnyrch ar gyfer dadansoddiad cemegol neu archwiliad microfiolegol.

O ran glanio pysgod ffres, cynhelir profion sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau heb ddylanwadu ar brofion eraill a allai fod yn ofynnol o dan reoliadau safonau marchnata'r CE gan asiantaethau statudol eraill.

Dylai swyddogion awdurdodedig, lle bo angen, gydgysylltu ag arolygwyr statudol eraill, e.e. Arolygiaeth Pysgodfeydd Môr DEFRA, neu Asiantaeth Gwarchod Pysgod yr Alban (SFPA) er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau gorfodi a gymerir yn briodol.

## A.7.6: Gwybodaeth am Safonau i'w Gweithredu

Gellir cael canllawiau ar ofynion y Rheoliadau gan Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr (Seafish).

Gall Awdurdodau Bwyd gyfeirio at y canllaw wrth sefydlu agwedd gyson at ofynion y Rheoliadau. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ofalus ac osgoi defnyddio, wrth gefnogi camau gorfodi ffurfiol, y rhannau hynny o ganllaw Seafish a fwriedir i gyflawni arfer da yn y diwydiant a safonau uchel.

**ATODIAD 7, YCHWANEGIAD 1: Nodyn Arweiniad i Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr – Cynhyrchion Pysgodfeydd**

## NODYN ARWEINIAD I AWDURDODAU BWYD YNG NGHYMRU A LLOEGR

## CYNHYRCHION PYSGODFEYDD

**MYNEGAI**


**Cymeradwyo Sefydliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd: Cyffredinol**

1. Pa sefydliadau sy'n trin cynhyrchion pysgodfeydd y mae'n ofynnol eu cymeradwyo o dan Reoliad 853/2004?

2. Beth yw'r gofynion o ran ffurf a rhoi nodau adnabod?

3. Os bydd perchnogaeth sefydliad cymeradwy yn newid, a oes angen i'r gweithredydd busnes bwyd newydd wneud cais am gymeradwyaeth ac a oes angen ailasesu'r busnes?

4. Pan fo'r Rheoliadau'n cyfeirio at ddyfeisiau cofnodi tymheredd, a yw hyn yn golygu y gellir cymryd a chofnodi darlleniadau â llaw?

**Diffiniadau 'Adwerthu' a 'Cwsmer Terfynol'**

5. Beth yw 'adwerthu'?

6. Pwy yw'r 'defnyddiwr terfynol'?

**Neuaddau Ocsiwn a Marchnadoedd Cyfanwerthu**

7. A oes angen cymeradwyo neuaddau ocsiwn a marchnadoedd cyfanwerthu?

8. A oes angen cymeradwyo stondinau / unedau unigol o fewn neuaddau ocsiwn a marchnadoedd cyfanwerthu?

9. A allai cyfleusterau fel basnau ymolchi a thoiledau fod yn gyfunol i sawl sefydliad?

10. A ganiateir mannau ffiledu cyfunol?

**Adwerthu**

11. A oes angen cymeradwyo adwerthwyr sydd hefyd yn cyfanwerthu cynhyrchion pysgodfeydd?

12. A oes angen cymeradwyo sefydliadau adwerthu sy'n ymwneud â phrosesu pysgod?

13. A oes angen cymeradwyo siopau talu a chludo?


[5] www.food.gov.uk

14. A oes angen cymeradwyo adwerthwyr pysgod sydd hefyd yn prosesu pysgod (gan gynnwys eu cochi) ac, os yw'n berthnasol, yn cyflenwi faniau adwerthu pysgod?

**Storfeydd Oer**

15. A oes angen cymeradwyo storfeydd oer?

**Gwneuthurwyr Brechdanau**

16. A oes angen cymeradwyo gwneuthurwyr brechdanau?

**Gweithgynhyrchwyr Cynhyrchion Pysgodfeydd**

17. A oes angen cymeradwyo sefydliad anadwerthu sy'n cyflenwi cwmni neu gontractwr, sydd wedyn yn cyflenwi'r defnyddiwr terfynol?

18. A oes angen cymeradwyo arlwywyr meysydd awyr sy'n cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd i gwmnïau, sydd wedyn yn cyflenwi cwmnïau hedfan?

**Sylweddau Glanhau**

19. A oes rhestr o lanedyddion cymeradwy a sylweddau tebyg i gynnal amodau hylendid cyffredinol mewn sefydliadau ac ar gyfarpar?

**Ffermydd Pysgod**

20. A oes angen cymeradwyo ffermydd pysgod?

**Glanio cynhyrchion pysgodfeydd**

21. A oes yn rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal profion am histaminau a chyfansoddiau eraill a restrir yn Rheoliad 854/2004 ar bob llwyth o bysgod?

22. Pa ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i lannau cei lle caiff pysgod eu glanio?

**Cymeradwyo Sefydliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd: Cyffredinol**

## 1. Pa sefydliadau sy'n trin cynhyrchion pysgodfeydd y mae'n ofynnol eu cymeradwyo o dan Reoliad 853/2004?

O dan Erthygl 4 yn Rheoliad 853/2004, mae angen cymeradwyaeth ar sefydliadau sy'n trin cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid, y mae Atodiad III y Rheoliad hwnnw'n gosod gofynion ar eu cyfer (gan gynnwys cynhyrchion pysgodfeydd). Fodd bynnag, mae sawl eithriad i'r gofyniad hwn.

Mae i Erthygl 1(2) o Reoliad 853/2004 yr effaith o eithrio sefydliadau sy'n ymwneud yn unig â chynhyrchu bwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n deillio o blanhigion a chynhyrchion pysgodfeydd a broseswyd (e.e. gwneuthurwyr brechdanau) rhag eu cymeradwyo, ar yr amod y daw'r cynhyrchion pysgodfeydd i mewn i'r sefydliad fel cynhyrchion a broseswyd. Mewn achosion o'r fath, mae angen cydymffurfio â gofynion perthnasol Rheoliad 852/2004 ac mae'n rhaid caffael a thrin y cynhyrchion pysgodfeydd a broseswyd yn unol â gofynion Rheoliad 853/2004.

Mae sefydliadau penodol, fel y rhai sy'n cynnal 'cynhyrchu cynradd' a sefydliadau 'adwerthu' (fel y diffinnir yn Erthygl 3(7) yn Rheoliad 178/2002), sy'n cynnal gweithgareddau penodol hefyd wedi'u heithrio rhag y gofyniad i gael cymeradwyaeth, er bod rhai o ddarpariaethau Rheoliad 853/2004 yn berthnasol beth bynnag. Mae'n ofynnol i adwerthwyr a eithrir rhag cymeradwyaeth gydymffurfio ag Atodiad III, Adran VIII, Pennod III, Rhannau A, C a D, a Phennod IV a V yn Adran VIII (Cynhyrchion Pysgodfeydd), yn Rheoliad 853/2004. Mae'n ofynnol i sefydliadau cynhyrchu cynradd sydd wedi'u heithrio rhag cymeradwyaeth gydymffurfio ag Atodiad III, Adran VIII (Cynhyrchion Pysgodfeydd) yn Rheoliad 853/2004 fel y bo'n briodol. Mae Atodiad III, Adran VIII, Paragraffau 2 a 3 yn Rheoliad 853/2004 yn cyfeirio yn eu trefn. Bydd Rheoliad 852/2004 yn berthnasol, fel y bo'n briodol, i gynhyrchwyr cynradd ac adwerthwyr, sydd wedi'u heithrio rhag cymeradwyaeth.

Er mwyn penderfynu a yw gweithgaredd adwerthu wedi'i eithrio rhag cymeradwyaeth ai peidio, mae'n rhaid ystyried Erthygl 1(5) yn Rheoliad 853/2004. Os yw gweithrediad adwerthu'n cynnwys cludo a storio'n unig, ni fydd angen cymeradwyaeth. Er bod y Rheoliad, ar y cyfan, yn berthnasol i adwerthu pan gynhelir gweithrediadau bwyd er mwyn cyflenwi sefydliad arall, gall sefydliad adwerthu heb gymeradwyaeth gyflenwi cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid a fyddai fel arfer yn golygu bod angen cymeradwyaeth, ond dim ond i sefydliadau <u>adwerthu</u> eraill ar sail ffiniol, leol a chyfyngedig (gweler Paragraff A.3.3.2.7).

Mae'n rhaid ystyried busnesau bwyd sy'n gwneud cais i gael eu heithrio rhag y gofyniad i gael cymeradwyaeth yn unigol.

## 2. Beth yw'r gofynion o ran ffurf a gosod nodau adnabod?

Mae Atodiad II, Adran I yn Rheoliad 853/2004 yn gosod y gofynion ar gyfer gosod a ffurf, a dull marcio o ran, nodau adnabod.

**3. Os bydd perchnogaeth sefydliad cymeradwy yn newid, a oes angen i'r gweithredydd busnes bwyd newydd wneud cais am gymeradwyaeth ac a oes angen ailasesu'r busnes?**

O dan Reoliad 853/2004, mae cymeradwyaeth yn berthnasol i sefydliad ac nid i'r busnes sy'n meddu ar y sefydliad neu'r gweithredydd busnes bwyd, felly ni fyddai angen i weithredydd newydd ar sefydliad geisio cymeradwyaeth er mwyn parhau â'r gweithgareddau y rhoddwyd cymeradwyaeth iddynt, gyhyd ag y bydd yn cymeradwyo â'r Rheoliadau perthnasol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r gweithredydd newydd roi gwybodaeth ddiweddar i'r awdurdod cymwys am y sefydliad, yn unol ag Erthygl 6(2) yn Rheoliad 852/2004 ac felly mae'n ofynnol iddo roi gwybod i'r Awdurdod Bwyd perthnasol am y newid yn yr amgylchiadau.

**4. Pan fo'r Rheoliadau'n cyfeirio at ddyfeisiau cofnodi tymheredd, a yw hyn yn golygu y gellir cymryd a chofnodi darlleniadau â llaw?**

Mae Atodiad II, Pennod I(2)(d) yn Rheoliad 852/2004 yn amodi y dylai fod yn bosibl, lle bo angen, monitro a chofnodi tymereddau y cedwir bwyd ynddynt. Nid yw'r Rheoliad yn amodi y dylid cofnodi tymheredd yn awtomatig, sy'n awgrymu y caniateir cofnodi â llaw. Fodd bynnag, ar gyfer llongau rhewi neu sefydliadau mewndirol lle caiff cynhyrchion pysgodfeydd eu rhewi, mae'n ofynnol gosod dyfais i gofnodi tymheredd (gweler Rheoliad 853/2004, Atodiad III, Adran VIII, Pennod I(C) (Gofynion ar gyfer Llongau Rhewi) a Phennod III(B) (Gofynion ar gyfer Cynhyrchion wedi Rhewi (yn fewndirol)).

## Diffiniadau 'Adwerthu' a 'Cwsmer Terfynol'

**5. Beth yw 'adwerthu'?**

Y canlynol yw'r diffiniad o 'adwerthu' a roddir yn Erthygl 3(7) yn Rheoliad 178/2002:

*ystyr 'adwerthu' yw trin a/neu brosesu bwyd a'i storio ar adeg ei werthu neu ei ddosbarthu i'r cwsmer terfynol, ac mae'n cynnwys terfynellau dosbarthu, gweithrediadau arlwyo, ffreuturau ffatrïoedd, arlwyo mewn sefydliadau, tai bwyta a gweithrediadau gwasanaeth bwyd tebyg eraill, siopau canolfannau dosbarthu i archfarchnadoedd a mannau cyfanwerthu.*

Gweler Paragraff A.3.3.2.3 yn ogystal.

**6. Pwy yw'r 'defnyddiwr terfynol'?**

Y canlynol yw'r diffiniad o 'defnyddiwr terfynol' a roddir yn Erthygl 3(18) yn Rheoliad 178/2002:

*ystyr 'defnyddiwr terfynol' yw defnyddiwr olaf cynnyrch bwyd, na fydd yn defnyddio'r bwyd fel rhan o unrhyw weithrediad neu weithgaredd busnes bwyd*

## Neuaddau Ocsiwn a Marchnadoedd Cyfanwerthu

**7. A oes angen cymeradwyo neuaddau ocsiwn a marchnadoedd cyfanwerthu?**

O dan Erthygl 2(1)(c) yn Rheoliad 852/2004, diffinnir ‘sefydliad’ fel ‘unrhyw uned mewn busnes bwyd’. Mae Rheoliad 853/2004 yn diffinio ‘marchnad gyfanwerthu’ fel ‘busnes bwyd sy’n cynnwys sawl uned ar wahân sy’n rhannu gosodiadau ac adrannau cyffredin lle caiff cynnyrch bwyd ei werthu i weithredwyr busnesau bwyd’.

Caiff mannau cyfanwerthu eu cynnwys o dan y diffiniad o ‘adwerthu’ yn Rheoliad 178/2002 (gweler C ac A 2, uchod). Fodd bynnag, er mwyn i sefydliadau o’r fath ddod o dan y diffiniad hwn, dylai elfen o werthu neu ddosbarthu bwyd fod i’r defnyddiwr terfynol.

Byddai angen i neuaddau ocsiwn a marchnadoedd cyfanwerthu na ellir ystyried eu bod yn rhai ‘adwerthu’ fel a ddiffinnir, gael cymeradwyaeth a byddent yn amodol ar ofynion perthnasol Rheoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004 fel ei gilydd.

Ni fyddai angen cymeradwyaeth ar neuaddau ocsiwn a marchnadoedd cyfanwerthu yr ystyrir eu bod yn rhai ‘adwerthu’ fel a diffinnir. Fodd bynnag, dim ond caniatâd i gyflenwi’r defnyddiwr terfynol a sefydliadau adwerthu eraill ar sail ffiniol, leol a chyfyngedig (gweler Paragraff A.3.3.2.7) y byddai sefydliadau o’r fath yn eu cael.

## 8. A oes angen cymeradwyo stondinau / unedau unigol o fewn neuaddau ocsiwn a marchnadoedd cyfanwerthu?

Dosberthir stondinau / unedau unigol o fewn neuaddau ocsiwn a marchnadoedd cyfanwerthu fel sefydliadau. Os gellir ystyried bod y stondin / uned yn un ‘adwerthu’ fel y diffinnir (gweler C ac A 2 a 4, uchod) ac yn cyflenwi’r defnyddiwr terfynol yn unig neu’r defnyddiwr terfynol a sefydliadau adwerthu eraill ar sail ffiniol, leol a chyfyngedig (gweler Paragraff A.3.3.2.7), ni fyddai angen cymeradwyaeth.

Fel arall, byddai angen cymeradwyaeth ar y stondin / uned a byddai’n amodol ar ofynion perthnasol Rheoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004 fel ei gilydd.

## 9. A allai cyfleusterau fel basnau ymolchi a thoiledau fod yn gyfunol i sawl sefydliad?

Mae Rheoliad 852/2004 yn gosod y gofynion hylendid cyffredinol ar gyfer sefydliadau busnesau bwyd. O ran basnau ymolchi a thoiledau mewn marchnadoedd cyfanwerthu (gweler C ac A 4), penderfyniad yr Awdurdod Bwyd yw a oes angen cyfleusterau ar wahân ar gyfer unedau gwahanol o fewn y farchnad (gweler C ac A 5) er lles iechyd y cyhoedd, neu a yw’r cyfleusterau cyfunol yn ddigonol er mwyn cydymffurfio â’r Rheoliad.

## 10. A ganiateir mannau ffiledu cyfunol?

Nid yw’r Rheoliadau’n nodi a ganiateir mannau ffiledu cyfunol. Ar yr amod bod y trefniadau rheoli’n ddigonol, gan sicrhau y cynhelir y ffiledu heb halogi neu ddirywio’r bwyd, ni fyddai mannau ffiledu cyfunol yn cael eu gwahardd. Fodd bynnag, mae’n debygol y byddai angen cymeradwyaeth ar sefydliad ar wahân ar gyfer ffiledu cyfunol.

## Adwerthu

### 11. A oes angen cymeradwyo adwerthwyr sydd hefyd yn cyfanwerthu cynhyrchion pysgodfeydd?

Byddai angen cymeradwyaeth ar sefydliadau sy'n dod o dan y diffiniad o 'adwerthu' fel y diffinnir (gweler C&A 2 a 4, uchod) sydd hefyd yn cyfanwerthu ac eithrio i'r cwsmer terfynol a/neu u sefydliadau adwerthu eraill ar sail ffiniol, leol a chyfyngedig (gweler Paragraff A.3.3.2.7). Byddai sefydliadau o'r fath yn amodol ar ofynion perthnasol Rheoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004 fel ei gilydd.

### 12. A oes angen cymeradwyo sefydliadau adwerthu sy'n ymwneud â phrosesu pysgod?

Os nad ydynt yn gwerthu pysgod wedi'u prosesu i'r cwsmer terfynol yn unig ac i sefydliadau adwerthu eraill ar sail ffiniol, leol a chyfyngedig (gweler Paragraff A.3.3.2.7), byddai angen cymeradwyaeth ar sefydliadau adwerthu.

### 13. A oes angen cymeradwyo siopau talu a chludo?

Mae'r diffiniad o 'adwerthu' yn Erthygl 3(7) yn Rheoliad 178/2002 (gweler C ac A 2, uchod) yn cynnwys 'mannau cyfanwerthu'. Felly, gallai siopau talu a chludo ddod o dan y categori hwn a gallent, yn dibynnu ar eu gweithgareddau penodol, gael eu heithrio rhag cymeradwyaeth. Er y gellid ystyried bod man cyfanwerthu yn lle 'adwerthu' fel y diffinnir, os nad yw'n cyflenwi defnyddwyr terfynol yn unig a/neu sefydliadau adwerthu eraill ar sail ffiniol, leol a chyfyngedig (gweler Paragraff A.3.3.2.7) byddai angen cymeradwyaeth.

### 14. A oes angen cymeradwyo adwerthwyr pysgod sydd hefyd yn prosesu pysgod (gan gynnwys eu cochi) ac, os yw'n berthnasol, yn cyflenwi faniau adwerthu pysgod?

Ni fyddai adwerthwyr pysgod sy'n gwerthu eu cynhyrchion eu hunain a broseswyd, ond i'r defnyddiwr terfynol yn unig, yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004. Os bydd adwerthwr pysgod yn gwerthu ei gynhyrchion ei hun a broseswyd i sefydliadau eraill (gan gynnwys sefydliadau sydd â'r un perchennog), bydd yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004, os nad yw'r sefydliadau eraill yn sefydliadau adwerthu a bod y cyflenwi ar sail ffiniol, leol a chyfyngedig (gweler Paragraff A.3.3.2.7).

## Storfeydd Oer

### 15. A oes angen cymeradwyo storfeydd oer?

Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynghori bod angen cymeradwyaeth ar storfeydd oer ar gyfer cig cyfanwerthu ar y sail y cânt eu defnyddio mewn perthynas â gweithgareddau y mae Atodiad III yn Rheoliad 853/2004 yn gosod gofynion ar eu cyfer. Penderfynwyd gweithredu'r canllawiau hyn ar sail gynhwysfawr. Nid oes gofyniad i wirio storfeydd oer gan

filfeddyg, ac felly mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am gymeradwyo storfeydd oer ar gyfer pysgod ac am orfodi mewn sefydliadau o'r fath.

Nid yw storfeydd oer annibynnol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn unig (h.y. adwerthu) neu'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol a sefydliadau eraill (gan gynnwys arlwywyr) ar sail "ffiniol, lleol a chyfyngedig" yn amodol ar gymeradwyaeth, ond byddant yn amodol ar ofynion perthnasol Rheoliad 852/2004.

## Gwneuthurwyr Brechdanau

### 16. A oes angen cymeradwyo gwneuthurwyr brechdanau?

Oherwydd yr eithriad a ddarperir gan Erthygl 1(2) yn Rheoliad 853/2004, ni fydd gwneuthurwyr brechdanau'n amodol ar gymeradwyaeth o dan y Rheoliad hwnnw, os daw'r cynhyrchion pysgodfeydd y defnyddiant i wneud y brechdanau i mewn i'r sefydliad fel cynhyrchion wedi'u prosesu. Fodd bynnag, mae'n rhaid caffael a thrin y cynhyrchion pysgodfeydd a broseswyd a ddefnyddir i wneud y brechdanau yn unol â gofynion Rheoliad 853/2004. Bydd angen i wneuthurwyr brechdanau o'r fath gydymffurfio â gofynion perthnasol Rheoliad 852/2004 er gwaethaf hynny.

## Gweithgynhyrchwyr Cynhyrchion Pysgodfeydd

### 17. A oes angen cymeradwyo sefydliad anadwerthu sy'n cyflenwi cwmni neu gontractwr, sydd wedyn yn cyflenwi'r defnyddiwr terfynol?

Oherwydd bod y sefydliad yn un anadwerthu, byddai angen cymeradwyaeth os nad yw'r holl gynhyrchion y maent yn eu gwneud yn cynnwys cynhyrchion sy'n deillio o blanhigion a chynhyrchion pysgodfeydd a broseswyd a bod y cynhyrchion pysgodfeydd a broseswyd yn dod i mewn i'r sefydliad fel cynhyrchion a broseswyd (gweler Erthygl 1(2) yn Rheoliad 853/2004). Yn yr achos hwn, mae'n rhaid caffael a thrin y cynhyrchion pysgodfeydd a broseswyd a ddefnyddir yn unol â gofynion Rheoliad 853/2004, a byddai angen cydymffurfio â gofynion perthnasol Rheoliad 852/2004.

### 18. A oes angen cymeradwyo arlwywyr meysydd awyr sy'n cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd i gwmnïau, sydd wedyn yn cyflenwi cwmnïau hedfan?

Oherwydd na ellir eu hystyried o dan y diffiniad o adwerthu, byddai angen cymeradwyaeth ar sefydliadau arlwyo diwydiannol o'r fath, os nad yw'r holl gynhyrchion y maent yn eu gwneud yn cynnwys cynhyrchion sy'n deillio o blanhigion a chynhyrchion pysgodfeydd a broseswyd a bod y cynhyrchion pysgodfeydd a ddefnyddir yn dod i mewn i'r sefydliad fel cynhyrchion a broseswyd (gweler Erthygl 1(2) yn Rheoliad 853/2004). Yn yr achos hwn, mae'n rhaid caffael a thrin y cynhyrchion pysgodfeydd a broseswyd a ddefnyddir yn unol â gofynion Rheoliad 853/2004, a byddai angen cydymffurfio â gofynion perthnasol Rheoliad 852/2004.

## Sylweddau Glanhau

**19. A oes rhestr o lanedyddion cymeradwy a sylweddau tebyg i gynnal amodau hylendid cyffredinol mewn sefydliadau ac ar gyfarpar?**

Nac oes. Rheolir cemegau sy'n addas i'w defnyddio yn y diwydiant bwyd gan ddeddfwriaeth arall.

## Ffermydd Pysgod

**20. A oes angen cymeradwyo ffermydd pysgod?**

Nac oes. Cynhyrchu cynradd yw ffermio pysgod. Bydd Rheoliad 852/2004 yn berthnasol fel y bo'n briodol, ac er nad oes angen cymeradwyaeth, mae'n rhaid cydymffurfio ag Atodiad III, Adran VIII (Cynhyrchion Pysgodfeydd) yn Rheoliad 853/2004 fel y bo'n briodol (mae Atodiad III, Adran VIII, Paragraff 3(a) yn y Rheoliad hwnnw yn berthnasol). Mae Atodiad III, Adran VIII, Paragraff 4(b)(1) yn Rheoliad 853/2004 yn sôn yn benodol am ffermydd pysgod. Mae ffermydd pysgod yn amodol ar ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer iechyd anifeiliaid hefyd.

## Glanio cynhyrchion pysgodfeydd

**21. A oes yn rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal profion am histaminau a chyfansoddiau eraill a restrir yn Rheoliad 854/2004 ar bob llwyth o bysgod?**

Yn ôl Atodiad III, Pennod II(C) yn Rheoliad 854/2004, cynhelir profion ar hap ar gyfer histamin er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r lefelau caniataol a osodir o dan ddeddfwriaeth gymunedol. Bydd Awdurdodau Bwyd yn penderfynu pryd mae angen y profion hyn, ond mae'r rhain yn debygol o gael eu cynnal os amheuir nad yw'r cynnyrch yn ffres. Mae angen profion eraill o dan Atodiad III, Pennod II yn Rheoliad 854/2004. Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gynnal profion hefyd fel sy'n amodol o dan Atodiad III, Adran VIII, Pennod V(B) yn Rheoliad 853/2004.

**22. Pa ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i geiau lle caiff pysgod eu glanio?**

Nid oes unrhyw ofynion strwythurol ar gyfer glannau cei wedi eu gosod yn y Rheoliadau. Fodd bynnag, manylir ar arferion trin ar gyfer dadlwytho a glanio pysgod a rhai gofynion yn ymwneud â chyfarpar yn Atodiad III, Adran VIII, Pennod II yn Rheoliad 853/2004.

Mae Canllawiau Seafish ar gyfer Cyfleusterau a Chyfarpar wrth Lanio, Storio, Ocsiynnu a Dosbarthu o'r Man Glanio yn cynnwys argymhellion ar gyfer glannau ceiau ac yn awgrymu y dylai'r canlynol fod yn eu lle:

- Trefniadau labordy ar gyfer samplu yn unol â'r Rheoliadau;

- Amserlenni glanhau wedi'u cofnodi gyda manylion unrhyw brofion, gan gynnwys samplu, a gynhaliwyd gan y deiliad i sicrhau bod y dulliau glanhau a diheintio a gynigiwyd yn effeithiol;

- Amserlenni cynnal a chadw a gofnodwyd. Dylai'r rhain fanylu'r profion sydd i'w cynnal ac unrhyw drefniadau adrodd;

- Trefniadau rheoli pla a gofnodwyd, gan gynnwys copïau o unrhyw gontractau â chwmnïau rheoli pla allanol;

- Manylion ar gyfer graddnodi a monitro cyfarpar rheoli tymheredd awtomatig, lle bo'u hangen yn ôl y Rheoliadau;

- Rhaglen hyfforddi staff mewn hylendid, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant a gynhaliwyd hyd yma;

- Polisi ysgrifenedig y cwmni ar salwch staff a chadw rhag y gwaith;

- Tystysgrifau meddygol ar gyfer yr holl staff;

- Manylion y system olrheinadwyedd, gan gynnwys profion ar ddeunydd crai sy'n dod i mewn, trefniadau ar gyfer rheoli gweithredu'r nod iechyd a defnyddio dogfennau masnachol. Dylai'r manylion gynnwys trefniadau ar gyfer dogfennu'r gweithdrefnau hyn. Hefyd, gallai fod yn briodol gofyn am enghreifftiau o labeli â nodau adnabod arnynt;

- Gweithdrefn tynnu'n ôl mewn argyfwng;

- Rhestr gyfredol o gyflenwyr;

- Rhestr gyfredol o gwsmeriaid (Cenedlaethol, yr UE, 3ydd Gwlad).

# ATODIAD 8: LLAETH AMRWD A CHYNNYRCH LLAETH

## A.8.1: Cyflwyniad

Mae'r Atodiad hwn yn cynnig canllaw penodol i Awdurdodau Bwyd o ran Llaeth Amrwd a Chynnyrch Llaeth.

## A.8.2: Gorfodi

Mae Awdurdodau Bwyd yn cymeradwyo sefydliadau llaeth, ac fel arall yn gorfodi'r Rheoliadau ac eithrio yn yr achosion a restrir isod:

Gofynion yn Rheoliad 5(1)(a) yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 sy'n ymwneud â chymeradwyo daliadau cynhyrchu a goruchwylio ac archwilio wedi hynny ddaliadau cynhyrchu cymeradwy (ar wahân i brofion iechyd anifeiliaid – gweler isod). Ymdrinnir â'r rhain ar ran yr Asiantaeth gan Arolygiaeth Hylendid Llaeth (AHLI) y Gwasanaeth Datblygu Gwledig yn DEFRA. Cyhoeddir canllawiau ar wahân ar gyfer gorfodi'r gofynion hyn;

Rheolaethau yn Rheoliad 32 yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar werthu llaeth amrwd gwartheg i'w yfed, h.y. llaeth gwartheg a gyflenwir yn amrwd i'r defnyddiwr terfynol neu i ddosbarthwyr, yn uniongyrchol gan ffermydd i'r cwsmer, i westeion dros dro neu i ddosbarthwyr a safonau ar gyfer llaeth o'r fath yn Atodlen 6. Ymdrinnir â'r rhain hefyd gan yr AHLI (mae'r canllawiau ar wahân y soniwyd amdanynt uchod hefyd yn ymdrin â gorfodi'r gofynion hyn); Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn gyfrifol am gynnal profion swyddogol ar gyfer tiwbercwlosis a brwselosis, lle bo'n briodol.

Caiff gweithredwyr busnesau bwyd y mae eu gweithrediadau'n ddaliadau cynhyrchu ac yn sefydliadau prosesu eu cymeradwyo gan yr Asiantaeth fel daliad cynhyrchu, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Bwyd fel sefydliad llaeth.

## A.8.3: Gweithredwyr Busnesau Bwyd sy'n Gwerthu Llaeth Amrwd a Hufen

Mae Erthygl 10(8) yn Rheoliad 853/2004 yn caniatáu i aelod-wladwriaethau gadw rheolau cenedlaethol ar adwerthu llaeth amrwd a hufen.

Caiff y cyfyngiadau ar werthu llaeth amrwd gwartheg i'w yfed eu gosod yn Atodlen 6 yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a chânt eu gorfodi gan yr AHLI ar lefel ffermydd.

Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am orfodi gofynion Atodlen 6 yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 o ran gwerthu llaeth amrwd i'w yfed a fwriadwyd i bobl ei yfed yn uniongyrchol, nad yw'n llaeth gwartheg.

## A.8.4: Cynhwysyddion Ailddefnyddiadwy

Gall fod yn anodd cydymffurfio â'r gofynion i gyfarpar fod yn lân ac i ddiheintio cynhwysyddion ailddefnyddiadwy yn fecanyddol, yn enwedig i rai sefydliadau

llai. Fel arfer, ni fydd angen cyfleusterau golchi poteli mecanyddol ar laethdai sy'n cael poteli glân gan unedau canolog, ar yr amod nad yw'r poteli glân mewn unrhyw berygl o gael eu heintio pan gânt eu storio a chyn cael eu llenwi yn y llaethdy. Gellir golchi a storio poteli yn yr un ystafell ag y caiff cynhyrchion eu trin, ond ar adegau gwahanol neu mewn man ar wahân – ar yr amod nad effeithir ar hylendid.

## A.8.5: Gofynion Iechyd ar gyfer Cynhyrchu Llaeth Amrwd

Gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gyfrifol am sicrhau y bodlonir gofynion Rheoliad 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod 1 drwy archwiliadau milfeddygol preifat rheolaidd. Bydd amlder archwiliadau o'r fath yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Gellir cynnal archwiliadau o'r fath pan fydd milfeddyg preifat ffermwr yn bresennol am resymau eraill. Bydd angen i weithredwyr busnesau bwyd gadw tystiolaeth o ymweliadau o'r fath e.e. derbynneb/anfoneb - ac o unrhyw gamau gweithredu a gymerir os bydd problemau'n codi - i swyddogion awdurdodedig eu gwirio. Hefyd, mae'n ofynnol i bwrcaswyr (neu broseswyr) llaeth amrwd sicrhau, e.e. trwy gysylltiadau, y cynhaliwyd profion i asesu y cydymffurfir â'r safonau iechyd anifeiliaid perthnasol. Fel rheol, caiff problemau uniongyrchol a allai effeithio ar ddiogelwch y llaeth eu hysbysu i'r Awdurdodau Bwyd gan filfeddygon preifat neu (yn llai aml) gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol. Gellid cyfeirio materion tymor hwy sy'n codi o gofnodion at Awdurdodau Bwyd hefyd. Os bydd Awdurdodau Bwyd yn amau na chydymffurfir â'r gofynion, neu os na chymerwyd camau gweithredu, dylent godi'r mater gyda'r pwrcaswr/prosesydd neu, yn achos cynhyrchydd/adwerthwyr llaeth amrwd, gyda'r cynhyrchydd yn uniongyrchol, a'u cynghori i geisio cyngor priodol, e.e. gan eu milfeddyg preifat.

## A.8.6: Meini Prawf a Safonau ar gyfer Llaeth Amrwd

Yn achos y safonau a osodir yn Rheoliad 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod III, Paragraff 3 ar gyfer cyfri platiau a chyfri celloedd y corff, mae'r Rheoliadau nodi amlder isaf ar gyfer samplu gan y gweithredydd busnes bwyd neu'r pwrcaswr. Mae angen i swyddogion awdurdodedig sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cynnal y rhaglen samplu benodedig. Dylai swyddogion awdurdodedig wirio cofnodion gweithredwyr busnesau bwyd, ac os ydynt yn pryderu am ganlyniadau'r prawf, dylent ystyried profion swyddogol ar hap i fod yn sicr y caiff y safonau gofynnol eu bodloni. Gosodir trefniadau yn ymwneud â llaeth ar gyfer trin â gwres yn Atodiad III, Adran IX, Pennod II yn Rheoliad 853/2004, fel a ddiwygiwyd gan Erthygl 8 / Atodiad VII(2)(d) yn Rheoliad 2074/2005.[43]

## A.8.7: Gofynion Tymheredd ar gyfer Llaeth a Ddefnyddir i Weithgynhyrchu Cynnyrch Llaeth

Mae Rheoliad 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod II, Paragraff 1 yn amodi bod derbynioldeb llaeth amrwd yn berthnasol o'r amser y bydd y llaeth yn cyrraedd sefydliadau prosesu. Mae Paragraff 2 yn caniatáu mynd dros y tymereddau a'r amserau a benodir ar gyfer trin llaeth amrwd am "resymau technegol". Bydd y rhesymau hyn yn cynnwys achosion lle gallai tymereddau

[43] SI 1995 Rhif 1086, fel a ddiwygiwyd

uwch fod yn hanfodol i weithgynhyrchu rhai cynhyrchion e.e. caws a hefyd achosion dros benwythnosau, er enghraifft, lle na all sefydliadau brosesu llaeth o fewn y cyfnod penodedig. Mae angen awdurdodi gan yr Awdurdod Bwyd pryd bynnag y rhagwelir mynd dros yr amserau hyn.

## A.8.8: Trin Llaeth Amrwd a Chynnyrch Llaeth â Gwres

Gosodir y gofynion ar gyfer pasteureiddio a thrin â gwres uchel yn Atodiad III, Adran IX, Pennod II yn Rheoliad 853/2004, fel y diwygiwyd gan Erthygl 8 / Atodiad VII(2)(d) yn Rheoliad 2074/2005.

## A.8.9: Profi am Ffosffatas

Dylid parhau i ddefnyddio’r dull profi statudol, fel y nodir ym Mhenderfyniad y Pwyllgor Rhif 91/180/EEC[44] (ac fel y nodir yn Atodlen 11 yn Rheoliad Cynnyrch Llaeth (Hylendid) 1995[45] sydd bellach wedi'i i ddiddymu) hyd nes hysbysir yn wahanol.

[44] Penderfyniad y Comisiwn Rhif 91/180/EEC: Penderfyniad y Comisiwn ar 14 Chwefror 1991 yn gosod dulliau penodol ar gyfer dadansoddi a phrofi llaeth amrwd a llaeth wedi’i drin â gwres.
[45] SI 1995 Rhif 1086, fel y diwygiwyd

**ATODIAD 8, YCHWANEGIAD 1: Canllawiau i Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr ar Statws Swyddogol Rydd Rhag Tiwbercwlosis a Deddfwriaeth Hylendid Cynnyrch Llaeth**

# CANLLAWIAU I AWDURDODAU BWYD YNG NGHYMRU A LLOEGR AR STATWS SWYDDOGOL RYDD RHAG TIWBERCWLOSIS A DEDDFWRIAETH HYLENDID CYNNYRCH LLAETH

**(Ionawr 2006)**

| **Cynnwys** | **Paragraff / Atodiad** |
|---|---|
| Cwmpas | 1 – 3 |
| Cyflwyniad | 4 – 6 |
| Materion Gorfodi Awdurdodau Bwyd | 7 -15 |
| Cysylltiadau | 16 - 19 |
| Deddfwriaeth ac Iechyd Pobl | Atodiad 1 |
| Materion Iechyd Anifeiliaid | Atodiad 2 |
| Templed o'r Ffurflen (i'w ddefnyddio ar 01/01/06 neu wedi hynny) | Atodiad 3 |

## Cwmpas

1. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Bwyd, Defra, Sefydliad y Gwneuthurwyr Caws Arbenigol a Sefydliad Iechyd Anifeiliaid, ac maent yn ddiweddariad o'r fersiwn a anfonwyd ymlaen gan yr Adran Iechyd at PSIAau gyda llythyr cysylltiol ar 13 Mawrth 2000.

2. Maent yn cynnig gwybodaeth a chyngor i Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr â chanddynt fuchesau godro a/neu sefydliadau llaeth yn eu hardaloedd yn cynhyrchu llaeth amrwd gwartheg i'w yfed[1] (LlGCY) a/neu gynnyrch ar sail llaeth heb ei basteureiddio. Bydd y canllawiau o gymorth i'r rhai sy'n ymwneud ag archwiliadau ar ôl hysbysiad gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) am golli[2] statws "Swyddogol Rydd Rhag Tiwbercwlosis" (SRT) mewn buchesau godro.

3. Mae'r canllawiau hyn yn ymgorffori'r newidiadau a ddeilliodd o gyflwyno Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n weithredol o 1 Ionawr 2006 ac yn diddymu Rheoliadau Cynnyrch Llaeth (Hylendid) 1995.

## Cyflwyniad

4. Mae tiwbercwlosis (TB) yn glefyd heintus mewn pobl a sawl rhywogaeth anifeiliaid, a achosir gan rai bacteria o'r genws *Mycobacterium*. Achosir y rhan fwyaf o achosion o diwbercwlosis gan *Mycobacterium tuberculosis (M. tuberculosis)*. Achosir TB mewn gwartheg gan mwyaf gan *Mycobacterium bovis (M. bovis*) sydd, yn wahanol i *M. Tuberculosis*, ag amrediad eang iawn o organebau lletyol*.*

5. Mae profi buchesau godro gyda thwbercwlin yn rheolaidd yn sicrhau y caiff y rhan fwyaf o achosion o TB mewn gwartheg eu canfod yn ystod camau cyntaf yr haint, cyn i arwyddion clinigol ddatblygu a chyn i'r bacteria ddiosg i'r llaeth. Fodd bynnag, mae *M.bovis* yn gyfrifol am rai achosion o haint mewn pobl, a thrwy gyflwyno pasteureiddio yn yr 1930, helpodd hynny leihau ar drosglwyddo TB i bobl gan wartheg heintus drwy laeth. Bellach, mae *M.bovis* mewn pobl yn brin – rhyw 40 achos y flwyddyn, sy'n llai nag 1% o'r holl achosion o TB yn y DU. Credir yr achoswyd y rhan fwyaf o'r achosion hyn, os nad yr holl achosion, gan haint a gafwyd yn y gorffennol yn cael ei hadfer.

6. Mae Rheoliad CE Rhif 853/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i LlGCY ddod o anifeiliaid sy'n perthyn i fuches sy'n SRT (Atodiad III, Adran IX, Pennod 1,1,2(b)). Caiff llaeth nad yw'n bodloni'r amod hwn ei werthu i bobl ei yfed dim ond ar ôl ei drin â gwres (Atodiad III, Adran IX, Pennod 1, 3). Bydd y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol (GMG) yn hysbysu'r Awdurdodau Bwyd am amodau mewn buches sy'n arwain at golli statws SRT.

[1] Yn y cyd-destun hwn, mae llaeth amrwd gwartheg hefyd yn cynnwys llaeth byfflo amrwd.
[2] At ddibenion y canllawiau hyn, ac at ddibenion deddfwriaeth Hylendid Llaeth, bydd y fuches yn colli statws SRT: os bydd profion tiwbercwlin yn dadlennu adweithydd ("gohirio statws"); bydd archwiliad post-mortem a/neu feithriniad bacteriolegol yn cadarnhau adweithydd ('diddymu statws'); os caiff adweithydd amhendant ei ddadlennu cyn pen 3 blynedd i ymddatodiad yn y fuches; neu os bydd y prawf am diwbercwlin yn hwyr.

**Materion Gorfodi Awdurdodau Bwyd**

**Camau gweithredu i fynd i'r afael â cholli statws SRT mewn buches odro**

7. Pan gaiff cyfyngiadau symud oherwydd TB eu rhoi ar fuches odro am ba reswm bynnag, bydd y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol (RhMRh) yn anfon copi o hysbysiad cyfyngu'r fuches (Ffurflen 'TB2') at Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (PSIA) gyda llythyr cyflwyno. Mae gwasanaethu'r hysbysiad cyfyngu oherwydd TB i bob pwrpas yn gohirio statws SRT y fuches honno.

   Ar ôl cael yr hysbysiad, dylai'r Awdurdod Bwyd sicrhau na ddefnyddir llaeth o'r fuches honno fel llaeth amrwd mewn cynhyrchion ar sail llaeth bellach. Gellir defnyddio llaeth o'r fuches dan sylw i bobl ei yfed ar yr amod ei fod wedi'i basteureiddio, neu wedi bod drwy driniaeth gryfach â gwres. Ni chaiff proseswyr sy'n gwneud cynhyrchion ar sail llaeth amrwd ddefnyddio llaeth o'r fuches dan sylw, a byddant yn cael parhau i gynhyrchu cynhyrchion o'r fath dim ond drwy gael ffynhonnell gyflenwi wahanol gan fuches SRT. O 1 Ionawr 2006 ymlaen, ni cheir defnyddio llaeth gan anifeiliaid adweithwyr unigol mewn unrhyw fuches i'w yfed gan anifeiliaid o dan unrhyw amgylchiadau.

Er mwyn achosi hyn, bydd angen i Swyddogion Gorfodi Awdurdodau Lleol:

a) gydgysylltu â phrynw(y)r cyntaf y llaeth (cyfanwerthwr cynradd) i nodi lle mae'r llaeth o'r fuches dan sylw yn cael ei gludo a'i ddosbarthu;

b) cadarnhau'r modd y caiff y llaeth ei ddefnyddio a chadarnhau'r systemau glanhau yn y fan a'r lle at ddibenion cludiant;

c) sicrhau y caiff yr holl laeth o'r fuches dan sylw, ac unrhyw laeth y gallai fod yn gymysg ag e, driniaeth ddigonol â gwres cyn ei yfed neu ei ddefnyddio mewn cynhyrchion ar sail llaeth;

d) darganfod a gaiff llaeth o'r fuches ei werthu fel llaeth amrwd gwartheg i'w yfed (LIGCY);

e) darganfod a yw'r llaeth yn cael ei werthu fel rhan o fusnes gwely a brecwast ar fferm, neu mewn siop fferm, neu mewn stondin farchnad neu i ddosbarthwr sy'n gwerthu llaeth amrwd i'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol; a

f) darganfod a gaiff y llaeth ei ddefnyddio i wneud cynhyrchion ar sail llaeth heb ei basteureiddio naill ai ar y fferm benodol honno neu yn rhywle arall.

8. Gellir hwyluso'r archwiliadau hyn drwy gysylltu â swyddfa ranbarthol briodol yr Arolygiaeth Hylendid Llaeth (AHLI) ac, os oes angen, â'r cynhyrchydd a phrynwr y llaeth. Gallai hyn olygu cydgysylltu ag Awdurdodau Bwyd eraill, gan gynnwys Awdurdod Bwyd y prynwr cyntaf, lle bo'n briodol.

9. Os yw'r fferm dan sylw wedi gosod cyfleusterau trin â gwres, dylai'r Awdurdod gadarnhau bod yr holl reolaethau rheoli peryglon yn eu lle ac yn gweithio'n effeithiol, gan gynnwys trin â gwres yn ddigonol.

**Camau gweithredu ar stociau o gynhyrchion ar sail llaeth amrwd ar ôl colli statws SRT**

10. Bydd Awdurdodau Bwyd am ystyried y goblygiadau i iechyd y cyhoedd drwy gyfrwng asesiad risg a gynhelir yn lleol gyda'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Heintus (YRhCH) a'r RhMRh, ar gyfer cynhyrchion a wnaed cyn i'r fuches golli ei statws SRT. Dylid ceisio cyngor hefyd, lle bo'n briodol, gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (ADI) lleol. Os deuir i'r casgliad y byddai'n briodol tynnu cynhyrchion o'r fath yn ôl, neu eu dinistrio, o ganlyniad i'r asesiad risg, dylid ceisio tynnu'n ôl / dinistrio gwirfoddol. Bydd yn rhaid i Swyddogion Gorfodi benderfynu ar y camau gweithredu priodol, ar sail amgylchiadau achosion unigol. Bydd y ffactorau yr ystyrir yn yr asesiad risg yn cynnwys:

11.1 <u>Y rhesymau dros golli statws SRT.</u> Gallai hyn fod oherwydd dadlennu adweithwyr prawf, adweithwyr amhendant yn unig, achos mewn lladd-dy neu brawf TB hwyr (gweler troednodyn 2).

11.2 <u>Nifer yr adweithwyr a nodwyd.</u> Nifer yr adweithwyr mewn perthynas â chyfanswm y gwartheg a brofwyd, o ran maint a nifer, fyddai hyn. Gallai un adweithydd neu niferoedd isel o adweithwyr mewn buches fawr gynrychioli risg isel, am y gallai ddangos nad yw'r haint wedi cael cyfle i ledaenu o fewn y fuches. Gallai nifer fawr o adweithwyr mewn unrhyw fuches naill ai ddangos bod yr haint yn lledaenu yn y fuches ers cryn amser neu fod sawl haint yn gysylltiedig ag un ffynhonnell. Mae buchesau sy'n dangos mwy o adweithyddion yn y prawf cychwynnol yn fwy tebygol o ddatgelu adweithwyr ychwanegol yn y prawf nesaf.

11.3 <u>Mathau o wartheg yn adweithio i'r prawf.</u> Er enghraifft, byddai heffrod neu fustych yn llai arwyddocaol, am nad ydynt yn cynhyrchu llaeth.

11.4 <u>Nifer a lleoliad unrhyw friwiau a ganfuwyd mewn archwiliadau post-mortem (APM) ac mewn canlyniadau meithrin meinweoedd.</u>
a) Os na ganfyddir unrhyw friwiau TB, neu os yw'r briwiau wedi'u cyfyngu i un organ neu i un rhan o'r corff, ac eithrio'r chwarren laeth, ystyrir bod y risg y bydd basili TB mewn llaeth yn isel. Pe canfyddir briwiau TB yn y chwarren laeth neu mewn mwy nag un organ neu fwy nag un rhan o'r corff mewn buwch odro sy'n llaetha, ystyrir bod y risg y bydd basili TB mewn llaeth yn sylweddol. Gallai basili TB fod yn bresennol mewn llaeth hyd yn oed os nad oes clefyd amlwg ar y gadair pan fo'r clefyd wedi'i ddosbarthu'n systematig.

b) Ar ôl APM, cesglir samplau o feinweoedd o bob adweithydd, gan gynnwys y rhai lle na chanfuwyd unrhyw friwiau gweladwy. Mae angen 6 wythnos o leiaf i adnabod *M. Bovis* yn bositif drwy feithrin meinweoedd, ac mae oddeutu 10% o'r adweithwyr sydd heb friwiau gweladwy yn yr APM yn datblygu meithriniad positif ar gyfer *M. bovis*.

11.5 Hanes profi'r fuches unigol. Ymhlith yr agweddau y dylid eu hystyried mae:

a) y cyfnod ers y prawf TB clir diwethaf;
b) hanes TB y fuches yn y gorffennol; ac
c) y rheswm dros y prawf.

11.6 Amlder profi gwaelodlin y plwyf gwladol. Mae hyn yn rhoi syniad ynghylch a yw'r fuches mewn ardal lle mae TB yn gyffredin. Bydd swyddog milfeddygol y GMG yn cynnig barn arbenigol am amlder TB yn yr ardal leol.

11.7 Iechyd cyffredinol y fuches a'i bioddiogelwch. Dylid ystyried hefyd:

a) cyfrifiadau o gelloedd llaeth y corff – gallai mwy o gelloedd ddynodi tebygolrwydd uwch y bydd organebau TB yn y llaeth; a
b) hanes masnachu anifeiliaid y fferm, gan amlygu'r niferoedd a ddaw i mewn, o ble a dyddiad eu prawf TB diwethaf (mae hyn yn bwysig oherwydd ei bod yn cymryd 6 wythnos o leiaf o adeg yr heintio i anifail adweithio i'r prawf tiwbercwlin).

11.8 Y math(au) o gynhyrchion ar sail llaeth a phrosesau cynhyrchu. Er enghraifft, gallai defnyddio llaeth sydd wedi'i brynu i mewn ei gwneud yn anoddach darganfod y wybodaeth angenrheidiol am y fuches. Dylid ystyried unrhyw dystiolaeth benodol, gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan y proseswyr llaeth, y gallai'r broses gynhyrchu ddileu'r pathogenau a bod organebau TB ddim yn bresennol yn y cynnyrch.

11.9 Cynhyrchion llaeth ffres. Gallai oes silff y cynnyrch fod wedi pasio erbyn y daw'r adroddiad post-mortem neu'r canlyniadau meithrin meinweoedd i law.

11.10 Maint y fuches gyfyngedig oherwydd TB. Mae tebygolrwydd, difrifoldeb a hyd achosion o TB yn dueddol o gynyddu gyda maint y fuches. Er y dadlennwyd y duedd hon, mae'n anodd mesur yr effaith ac felly mae'r ffactorau eraill a nodir uchod yn fwy arwyddocaol at ddibenion yr asesiad risg.

12. Os oes tystiolaeth bod yr haint yn weithredol mewn anifail, mae'n debygol y bydd tynnu yn ôl sypiau o'r cynnyrch a gynhyrchwyd cyn dyddiad y prawf TB yn briodol i fod yn ofalus. Yn aml, y Swyddog Milfeddygol sy'n delio â'r achos o TB yw'r person sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwybodaeth a chynorthwyo'r Awdurdod Bwyd gyda'r asesiad risg.

13. Nid yw'r Rheoliadau[3] yn gwahardd marchnata cynhyrchion a wnaed cyn diddymu statws SRT. Os na ellir dod o hyd i ateb gwirfoddol gyda'r cynhyrchydd, bydd angen i unrhyw gamau gweithredu fod o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004. Gall Swyddogion Gorfodi ystyried gweithredu ymhellach o dan Adran 9 y Ddeddf os ydynt yn amau nad yw'r cynhyrchion dan sylw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd fel y'u diffinnir bellach yn Erthygl

[3] O Ionawr 1 2006, bydd Rheoliadau CE Rhif 852/2004 a Rhif 853/2004 yn weithredol

14 yn Rheoliad CE Rhif 178/2002 ar gyfraith bwyd cyffredinol. Fodd bynnag, er mwyn i unrhyw erlyniad lwyddo, byddai angen profi trosedd o dan Reoliad 4 yn Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004. Mae hwn yn ei gwneud yn drosedd mynd yn groes i Erthygl 14 yn Rheoliad CE Rhif 178/2002.

**Camau gweithredu cyn i broblemau SRT godi**

14. Dylai Awdurdodau Bwyd a'r Arolygiaeth Hylendid Llaeth (AHLI) gydgysylltu â RhMRhau i sicrhau y caiff buchesau sy'n cyflenwi LIGCY a/neu sefydliadau neu broseswyr sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion llaeth heb basteureiddio brofion tiwbercwlin bob blwyddyn. Er enghraifft, dylai Awdurdodau Bwyd a'r AHLI hysbysu RhMRhau ban fyddant yn dod yn ymwybodol y caiff LIGCY ei werthu i bobl ei ddefnyddio neu y caiff cynhyrchion llaeth heb basteureiddio eu cynhyrchu yn eu hardaloedd. Dylai Awdurdodau Bwyd roi gwybod i weithgynhyrchwyr sy'n cynhyrchu cynhyrchion llaeth heb basteureiddio bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r llaeth y defnyddiant ddod o fuchesau a nodir fel SRT yn unig. Felly, dylai swyddogion gorfodi wirio y gall y cynhyrchwyr hynny sy'n prynu llaeth i mewn gyflwyno tystiolaeth bod y llaeth y maent yn ei ddefnyddio yn dod o fuchesau godro yn unig a gaiff eu profi am TB bob blwyddyn ac a nodir â statws SRT. Dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu â'r RhMRh, a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth am y materion hyn.

15. Gallai fod yn ddefnyddiol i Awdurdodau Bwyd gydgysylltu af Arolygwyr Awdurdodau Lleol ar Iechyd a Lles oherwydd bod eu cyfrifoldebau'n cynnwys gwirio cofnodion ffermydd o dan ddeddfwriaeth iechyd anifeiliaid.

**Cysylltiadau**

16. Am ganllawiau manwl am ddelio ag achosion mewn pobl neu gysylltiadau, cyfeiriwch at "Canllawiau ar Reoli Goblygiadau TB mewn Gwartheg i Iechyd y Cyhoedd" gan yr Adran Iechyd. I gael copïau o'r canllawiau, ffoniwch 020 7972 5672.

17. Os oes angen cyngor pellach ar sut y dylid gweithredu ar stociau o gynhyrchion ar sail llaeth amrwd ar ôl colli statws SRT, dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu â Changen Achosion Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ar 020 7276 8448, a fydd yn gweithio gyda'r tîm archwilio lleol.

18. Os oes angen rhagor o wybodaeth am weithdrefnau Defra sy'n ymwneud â rheolaethau TB yng Nghymru a Lloegr, dylech gysylltu â'r Swyddog Milfeddygol sydd ar ddyletswydd yn Swyddfa Ranbarthol Iechyd Anifeiliaid leol y GMG.

19. Ceir manylion ychwanegol ar y gwefannau canlynol:

http://www.defra.gov.uk/animalh/tb/index.htm

http://www.hse.gov.uk/hthdir/noframes/bovine.htm

http://www.hpa.org.uk/infections/topics_az/tb/infosheets/english.pdf

http://www.lacors.gov.uk

**ATODIAD 1**

## Cefndir Deddfwriaethol ac Iechyd Pobl

### Llaeth amrwd gwartheg i'w yfed a chynhyrchion ar sail llaeth heb basteureiddio

1.1 Mae Rheoliad CE Rhif 853/2004, Atodiad III Adran IX, Pennod 1,1,2(b) yn ei gwneud yn ofynnol i LlGCY ddod o anifeiliaid sy'n perthyn i fuches sy'n swyddogol rydd rhag tiwbercwlosis. Mae Atodiad III Adran IX, Pennod 1,1,3 yn ei gwneud yn ofynnol i laeth nad yw'n bodloni'r amod hwn gael ei werthu i bobl ei ddefnyddio dim ond ar ôl ei drin â gwres.

1.2 Os bydd Awdurdodau Bwyd sy'n ymchwilio i hysbysiad o golli statws SRT yn dod yn ymwybodol y caiff llaeth ei werthu yn ei ffurf amrwd i bobl ei ddefnyddio'n uniongyrchol, mae'n rhaid iddynt ystyried gweithredu (Atodiad III Adran IX, Pennod 1,1.3 yn Rheoliad CE Rhif 853/2004) i sicrhau y caiff llaeth o fuchesau sydd wedi colli eu statws SRT ei drin â gwres. Mae Atodiad 3 yn darparu ffurflen ddrafft, y gallai Awdurdodau Bwyd ei defnyddio i atgoffa cynhyrchwyr llaeth am y gofyniad.

1.3 Nid yw hysbysiadau trin â gwres a wnaed yn y gorffennol o dan Reoliadau Llaeth a Llaethdai (Cyffredinol) 1959 yn weithredol mwyach oherwydd bod Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 yn diddymu Rheoliadau Llaeth a Llaethdai (Cyffredinol) 1959.

1.4 Er bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion ar sail llaeth amrwd gael eu gweithgynhyrchu â llaeth gan fuchesau â statws SRT yn unig, nid yw'r Rheoliadau yn gwahardd marchnata cynhyrchion a wnaed cyn diddymu statws SRT. Os na ellir dod o hyd i ateb gwirfoddol gyda'r cynhyrchydd, bydd angen i unrhyw gamau gweithredu fod o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004 (gweler Paragraff 13).

### Achosion o salwch mewn pobl

1.5 Os caiff YRhCH ei hysbysu bod TB ychol wedi'i gadarnhau mewn person(au), ac y credir y daliwyd yr haint yn ddiweddar, dylai'r YRhCH geisio gwybodaeth am unrhyw gysylltiad â'r gwartheg a allai awgrymu y gallai'r haint fod wedi dod o ffynhonnell anifail, neu y gellid ei basio i anifeiliaid. Os gallai, dylai roi gwybod i'r Awdurdod Bwyd. Os oes berygl i fuches a/neu stoc ffarm arall gael ei heintio, dylai'r swyddog gorfodi roi gwybod i'r RhMRh er mwyn gallu gwneud profion ar y buchesau. Gallai fod yn briodol rhoi gwybod i Awdurdodau Bwyd, ffermwyr lleol, llaethdai a chynhyrchwyr, prynwyr llaeth neu ddosbarthwyr eraill perthnasol hefyd y gellid eu heffeithio (gan ystyried cyfrinachedd y claf).

## Materion Iechyd Anifeiliaid a Rôl y GMG (Defra)

### Heintiad *M. bovis* mewn gwartheg

2.1 Achosir tiwbercwlosis (TB) mewn gwartheg gan *Mycobacterium bovis (M.bovis)* a gall TB ychol effeithio ar rywogaethau eraill fel ceirw a moch daear. Gall effeithio ar bobl hefyd, er bod hyn yn anarferol yn y DU bellach. Yn y gorffennol, gallai'r haint basio trwy laeth amrwd, ond bellach, drwy brofi buchesau'n aml, lladd adweithwyr a phasteureiddio llaeth, mae achosion mewn pobl yn gymharol brin ac fel arfer ystyrir eu bod yn ganlyniad haint a ddaliwyd yn y gorffennol yn adfer, er enghraifft cyn i basteureiddio llaeth fod yn gyffredin neu, weithiau, haint a ddaliwyd dramor. Drwy brofi gwartheg ar ffermydd yn rheolaidd, caiff y rhan fwyaf o achosion eu canfod yn gynnar, cyn i'r organeb gael ei diosg i laeth. Gall y bacteria gael eu hanadlu mewn aerosolau drwy ysgyfaint gwartheg heintiedig, neu eu hamlyncu drwy yfed llaeth amrwd wedi'i halogi neu fwyta neu yfed cynhyrchion ar sail llaeth heb basteureiddio sydd wedi'u halogi.

2.2 Mewn blynyddoedd diweddar, mae TB mewn gwartheg wedi cynyddu yn y DU, o ran niferoedd ac ardal ddaearyddol. Ers dechrau'r 1980au, mae niferoedd y buchesau yr adroddir bob blwyddyn y mae eu statws SRT wedi ei dynnu nôl wedi cynyddu'n raddol. I gychwyn, roedd hyn yn effeithio ar dde orllewin Lloegr, gan mwyaf, ond mewn blynyddoedd diweddar mae wedi ymledu i rannau o dde Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

2.3 Mae profion tiwbercwlin rheolaidd ar grwyn buchesau yn rhan allweddol o reoli TB mewn gwartheg yn y DU. Caiff unrhyw anifail sy'n dangos adwaith bositif (h.y. sy'n "adweithydd") i'r prawf hwn ei ladd a thelir iawndal. Caiff adweithwyr a laddwyd brawf post-mortem a nod lymff a chesglir samplau eraill o feinweoedd i feithrin yr organeb i nodi'r rhywogaeth o *M. bovis* sy'n gyfrifol am yr achos. Mae llai na hanner yr adweithwyr positif yn y prawf yn dangos briwiau gweladwy neu feithriniad positif ar gyfer *M.bovis*. Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn archwilio pob corff marw mewn lladd-dai hefyd i ganfod briwiau TB macroscopig fel rhan o archwiliadau cig cyffredinol.

### Profion rheolaidd ar fuchesau

2.4 Archwilwyr Milfeddygol Lleol (AMLlau) sy'n cynnal y rhan fwyaf o brofion am TB ym Mhrydain Fawr. Milfeddygon preifat yw'r rhain a benodir gan Defra i ymgymryd â dyletswyddau statudol penodol. Mae Swyddogion Milfeddygol y GMG yn cynnal rhai o'r profion dilynol mewn buchesau sydd o dan gyfyngiadau TB ac yn ailbrofi adweithwyr amhendant. Y GMG sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhaglen o brofion tiwbercwlin o ddydd i ddydd, am oruchwylio AMLlau ac am reoli achosion o TB. Mae'r olaf o'r rhain yn cynnwys hysbysu swyddogion perthnasol yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd am achos newydd o TB. Os bydd ffermwyr unigol wedi cytuno â RhMRh lleol Defra eu bod am dalu i gael prawf preifat ar wahân i'r profion

rheolaidd, mae'n rhaid i'r ffermwr hysbysu'r RhMRh am y canlyniadau yn unol â hynny.

2.5 Efallai y bydd ffermwyr am gynnal profion unigol, er enghraifft, ar anifeiliaid a brynwyd, i sicrhau eu statws TB. Yn ogystal, gellid ystyried bod profi'n amlach yn rhoi arwyddion cynnar o unrhyw broblemau i gynhyrchwyr llaeth gwartheg heb ei basteureiddio a chynhyrchion ar sail llaeth amrwd a fwriadwyd i'w defnyddio yn y cyflwr hwnnw. Byddai profi unrhyw wartheg a brynir am TB cyn eu symud yn amddiffyniad ychwanegol rhag cyflwyno haint i'r fuches.

2.6 Caiff y rhan fwyaf o fuchesau Prydain eu profi'n rheolaidd bob 4 blynedd, ond mewn rhai mannau, lle mae mynychder achosion o TB a gadarnheir mewn buchesau yn fwy, cynhelir profion am TB yn amlach. Mae buchesau yn yr Alban, gogledd Cymru a'r rhan fwyaf o ogledd a dwyrain Lloegr yn dal i gael profion bob 4 blynedd. Mae rhai mannau yn y wlad lle gellir profi bob blwyddyn, bob dwy flynedd neu bob tair blynedd.

2.7 Mae amlder profion rheolaidd am TB yn seiliedig yn fras ar drothwyon mynychder a osodir yng Nghyfarwyddeb y Cyngor Rhif 64/432/EEC (fel y'i diwygiwyd). Yn ei hanfod, diben y profion hyn yw rheoli iechyd/heintiau anifeiliaid, ac mae Defra yn gyfrifol am y polisi profi. Yr RhMRhau sy'n gosod amlder rhagnodedig profion mewn unrhyw un plwyf, yn ôl nifer yr achosion o TB a gadarnheir mewn buchesau. Ar y cyfan, po uchaf yw mynychder achosion o TB a gadarnheir mewn buchesau na ellir eu hesbonio mewn unrhyw un plwyf, byrraf y cyfnod rhwng dau brawf rheolaidd am TB yn olynol ar bob buches yn y plwyf hwnnw. Yn ogystal, gall RhMRhau roi buchesau unigol ar system flynyddol i brofi am TB am resymau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, waeth beth fo amlder rhagnodedig profion rheolaidd ar gyfer y plwyf. Ymhlith buchesau o'r fath mae: buchesau delwyr gwartheg a hurwyr teirw, buchesau sy'n cymryd gwartheg o ardaloedd eraill yn rheolaidd lle mae mynychder TB uchel, adwerthwyr LlGCY a, lle bo'r wybodaeth hon ar gael i'r RhMRh, cyflenwyr llaeth ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion llaeth heb basteureiddio.

**Dod o hyd i adweithydd TB**

2.8 Canfod adweithwyr i brawf twbercwlin mewn prawf rheolaidd ar y fuches yw'r rheswm mwyaf cyffredin i'r GMG roi cyfyngiadau of TB, ond gallai sefyllfaoedd eraill arwain at ohirio statws SRT buches hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Hylendid Cig yn canfod briwiau TB amheus mewn archwiliadau cig rheolaidd yn y lladd-dy; canfod adweithwyr amhendant cyn pen tair blynedd i ddatrys achos TB a gadarnhawyd; neu'r prawf TB yn hwyr. Yn ei hanfod, mae rhoi hysbysiad cyfyngu oherwydd TB (Ffurflen TB2) yn gohirio statws SRT y fuches honno. Pan roddir cyfyngiadau symud oherwydd TB ar fuches odro am ba reswm bynnag, bydd yr RhMRh yn hysbysu'r Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (PSIA) perthnasol. Ar hyn o bryd, cyflwynir systemau dosbarthu llythyrau awtomatig, ond dylai SIAau a'r RHMRH feithrin perthnasoedd gwaith er mwyn sicrhau y cyfathrebir yn effeithiol ar lefel leol.

2.9 Caiff pob adweithydd i brofion tiwbercwlin eu hanfon o dan drwydded i'w lladd yn orfodol. Pan gaiff adweithwyr eu lladd a phan weithredir y cyfyngiadau, bydd yr RhMRh yn trefnu i ailbrofi'r fuches bob 60 diwrnod nes ceir canlyniadau negyddol yn y fuches (un prawf pan na chadarnheir yr haint, dau brawf pan gaiff ei gadarnhau). Ar ôl rhaglen o brofi crwyn clir, codir cyfyngiadau symud, a thrwy hynny, adferir statws SRT y fuches. Bydd yr RhMRh yn hysbysu'r PSIA ar ôl adfer statws SRT buches odro.

**Cadarnhau TB yn y labordy**

2.10 Caiff achosion o TB eu cadarnhau pan fydd un anifail adweithiol o leiaf yn y fuches honno yn dangos briwiau gweladwy o TB mewn archwiliad post-mortem a/neu pan gaiff *M. bovis* ei ynysu gan feithriniad bacteriolegol o samplau meinwe a ddewiswyd. Yn ogystal, gellir cadarnhau achos o TB pan ganfyddir briwiau amheus yng ngharcasau gwartheg a roddodd brawf clir yn ystod archwiliad cig rheolaidd ac os yw'r briwiau hynny'n dangos *M. bovis* wrth feithrin.

2.11 Fel y nodir yn 2.9 uchod, caiff pob adweithydd ei ladd a'i roi trwy archwiliad post-mortem i gadarnhau'r haint. Ar gyfartaledd, ceir bod llai na hanner yr anifeiliaid hyn yn dangos briwiau gweladwy mewn archwiliadau post-mortem. Gelwir y gweddill yn adweithwyr "heb friw gweladwy" (HFG) reactors. Mae'n bosibl bod cyfran fechan o'r adweithwyr HFG hynny yn ganlyniad profion tiwbercwlin positif anghywir, ond mae'r mwyafrif yn wartheg yng nghamau cyntaf yr haint, lle mae'r briwiau TB yn rhy fach i allu eu canfod drwy edrych ar y corff. Bydd y GMG yn casglu samplau meinwe priodol i'w cyflwyno i'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol, lle ceisir meithrin bacteria *M. bovis*. Mewn adweithwyr HFG, caiff casgliad o nodau lymph sy'n ymddangos yn gyffredin ei gasglu er mwyn ceisio ynysu *M. bovis* drwy feithriniad bacteriolegol a thrwy hynny gadarnhau'r haint. Yn achos adweithwyr sydd â briwiau gweladwy, cadarnheir yr haint yn awtomatig, a'r prif reswm dros gymryd samplau o'r briwiau yw cymryd patrwm moleciwlaidd o'r rhywogaeth o *M. bovis* sy'n gyfrifol am yr achos. Mae canlyniad y prawf post-mortem a'r meithriniad bacteriolegol yn pennu nifer y profion bob 60 diwrnod y mae'n rhaid eu cynnal ar weddill y fuches cyn y gellir codi'r cyfyngiadau TB. Bydd cadarnhau TB drwy feithriniad gan labordy yn cymryd 6 wythnos o leiaf. Gallai gymryd yn hirach os yw'r samplau wedi'u halogi.

2.12 Bydd yr RhMRh yn hysbysu PSIAau am bob achos o TB (p'un a gânt eu cadarnhau'n ddiweddarach ai peidio) mewn buchesau godro er mwyn gallu profi a gweithredu o dan reoliadau hylendid bwyd[4]. Bydd yr RhMRh yn hysbysu'r YRhCH am achosion TB a gadarnheir mewn unrhyw fuches, at ddibenion sgrinio er iechyd pobl. Yn aml, caiff copi cwrteisi o hysbysiad am gadarnhad o TB ei anfon at y PSIA. Os canfyddir TB ar y gadair yn yr archwiliad post-mortem examination, ac mae hynny'n annhebygol, bydd yr RhMRh yn rhoi gwybod i'r PSIA ac i'r YRhCH.

**Adweithwyr Amhendant**

[4] Rheoliadau CE Rhif 852/2004 a Rhif 853/2004

2.13 Ar brydiau, bydd canlyniad y prawf croen ar anifeiliaid mewn ystod ganolig, rhwng positif a negyddol. Caiff yr anifeiliaid hyn eu rhoi yn y dosbarth adweithwyr amhendant (AAau). Gall gwartheg adweithio fel hyn am sawl rheswm, gan gynnwys straen neu heintiau eraill, ond mae profiad yn dangos bod y rhan fwyaf o adweithiau amhendant yn rhai amhenodol a chânt eu datrys yn yr ailbrawf cyntaf neu'r ail.

2.14 Mewn buchesau lle cadarnhawyd achos o TB yn ddiweddar (o fewn y 3 blynedd diwethaf), mae dod o hyd i AA yn arwain at gyfyngiadau ar y fuches gyfan ac at ohirio statws SRT y fuches. Hysbysir PSIAau am y sefyllfaoedd hyn ac mae'n rhaid trin pob llaeth gan y fuches â gwres.

2.15 Mewn buchesau lle nad oes hanes diweddar (o fewn y 3 blynedd diwethaf) o TB a gadarnhawyd, caiff anifeiliaid AA eu hynysu a'u profi ar ôl 42 - 60 diwrnod. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran llaeth gan yr anifeiliaid, ac ni chaiff statws SRT y fuches ei ohirio. Os bydd ail brawf y fuwch amhendant yn negyddol, bydd yr RhMRh yn caniatáu i'r anifail ailymuno â'r fuches. Os bydd yr ail brawf yn amhendant hefyd, cynhelir trydydd prawf, sy'n un terfynol, ar ôl 42 - 60 diwrnod arall ac os nad yw'r prawf hwn yn glir, caiff yr anifail ei nodi'n adweithiwr a'i ladd. Wedyn, caiff y fuches ei rhoi yn nosbarth achosion o TB a gadarnhawyd.

2.16 Os bydd AAau yn profi'n bositif ar unrhyw gam, cânt eu nodi'n adweithwyr, caiff y statws SRT ei golli a chaiff yr anifail / anifeiliaid ei ladd / eu lladd. Cynhelir archwiliadau post-mortem ar bob corff yn y lladd-dy ac anfonir samplau i'w meithrin.

**ATODIAD 3**

**Patrwm o ffurflen i'w defnyddio ar ôl colli Statws SRT ar gyfer cynhyrchwyr llaeth**
**(I'w defnyddio ar 1 Ionawr 2006 neu wedi hynny'n unig, os bydd angen)**

ENW'R DEILIAD
CYFEIRIAD

ENW'R AWDURDOD LLEOL
CYFEIRIAD
RHIF FFÔN

Llaeth o fuchesau sydd wedi colli eu Statws Swyddogol Rydd Rhag Tiwbercwlosis (SRT) a llaeth o anifeiliaid adweithiol TB

Pan gaiff fuches odro ei rhoi dan gyfyngiadau symud oherwydd TB, yn ei hanfod, bydd y fuches yn colli ei statws Swyddogol Rydd Rhag Tiwbercwlosis. Digwyddodd hyn i'ch buches chi pan roddwyd hysbysiad TB2 ar [xxxx] gan [xxxx]. Felly, mae'n rhaid pasteureiddio llaeth o'r eiddo uchod, neu ei roi trwy driniaeth gryfach â gwres cyn y gellir ei werthu i bobl ei ddefnyddio, neu cyn y gellir ei ddefnyddio i weithgynhyrchu cynhyrchion i bobl eu defnyddio. Bydd llaeth a gaiff ei drin â gwres yn y fath fodd yn dangos adwaith negyddol i'r prawf ffosffatas. Yn ogystal, mae'n rhaid atal llaeth o unrhyw un anifail adweithiol ac ni cheir ei ddefnyddio i'w fwyta neu ei yfed gan bobl.

Yn ogystal, fe'ch cynghorir y gallai unrhyw berson sy'n gwerthu neu'n defnyddio llaeth neu gynhyrchion ar sail llaeth sy'n groes i Erthygl 4 (1) yn Rheoliad (CE) 853/2004 fod yn euog o drosedd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Cynhwysir y rheolau deddfwriaethol sy'n nodi'r gofynion o ran iechyd buches ar gyfer cynhyrchu llaeth amrwd yn Atodiad III, Adran IX, Pennod I yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Mae Atodiad III, Adran IX, Pennod I, 3(a) yn ei gwneud yn ofynnol i laeth amrwd o anifeiliaid nad ydynt yn perthyn i fuches Swyddogol Rydd Rhag Tiwbercwlosis, gyda chaniatâd yr awdurdod cymwys, gael ei ddefnyddio i bobl ei fwyta neu yfed dim ond ar ôl cael ei drin â gwres fel y bydd yn dangos adwaith negyddol i'r prawf ffosffatas.

I ddiogelu eich iechyd eich hun, iechyd eich teulu neu eich staff, argymhellwn yn gryf na ddylech yfed na defnyddio llaeth heb ei basteureiddio yn eich cartref.

Llofnod..........................................................................

Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd

Dyddiad ..................................................

# ATODIAD 9: CYNHYRCHION ŴY AC ŴY HYLIF

## A.9.1: Cyflwyniad

Mae'r Atodiad yn cynnig canllawiau penodol i Awdurdodau Bwyd ar orfodi Adran X, Pennod II yn Rheoliad 853/2004. Mae hyn yn gosod y rheolau o ran iechyd y cyhoedd ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion ŵy ac ŵy hylif, ac ar gyfer eu rhoi ar y farchnad, i'w defnyddio gan bobl.

Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion ar gyfer:

- sefydliadau;
- deunyddiau crai ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion ŵy;
- gofynion hylendid arbennig ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion ŵy;
- manylebau dadansoddi; a
- labelu a nodau adnabod.

## A.9.2: Cwmpas y Rheoliadau

Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i sefydliadau sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion ŵy ac ŵy hylif i'w defnyddio gan bobl, a fyddai'n fusnesau bwyd sy'n ymwneud â chynhyrchu:

- cynhyrchion a broseswyd sy'n deillio o brosesu wyau, neu amrywiol gyfansoddion neu gymysgeddau o wyau, neu o brosesu cynhyrchion o'r fath ymhellach; neu
- ŵy hylif i'w gludo ymlaen i sefydliadau prosesu cymeradwy.

Mae angen i bob sefydliad gael cymeradwyaeth os yw'r Rheoliadau'n berthnasol iddynt.

Nid oes un o'r gofynion yn Adran X, Pennod II yn Rheoliad 853/2004 yn berthnasol i adwerthu, fel y'i diffinnir yn Rheoliad 178/2002, felly nid yw sefydliadau fel pobyddion ac arlwywyr sy'n prosesu wyau yn amodol ar unrhyw un o'r gofynion yn Rheoliad 853/2004.

Mae Canllawiau [Drafft] gan y Comisiwn Ewropeaidd ar Reoliad 853/2004 yn cadarnhau na fwriadwyd erioed, wrth ddatblygu'r Rheoliadau hylendid, y byddai cynhyrchu bwydydd fel cynhyrchion pobydd a phasta yn amodol ar y gofynion yn Rheoliad 853/2004. O'r herwydd, ni fyddai sefydliad sy'n prosesu wyau i'w defnyddio fel cynhwysion mewn bwydydd a gynhyrchir yn y sefydliad hwnnw yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004 ar gyfer y gweithgaredd hwn.

## A.9.3: Mathau o Eiddo a Gymeradwyir

Mae eiddo y mae angen cymeradwyaeth arno yn dod mewn dau gategori:

(i) eiddo lle caiff cynhyrchion ŵy eu gweithgynhyrchu a'u rhoi ar y farchnad, h.y. lle mae'r prosesu'n digwydd; ac
(ii) eiddo lle caiff ŵy hylif ei gynhyrchu i weithgynhyrchwr cynhyrchion ŵy cymeradwy ei brosesu'n ddiweddarach, h.y. cynhyrchwyr ŵy neu ganolfannau pacio.

Mae categori (ii) yn bodoli oherwydd efallai bod yn well gan ganolfannau pacio wyau dorri wyau eu hunain, gan gynnwys wyau wedi cracio, i gynhyrchu ŵy hylif, yn hytrach na risgio eu bod yn torri cyn y cânt eu hanfon i sefydliad prosesu categori (i). Er mwyn cymeradwyo hyn, mae'n rhaid ei gwneud yn ofynnol y caiff yr wyau eu torri cyn gynted â phosibl ac y caiff yr ŵy hylif ei rewi neu ei oeri cyn ei gludo i sefydliad cymeradwy arall. Os caiff ei oeri, ni chaiff y tymheredd storio fod yn uwch na $4^{o}C$ ac ni chaiff y cyfnod storio cyn prosesu fod yn hirach na 48 awr. Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad a gaiff gymeradwyaeth categori (ii) yn unig gydymffurfio â'r un gofynion cymeradwyo â gweithgynhyrchwyr cynhyrchion wy yng nghategori (i). Wrth hysbysu'r Asiantaeth am gymeradwyaeth, dylai'r Authority nodi a yw'r gymeradwyaeth ar gyfer categori (i) neu (ii) ac a yw'r eiddo'n ganolfan bacio hefyd.

## A.9.4: Wyau budr

Ni chaniateir torri wyau os nad ydynt yn lân ac yn sych. Gellir glanhau wyau budr, ond mae'n rhaid i Awdurdodau sicrhau bod unrhyw waith glanhau, sychu a diheintio wyau yn digwydd ar wahân i bob un o weithrediadau eraill y busnes.

## A.9.5: Allgyrchu neu Fathru

Mae'r Rheoliadau'n gwahardd allgyrchu neu fathru i dynnu cynnwys wyau neu wynnwy o'u plisgyn i'w defnyddio gan bobl. Fodd bynnag, gellir defnyddio allgyrchyddion i waredu gwastraff, ac mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid lleoli'r allgyrchydd yn gwbl ar wahân i weithrediadau eraill y sefydliad cymeradwy. Dylai swyddogion awdurdodedig fodloni eu hunain na all deunydd a allgyrchwyd halogi cynhyrchion wy a fwriadwyd i bobl eu bwyta. Mae'n rhaid i ddeunydd gwastraff gael ei ddadnatureiddio wrth fynd i mewn i'r allgyrchydd, er enghraifft, trwy ddefnyddio lliw.

## A.9.6: Nodau Adnabod

Mae'n rhaid cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol ar gyfer nodau adnabod a osodir yn Atodiad II, Adran I yn Rheoliad 853/2004 a chânt eu gosod ym Mhennod 5.1 yn y Cod. Fodd bynnag, mae yna ofynion penodol ychwanegol ar gyfer cynhyrchion ŵy. Mae Rheoliad 853/2004, Atodiad III, Adran X, Pennod II, Rhan V yn ei gwneud yn ofynnol i lwythi o gynhyrchion ŵy i'w defnyddio fel cynhwysion wrth weithgynhyrchu cynnyrch arall gynnwys label sy'n nodi'r tymheredd y mae'n rhaid cadw'r cynhyrchion ŵy a'r hyd y gellir eu cadw ar y tymheredd hwnnw.

## A.9.7: Pasteureiddio a Thrin â Gwres

Nid yw'r Rheoliadau'n pennu cyfuniad o amser / tymheredd ar gyfer trin wyau â gwres, ond maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses ddileu peryglon microbiolegol neu eu lleihau i lefel dderbyniol. Nid yw prosesu'n ofynnol ar gyfer gwynnwy a fwriedir ar gyfer gweithgynhyrchu albwmen wedi sychu neu grisialu a fydd, yn y pen draw, yn cael ei drin â gwres.

Bydd angen i Awdurdodau Bwyd fod yn fodlon bod y broses trin â gwres yn ddigonol er mwyn sicrhau y caiff lefel y micro-organebau yn y cynnyrch wy ei leihau i unrhyw lefelau a osodir yn Rheoliadau'r UE ar feini prawf microbiolegol.

Os cynigir proses ansafonol, dyletswydd y deiliad yw dangos y cynhaliwyd ymchwil ddigonol i'w effeithiolrwydd.
Mewn sefydliadau lle cynhelir triniaeth â gwres, dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod gan weithredydd y broses wres lefel arbenigedd derbyniol a phriodol.

## A.9.8: Manylebau Dadansoddi

Mae Rhan IV yn Atodiad III, Adran X, Pennod II yn Rheoliad 853/2004 yn gosod manylebau dadansoddi na chaiff y cynnyrch terfynol fynd drostynt. Er nad yw'r UE yn rhagnodi dulliau i brofi am asidau lactig neu fwtyrig, mae dulliau'n bodoli. Os defnyddir dulliau o'r fath, dylid rhoi ystyriaeth briodol i ddibynadwyedd y canlyniadau. Os caiff samplau eu profi, dylid cymharu'r canlyniadau â'r safonau a nodir.

Gall swyddogion awdurdodedig helpu deiliaid i ddatblygu cynlluniau samplu am nad yw'r Rheoliadau'n rhagnodi'r rhain ychwaith.

## A.9.9: Rheoli Tymheredd

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion na sefydlogwyd er mwyn eu cadw ar dymheredd ystafell gael eu hoeri i ddim mwy na 4°C. Mae'n rhaid rhewi cynhyrchion i'w rhewi ar ôl eu prosesu ar unwaith.

## A.9.10: Storio a Chludo

Mae'n rhaid i sefydliadau gadw wyau a chynhyrchion ŵy ar wahân i osgoi halogi. Os nad oes ystafelloedd ar wahân ar gael, gellir storio cynhyrchion ŵy mewn cynwysyddion ac ardaloedd ar wahân.

Mae'n rhaid i ystafelloedd storio allu cynnal unrhyw reolaethau tymheredd sy'n ofynnol.

Nid yw'r Rheoliadau'n ymwneud â chynhyrchion ŵy a gaiff eu storio mewn sefydliadau ar wahân fel depos neu warysau y tu allan i sefydliadau cynhyrchion wy cymeradwy. Mae Rheoliad 852/2004 yn ymwneud â storio o'r fath.

**A.9.11: Marchnata Wyau**
**(Gweler hefyd Atodiad 10)**

O ran rheoliadau ansawdd ar wyau a marchnata, cyfrifoldeb Defra yw canolfannau pacio wyau, p’un ag oes ganddynt gymeradwyaeth i gynhyrchu wy hylif ai peidio o dan y Rheoliadau, a chânt eu harchwilio gan Arolygwyr Marchnata Wyau (AMWau).

Argymhellir y dylai swyddogion awdurdodedig gydgysylltu ag AMWau cyn archwilio cyfleusterau cynhyrchion wyau mewn canolfannau pacio wyau.

# ATODIAD 10: CANOLFANNAU PACIO WYAU

## A.10.1: Cyflwyniad

Mae'r Atodiad hwn yn cynnig canllawiau penodol i Awdurdodau Bwyd ar gyfer gorfodi Atodiad III, Adran X, Pennod 1 yn Rheoliad 853/2004.

Yn ogystal â'r gofynion perthnasol yn Rheoliad 852/2004, mae'r rhan hon o'r Rheoliadau a enwyd yn gosod gofynion ar gyfer canolfannau pacio wyau sy'n ymwneud â:

- gofynion o ran hylendid a thymheredd ar gyfer storio a chludo wyau
- y terfyn amser uchaf ar gyfer dosbarthu wyau i'r defnyddiwr

## A.10.2: Cwmpas y Rheoliadau

Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i sefydliadau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

- Canolfannau Pacio Wyau – graddio, pacio, trin a storio wyau;
- Cyfanwerthwyr ac Adwerthwyr – trin a storio wyau.

Mae cynhyrchu a chasglu wyau yn eiddo'r cynhyrchydd yn weithgareddau a gynhelir ar lefel gynhyrchu gynradd. Bydd gorfodi'r Rheoliadau ar y lefel hon yn destun canllawiau yn y dyfodol.

O dan delerau deddfwriaeth hylendid yr UE, ni chaiff canolfannau pacio wyau eu nodi fel cynhyrchwyr cynradd, oherwydd eu bod yn ymwneud â gweithgareddau sydd un cam oddi wrth gynhyrchu cynradd. Cadarnhawyd hyn yng nghanllawiau'r Comisiwn. Felly, yn ogystal â'r darpariaethau penodol ar gyfer hylendid wyau sydd yn Rheoliad 853/2004, bydd canolfannau pacio wyau'n amodol ar y darpariaethau priodol yn Rheoliad 852/2004, gan gynnwys gofynion Erthygl 5 HACCP a Phenodau perthnasol Atodiad II. Hefyd, bydd angen cymeradwyaeth ar ganolfannau pacio wyau, am y byddant yn amodol ar Erthygl 4(2) yn Rheoliad 852/2004. Hefyd, byddant yn amodol ar y rheolaethau swyddogol a osodir yn Erthygl 4 yn Rheoliad 882/2004.

Bydd canolfannau pacio wyau'n derbyn wyau gan unedau cynhyrchu cynradd. O'r ganolfan bacio, caiff wyau eu dosbarthu ar draws y gadwyn dosbarthu bwyd - i gyfanwerthwyr, adwerthwyr a'r fasnach arlwyo. Hefyd, gall canolfannau pacio fod yn cael wyau gan sawl safle cynhyrchu gwahanol, a gallant fod yn cymryd swmp-gyflenwadau o wyau o'r farchnad gyfanwerthu ac yn eu hailbacio mewn cynwysyddion llai. Mae hyn oll yn dderbyniol, gyhyd â bod darpariaethau'r Rheoliadau hylendid bwyd ddim yn cael eu torri. Mae gan ganolfannau pacio rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau y caiff wyau eu dosbarthu i'r cwsmer mewn cyflwr da.

Er bod cyfanwerthwyr wyau'n amodol ar ofynion Atodiad III, Adran X, Pennod 1 yn Rheoliad 853/2004, nid yw'n ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth, am fod

canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi bod cyfanwerthu'n dod o dan ddiffiniad gweithgarwch adwerthu, sydd wedi'i eithrio rhag cymeradwyaeth.

## A.10.3: Gofynion Penodol o ran Hylendid ar gyfer Wyau Plisgyn

Y gofynion penodol a osodir yn y Rheoliadau yw:

- Ar eiddo'r cynhyrchydd, a than y cânt eu gwerthu i'r defnyddiwr, mae'n rhaid cadw wyau'n sych, yn lân, yn rhydd rhag aroglau allanol, â diogelwch effeithiol rhag tolciau ac allan o olau uniongyrchol yr haul;

- Mae'n rhaid storio a chludo wyau ar dymheredd, cyson yn ddelfrydol, sydd fwyaf addas i sicrhau y cânt eu cadw mor hylan â phosibl;

- Mae'n rhaid dosbarthu wyau i'r defnyddiwr cyn pen terfyn amser uchaf o 21 diwrnod wedi eu dodwy.

Nid oes angen esbonio'r gofynion penodol hyn, ac eithrio'r gofyniad i ddosbarthu wyau i'r defnyddiwr terfynol cyn pen 21 diwrnod wedi eu dodwy. Nid oes modd pennu oedran ŵy yn uniongyrchol ac ymdrinnir ag unrhyw ofyniad cyfreithiol i roi dyddiad dodwy neu oedran ŵy mewn deddfwriaeth marchnata wyau. Gellir stampio wyau a'u pecynnau â dyddiadau 'best before', 'use by' neu ddyddiadau 'minimum durability'. Ar sail y wybodaeth hon, os yw swyddog gorfodi'n amau y caiff wyau eu gwerthu ar ôl y terfyn amser sy'n ofynnol am resymau diogelwch bwyd, dylai archwilio dogfennau cynhyrchydd yr wyau i bennu oedran yr ŵy. Hefyd, dylai gysylltu â'i arolygydd marchnata wyau (AMW) am arweiniad pellach a help gyda chamau gweithredu priodol.

## A.10.4: Wyau o'r tu allan i'r DU

Caiff cyfanwerthwyr neu bacwyr gaffael wyau o unrhyw wlad o fewn yr UE. Dylai pob ŵy o unrhyw wlad yn yr UE gydymffurfio â gofynion yn Atodiad III, Adran X, Pennod 1 yn Rheoliad 853/2004.

## A.10.5: Marchnata Wyau

Mae cynhyrchwyr wyau, gorsafoedd pacio a chyfanwerthwyr hefyd yn amodol ar Reoliadau o ran ansawdd wyau a marchnata. Cyfrifoldeb DEFRA/SEERAD yw'r Rheoliadau hyn. Cynhelir archwiliadau o dan y Rheoliadau hyn gan arolygwyr marchnata wyau. Argymhellir y dylai swyddogion gorfodi gydgysylltu â'u harolygwr marchnata wyau perthnasol cyn archwilio gorsafoedd pacio wyau a chyfanwerthwyr.

## A.10.6: Cynllun y Llew a chynlluniau sicrhau ansawdd eraill dan arweiniad y diwydiant

Mae sawl cynllun sicrhau ansawdd dan arweiniad y diwydiant yn weithredol ar hyd a lled y DU, yn enwedig 'Cynllun y Llew'. Mae Cod Ansawdd y Llew yn ymgorffori gweithdrefnau diogelu bwyd ar sail y Rheoliadau Hylendid Bwyd, ond mae hefyd yn cynnwys gofynion ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys brechu gorfodol rhag Salmonella Enteritidis i bob cywen a fwriedir ar gyfer heidiau sy'n cynhyrchu 'wyau'r Llew'. Mae cynllun y Llew hefyd yn stampio

dyddiad "best-before" ar y plisgyn yn ogystal ag ar y pecyn. Yn ogystal, mae'r cynllun “Laid in Britain”, a gynigir i gynhyrchwyr wyau annibynnol sy'n aelodau o UKEP, sef UK Egg Producers Association Ltd. Ar gyfer y cynlluniau hyn, mae yna reolaethau hylendid ychwanegol ar gyfer y fferm a'r orsaf bacio, gan gynnwys cynllun HACCP gorfodol ar gyfer gorsafoedd pacio. Mae archwilio safleoedd pacio a chynhyrchu wyau yn rheolaidd gan arolygwyr annibynnol yn rhan o'r cynlluniau hyn, ond maent yn wahanol i archwiliadau'r Awdurdodau Bwyd neu'r AMW ac Uned Wyau ac Adar (UWA) SEERAD. Efallai bydd swyddogion gorfodi am ystyried y cynlluniau sicrhau hyn wrth ddatblygu dull ar sail risg ar gyfer archwiliadau.

## ATODIAD 11: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL SY'N AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 – TEMPLEDI FFURFLENNI

Darperir templedi ffurflenni y gallai swyddogion awdurdodedig eu defnyddio mewn perthynas â chymeradwyo sefydliadau cynnyrch-benodol yn A.11.1 hyd A.11.6, ac fe'u crynhoir yn y tabl canlynol:

| Lleoliad | Templed Ffurflen |
|---|---|
| A.11.1 | Cais am Gymeradwyaeth |
| A.11.2 | Hysbysiad am Gymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol |
| A.11.3 | Hysbysiad am Wrthod Cymeradwyaeth |
| A.11.4 | Hysbysiad am Dynnu Cymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol |
| A.11.5 | Hysbysiad am Ohirio Cymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol |
| A.11.6 | Hysbysiad am Addasu Cymeradwyaeth |

Fel y nodir ym Mharagraff 5.1.4 yn y Cod Ymarfer, er y dylid ystyried mai'r gofynion isaf a gynhwysir yn y dogfennau hyn, gall Awdurdodau Bwyd eu haddasu fel y bo angen i ddiwallu gofynion lleol.

## A.11.1: Cais am Gymeradwyaeth

# Cais am Gymeradwyaeth i Sefydliad Busnes Bwyd sy'n Amodol ar Gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004

**Dylai'r gweithredydd busnes bwyd lenwi'r ffurflen hon**

**Argraffwch gopi o'r ffurflen hon a'i llenwi gydag inc du mewn PRIFLYTHRENNAU, neu llenwch hi ar y sgrin. Llenwch Adran 1 hyd Adran 8 (gan gynnwys yr adrannau hynny), a'r rhannau penodol yn Rhan 9 sy'n berthnasol i'r cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid yr ydych yn gwneud cais am gymeradwyaeth amdanynt ar gyfer eich sefydliad, yna llofnodwch a dyddiwch Rhan 10.**

**RHAN 1 – Sefydliad y ceisir cymeradwyaeth ar ei gyfer**

| | |
|---|---|
| Enw masnachu | |
| Cyfeiriad post llawn | Cod post: |

**RHAN 2 – Math(au) o gynnyrch/gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid y ceisir cymeradwyaeth amdano/amdanynt**

Nodwch y cynnyrch/cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid yr ydych yn gwneud cais am gymeradwyaeth amdano/amdanynt i ddefnyddio'r sefydliad (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | |
|---|---|
| ☐ | Briwgig |
| ☐ | Paratoadau Cig |
| ☐ | Cig a Wahanwyd yn Fecanyddol |
| ☐ | Cynhyrchion Cig |
| ☐ | Molysgiaid Dwygragennog Byw (Pysgod Cregyn) |
| ☐ | Cynhyrchion Pysgodfeydd |
| ☐ | Cynhyrchion Llaeth |
| ☐ | Wyau (nid Cynhyrchu Cynradd) / Cynhyrchion Ŵy |
| ☐ | Coesau Brogaod / Malwod |
| ☐ | Toddion Anifeiliaid a Chriwsion |
| ☐ | Stumogau, Pledrenni a Pherfeddion a Driniwyd |
| ☐ | Gelatin |
| ☐ | Colagen |

**RHAN 3 – Gweithredydd busnes bwyd a rheolwyr y sefydliad**

| | |
|---|---|
| Enw a Chyfeiriad llawn y Gweithredydd Busnes Bwyd | Cod post: |
| Ffôn (gan gynnwys Cod deialu) | |
| Ffacs (gan gynnwys Cod deialu) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| E-bost | | | |
| Enwau llawn rheolwyr y sefydliad | 1. | 2. | 3. |
| Teitlau swyddi | 1. | 2. | 3. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enwau Llawn eraill sydd â rheolaeth dros y busnes | 1. | 2. | 3. |
| Teitlau swyddi | 1. | 2. | 3. |

**RHAN 4 – Sut caiff y sefydliad ei ddefnyddio**

Pa un o’r gweithgareddau canlynol a gynhelir yn / o’r sefydliad (ticiwch bob un sy’n berthnasol)?

- ☐ Storfa oer annibynnol
- ☐ Marchnad gyfanwerthu
- ☐ Gweithgynhyrchu
- ☐ Prosesu arall (rhowch fanylion)
- ☐ Pacio
- ☐ Storio
- ☐ Dosbarthu
- ☐ Talu a chludo / cyfanwerthu
- ☐ Arlwyo (paratoi bwyd i’w fwyta/yfed yn y sefydliad)
- ☐ Adwerthu (gwerthu’n uniongyrchol i ddefnyddwyr neu gwsmeriaid eraill)
- ☐ Stondin mewn marchnad neu werthwr symudol
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**RHAN 5 – Cludo cynhyrchion o’r sefydliad**

Sut caiff cynhyrchion eu cludo o’r sefydliad (ticiwch bob un sy'n berthnasol)?

- ☐ Eich cerbyd(au) eich hun
- ☐ Haliwr dan gontract / preifat
- ☐ Cerbyd(au) y pwrcaswr ei hun
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**RHAN 6 – Cyflenwi cynhyrchion o’r sefydliad i sefydliadau eraill**

Pa un o’r canlynol a gyflenwir â chynhyrchion o’r sefydliad (ticiwch bob un sy’n berthnasol)?

- ☐ Busnesau eraill sy’n gweithgynhyrchu neu’n prosesu bwyd
- ☐ Pacwyr cyfanwerthol
- ☐ Storfeydd oer nad ydynt yn rhan o’r sefydliad y mae’r cais hwn yn ymwneud ag e
- ☐ Warysau nad ydynt yn rhan o’r sefydliad y mae’r cais hwn yn ymwneud ag e
- ☐ Tai bwyta, gwestai, ffreuturau neu fusnesau arlwyo tebyg

| | |
|---|---|
| ☐ | Busnesau bwyd parod |
| ☐ | Siopau adwerthu, archfarchnadoedd neu werthwyr symudol yr ydych yn berchen arnynt |
| ☐ | Siopau adwerthu, archfarchnadoedd, stondinau neu werthwyr symudol nad ydych yn berchen arnynt |
| ☐ | Aelodau o'r cyhoedd yn uniongyrchol o'r sefydliad y mae'r cais hwn yn ymwneud ag e |
| ☐ | Arall (rhowch fanylion) |

**RHAN 7 – Gweithgareddau eraill ar yr un safle**

A fydd unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol yn cael eu cynnal ar yr un safle â'r sefydliad y mae'r cais hwn am gymeradwyaeth yn ymwneud ag e, neu o fewn y safle hwnnw?

| | BYDD | NA FYDD | COD CYMERADWYO |
|---|---|---|---|
| Lladd, gan gynnwys moch, defaid, gwartheg, adar, anifeiliaid hela etc.: | ☐ | ☐ | |
| Torri cig, cig dofednod neu anifeiliaid hela (gan gynnwys oer a rhewedig) ffres: | ☐ | ☐ | |
| Storio cig, cig dofednod neu anifeiliaid hela (gan gynnwys oer a rhewedig) ffres: | ☐ | ☐ | |

**RHAN 8 – Gwybodaeth a dogfennau**

Mae angen y wybodaeth ganlynol er mwyn prosesu'ch cais, a dylid ei hanfon gyda'r ffurflen gais hon os oes modd. Nodwch pa wybodaeth rydych yn ei hanfon nawr (D.S. bydd gwybodaeth na chaiff ei hanfon nawr yn dal i fod yn ofynnol cyn y gellir pennu'ch cais).

| | |
|---|---|
| ☐ | Cynllun manwl i raddfa o'r safle (arfaethedig) yn dangos lleoliad ystafelloedd ac ardaloedd eraill i'w defnyddio er mwyn storio a phrosesu deunyddiau crai, cynnyrch a gwastraff, a'r modd y caiff cyfleusterau ac offer eu gosod |
| ☐ | Disgrifiad o'r system rheoli diogelwch bwyd (arfaethedig) ar sail egwyddorion HACCP |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer cynnal y sefydliad a'r offer |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer glanhau'r sefydliad, yr offer a'r cludiant |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff |
| ☐ | Disgrifiad o'r cyflenwad dŵr (arfaethedig) |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer profi ansawdd y cyflenwad dŵr |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer profi cynhyrchion |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer rheoli pla |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer monitro iechyd staff |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer hyfforddi staff mewn hylendid |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer cadw cofnodion |
| ☐ | Disgrifiad o'r trefniadau (arfaethedig) ar gyfer rhoi'r nod adnabod ar becynnau a deunydd rhwymo cynhyrchion |

**RHAN 9 – Cynhyrchion a gaiff eu trin yn y sefydliad / gweithgareddau**

Pa un o'r gweithgareddau canlynol a gynhelir yn y sefydliad? Nodwch drwy roi amcangyfrif o faint a gaiff eu trin mewn cilogramau neu litrau bob wythnos (ticiwch bob un sy'n berthnasol).

**RHAN 9(1) – Briwgig a Pharatoadau Cig**

| | |
|---|---|
| | Trin briwgig |
| | Trin paratoadau cig |

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o friwgig a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o baratoadau cig a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(2) – Cig a Wahanwyd yn Fecanyddol**

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o gig a wahenir yn fecanyddol a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(3) – Cynhyrchion Cig**

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o gynhyrchion cig a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(4) – Molysgiaid Dwygragennog Byw (Pysgod Cregyn) / Cynhyrchion Pysgodfeydd**

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o Folysgiaid Dwygragennog Byw (Pysgod Cregyn) / Cynhyrchion Pysgodfeydd a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(5) – Llaeth Amrwd / Cynhyrchion Llaeth**

| | |
|---|---|
| | Llaeth Amrwd |
| | Cynhyrchion Llaeth |

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Sawl litr o Laeth Amrwd a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

| | |
|---|---|
| Sawl litr / tunnell o Gynhyrchion Llaeth a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(6) – Wyau (nid Cynhyrchu Cynradd) / Cynhyrchion Ŵy**

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Sawl tunnell o Wyau a gaiff ei bacio yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

| | |
|---|---|
| Sawl litr o Gynhyrchion Ŵy a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(7) – Coesau Brogaod a Malwod**

| | |
|---|---|
| | Coesau Brogaod |
| | Malwod |

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o goesau brogaod a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o falwod a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(8) – Toddion Anifeiliaid a Chriwsion**

| | |
|---|---|
| | Toddion Anifeiliaid |
| | Criwsion |

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Sawl tunnell o doddion anifeiliaid a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

| | |
|---|---|
| Sawl tunnell o griwsion anifeiliaid a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(9) – Stumogau, Pledrenni a Pherfeddion a Driniwyd**

| | |
|---|---|
| | Stumogau a Driniwyd |
| | Pledrenni a Driniwyd |
| | Perfeddion a Driniwyd |

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o stumogau a driniwyd a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |
| Cyfanswm o sawl tunnell o bledrenni a driniwyd a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o berfeddion a driniwyd a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(10) – Gelatin**

Manylion Llawn y Gweithgareddau

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl tunnell o gelatin a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(11) – Colagen**

Manylion Llawn y Gweithgareddau

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o sawl golagen a driniwyd a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 9(12) – Siop Oer Annibynnol**

Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Sawl tunnell o'r cynnyrch a gaiff ei drin yn y sefydliad bob wythnos ar gyfartaledd? | |

**RHAN 10 – YMGEISIO**

Drwy hyn yr wyf yn ymgeisio, fel gweithredydd busnes bwyd y sefydliad a nodir yn Rhan 1, am gymeradwyaeth i ddefnyddio'r sefydliad hwnnw er mwyn trin cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid y mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gosod y gofynion amdanynt, fel y nodir yn Rhannau perthnasol y ddogfen hon.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod y Gweithredydd Busnes Bwyd | | Dyddiad | |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | | | |

Os oes angen unrhyw help neu gyngor arnoch ynghylch sut i lenwi'r ffurflen hon, neu am y cynhyrchion y mae'r Rheoliad yn ymwneud â nhw, neu am yr amgylchiadau y mae angen cymeradwyaeth amdanynt yn y Rheoliad, cysylltwch â'r swyddog a enwir isod.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon a chasglu'r wybodaeth arall y mae ei hangen, anfonwch hi at:

Enw Cyswllt:

Ffôn:

Ffacs:

E-bost:

**PWYSIG**

Rhowch wybod yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Bwyd yn y cyfeiriad a nodir am unrhyw newidiadau i'r manylion rydych wedi eu rhoi ar y ffurflen hon.

## A.11.2: Hysbysiad am Gymeradwyaeth Lawn / Cymeradwyaeth Amodol

# Hysbysiad am Gymeradwyaeth Lawn / Cymeradwyaeth Amodol * i Sefydliad Busnes Bwyd sy'n Amodol ar Gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004

**Dylai'r Awdurdod Bwyd lenwi'r ffurflen hon a'i hanfon at y gweithredydd busnes bwyd**

**RHAN 1 – Enw a chyfeiriad y gweithredydd busnes bwyd**

| AT: | **PWYSIG**<br>Mae'n rhaid i chi roi gwybod am unrhyw newidiadau i'r manylion ar y ffurflen hon, gan gynnwys unrhyw newidiadau yn y gweithrediadau a gynhelir a'r cynhyrchion a drinnir yn y sefydliad, yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Bwyd cymeradwyo yn y cyfeiriad a nodir. | [Logo'r Awdurdod Bwyd] |
|---|---|---|

**RHAN 2 – Cyflwyniad**

**Yn dilyn eich cais dyddiedig am gymeradwyaeth i'ch sefydliad yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, RHODDIR cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol* mewn perthynas â'r sefydliad a nodir yn Rhan 3, a chwmpas y gweithrediadau, gweithgareddau a materion eraill a nodir yn Rhannau perthnasol y ddogfen hon.**

**Dangosir y cod cymeradwyo a roddwyd i'r sefydliad hwn ar waelod y ddogfen hon. Mae'n rhaid ei ddefnyddio yn y ffurf a bennir gan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 a phan mae'r Rheoliad hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol.**

**Yn unol â Rheoliad 12 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, gall unrhyw berson sy'n ddig ynghylch penderfyniad gan Awdurdod Bwyd i beidio â rhoi cymeradwyaeth lawn apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i Lys Ynadon. Un mis ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad i chi yw'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl. Efallai y byddwch am geisio cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol am oblygiadau'r hysbysiad hwn a'ch hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Bwyd hwn am eich cais. Enw a chyfeiriad y Llys Ynadon y dylech gyflwyno'ch cais iddo yw**

**RHAN 3 – Enw masnachu a chyfeiriad**

| | |
|---|---|
| Enw masnachu'r sefydliad | |
| Cyfeiriad post llawn | Cod post: |

☐ CYMERADWYWYD y sefydliad yn unol ag Erthygl 31(2)(c) yn Rheoliad (CE) Rhif 882/2004.

☐ Rhoddwyd CYMERADWYAETH AMODOL i'r sefydliad yn unol ag Erthygl 31(2)(d) yn Rheoliad (EC) Rhif 882/2004.

**RHAN 3(1) – Cymeradwyaeth Amodol (Dylid llenwi'r Rhan hon os rhoddir cymeradwyaeth amodol)**

**Gofynion y Rheoliadau yr ydych wedi methu cydymffurfio â nhw yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Gofyniad |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Y rhesymau pam rydych wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Manylion yr anghydffurfio |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Y mesurau y mae agen i chi eu cymryd er mwyn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Y mesurau y mae eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Yn unol ag Erthygl 31(2)(d) yn Rheoliad (CE) Rhif 882/2004, bydd yr Awdurdod Bwyd hwn yn ymweld â’ch sefydliad cyn pen tri mis i’r dyddiad y rhoddir y gymeradwyaeth amodol hon er mwyn asesu'r cynnydd mewn cydymffurfio â'r gofynion uchod.

**RHAN 4 – Gweithredydd busnes bwyd**

| Enw a chyfeiriad llawn y Gweithredydd Busnes Bwyd | Cod post: |
|---|---|

**RHAN 5 – Cwmpas y gymeradwyaeth / y gymeradwyaeth amodol***

Mae'r gymeradwyaeth / y gymeradwyaeth amodol* hon yn caniatáu trin y math(au) canlynol o gynnyrch yn y sefydliad a nodir yn Rhan 3 yn y ddogfen hon mewn perthynas â’r gweithrediadau a’r cynhyrchion penodol a nodir isod:

| | |
|---|---|
| ☐ | Briwgig |
| ☐ | Paratoadau Cig |
| ☐ | Cig a Wahanwyd yn Fecanyddol |
| ☐ | Cynhyrchion Cig |
| ☐ | Molysgiaid Dwygragennog Byw (Pysgod Cregyn) |
| ☐ | Cynhyrchion Pysgodfeydd |
| ☐ | Cynhyrchion Llaeth |
| ☐ | Wyau (nid Cynhyrchu Cynradd) / Cynhyrchion Ŵy |
| ☐ | Coesau Brogaod / Malwod |
| ☐ | Toddion Anifeiliaid a Chriwsion |
| ☐ | Stumogau, Pledrenni a Pherfeddion a Drinnir |
| ☐ | Gelatin |

☐ Colagen

**Manylion llawn y gweithgareddau a'r cynhyrchion penodol a gaiff eu trin:**

| |
|---|
| |

**Caniatawyd yr eithriadau canlynol i'r sefydliad a nodir yn Rhan 3:**

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Cod Cymeradwyo:** | |
| **Dyddiad y Gymeradwyaeth / y Gymeradwyaeth Amodol* a Roddir:** | |
| **Llofnod:** | |
| **Enw:** | |
| **Swyddogaeth:** | |
| **Dyddiad:** | |

| Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Bwyd: | Enw Cyswllt:<br>Ffôn:<br>Ffacs:<br>E-bost: | **PWYSIG**<br>**Mae'n rhaid i chi roi gwybod am unrhyw newidiadau i'r manylion ar y ffurflen hon, gan gynnwys unrhyw newidiadau yn y gweithrediadau a gynhelir a'r cynhyrchion a drinnir yn y sefydliad, yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Bwyd cymeradwyo yn y cyfeiriad a nodir.** |
|---|---|---|

* Dylai'r Awdurdod Bwyd ddileu fel y bo'n briodol

## A.11.3: Hysbysiad am Benderfyniad i Wrthod Cymeradwyaeth

# Hysbysiad am Benderfyniad i WRTHOD Cymeradwyaeth i Sefydliad Busnes Bwyd sy’n Amodol ar Gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004

**Dylai’r Awdurdod Bwyd lenwi’r ffurflen hon a'i hanfon at y gweithredydd busnes bwyd**

**RHAN 1 – Enw a chyfeiriad y gweithredydd busnes bwyd**

| | | |
|---|---|---|
| AT: | **PWYSIG**<br>**Ni chewch ddefnyddio’r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai’n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 os nad yw’r Awdurdod Bwyd hwn wedi rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol.** | [Logo’r Awdurdod Bwyd] |

**RHAN 2 – Hysbysu penderfyniad**

**Yn dilyn eich cais dyddiedig am gymeradwyaeth i’ch sefydliad yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, GWRTHODIR cymeradwyaeth mewn perthynas â’r sefydliad a nodir yn Rhan 3, a chwmpas y gweithrediadau, gweithgareddau a materion eraill a nodir yn Rhannau perthnasol y ddogfen hon.**

**Daethpwyd i’r penderfyniad i wrthod eich cais am y rheswm/rhesymau a gyflwynir yn Rhan 4 yn y ddogfen hon.**

**Felly, ni cheir defnyddio’r sefydliad at unrhyw bwrpas a fyddai’n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 OS NAD YW’R AWDURDOD BWYD HWN YN RHOI CYMERADWYAETH NEU GYMERADWYAETH AMODOL.**

**Yn unol â Rheoliad 12 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, gall unrhyw berson sy’n ddig ynghylch penderfyniad gan Awdurdod Bwyd i beidio â rhoi cymeradwyaeth apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i Lys Ynadon. Un mis ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad i chi yw’r terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl. Efallai y byddwch am geisio cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol am oblygiadau’r hysbysiad hwn a’ch hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Bwyd hwn am eich cais. Enw a chyfeiriad y Llys Ynadon y dylech gyflwyno’ch cais iddo yw .**

**RHAN 3 – Enw masnachu a chyfeiriad y sefydliad**

| | |
|---|---|
| Enw masnachu’r sefydliad | |
| Cyfeiriad post llawn | Cod post: |

**RHAN 4 – Rhesymau dros wrthod**

**Gwrthodwyd eich cais am gymeradwyaeth am eich bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau fel y’u nodir isod.**

**Gofynion y Rheoliadau yr ydych wedi methu cydymffurfio â nhw yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Gofyniad |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Y rhesymau pam eich bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliad yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Manylion yr anghydffurfio |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | |
| **Enw:** | |
| **Swyddogaeth:** | |
| **Dyddiad:** | |

| Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Bwyd: | Enw Cyswllt:<br><br>Ffôn:<br><br>Ffacs:<br><br>E-bost: | **PWYSIG**<br><br>**Ni chewch ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 os nad yw'r Awdurdod Bwyd hwn wedi rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol.** |
|---|---|---|

## A.11.4: Hysbysiad am Benderfyniad i Dynnu Cymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol yn ôl

# Hysbysiad am Benderfyniad i DYNNU Cymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol* oddi wrth Sefydliad Busnes Bwyd sy'n Amodol ar Gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004

**Dylai'r Awdurdod Bwyd lenwi'r ffurflen hon a'i hanfon at y gweithredydd busnes bwyd**

**RHAN 1 – Enw a chyfeiriad y gweithredydd busnes bwyd**

| | | |
|---|---|---|
| AT: | **PWYSIG**<br>**Yn weithredol ar unwaith, ni chewch ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 na defnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig os nad yw'r Awdurdod Bwyd hwn wedi rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol.** | [Logo'r Awdurdod Bwyd] |

**RHAN 2 – Hysbysiad am benderfyniad i dynnu cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol ***

**Mae hwn yn hysbysiad ffurfiol bod cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol* a roddwyd gan yr Awdurdod Bwyd hwn (neu gan Awdurdod Bwyd blaenorol) ar mewn perthynas â'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 yn y ddogfen hon, sy'n amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, i drin y cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid a nodir yn Rhan 4 yn y ddogfen hon, wedi ei DYNNU yn unol ag Erthygl 31(2)(e) yn Rheoliad (CE) Rhif 882/2004. Daethpwyd i'r penderfyniad i dynnu cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol* am y rheswm/rhesymau a nodir yn Rhan 5 yn y ddogfen hon.**

**Yn weithredol ar unwaith, mae'n rhaid i chi roi'r gorau i ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, neu i ddefnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig ar unrhyw gynnyrch, <u>OS NAD YW'R AWDURDOD BWYD HWN YN RHOI CYMERADWYAETH NEU GYMERADWYAETH AMODOL</u>.**

**Yn unol â Rheoliad 12 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, gall unrhyw berson sy'n ddig ynghylch penderfyniad gan Awdurdod Bwyd i dynnu cymeradwyaeth/cymeradwyaeth amodol* apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i Lys Ynadon. Un mis ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad i chi yw'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl. Efallai y byddwch am geisio cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol am oblygiadau'r hysbysiad hwn a'ch hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Bwyd hwn am eich cais. Enw a chyfeiriad y Llys Ynadon y dylech gyflwyno'ch cais iddo yw .**

**RHAN 3 – Enw masnachu a chyfeiriad eich sefydliad**

| | |
|---|---|
| Enw masnachu'r sefydliad | |
| Cyfeiriad post llawn | Cod post: |

**RHAN 4 – Cynnyrch/cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid y rhoddwyd cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol* iddo/iddynt**

- ☐ Briwgig
- ☐ Paratoadau Cig

| | |
|---|---|
| ☐ | Cig a Wahanwyd yn Fecanyddol |
| ☐ | Cynhyrchion Cig |
| ☐ | Molysgiaid Dwygragennog Byw (Pysgod Cregyn) |
| ☐ | Cynhyrchion Pysgodfeydd |
| ☐ | Cynhyrchion Llaeth |
| ☐ | Wyau (dim Cynhyrchu Cynradd) / Cynhyrchion Ŵy |
| ☐ | Coesau Brogaod / Malwod |
| ☐ | Toddion Anifeiliaid a Chriwsion |
| ☐ | Stumogau, Pledrenni a Pherfeddion a Driniwyd |
| ☐ | Gelatin |
| ☐ | Colagen |

**RHAN 5 – Rhesymau dros dynnu**

**Tynnwyd cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol am eich bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau fel y'u nodir isod.**

**Gofynion y Rheoliadau yr ydych wedi methu cydymffurfio â nhw yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Gofyniad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Y rhesymau pam eich bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliad yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Manylion yr anghydffurfio |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | |
| **Enw:** | |
| **Swyddogaeth:** | |
| **Dyddiad:** | |

Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Bwyd:

Enw Cyswllt:

Ffôn:

Ffacs:

E-bost:

**PWYSIG**

**Yn weithredol ar unwaith, ni chewch ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 na defnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig os nad yw'r Awdurdod Bwyd hwn wedi rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol.**

*Dylai'r Awdurdod Bwyd ddileu fel y bo'n briodol

## A.11.5: Hysbysiad am Benderfyniad i Ohirio Cymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol

# Hysbysiad am Benderfyniad i OHIRIO Cymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol* i Sefydliad Busnes Bwyd Sy'n Amodol ar Gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004

**Dylai'r Awdurdod Bwyd lenwi'r ffurflen hon a'i hanfon at y gweithredydd busnes bwyd**

**RHAN 1 – Enw a chyfeiriad y gweithredydd busnes bwyd**

| AT: | **PWYSIG**<br>**Yn weithredol ar unwaith, ni chewch ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 neu ddefnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig ar unrhyw gynnyrch hyd nes y bydd yr Awdurdod Bwyd yn codi'r gohiriad hwn.** | [Logo'r Awdurdod Bwyd] |
|---|---|---|

**RHAN 2 – Hysbysiad am benderfyniad i ohirio cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol***

**Mae hwn yn hysbysiad ffurfiol bod cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol* a roddwyd gan yr Awdurdod Bwyd hwn (neu gan Awdurdod Bwyd blaenorol) ar mewn perthynas â'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 yn y ddogfen hon, sy'n amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, i drin y cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid a nodir yn Rhan 4 yn y ddogfen hon, wedi ei OHIRIO yn unol ag Erthygl 31(2)(e) yn Rheoliad (CE) Rhif 882/2004. Daethpwyd i'r penderfyniad i dynnu cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol* am y rheswm/rhesymau a nodir yn Rhan 5 yn y ddogfen hon.**

**Yn weithredol ar unwaith, mae'n rhaid i chi roi'r gorau i ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, neu i ddefnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig ar unrhyw gynnyrch, <u>HYD NES Y BYDD YR AWDURDOD BWYD HWN YN CODI'R GOHIRIAD</u>.**

**Yn unol â Rheoliad 12 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, gall unrhyw berson sy'n ddig ynghylch penderfyniad gan Awdurdod Bwyd i ohirio cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i Lys Ynadon. Un mis ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad i chi yw'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl. Efallai y byddwch am geisio cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol am oblygiadau'r hysbysiad hwn a'ch hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Bwyd hwn am eich cais. Enw a chyfeiriad y Llys Ynadon y dylech gyflwyno'ch cais iddo yw .**

**RHAN 3 – Enw masnachu a chyfeiriad eich sefydliad**

| | |
|---|---|
| Enw masnachu'r sefydliad | |
| Cyfeiriad post llawn | Cod post: |

**RHAN 4 – Cynnyrch/cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid y rhoddwyd cymeradwyaeth / cymeradwyaeth amodol* iddo/iddynt**

- ☐ Briwgig
- ☐ Paratoadau Cig

- ☐ Cig a Wahanwyd yn Fecanyddol
- ☐ Cynhyrchion Cig
- ☐ Molysgiaid Dwygragennog Byw (Pysgod Cregyn)
- ☐ Cynhyrchion Pysgodfeydd
- ☐ Cynhyrchion Llaeth
- ☐ Wyau (dim Cynhyrchu Cynradd) / Cynhyrchion Ŵy
- ☐ Coesau Brogaod / Malwod
- ☐ Toddion Anifeiliaid a Chriwsion
- ☐ Stumogau, Pledrenni a Pherfeddion a Driniwyd
- ☐ Gelatin
- ☐ Colagen

**RHAN 5 – Rhesymau dros ohirio**

**Gohiriwyd cymeradwyaeth am eich bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau fel y'u nodir isod.**

**Gofynion y Rheoliadau yr ydych wedi methu cydymffurfio â nhw yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Gofyniad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Y rhesymau pam eich bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliad yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Manylion yr anghydffurfio |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Y mesurau y mae angen i chi eu cymryd er mwyn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Y mesurau y mae eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | |
| **Enw:** | |
| **Swyddogaeth:** | |
| **Dyddiad:** | |

| Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Bwyd: | Enw Cyswllt: | **PWYSIG** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| | Ffôn:<br><br>Ffacs:<br><br>E-bost: | **Yn weithredol ar unwaith, ni chewch ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at unrhyw bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 neu ddefnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig ar unrhyw gynnyrch hyd nes y bydd yr Awdurdod Bwyd yn codi'r gohiriad hwn.** |

* Dylai'r Awdurdod Bwyd ddileu fel y bo'n briodol

## A.11.6: Hysbysiad am Benderfyniad i Wrthod Cymeradwyaeth Lawn i Sefydliad y Rhoddwyd Cymeradwyaeth Amodol Iddo

# Hysbysiad am Benderfyniad i Wrthod Cymeradwyaeth Lawn i Sefydliad sy'n Amodol ar Gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, y Rhoddwyd Cymeradwyaeth Amodol Iddo o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004

**Dylai'r Awdurdod Bwyd lenwi'r ffurflen hon a'i hanfon at y gweithredydd busnes bwyd**

**RHAN 1 – Enw a chyfeiriad y gweithredydd busnes bwyd**

| | | |
|---|---|---|
| AT: | **PWYSIG**<br>**Yn weithredol ar unwaith, ni chewch ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 na defnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig os nad yw'r Awdurdod Bwyd hwn wedi rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol.** | [Logo'r Awdurdod Bwyd] |

**RHAN 2 – Hysbysiad am benderfyniad**

**Mae'ch sefydliad chi, fel y'i nodir yn Rhan 3, sy'n amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ac a gafodd gymeradwyaeth amodol yn unol ag Erthygl 31(2)(d) yn Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 i drin y cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid a nodir yn Rhan 4 yn y ddogfen hon wedi cael ei WRTHOD ar gyfer cymeradwyaeth lawn.**

**Daethpwyd i'r penderfyniad i wrthod rhoi cymeradwyaeth lawn am y rheswm/rhesymau a nodir yn Rhan 5 yn y ddogfen hon.**

**Yn weithredol ar unwaith, mae'n rhaid i chi roi'r gorau i ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, neu ddefnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig ar unrhyw gynnyrch, <u>OS NAD YW'R AWDURDOD BWYD HWN YN RHOI CYMERADWYAETH NEU GYMERADWYAETH AMODOL</u>.**

**Yn unol â Rheoliad 12 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, gall unrhyw berson sy'n ddig ynghylch penderfyniad gan Awdurdod Bwyd i wrthod rhoi cymeradwyaeth apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i Lys Ynadon. Un mis ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad i chi yw'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl. Efallai y byddwch am geisio cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol am oblygiadau'r hysbysiad hwn a'ch hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Bwyd hwn am eich cais. Enw a chyfeiriad y Llys Ynadon y dylech gyflwyno'ch cais iddo yw .**

**RHAN 3 – Enw masnachu a chyfeiriad eich sefydliad**

| | |
|---|---|
| Enw masnachu'r sefydliad | |
| Cyfeiriad post llawn | Cod post: |

**RHAN 4 – Cynnyrch/cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid y rhoddwyd cymeradwyaeth amodol iddo/iddynt**

| | |
|---|---|
| ☐ | Briwgig |
| ☐ | Paratoadau Cig |
| ☐ | Cig a Wahanwyd yn Fecanyddol |
| ☐ | Cynhyrchion Cig |
| ☐ | Molysgiaid Dwygragennog Byw (Pysgod Cregyn) |
| ☐ | Cynhyrchion Pysgodfeydd |
| ☐ | Cynhyrchion Llaeth |
| ☐ | Wyau (dim Cynhyrchu Cynradd) / Cynhyrchion Ŵy |
| ☐ | Coesau Brogaod / Malwod |
| ☐ | Toddion Anifeiliaid a Chriwsion |
| ☐ | Stumogau, Pledrenni a Pherfeddion a Driniwyd |
| ☐ | Gelatin |
| ☐ | Colagen |

**RHAN 5 – Rhesymau dros wrthod**

**Gwrthodwyd cymeradwyaeth lawn am eich bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau fel y'u nodir isod.**

**Gofynion y Rheoliadau yr ydych wedi methu cydymffurfio â nhw yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Gofyniad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Y rhesymau pam rydych wedi methu cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau yw:**

| Rheoliad / Erthygl Rhif | Manylion yr anghydffurfio |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | |
| **Enw:** | |
| **Swyddogaeth:** | |
| **Dyddiad:** | |

| Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Bwyd: | Enw Cyswllt: | **PWYSIG**<br>**Yn weithredol ar unwaith, ni chewch ddefnyddio'r sefydliad a nodir yn Rhan 3 at UNRHYW bwrpas a fyddai'n gwneud y sefydliad yn amodol ar gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 na defnyddio'r cod cymeradwyo cysylltiedig os nad yw'r Awdurdod Bwyd hwn wedi rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol.** |
|---|---|---|

# ATODIAD 12: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL SY'N AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 – FFEILIAU AWDURDODAU BWYD

## Cynnwys

Cynigir y canllawiau canlynol i Awdurdodau Bwyd er mwyn cefnogi a gwella cysondeb yng nghynnwys a strwythur ffeiliau a gynhyrchir ar gyfer sefydliadau y mae angen cymeradwyaeth ffurfiol arnynt.

Mae ffeil wedi'i strwythuro'n iawn yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn bwysig i'r Awdurdod Bwyd. Mae'n cynnig hanes o'r sefydliad dan sylw a sut y datblygodd; mae'n rhoi dilyniant i swyddogion newydd; mae'n hwyluso ymarferion monitro a bydd yn cynorthwyo'r Awdurdod Bwyd wrth ddangos ei fod yn gymwys.

Dylai pob ffeil gynnwys:

- y ffurflen gais;

- cynllun neu gynlluniau o'r sefydliad yn dangos:

    i. Y ffordd y mae'r sefydliad wedi'i osod allan;
    ii. Lleoliad offer;
    iii. Llifau gwaith ar gyfer pob llinell gynhyrchu;
    iv. Y system ddosbarthu dŵr o fewn y sefydliad gan gynnwys pob allfa a man samplu;
    v. Cynllun draenio;
    vi. Rheoli pla - mannau baetio a/neu faglu o fewn y sefydliad a'r tu allan;

- synopsis o'r sefydliad sy'n disgrifio'n fras pa fath o sefydliad ydyw, y cynhyrchion a wneir, faint ohonynt a wneir, y maeth o fasnach, nifer y gweithwyr, rhif cymeradwyo ac i beth y cafodd gymeradwyaeth. Ni ddylai'r synopsis fod yn hirach nag un dudalen A4;

- adroddiad o'r archwiliad cyn cymeradwyaeth;

- rhaglen drefnus o'r gwaith i'w wneud i gyflawni cymeradwyaeth;

- dogfen hysbysu am gymeradwyaeth yn nodi:

    i. Manylion y gweithgareddau y mae'r gymeradwyaeth yn cyfeirio atynt;
    ii. Rhif cymeradwyo;
    iii. Dosbarth;
    iv. Cyfarwyddyd/cyfarwyddiadau hylendid arbennig;
    v. Unrhyw eithriadau a ganiatawyd;
    vi. Unrhyw amodau neu gyfyngiadau eraill bennir gan yr Awdurdod Bwyd;
    vii. Unrhyw drefniadau sy'n dderbyniol i'r Awdurdod Bwyd;

Noder: Dylid cynnwys pob gwybodaeth a dogfen berthnasol yn y ffeil hon;

- labeli (a argraffwyd, ailargraffwyd a'u defnydd) a dogfennau masnachol sy'n cario'r nod adnabod;
- llythyr yn nodi rôl yr Awdurdod Bwyd wrth gynllunio a gweithredu hyfforddiant hylendid y sefydliad i'w staff;
- adroddiadau archwilio ar yr eiddo yn eu trefn gronolegol;
- gohebiaeth â'r sefydliad yn eu trefn gronolegol;
- copïau o hysbysiadau neu gamau gweithredu ffurfiol eraill yn eu trefn gronolegol;
- copi o gynllun tynnu'n ôl mewn argyfwng y cwmni a'i system olrhainadwyedd, gan gynnwys enwau, rhifau ffôn, etc., personél allweddol o fewn y cwmni;
- copi o unrhyw ddogfennau eraill a ddarparwyd gan, neu a gopïwyd yn, yr eiddo a gymeradwywyd, gan gynnwys:

    i. dogfennaeth HACCP;
    ii. gwybodaeth am gyflenwyr;
    iii. rhestr o gynhyrchion;
    iv. canlyniadau profion ar ddeunyddiau crai, cynhyrchion a dŵr;
    v. cofnodion prosesu;
    vi. enwau a manylion cyswllt y rheolwyr a staff allweddol;
    vii. ffotograffau a delweddau digidol;
    viii. gweithdrefnau tynnu cynhyrchion yn ôl;

- canlyniadau pob sampl a gymerwyd gan yr Awdurdod Bwyd;
- lleoliad unrhyw gyfleusterau oddi ar y safle.

# ATODIAD 13: YMAGWEDD TUAG AT ORFODAETH - GOFYNIAD AR GYFER GWEITHDREFNAU RHEOLI DIOGELWCH BWYD AR SAIL EGWYDDORION HACCP

## A.13.1: Cyflwyniad

Mae’r gofyniad ar gyfer gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar sail egwyddorion HACCP yn newid sylweddol i fusnesau bwyd. Mae’r ddeddfwriaeth yn hyblyg ac yn caniatáu i fusnesau gydymffurfio mewn gwahanol ffydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fusnesau bach, llai datblygedig a busnesau arlwyo, lle mae’n anodd gweithredu HACCP traddodiadol.

## A.13.2: Ymagwedd Tuag at Orfodaeth

Dylid parhau i orfodi mewn modd graddedig ac addysgiadol.

## A.13.3: Rheoliad 852/2004

Mae Rheoliad 852/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd sefydlu a chynnal gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd (ar sail egwyddorion HACCP). Mae’r Asiantaeth wedi cynhyrchu deunydd arweiniol i helpu busnesau gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth hon, a fydd ar gael drwy awdurdodau lleol a thrwy wefan yr Asiantaeth.

Dylid cymryd camau gorfodi ffurfiol yn erbyn safleoedd bwyd sy’n cyflwyno perygl clir ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn gwella. <u>Ni fydd hyn yn newid o 1 Ionawr 2006</u>.

Yn achos safleoedd bwyd nad ydynt yn cyflwyno perygl clir ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, dylai ymweliadau gorfodi ganolbwyntio ar helpu’r busnes i wella’i safonau o ran diogelwch bwyd. O ran gorfodi, *yn ymarferol mae hyn yn golygu:*

- *Holi’r person sy’n gyfrifol am ddiogelwch bwyd ar y safle er mwyn sicrhau y dëellir peryglon sylweddol ac y cânt eu rheoli, a lle na chânt eu deall na’u rheoli – helpu’r busnes i wella.*

Gyda chyfyngiadau ar amser ac adnoddau, dylai gorfodwyr ganolbwyntio ar beryglon sylweddol i iechyd y cyhoedd, gan sicrhau bod y person sy’n gyfrifol am ddiogelwch bwyd yn deall y peryglon hyn ac yn gwybod sut i’w rheoli. Dull addysgiadol yw hwn. Y disgwyliad yw y bydd busnesau’n gwella’u safonau gydag amser, gan ystyried faint y maent yn ei ddeall oherwydd y swyddog gorfodi a ffynonellau eraill. Os na fydd busnes yn gwella - gydag amser rhesymol, ar ôl cael arweiniad, gellir defnyddio hysbysiadau i wella a chamau gorfodi eraill mwy ffurfiol. Dull graddedig yw hwn.

## A.13.4: Hyblygrwydd

Bydd Rheoliad 852/2004 yn gwneud mwy nag ychwanegu dogfennu a chadw cofnodion i ofyniad presennol ar gyfer dadansoddi peryglon. Mewn gwirionedd, mae’r Rheoliad yn llawer mwy hyblyg, ac yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau

bwyd sefydlu gweithdrefnau yn y busnes a fydd yn rheoli peryglon o ran diogelwch bwyd, ac integreiddio'r gweithdrefnau hyn â dogfennu a chadw cofnodion sy'n briodol i faint a natur y busnes.

Tra gall busnesau mwy a mwy cymhleth, a busnesau sydd â dealltwriaeth well o reoli diogelwch bwyd ddewis dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth drwy sefydlu system HACCP draddodiadol, gall eraill wneud hynny drwy ddulliau symlach, sy'n ystyried yr hyblygrwydd hwn. Mae'r adran yn disgrifio'r hyblygrwydd hwn i fusnesau bach.

Tra bydd rhai busnesau am ddilyn fframwaith traddodiadol 7 egwyddor HACCP, efallai na fydd eraill yn gallu ei ddeall neu ei weithredu'n rhwydd - yn enwedig busnesau bach. Nid oes unrhyw ofyniad i ddefnyddio'r dull 7 egwyddor hwn gyhyd ag y cyflawnir yr un nod - cynhyrchu bwyd diogel.

O ran gorfodi, *yn ymarferol, ystyr cydymffurfio <u>ar lefel uchel</u> yw:*

- *cael sicrwydd bod y person sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd yn deall peryglon sylweddol ac yn eu rheoli, e.e. drwy holi;*
- *gweld bod rhai gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n dangos sut mae'r busnes yn rheoli'r peryglon hyn drwy'r amser;*
- *gweld peth tystiolaeth y caiff y gweithdrefnau hyn eu dilyn, ac y cânt eu hadolygu a'u diweddaru.*

Os yw busnes un â risg arbennig o isel (e.e. siop losin, gwerthwr llysiau, stondin farchnad etc.) sy'n cyflwyno peryglon hylendid sylfaenol yn unig, gallai fod yn ddigon i'r busnes feddu ar ganllawiau i arfer da o ran hylendid, fod yn deall y canllawiau ac yn eu gweithredu. Efallai na fydd angen dogfennu a chadw cofnodion.

Disgwylir canllawiau pellach ar hyblygrwydd gan y Comisiwn erbyn mis Rhagfyr 2005.

Y canlynol yw'r pwyntiau allweddol:

- Mae hyblygrwydd yn berthnasol i <u>bob</u> busnes bwyd

- Dylai rheolwr busnes feddu ar y sgiliau angenrheidiol i gynnal system rheoli diogelwch bwyd sy'n gymesur â'r busnes, ac <u>nid</u> bod â hyfforddiant yn egwyddorion HACCP yn unig. Gellir meithrin y sgiliau hyn mewn sawl ffordd, ac mae mwy o lwybrau na hyfforddiant ffurfiol yn unig.

- Dylai staff mewn busnes feddu ar y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'u dyletswyddau a dilyn gweithdrefnau diogelwch bwyd y busnes. Dylai hyfforddiant i staff fod gymesur ac adlewyrchu'r canllawiau ar hyblygrwydd. Efallai na fydd angen hyfforddiant ffurfiol i gyflawni'r nod o feddu ar y cymwyseddau gofynnol. Yn ymarferol, efallai y byddai hyfforddiant mewn swydd yn briodol, ond nid yw mynychu digwyddiad hyfforddi ffurfiol yn angenrheidiol.

- Nid oes angen monitro gweithgareddau allweddol yn y busnes (pwyntiau rheoli critigol) yn rhifol a gellir monitro ar sail arsylwadau synhwyraidd, sgiliau crefft a goruchwyliaeth.

- Mae cofnodi digwyddiadau yn ffordd briodol a chymesur i gadw cofnodion mewn llawer o fusnesau.

- Mae'n rhaid i gamau cywiro ategu cofnodi digwyddiadau.

Er mwyn helpu busnesau i ddatblygu gweithdrefnau priodol ac i fabwysiadu dull graddedig o orfodi, mae'n bwysig deall sut i farnu cynnydd. Mae'r siart isod yn disgrifio elfennau'r ddeddfwriaeth a sut y gallai swyddog gorfodi farnu cynnydd tuag at gydymffurfio â hi mewn busnesau bach.

Mae'r siart canlynol yn rhannu elfennau'r ddeddfwriaeth i 7 egwyddor safonol HACCP, a nodir rhai o'r agweddau ar hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth. Er bod deunyddiau arweiniol yn defnyddio'r fframwaith 7 egwyddor hwn, nid yw'n hanfodol defnyddio'r dull hwn. Cyhyd ag y cyflawnir yr un nod, sef cynhyrchu bwyd diogel, gellir cyflawni hyn drwy amnewid, mewn ffordd syml ond effeithiol, rhai o'r saith egwyddor. Eglurir hyn yng nghanllawiau pellach y Comisiwn ar hyblygrwydd. Yn yr un modd, nid oes angen defnyddio terminoleg neu 'jargon' HACCP, a gall fod yn ddryslyd i rai busnesau.

Seiliwyd y rhaniad hwn ar ddull yr Asiantaeth, sef 'Bwyd mwy diogel, gwell busnes', ond dylid bod modd ei ddefnyddio i nodi cydymffurfiaeth mewn busnes sy'n defnyddio offer eraill sydd yr un mor hyblyg, neu lle mae busnes wedi llunio'i weithdrefnau ei hun.

<table>
<tr><td>1.</td><td>Nodwch unrhyw beryglon y mae'n rhaid eu hatal, eu dileu neu eu lleihau;<br><br>Efallai na fydd Dadansoddi Mapio Peryglon gydag offer fel siartiau llif yn addas i bob busnes. Mae'n ddigon i'r busnes fod wedi meddwl am ei weithgareddau mewn modd strwythuredig. Dylai'r dadansoddiad a'r gweithdrefnau a luniwyd arwain at sicrhau y caiff bwyd diogel ei gynhyrchu bob tro.<br><br>Efallai na fydd dull traddodiadol HACCP o reoli rhai peryglon drwy raglenni rhagofynnol mewn Arfer Hylendid Da ac eraill drwy system HACCP yn briodol, yn enwedig mewn busnesau bach lle na chaiff ei ddeall yn rhwydd. Beth bynnag yw fformat yr arweiniad, mae'n rhaid i'r busnes fod yn rheoli pob perygl sylweddol, gan gynnwys y rhaid a reolir yn draddodiadol drwy Arfer Hylendid Da.<br><br>O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:<br><br>• Gweld peth tystiolaeth bod y person sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd wedi meddwl am y busnes ac wedi nodi peryglon sylweddol ac yn gwybod sut i'w rheoli - yn achos rhai busnesau, gallai fod yn briodol dilyn cyngor safonol gan yr Asiantaeth, canllawiau'r diwydiant, cyngor gan gyrff masnach etc.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| 2.<br>3. | **Nodi pwyntiau rheoli critigol (PRhC) yn y camau lle bo rheoli'n hanfodol;**<br>**a Sefydlu terfynau critigol mewn PRhC.**<br><br>Efallai na fydd pwyntiau rheoli critigol a'u terfynol bob amser yn ffyrdd defnyddiol o feddwl am ddiogelwch bwyd mewn busnesau bach ac, yn hytrach, nodi rheolaethau cyffredinol – fel coginio'n drylwyr, yn ogystal â'r ffyrdd o sicrhau eu bod yn gwybod bod hyn wedi digwydd.<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth yn hyblyg wrth nodi'r gofyniad nad yw sefydlu terfyn critigol bob amser yn golygu bod yn rhaid pennu gwerth rhifol. Mae hyn yn arbennig o wir lle caiff gweithdrefnau monitro eu seilio ar arsylwadau gweledol. Er enghraifft, gall busnes ddibynnu ar wybodaeth synhwyro fel newid lliw, sudd yn rhedeg yn glir, stiwiau'n byrlymu etc. Mae'n rhaid i fusnesau ddeall sut mae'r mesurau hyn yn rheoli peryglon ac mae'n rhaid iddynt fod yn sicr eu bod yn effeithiol. Gall y busnes ei hun ddilysu hyn (ar sail profiad) neu gallai fod yn briodol defnyddio gweithdrefnau cyn-dilysu sy'n dilyn arfer gorau sefydledig, a luniwyd gan yr Asiantaeth, cyrff masnach neu eraill.<br><br>**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**<br><br>• *Gweld peth tystiolaeth bod y busnes yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynnwys camau lle caiff y peryglon sylweddol eu rheoli – i sawl busnes, gallai fod yn briodol dilyn cyngor safonol.* |
| 4. | **Sefydlu gweithdrefnau i fonitro'r PRhCau;**<br><br>Bydd angen dangos y caiff diogelwch bwyd ei fonitro drwy'r gweithdrefnau a nodir uchod. Gellir dangos hyn mewn sawl ffordd. Mewn rhai busnesau mwy, gellid cyflawni hyn drwy brotocolau monitro a chadw cofnodion. Mewn busnesau eraill - yn enwedig lle bo'r person sy'n gyfrifol yn treulio llawer o amser yn yr ardaloedd paratoi bwyd, gellid dangos hwn drwy eu gallu i oruchwylio'r gweithrediad - y caiff eu gweithdrefnau eu dilyn. Bydd yn bwysig sicrhau y caiff bwyd diogel ei gynhyrchu os caiff y gweithdrefnau eu dilyn.<br><br>Mewn sawl achos, gallai monitro fod yn ymarfer synhwyraidd llwyr, gwirio tymheredd bwyd a goginiwyd drwy edrych ar newid mewn lliw yn rheolaidd.<br><br>**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**<br><br>• *Gweld peth tystiolaeth bod y busnes yn monitro'i weithdrefnau, naill ai drwy ddefnyddio profion ffisegol fel nodi tymheredd neu drwy brofion synhwyro fel nodi bod stiw neu saws yn byrlymu. Dylai'r person sy'n gyfrifol am ddiogelwch allu esbonio'r dull monitro a ddewiswyd.* |

| | |
|---|---|
| 5. | **Sefydlu camau cywiro i'w cymryd os na fydd PRhC o dan reolaeth;**<br><br>Mae hefyd yn bwysig bod y busnes yn gwybod beth i'w wneud pan fydd pethau'n mynd o'i le – y camau cywiro y mae angen eu cymryd.<br><br>**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**<br><br>• *Holi'r person sy'n gyfrifol am reoli diogelwch bwyd i sicrhau y caiff staff ac offer eu goruchwylio'n ddigonol, er mwyn sicrhau y caiff gweithdrefnau eu dilyn ac y caiff bwyd diogel ei gynhyrchu a, phan fydd pethau'n mynd o'u lle, y cymerir camau cywiro priodol.* |
| 6. | **Sefydlu gweithdrefnau i wirio a yw'r gweithdrefnau uchod yn gweithio'n effeithiol;**<br><br>Bydd angen i'r busnes ddangos y caiff ei weithdrefnau eu gwirio, eu hadolygu a'u diweddaru, ac y caiff newidiadau i fwydlenni, mathau o fwyd a dulliau coginio, ac offer newydd, eu hadlewyrchu. Mewn busnesau mwy, yn aml bydd trydydd partïon yn gwirio, ond mewn busnesau llai, mae'n ddigon i'r busnes gynnal adolygiadau cyfnodol o'i holl weithdrefnau a dulliau, ac ystyried arfer da a dulliau diogel.<br><br>**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**<br><br>• *Gweld tystiolaeth y caiff gweithdrefnau mewn busnes eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes.* |
| 7. | **Sefydlu dogfennau a chofnodion i ddangos y caiff y mesurau uchod eu gweithredu'n effeithiol;**<br><br>Mae dogfennu a chadw cofnodion yn arbennig o feichus i fusnesau llai, ac mae'r ddeddfwriaeth newydd yn datgan yn glir y dylid cydbwyso'r rhain a'u cyfyngu i'r hyn sy'n hanfodol o ran diogelwch bwyd.<br>Dylai'r cofnodion gynnwys camau cywiro a gymerwyd.<br><br>**O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:**<br><br>• *Gweld dogfennau sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ac yn disgrifio'r prif weithdrefnau neu ddulliau a ddefnyddir yn y busnes i reoli'r peryglon pwysicaf;*<br><br>• *Gweld rhai cofnodion cyfnodol sy'n cynrychioli tystiolaeth y dilynwyd y gweithdrefnau hyn. Nid oes yn rhaid i hyn gofnodi pob gweithgaredd fonitro a goruchwylio ac yn achos arlwywyr bychain bydd adrodd eithriadau'n dderbyniol.*<br><br>• *Yn achos busnesau bach a syml, efallai na fydd dilyn canllawiau da ar arferion hylendid, dogfennu a chadw cofnodion yn angenrheidiol.* |

## A.13.5: Rôl Awdurdodau Bwyd

Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant godi ei safonau i'r rhai a gyflawnwyd eisoes gan y busnesau gorau. Yn sgil yr hyblygrwydd, dylai pob busnes bwyd allu cydymffurfio.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i fusnesau roi gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli diogelwch bwyd. Mae gwahanol fodelau cefnogi yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau. Y disgwyliad yw y bydd busnesau mwy a gweithgynhyrchwyr yn parhau i ddatblygu a defnyddio systemau traddodiadol HACCP. Mae'r dull a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth, Bwyd mwy diogel, gwell busnes (BMDGB) yn un dull yr ystyrir ei fod yn addas i arlwywyr bach ei ddefnyddio.

Er mwyn rhoi'r model cefnogi priodol ar waith yn gywir, bydd angen cydymffurfio ag Erthygl 5 yn Rheoliad 852/2004. Ar ôl ei roi ar waith yn gywir, bydd Bwyd mwy diogel, gwell busnes yn galluogi busnes bwyd i ddangos ei fod yn cydymffurfio.

Ar ôl y daw'r ddeddfwriaeth i rym, disgwylir yr un dull addysgiadol a graddedig. Dylai busnesau naill ai fod â systemau effeithiol ar gyfer rheoli diogelwch bwyd yn eu lle, neu ymddangos eu bod yn gwneud cynnydd tua'r nod hwnnw. Dylai swyddogion gorfodi drio addysgu a rhoi dealltwriaeth i fusnesau am yr hyn sy'n ofynnol. Yn achos busnesau nad ydynt yn fygythiad i iechyd y cyhoedd, disgwylir y dylid cymryd camau gorfodi ffurfiol dim ond os yw'r busnes:

- Wedi cael cyfle rhesymol i roi rheolaethau diogelwch bwyd ar waith;
- Wedi cael ei gyfeirio at hyfforddiant priodol, os oes angen; ac
- Wedi cael arweiniad priodol.

Dylai'r dull graddedig geisio addysgu busnesau a gwella'u safonau mewn camau y gellir eu gwireddu. Dylid rhannu canllawiau yn y fath fodd y gall y gorfodwr a'r busnes gytuno y bydd hyn a hyn o gynnydd wedi ei gyflawni erbyn yr ymweliad nesaf. Caiff cyngor yr Asiantaeth, 'Bwyd mwy diogel, gwell busnes', ei rannu rhwng 4 elfen, sef coginio, glanhau, oeri a chroes-heintiad, a gallai fod yn briodol gosod tasg i fusnes gyflawni un o'r elfennau hyn ar adeg. Gellir rhannu canllawiau eraill yn elfennau fel hyn hefyd. Os yw sgiliau sylfaenol yn brin, dylai gorfodwyr gyfeirio busnesau at ffynonellau'r cymwyseddau - canllawiau, llyfrau, cyrsiau etc. Dylai gorfodwyr wylio'r busnes i sicrhau ei fod yn gwneud cynnydd ymarferol drwy'r deunydd a gwneud newidiadau priodol yn ei arferion cyn symud ymlaen o'r dull addysgiadol i'r dull graddedig a dulliau tramgwydd mwy ffurfiol.

Dylai system rheoli diogelwch bwyd roi sicrwydd bod y busnes yn gwybod sut i gynhyrchu bwyd diogel, ei fod wedi sefydlu gweithdrefnau i sicrhau hyn, a'i fod yn cynhyrchu bwyd diogel dro ar ôl tro. Mater i swyddogion gorfodi yw barnu a oes gan fusnes system effeithiol yn ei lle i reoli diogelwch bwyd. O ran gorfodi, yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- *Barnu a oes gan y busnes weithdrefnau priodol yn eu lle er mwyn iddo barhau i gynhyrchu bwyd yn ddiogel os bydd pethau'n mynd o'u lle –*

*absenoldeb staff, galw annisgwyl etc., a gweld peth tystiolaeth bod hyn yn wir.*

# CANLLAWIAU I AWDURDODAU BWYD AR FEWNFORIO BWYD O DRYDYDD GWLEDYDD

## CYNNWYS

<u>Adran</u>

**A.14.1:** **Cyflwyniad**

- Cwmpas

**A.14.2:** **Statws y canllaw hwn**

**A.14.3:** **Deddfwriaeth bwyd a fewnforir (BNDA)**

- Rheoliad yr UE Rhif 882/2004
- Rheoliadau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006
- Deddfwriaeth arall
- BNDA ‘risg uchel’

**A.14.4:** **Cynllunio gwasanaeth**

**A.14.5:** **Polisïau a gweithdrefnau a ddogfennir**

**A.14.6:** **Awdurdodi**

**A.14.7:** **Cymwysterau / profiad swyddogion awdurdodedig**

**A.14.8:** **Gwybodaeth**

**A.14.9:** **Cofnodion**

- Nodi a chofnodi mewnforwyr bwyd
- Cofnodion llwythi ac archwiliadau
- Trefniadau ar gyfer mannau mynediad heb bresenoldeb parhaol awdurdod lleol

**A.14.10:** **Cofnodi a hysbysu trefniadau**

- Swyddog penodedig ar gyfer rheolaethau bwyd a fewnforir
- Ffurflenni monitro
- Hysbysu am beryglon bwyd neu ddigwyddiadau
- Hysbysu am fewnforio CDOA yn anghyfreithlon

**A.14.11: Cydgysylltu / Atgyfeiriadau**

**A.14.12: Archwiliadau mewndirol ar fwyd a fewnforir**

- Archwiliadau gohiriedig ar BNDA – rheolaethau mewndirol

**A.14.13: Samplu bwyd a fewnforir**

- Ystyriaethau ar gyfer samplu
- Cymwysterau / profiad / hyfforddiant swyddogion sy'n ymgymryd â samplu

**A.14.14: Bwyd nad yw'n deillio o anifeiliaid (BNDA)**

- Adnabod
- Gwahardd
- Archwilio
- Archwiliadau gohiriedig ar BNDA

**A.14.15: Profion cyn allforio mewn Trydydd Gwledydd**

**A.14.16: Ffioedd**

**A.14.17: Gorfodi**

**A.14.18: Cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid – gorfodi**

- CDOA a gyflwynwyd yn anghyfreithlon
- CDOA sy'n cyflwyno risg i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid
- Cadw CDOA yn fewndirol
- Adrodd

**A.14.19: Cyfeiriadau**

**Ychwanegiad 1: Rhestr termau**

## A.14.1: Cyflwyniad

Mae cyfrifoldebau ar bob awdurdod lleol dros agweddau penodol ar reolaethau bwyd a fewnforir. Diben y canllawiau hyn yw gosod y lefel a'r math o weithgarwch ar gyfer gorfodaeth effeithiol a chyson ar fwyd a fewnforir, a chynorthwyo awdurdodau lleol yn hyn o beth.

Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar y brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â mewnforio bwyd nad yw'n deillio o anifeiliaid (BNDA). O 1 Ionawr 2006, caiff rheolaethau mewnforio BNDA eu cydweddu ar lefel y Gymuned drwy Reoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a berfformir er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a rheolau iechyd a lles anifeiliaid (Rheoliad UE Rhif 882/2004). Gellir gweithredu darpariaethau Rheoliad yr UE yn uniongyrchol, ond cânt eu grymuso ar lefel genedlaethol gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid Bwyd (Cymru) 2006 (a deddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn disodli'r ddeddfwriaeth gyfredol (yn bennaf, Rheoliadau Bwyd a Fewnforir 1997) ond mae'r ymagwedd gyffredinol yn y ddeddfwriaeth newydd yn debyg.

### A.14.1.1: Cwmpas

Mae cwmpas y canllawiau hyn yn ehangu i gynnwys BNDA a fewnforir a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid (CDOA) a fewnforir. Fe'u diwygiwyd yng ngoleuni Rheoliad UE Rhif 882/2004 ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd. Nid yw'r canllawiau hyn yn ymwneud â gweithgareddau rheoli ar gyfer CDOA wrth Byst Archwilio'r Ffin, lle mae canllawiau canolog a luniwyd gan Defra ar gael1. Fodd bynnag, maent yn darparu canllawiau ar orfodi ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â CDOA a gyflwynwyd yn anghyfreithlon. Mae'r canllawiau'n ymdrin â rheolaethau bwyd yn unig - mae porthiant anifeiliaid yn destun canllawiau ar wahân ar orfodi a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Ac eithrio lle nodir bod gwahaniaeth penodol, mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob awdurdod lleol, rhai mewndirol ac wrth fannau mynediad, gan gynnwys Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd. At ddibenion y canllawiau hyn, ystyr "bwyd a fewnforir" yw bwyd a fewnforir i'r DU o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ("trydydd gwledydd"); ystyr "man mynediad" yw porthladd, maes awyr neu gyswllt rheilffordd rhyngwladol lle caiff bwyd a fewnforir ei gyflwyno i'r DU.

Mae awdurdodau lleol (gan gynnwys Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd) sydd â man mynediad yw'r llinell reoli gyntaf ar fwyd a fewnforir er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion yr UE a'r DU. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod rheolaethau yn eu lle mewn Siediau Teithio Pell Uwch (STPU), cyflenwyr llongau, terfynfeydd rheilffordd rhyngwladol, a safleoedd mewndirol eraill, oherwydd bydd niferoedd sylweddol o BNDA heb fod yn destun profion mewn mannau mynediad ac mae posibilrwydd y gallai CDOA fod wedi dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon. Ceir rhagor o fanylion am rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, awdurdodau lleol ac asiantaethau ac adrannau eraill y llywodraeth ym Mhecyn Adnoddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar Reoli Bwyd a Fewnforir2 .

Mae'r canllawiau hyn yn ymgorffori gwybodaeth berthnasol o:

Arweinlyfrau arfer da yn Astudiaeth Meincnodi Syniad/APHA/FSA3 ar swyddogaeth iechyd porthladdoedd, sy'n cynnwys cyfranogwyr iechyd porthladdoedd o borthladdoedd, LACORS ac Adrannau eraill y Llywodraeth.
Pecyn Adnoddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i Awdurdodau Lleol ar Reoli Bwyd a Fewnforir a ddarperir i gynrychiolwyr Awdurdodau Bwyd mewn seminarau hyfforddiant diweddaru cenedlaethol2.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys crynodebau o rai darpariaethau statudol. Fodd bynnag, arweiniol yw'r rhain ac maent at ddefnydd cyffredinol yn unig.

## A.14.2: Statws y Canllaw hwn

Dylid ystyried y ddogfen hon fel canllaw a ryddhawyd yn ganolog at ddibenion y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd mewn Awdurdodau Lleol (mae'r fersiwn ddiweddaraf ar gael ar wefan yr Asiantaeth4). Gwnaed diwygiadau i'r Safon yn y Fframwaith Cytundeb i egluro'i berthnasedd i reoli bwyd a fewnforir (Cyhoeddwyd y diwygiad ym mis Mehefin 2004).

Hefyd, dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd a gyhoeddwyd o dan Adran 40 yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990, a adolygwyd ac a ailgyhoeddwyd o dan Reoliad 24 yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, a Rheoliad 6 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006. Mae'r Cod Ymarfer yn cynnig cyfarwyddyd a chanllawiau ar y dull i awdurdodau lleol orfodi'n gyffredinol.

## A.14.3: Deddfwriaeth Bwyd a Fewnforir (BNDA)

### A.14.3.1: Rheoliad UE Rhif 882/2004

Mae hwn yn cyflwyno rheolau a gydweddwyd ar draws yr UE ar gyfer rheolaethau mewnforio ar BNDA. Mae'r gofynion (yn Erthyglau 15 i 25) yn ehangu i gynnwys bwydydd na ymdriniwyd â nhw eisoes yng Nghyfarwyddeb 97/78/EC (cyfundrefn Profion Milfeddygol ar CDOA). Mae'r rhain yn ymwneud â rheolaethau mewn perthynas â deunyddiau ac eitemau sy'n cyffwrdd bwyd yn ogystal â glanhau, cynnal a chadw cynhyrchion a phrosesau, ac â phlaladdwyr.

### A.14.3.2: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn grymuso Erthyglau 15 i 25 yn Rheoliad UE Rhif 882/2004 yng Nghymru yn unig. Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Bwyd a Fewnforir 1997. Mae deddfwriaeth gyfatebol yn ei lle yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn cynnwys mecanwaith ar gyfer sicrhau, lle bo perygl difrifol neu uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, gellir rhoi mesurau rheoli yn eu lle. Yn

benodol, gellir ei ddefnyddio i sicrhau y caiff Penderfyniadau Argyfwng a wnaed ar lefel yr UE eu rhoi ar waith yn ddi-oed. Mae'n gwneud hynny drwy roi pwerau i'r Asiantaeth Safonau Bwyd wneud datganiadau ynghylch amodau mewnforio ar gynhyrchion penodol. Byddai'r amodau hyn yn weithredol ar unwaith.

#### A.14.3.3: Deddfwriaeth arall

Mewn rhai meysydd, er enghraifft, halogwyr, mae gofynion penodol a gydweddir ar draws yr UE ar gyfer bwydydd y gellir eu gweithredu mewn mannau mynediad yn ogystal ag yn fewndirol. Caiff y gofynion hyn eu gweithredu yn y du gan ddeddfwriaeth ar wahân ond y pwerau i ddelio â bwyd sy'n anghydffurfio pan gaiff ei fewnforio yw'r rhai hynny a gynhwysir yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006. Mae canllawiau manwl ar wahân gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y ddeddfwriaeth halogyddion ar gael yn:

http://europa.eu.int/comm/food/food/chemicalsafety/contaminants/aflatoxin_guidance_en.pdf.

#### A.14.3.4: BNDA 'risg uchel'

Mae Rheoliad UE Rhif 882/2004 (Erthygl 15(5)) yn amodi y caiff y Comisiwn gyhoeddi rhestr o BNDA 'risg uchel'. Enwir y cynhyrchion hyn ar sail risg sy'n hysbys neu sy'n dod i'r amlwg, a byddant yn amodol ar reolaethau mewnforio cynyddol yn y mannau mynediad. Bydd y Comisiwn yn pennu amlder a natur profion o'r fath pan gaiff y cynhyrchion eu henwi. Mae'r rheolaethau estynedig y mae'r trefniadau hyn yn amodi arnynt yn cynnwys; hysbysu ymlaen llaw, mewnforio drwy byrth penodedig yn unig, a phrofion dogfennol a ffisegol penodol mewn mannau mynediad.

Am nad oedd y Comisiwn eto wedi cyhoeddi rhestr o gynhyrchion 'risg uchel' nid oes modd, ar hyn o bryd, deddfu ar gyfer y cynhyrchion hyn ar lefel genedlaethol. Cynigir, unwaith y bydd y Comisiwn wedi cyhoeddi'r rhestr o gynhyrchion, y caiff y ddeddfwriaeth genedlaethol ei diwygio yn unol â hynny.

Yn y cyfamser, bydd mesurau diogelu cyfredol yn parhau i fod yn weithredol a gellir cyflwyno mesurau pellach o dan ddarpariaethau Rheoliad UE ar Gyfraith Fwyd Gyffredinol (178/2002), megis na fydd yr oedi'n amharu ar ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid. Mae'r mesurau hyn yn darparu gofynion estynedig tebyg, megis profion penodol a, lle bo'n briodol, mynediad drwy byrth penodedig.

## A.14.4: Cynllunio Gwasanaeth

Mae'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd mewn Awdurdodau Lleol yn cynnwys canllawiau ar gynllunio gwasanaeth. Mae Adran 2.3 yn y fframwaith ("Cwmpas y gwasanaeth bwyd") ac Adran 2.4 ("Heriau i'r gwasanaeth bwyd") yn amodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol osod cwmpas y cyfrifoldebau a'r gwasanaeth a ddarperir a disgrifio unrhyw ffactorau allanol a allai effeithio ar eu gwasanaeth. Lle bo'n berthnasol, dylai awdurdodau lleol

gynnwys yn yr Adrannau hyn, gyfrifoldebau o ran bwyd a fewnforir a'r trefniadau rheoli sydd yn eu lle.

Dylai awdurdodau lleol sydd â man mynediad gynnwys manylion am adnoddau a neilltuwyd ar gyfer gwaith ar reoli bwyd a fewnforir yn eu cynlluniau gwasanaeth.

## A.14.5: Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennir

Dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod eu polisïau a'u gweithdrefnau ysgrifenedig yn ymdrin â bwyd a fewnforir, gan ystyried y gwaith y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol o fewn dosbarth gweinyddol ac awdurdodaeth yr awdurdod.

Dylai gweithdrefnau sy'n ymwneud ag archwilio bwyd a fewnforir, gan gynnwys archwiliadau a ohiriwyd o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, ymdrin â materion diogelwch bwyd a safonau bwyd, lle bo'n berthnasol.

Gall yr Asiantaeth Safonau Bwyd archwilio gweithdrefnau o'r fath a dylent fod yn addas ac yn ddigonol at y dibenion hyn. Dylent wneud gwybodaeth am eu gweithgareddau rheoli a'u heffeithiolrwydd yn gyhoeddus.

## A.14.6: Awdurdodi

Dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod gan un swyddog o leiaf awdurdod priodol i ymgymryd â gwaith i reoli bwyd a fewnforir a'r camau gorfodi cysylltiedig. Un o'r materion allweddol y mae angen ei ystyried mewn unrhyw adolygiad o awdurdodaethau yw canfod y deddfwriaethau penodol y mae pwerau gorfodi'n deillio ohonynt. Bydd hyn yn cael effaith ar gynnwys a geiriad dogfennau awdurdodi.

Yn achos materion yn ymwneud â diogelwch bwyd a safonau bwyd, dylai hyn gynnwys awdurdodaeth o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ac o dan Reoliadau hylendid a phrosesu a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ar halogyddion.

Hefyd, dylai swyddogion fod ag awdurdod i orfodi Rheoliadau perthnasol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (e.e. Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004). Fodd bynnag, nid yw Deddf y Cymunedau Ewropeaidd yn cynnwys y pwerau gorfodi penodol, a'i phrif swyddogaeth yw darparu mecanwaith y gellir gweithredu Rheoliadau drwyddo. Fel arfer, mae pwerau ar gyfer gorfodi Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau eu hunain. Felly, barn yr Asiantaeth yw y dylid cyfeirio'n benodol mewn dogfennau awdurdodi at bob Rheoliad sy'n berthnasol i reoli bwyd a fewnforir, gan gynnwys yn llythyrau cyflwyno swyddogion. Fel y cyfryw, dylai'r rhain gynnwys, er enghraifft:

Rholiadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 fel y'u diwygiwyd,

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydedd Gwlad) (Cymru) (rhif 4) 2004,

Sylwer: mewn deddfwriaeth CDOA, nid yw'r diffiniad o "awdurdod lleol", at ddibenion gorfodi, yn cynnwys Cynghorau Sir ar hyn o bryd.

Rheoliadau Rheolaeth Frys e.e. Rheoliadau Bwyd (Tsilis, Cynhyrchion Tsili, Cwrcwma ac Olew Palmwydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2005, a

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006.

Barn yr Asiantaeth yw nad oes angen i swyddogion gael awdurdod penodol i orfodi datganiadau a wnaed o dan Reoliad 33 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006.

Datblygwyd cyngor cyffredinol ar awdurdodi swyddogion gan LACORS. Hefyd, efallai bydd awdurdodau lleol am geisio cyngor eu hymgynghorwyr cyfreithiol eu hunain ar y mater hwn.

## A.14.7: Cymwysterau / Profiad Swyddogion Awdurdodedig

Dylai swyddogion sydd ag awdurdod i ymgymryd â gwaith i reoli bwyd a fewnforir a chamau gorfodi feddu ar gymwysterau priodol, profiad a'r gallu i gyflawni'r amrywiaeth o dasgau a dyletswyddau y mae ganddynt awdurdod i'w perfformio, yn unol â gofynion perthnasol y Cod Ymarfer ar Gyfraith Bwyd, ac â dogfennau dilynol. Dylai staff gael y wybodaeth ddiweddaraf yn eu maes cymhwysedd a hyfforddiant ychwanegol rheolaidd, fel y bo angen.

Dylai bod o leiaf un swyddog cymwys mewn rheolaethau bwyd a fewnforir ym mhob awdurdod lleol. Gallai hyfforddiant diweddaru perthnasol gynnwys:

- Mynychu hyfforddiant gorfodi yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar reoli bwyd a fewnforir; ac
- Ymgyfarwyddo â Phecyn Adnoddau'r Asiantaeth i Awdurdodau Lleol ar Reoli Bwyd a Fewnforir 2; neu
- Hyfforddiant perthnasol arall â'r un math o gynnwys, e.e. hyfforddiant mewnol neu hyfforddiant rhaeadru sy'n berthnasol i (a) a (b) uchod.

## A.14.8: Gwybodaeth

Dylai awdurdodau lleol sydd â man mynediad yn eu tiriogaeth gadw'r wybodaeth ddiweddaraf am:

- Weithredydd y porth.
- Mynediad at y porth/tollfeydd, gan gynnwys Siediau Teithio Pell Uwch (STPU).
- Rhanddeiliaid, gan gynnwys asiantau mewnforio a chwmnïau hedfan/gweithredwyr llongau.
- Math o fasnach (faint, natur a llwybrau masnach).
- Cyfleusterau lle gellir archwilio bwyd a fewnforir a threfniadau ar gyfer storio nwyddau a feddiannwyd. Mae Defra wedi cyhoeddi cyngor

penodol pellach ar weithdrefnau gweithredu ar gyfer rhannu cyfleusterau yn BIPS 16.
- Offer sydd ar gael ar gyfer cynnal archwiliadau o'r fath a samplu bwyd a fewnforir.
- Manylion am labordai a benodwyd a labordai arbenigol ar gyfer dadansoddi a/neu archwilio samplau a all ddarparu gwasanaeth priodol ar gyfer dadansoddi samplau (yn enwedig mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer dadansoddi a chyhoeddi canlyniadau).
- Gofynion iechyd a diogelwch.
- Gofynion diogeledd.

Dylai awdurdodau lleol sydd â man mynediad, STPU neu derfynellau rheilffordd rhyngwladol gydgysylltu a chyfathrebu'n rheolaidd â sefydliadau lleol perthnasol er mwyn cyfnewid gwybodaeth gyffredinol am fewnforion bwyd ac er mwyn ymdrin â digwyddiadau'n effeithiol. Gallai'r cysylltiadau hyn gynnwys, lle bo'n briodol:

- HMRC (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) gan gynnwys timau gwrthsmyglo a thimau'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl (CITES),
- Y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol (GMG),
- Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yn Lloegr, neu Ganolfan yr Alban ar gyfer Heintiau ac Iechyd yr Amgylchedd, neu Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru,
- Arolygiaeth Marchnata Garddwriaeth a'r Arolygiaeth Hadau ac Iechyd Planhigion (Defra) yng Nghymru a Lloegr neu Uned Garddwriaeth a Marchnata (Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth yr Alban) yn yr Alban,
- Gweithredydd porth; asiantau mewnforio; gweithredwyr siediau teithio / STPU,
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau,
- Awdurdodau lleol cyfagos, yn arbennig yn achos byrddau a phyrth ar y cyd, sy'n dod o dan awdurdodaeth mwy nag un awdurdod lleol, gan gynnwys Cynghorau Sir ar gyfer rhai cyfrifoldebau penodol o ran Safonau Masnach, ac
- Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

Mae manylion cyswllt a gwybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau adrannau perthnasol y llywodraeth ganolog a sefydliadau eraill i'w gweld ym Mhecyn Adnoddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Reoli Bwyd a Fewnforir2.

Lle bo'n berthnasol, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gan eu swyddogion fynediad at ardaloedd diogel o dan Ddeddf Diogelwch Hedfan a Morio 1990. Gellir cael gwybodaeth am hyn gan weithredydd y porth.

## A.14.9: Cofnodion

### A.14.9.1: Nodi a chofnodi mewnforwyr bwyd

Dylai pob awdurdod lleol sicrhau y caiff safleoedd a masnachwyr bwyd yn ei ardal sy'n mewnforio bwyd eu nodi a'u cofnodi mewn cronfeydd data am safleoedd/masnachwyr a'u cynnwys mewn rhaglenni arolygu, fel y bo'n briodol.

Gellir defnyddio ffurflenni cofrestru a lenwyd ar gyfer safleoedd bwyd er mwyn cynorthwyo adnabod safleoedd bwyd fel mewnforwyr, i'r graddau y mae Rheoliad Hylendid Eu Rhif 852/2004 yn darparu ar gyfer hyn.

At ddibenion nodi a chofnodi busnesau a systemau bwyd sy'n dod o dan y rheolaethau swyddogol, dylai awdurdodau lleol AIPau gyfeirio at gwmpas Rheoliad UE Rhif 882/2004 fel y nodir yn Erthygl 14 a 15. Dylid nodi gweithgareddau perthnasol yn y ffeiliau perthnasol, yn ogystal â nodi math a ffynhonnell bwydydd a fewnforir.

Er mwyn helpu i nodi mewnforwyr bwyd, gall awdurdodau lleol gynnal ymarferion pen desg gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth fel gwybodaeth leol, llyfrau ffôn neu drwy chwilio ar y rhyngrwyd. Gallai gwybodaeth gan AIPau helpu'r broses hon hefyd. Gellir cywiro cofnodion ymhellach ar ôl ymweld â safleoedd bwyd a/neu ohebu â pherchnogion busnesau bwyd ac adrannau eraill llywodraeth leol, fel rhan o raglen o weithgareddau rheolaidd.

#### A.14.9.2: Cofnodion llwythi ac archwiliadau

Dylai awdurdodau lleol sydd â man mynediad sicrhau, lle bo'n bosibl, y caiff gwybodaeth sy'n ymwneud â nifer a math llwythi bwyd ei chadw, yn ogystal â gwybodaeth berthnasol ar y profion a wnaed i bennu a gydymffurfir â gofynion cyfreithiol. Os caiff gwybodaeth ei chofnodi, dylai lefel y wybodaeth am archwiliadau bwyd (gan gynnwys archwiliadau a gynhelir mewn STPU neu derfynellau rheilffordd rhyngwladol) ac archwiliadau a ohiriwyd roi gwybodaeth am olrheinadwyedd llwythi a galluogi monitro'n fewnol yn effeithiol. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys unrhyw gyfeirnod ar gyfer y llwyth a archwilir, gwlad wreiddiol, gwybodaeth am natur y bwyd a'r profion a gynhaliwyd a, lle cymerwyd unrhyw gamau gorfodi neu samplu, manylion yr asiant a/neu'r traddodwr/traddodai. Dylid cadw cofnodion am brofion samplu a chofnodion sy'n ymwneud â rheolaethau mewn argyfwng am hyd at dair blynedd.

#### A.14.9.3: Trefniadau ar gyfer mannau mynediad heb bresenoldeb parhaol awdurdod lleol

Lle nad oes awdurdod lleol yn bresennol yn barhaol mewn maes awyr neu borthladd, a lle nad yw'r awdurdod yn ei ystyried yn fan mynediad ar gyfer bwyd, dylai'r awdurdod lleol (o leiaf unwaith bob tri mis) gysylltu â gweithredydd y porth, HMRC a/neu weithredwyr masnachol eraill i gadarnhau statws y porth o ran gweithgareddau bwyd a/neu gael gwybodaeth am gyfeintiau, mathau, gwledydd gwreiddiol a statws tollau bwyd a ddaeth drwy'r porth ers yr ymholiad diwethaf o'i fath. Dylai awdurdodau lleol gadw cofnod o'r cyfnewidiau hyn am gyfnod o dair blynedd.

Diben y trefniadau hyn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau lleol am fwyd a fewnforir. Bydd hyn yn galluogi cynnig barn ar sail risg am dargedu camau gorfodi ac yn sicrhau y caiff rheolaethau neu gyfyngiadau ar fwydydd penodol mewn argyfwng eu gorfodi. Mae hyn yn cynnwys y man mynediad

penodedig, a'r gofynion sy'n ymwneud â gwiriadau ar ddogfennau ac â samplu statudol cysylltiedig (mae rhagor o fanylion am brofion ar sail risg i'w cael yn Adran A9.14).

## A.14.10: Cofnodi a Threfniadau Hysbysu

### A.14.10.1: Swyddog penodedig ar gyfer rheolaethau bwyd a fewnforir

Dylai pob awdurdod lleol sydd â man mynediad benodi swyddog penodedig sydd â'r gallu hanfodol mewn rheoli bwyd a fewnforir i fod yn fan cyswllt â'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar faterion sy'n ymwneud â bwyd a fewnforir. Dylid rhoi manylion y swyddog penodedig neu newidiadau i'r swyddog penodedig i Adran Bwyd a Fewnforir yr Asiantaeth.

### A.14.10.2: Ffurflenni monitro

Dylai pob awdurdod lleol lenwi unrhyw ffurflenni monitro gorfodi perthnasol sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Ym mis Ebrill 2005, ysgrifennodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd at bob awdurdod lleol, yn gofyn am ddata gwaelodlin ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd a fewnforir, i'w ddefnyddio fel mesur ar gyfer menter y Llywodraeth i gyflawni 'newid sylweddol' yn y modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni ac yn cydlynu rheolaethau bwyd a fewnforir. Er mwyn i'r Asiantaeth fonitro gwaith ar reoli bwyd a fewnforir, dylai awdurdodau gydymffurfio â cheisiadau am ddata o'r fath yn y dyfodol.

Hefyd, dylai awdurdodau lleol roi unrhyw wybodaeth arall y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gwneud cais rhesymol amdani. Gallai hyn ymwneud â gwybodaeth am fewnforio cynhyrchion bwyd penodol, neu fwyd i wledydd penodol. Gallai ymwneud â gwybodaeth y mae ei hangen ar y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â materion sy'n dod i'r amlwg o ran iechyd y cyhoedd, neu i'w chynnwys yn y Rhaglen Rheoli Genedlaethol neu mewn adroddiadau blynyddol y bydd yn ofynnol i'r DU eu cynhyrchu yn unol â gofynion Erthygl 42 a 44 yn Rheoliad UE Rhif 882/2004. Mae Penderfyniadau'r Comisiwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol llenwi ffurflenni monitro ar gyfer y Comisiwn drwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

### A.14.10.3: Hysbysu am beryglon bwyd neu ddigwyddiadau

Dylai pob awdurdod lleol anfon manylion am unrhyw fewnforion a wrthodwyd, naill ai yn y man mynediad neu yn fewndirol, lle bo risg uniongyrchol neu anuniongyrchol i iechyd i Gangen Digwyddiadau'r Asiantaeth7, gan ddefnyddio ffurflen hysbysu Rapid Alert System for Food and Feed (RASFF). Bydd hyn yn cynnwys mewnforion a wrthodwyd am resymau fel halogiad cemegol, microfiolegol neu gan gorffynnau estron, neu fewnforion o wlad nad oes ganddo awdurdod i allforio'r categori hwnnw o gynhyrchion i'r UE.

Yn ogystal, o ran cynnal profion am weddillion meddyginiaethau milfeddygol yn Atodiad IV yn Rheoliad UE Rhif 2377/90, fel y'i diwygiwyd (fel nitroffuranau a chloramffenicol) neu'r rhai nad oes cymeradwyaeth i'w defnyddio, dylid anfon manylion POB prawf positif at y Gangen Digwyddiadau gan ddefnyddio ffurflen

hysbysu RASFF. Lle bont ar gael, dylid anfon copïau o'r dystysgrif iechyd a'r bil llwybr hedfan neu'r bil glanio ymlaen at y Gangen Digwyddiadau yn7:

drazenka.tubin-delic@foodstandards.gsi.gov.uk neu
rajwinder.ubhi@foodstandards.gsi.gov.uk

Darparwyd canllawiau ar lenwi ffurflen hysbysu RASFF i awdurdodau lleol eisoes. Bydd awdurdodau sydd â mynediad at wefan Circa y Comisiwn Ewropeaidd yn gallu lawrlwytho copïau o'r templed ar gyfer ffurflen hysbysu RASFF8.

Dylai'r awdurdod lleol/awdurdod iechyd porthladd roi gwybod i dollfeydd lleol hefyd am y penderfyniad a lleoliad terfynol y llwyth, os caniateir ei allforio eto.

Dylai pob awdurdod lleol hysbysu'r Asiantaeth am ddigwyddiad lleol difrifol neu am broblem ehangach o dan y system Rhybudd Bwyd cyn gynted ag y deuir i benderfyniad bod un wedi digwydd, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a'r trefniadau adrodd priodol osodir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac yn unrhyw ddogfennau dilynol.

#### A.14.10.4: Hysbysu am fewnforio CDOA yn anghyfreithlon

Dylid hysbysu cronfa ddata Defra ar Feddiannau Cynhyrchion Anifeiliaid Anghyfreithiol (ILAPS) pryd bynnag y caiff CDOA a fewnforir yn anghyfreithlon ei feddiannu14. Mae rhagor o fanylion yn Adran A9.18 yn y canllawiau hyn.

### A.14.11: Cydgysylltu / Cyfeirio

Pryd bynnag y bydd awdurdodau mewndirol yn gweld problemau â bwyd wedi'i fewnforio, lle gellir canfod man mynediad y nwyddau a lle mae'n debygol y bydd problemau tebyg mewn llwythi eraill a fewnforir, mae'n bwysig sicrhau y caiff yr awdurdod lleol yn y man mynediad wybod er mwyn helpu i dargedu eu gweithgareddau goruchwylio yn y dyfodol.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol sy'n cynnwys mannau mynediad gyfeirio materion sy'n ymwneud â bwyd a fewnforir at awdurdodau mewndirol (e.e. sydd â chyflenwyr llongau neu Nwyddau wedi'u Sianelu). Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle bo angen goruchwylio llwythi yn fewndirol a hefyd lle bo profion yn y man mynediad yn dadlennu pryderon o ran diogelwch bwyd neu safonau bwyd, a lle bo'n briodol cyfeirio'r mater at awdurdod mewndirol.

Er enghraifft:

- Lle bo llwyth o fwyd nad yw'n deillio o anifeiliaid, sy'n destun rheolaethau argyfwng neu gyfyngiadau eraill, wedi'i fewnforio'n anghyfreithlon e.e. heb gael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol yn y man mynediad er mwyn cynnal y profion angenrheidiol.
- Lle bo'r awdurdod lleol yn y man mynediad yn ymwybodol y gallai mewnforion anghyfreithlon o gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid wedi'u dosbarthu.

- Lle bo profion ar fwyd a fewnforir yn dadlennu materion yn ymwneud â labelu na ellir eu gorfodi adeg y mewnforio.
- Lle bo archwiliadau o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 wedi'u gohirio.
- Lle ceir canlyniadau anfoddhaol i brofion ar samplau a gymerwyd ar gyfer goruchwylio rheolaidd, ac wedyn bod y llwyth wedi'i ryddhau o'r porth.
- Lle bo dadansoddiadau'n awgrymu nad yw cnau'n addas i'w bwyta gan bobl ond lle cânt eu cyfeirio i'w defnyddio fel bwyd i anifeiliaid.

Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, dylai awdurdodau mewndirol gytuno i gynorthwyo â'r cyfeiriadau hynny ac ymateb fel y bo'n briodol heb oedi diangen, a rhoi adborth i'r awdurdod lleol yn y man mynediad ar y canlyniad. Er mwyn cynorthwyo'r broses hon, mae ffurflen a argymhellir at y diben hwn ar gael ar wefan yr Asiantaeth9. Dylai awdurdodau gadw cofnodion o gyfeiriadau o'r fath a manylion unrhyw gamau a gymerir.

Gellid bod angen i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyfeirio materion sy'n ymwneud â CDOA a fewnforir yn anghyfreithlon at awdurdodau mewndirol hefyd. Fel arfer, bydd y wybodaeth hon yn dod i law drwy HMRC, lle maent wedi ymyrryd ar fewnforion anghyfreithlon ar gyfer eiddo masnachol. Dylai awdurdodau lleol ymateb i'r cyfeiriadau hyn heb oedi'n ddiangen ac, os gofynnir iddynt, roi adborth yn uniongyrchol i HMRC. Dylai awdurdodau gadw cofnodion o'r camau a gymerir.

## A.14.12: Archwiliadau Mewndirol ar Fwyd a Fewnforir

Dylai gweithdrefnau awdurdodau lleol sicrhau bod archwiliadau ar fwyd (gan gynnwys bwyd a fewnforir) yn rhan o archwiliadau ar safleoedd bwyd.

Yn ystod archwiliadau rheolaidd neu ymweliadau eraill â safleoedd busnesau bwyd (e.e. ymweliadau yn sgil cwynion, er mwyn samplu) gofynnir i swyddogion ystyried y bwyd sydd ym meddiant y busnes neu a gynigir i'w werthu, ac os yw wedi'i fewnforio, sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer bwyd a fewnforir.

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 hefyd yn ymdrin â chynhyrchion rhannol-orffenedig, deunyddiau ac eitemau sydd mewn cyswllt â bwyd, plaladdwyr a materion yn ymwneud â labelu.

Wrth ystyried rhaglenni penodol ar gyfer archwilio bwyd a fewnforir, dylai Awdurdodau Bwyd ganolbwyntio ar fwy na busnesau bwyd sy'n arbenigo mewn cyflenwi bwyd i grwpiau lleiafrifol penodol. Dylent hefyd ystyried busnesau bwyd o fewn eu hardaloedd sy'n mewnforio bwyd yn rheolaidd o drydydd gwledydd, yn enwedig y safleoedd hynny sy'n gyrchfan cyntaf ar ôl mewnforio. Mae safleoedd o'r fath yn debygol i gynnwys gweithgynhyrchwyr bwyd lleol a warysau. Hefyd, dylai unrhyw raglen archwilio gael ei llywio gan rybuddion bwyd a hanes cydymffurfio'r safle.

Yn ogystal ag asesu addasrwydd i'w ddefnyddio, dylid cymryd camau rhesymol i wirio a fewnforir unrhyw CDOA a BNDA o drydedd gwlad yn gyfreithlon. Mae

Pecyn Adnoddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar Reoli Bwyd a Fewnforir yn cynnig cyngor manwl ar bwyntiau i'w hystyried wrth ymchwilio i ddilysrwydd mewnforion. Mae gwefan yr Asiantaeth10 yn nodi'r mathau o fewnforion bwyd a'r gwledydd gwreiddiol y mae gwaharddiadau a chyfyngiadau11 arnynt, yn ogystal â dolenni at wefannau perthnasol eraill.

#### A.14.12.1: Archwiliadau gohiriedig ar BNDA – rheolaethau mewndirol

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu gohirio rheolaethau mewnforio ar gyfer archwilio llwythi o BNDA a'u cynnal gan yr Awdurdod Bwyd mewndirol sy'n cynnwys yr STPU neu'r derfynell rheilffordd ryngwladol neu mewn unrhyw gyrchfan arall yn y DU. Ceir canllawiau pellach ar hyn yn Adran A9.14.

Penderfyniad yr awdurdod lleol sy'n cynnwys y man mynediad yw a ddylid gohirio, ac mae angen iddynt gydgysylltu â'r awdurdod derbyn er mwyn sicrhau y caiff profion priodol eu cynnal, ac fel y cyfryw, mae'r weithdrefn yn dibynnu ar gydweithredu rhwng awdurdodau. Dylai awdurdodau derbyn, lle bynnag y bo'n bosibl, gytuno i unrhyw gais rhesymol am archwiliad gohiriedig. O dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, byddai'r awdurdod gorfodi yn y cyrchfan yn dod yn gyfrifol am orfodi'r rheolaethau mewnforio ar ôl i'r awdurdod yn y man mynediad ohirio'r archwiliad hyd y cyrchfan.

Dylai awdurdodau lleol mewndirol sicrhau y caiff unrhyw wybodaeth sydd ar gael am fwyd a fewnforir, a gaiff ei samplu, ei gadw, ei feddiannu neu ei ddinistrio, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, ei chofnodi mewn cofnodion neu gronfeydd data mewnol perthnasol.

### A.14.13: Samplu Bwyd a Fewnforir

#### A.14.13.1: Ystyriaethau ar gyfer samplu

Dylai ystyriaethau ar gyfer samplu rheolaidd ar fwyd a fewnforir, at ddibenion goruchwylio a gorfodi awdurdodau lleol, gynnwys:

- unrhyw ofynion ar gyfer samplu a osodir ym Mhenderfyniadau neu Reoliadau Rheoli mewn Argyfwng y Comisiwn Ewropeaidd (fel arfer, bydd hyn yn digwydd mewn pwynt mynediad),
- unrhyw raglenni samplu y cytunir arnynt gyda LACORS/yr Asiantaeth Safonau Bwyd,
- unrhyw samplu sy'n ofynnol yn sgil Rhybudd Bwyd neu hysbysiad RASFF,
- gwybodaeth gan unrhyw arolwg samplu gan yr UE, LACORS, grŵp cydgysylltu rhanbarthol, gan unrhyw arolwg samplu lleol neu unrhyw arolwg samplu arall, ac
- unrhyw fwyd a fewnforir lle nad oes hanes neu wybodaeth ar y cynnyrch.

Dylid cadw nwyddau a gaiff eu samplu o dan Benderfyniadau Rheoli mewn Argyfwng neu Reoliadau Rheoli mewn Argyfwng nes bydd yr awdurdod gorfodi'n cael y canlyniadau, oni nodir yn wahanol yn y rheolau gweithredu.

Hefyd, dylai awdurdodau lleol ystyried blaenoriaethau lleol, gan gynnwys cwynion gan ddefnyddwyr yn ymwneud â bwyd a fewnforiwyd, a'u proffil busnes lleol wrth ystyried samplu, a chynnwys y rhain yn eu rhaglenni samplu. Dylid adolygu polisïau samplu o bryd i'w gilydd er mwyn asesu'r angen i gynnwys blaenoriaethau/arolygon bwyd cenedlaethol neu ranbarthol a Chynllun Rheoli Cenedlaethol y DU.

Dylai awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau canolog penodol ar samplu neu faterion eraill y mae'r Asiantaeth neu Defra (Adran yr Amgylchedd a materion Gwledig (SEERAD) Gweithrediaeth yr Alban, Adran yr Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad Cynulliad Cenedlaethol Cymru), neu LACORS yn eu gosod.

#### A.14.13.2: Cymwysterau / profiad / hyfforddiant swyddogion sy'n ymgymryd â samplu

Swyddogion awdurdodedig sydd wedi cael hyfforddiant digonol yn y technegau priodol, gan gynnwys protocolau perthnasol yr UE a chanllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, ac sy'n gymwys i ymgymryd â'r dyletswyddau a aseiniwyd iddynt ddylai gymryd samplau ar gyfer archwiliadau microfiolegol neu ddadansoddiadau cemegol. Dim ond swyddogion sy'n bodloni'r gofynion perthnasol ar gyfer cymwysterau a phrofiad a ddisgrifir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd a ddylai ymgymryd â samplu.

### A.14.14: Bwyd nad yw'n Deillio o Anifeiliaid (BNDA)

Mae'r adran hon yn berthnasol i awdurdodau lleol sydd â man mynediad, profion a gynhelir mewn STPU neu derfynellau rheilffordd rhyngwladol, ac archwiliadau gohiriedig o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006.

Mae'r cyngor yn yr adran hefyd yn berthnasol i gynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys swm bychan o gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid ac sydd y tu allan i'r system o Brofion Milfeddygol y mae Cyfarwyddeb 97/78/EC yn ymdrin â nhw.

#### A.14.14.1: Adnabod

Mae'n bwysig bod awdurdodau sydd â man mynediad yn ymwybodol o gyfaint a natur bwydydd sy'n dod i mewn i'r porth. Dylai awdurdodau lleol sy'n goruchwylio porthladdoedd lle bo ymholiadau â gweithredydd y porth yn dangos y caiff bwyd ei fewnforio wirio 100% o faniffestau llongau ar gyfer bwyd a fewnforir. Dylai profion 100% barhau nes bo ymholiadau â gweithredydd y porth yn dangos na chaiff bwyd ei fewnforio am gyfnod parhaol o dri mis, ac na ellir rhagweld yn rhesymol y caiff rhagor o fwyd ei fewnforio. Wedi hynny, dylid cysylltu â gweithredydd y porth o leiaf unwaith bob tri mis er mwyn gwirio statws mewnforion bwyd.

Dylai awdurdodau lleol sy'n goruchwylio meysydd awyr, STPU a therfynellau rheilffordd rhyngwladol sefydlu, gweithredu a chynnal gweithdrefnau a ddogfennir ar gyfer y trefniadau sydd yn eu lle i nodi bwyd a fewnforir.

Gallai hyn gynnwys:

- Cydgysylltu â HMRC o ran bwyd a fewnforir yn uniongyrchol o drydydd gwledydd neu drwy Aelod-Wladwriaethau eraill, neu byrth o dan drefniadau T1 (gweler yr eirfa);
- Cydgysylltu â gweithredwyr siediau teithio er mwyn caffael copïau o faniffestau cargo;
- Hapbrofion ar siediau teithio/STPU sy'n trin bwyd a fewnforir, er mwyn gwirio'r trefniadau gwybodaeth sydd yn eu lle;
- Systemau hysbysu anffurfiol mewn cydweithrediad â mewnforwyr neu eu hasiantau.

**A.14.14.2: Gwahardd**

Mae hi'n drosedd o dan Reoliad 27 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 i unrhyw berson fewnforio cynnyrch nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion o ran diogelwch bwyd a osodir yn Rheoliad Cyfraith Bwyd yr UE (178/2002) neu â gofynion Erthygl 3 i 6 yn Rheoliad Hylendid Bwyd yr UE (852/2004). Mae'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i gynnyrch a fewnforir naill ai'n uniongyrchol o drydedd gwlad neu o drydedd gwlad drwy Aelod-Wladwriaeth arall o'r UE.

**A.14.14.3: Archwilio**

Dylai bwyd a fewnforir gael ei wneud yn destun profion ar sail risg. Mae Rheoliad UE Rhif 882/2004 yn gwneud profion dogfennol systematig yn ofynnol, yn ogystal â phrofion adnabod ar hap a, lle bo'n briodol, profion ffisegol. Nid yw prawf dogfennol systematig yn golygu profi 100% o'r dogfennau masnachol, ond dylid bod trefniadau cynlluniedig ar sail risg yn eu lle. Fodd bynnag, mae dogfennau y mae angen eu rhoi gydag unrhyw lwyth yn ôl cyfraith bwyd, megis o dan Benderfyniadau Rheoli mewn Argyfwng, yn debygol o fod angen profi 100%. Gallai profion ffisegol gynnwys: profion ar y bwyd ei hun, profion ar y cludiant, profion ar y pecynnu, profion ar reolaethau tymheredd, profion organoleptig, ac archwiliadau cemegol neu ficrofiolegol, neu unrhyw brawf arall sy'n angenrheidiol er mwyn gwirio a gydymffurfir â gofynion diogelwch bwyd yr UE. Gallai profion o'r fath ystyried hefyd unrhyw warantau y mae awdurdod cymwys y trydedd gwlad wedi eu rhoi ac a aseswyd gan y Comisiwn. Dylid gosod y trefniadau a'r camau dilynol mewn polisïau gwasanaeth a gweithdrefnau perthnasol.

Dylid cynnal profion ffisegol o dan amgylchiadau addas gan ystyried safonau hylendid ac mewn lle ble mae mynediad at gyfleusterau rheoli priodol sy'n caniatáu cynnal archwiliadau'n briodol. Dylid trin samplau mewn modd sy'n gwarantu eu bod yn ddilys yn gyfreithiol ac yn ddadansoddol.

Os bydd swyddog awdurdodedig yn gwneud cais rhesymol am gyfleusterau a chymorth i gynnal profion ar gynnyrch, gellid gofyn i'r mewnforiwr ddarparu'r rhain. Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 hefyd yn caniatáu i swyddog awdurdodedig ofyn i brofion ffisegol a phrofion adnabod gael eu cynnal mewn man penodedig, os oes angen, i archwilio'n iawn.

Dylai'r canlynol lywio'r profion:

- Gofynion statudol ar gyfer profion dogfennol a samplu cysylltiedig a osodir yn y Penderfyniadau Rheoli mewn Argyfwng a'r Rheoliadau Rheoli mewn Argyfwng perthnasol,
- Y risg sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd,
- Gwybodaeth am y cynnyrch e.e. newydd neu'n anghyffredin,
- Unrhyw ofynion yn sgil Rhybudd Bwyd neu hysbysiad RASFF,
- Hanes cydymffurfio ar gyfer y cynnyrch, gwlad wreiddiol a'r allforiwr/mewnforiwr,
- Y rheolaethau y mae'r busnes bwyd sy'n mewnforio'r bwyd wedi eu cynnal,
- Unrhyw warantau y mae awdurdod cymwys y trydedd gwlad wreiddiol wedi eu rhoi o dan ddarpariaethau profion cyn allforio o drydedd gwlad yn Rheoliad UE Rhif 882/2004 (mae manylion yn Adran A9.15 isod),
- Unrhyw raglenni presennol a gydlynir, e.e. ar gais neu yn ôl cyfarwyddyd cyrff rheolaeth fwyd / cyrff ymgynghorol ar fwyd eraill,
- Digonolrwydd y dogfennau, e.e. anghysonderau y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach, a
- Amheuaeth o unrhyw anghydffurfio.

Hefyd, gellid dylanwadu ar brofion drwy wybodaeth gan awdurdodau mewndirol yn ymwneud â bwyd nad yw'n cydymffurfio neu wybodaeth gan awdurdodau rheoli eraill neu gan weithredydd y porth y gallai fod ganddo bryderon am lwyth.

Dylai profion ar fwyd a fewnforir ystyried hefyd unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Gallai canllawiau o'r fath drafod bwydydd y mae systemau penodol ar gyfer profi dogfennau wedi eu gosod ar eu cyfer, neu fwydydd sydd â mannau mynediad cyfyngedig a/neu systemau profi a osodir ym Mhenderfyniadau neu Reoliadau'r Comisiwn. Efallai y bydd awdurdodau lleol sydd â mannau mynediad nad ydynt wedi'u pennu i drin rhai cynhyrchion BNDA penodol sy'n amodol ar Benderfyniadau Rheoli mewn Argyfwng, am sicrhau bod gweithredwyr porth perthnasol, HMRC lleol, neu asiantau/mewnforwyr yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau. Hefyd, dylai trefniadau fod yn eu lle i ddelio ag unrhyw lwythi o'r fath a allai gyrraedd yn y man mynediad.

Dylai swyddogion roi i'r perchennog, mewnforiwr neu asiant y perchennog dderbynneb ar gyfer, neu gofnod o bob sampl a gymerwyd a chopi o'r canlyniadau rhag ofn na chydymffurfir.

Dylai awdurdodau lleol sydd â mannau mynediad, STPU neu derfynellau rheilffordd rhyngwladol, geisio sefydlu trefniadau dal effeithiol drwy gydlynu â rhanddeiliaid lleol, fel gweithredwyr siediau teithio neu gwmnïau dociau, er mwyn sicrhau na ellir symud llwythi y maent yn ceisio gwybodaeth ychwanegol amdanynt o'r porth neu'r STPU.

**A.14.14.4: Archwiliadau gohiriedig ar BNDA**

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu gohirio archwiliadau llwythi BNDA a'u cynnal gan yr Awdurdod Bwyd sy'n cynnwys yr STPU neu'r derfynell rheilffordd ryngwladol neu mewn unrhyw gyrchfan arall yn y DU. Gellir ystyried gohirio archwiliadau lle bo gan yr awdurdod lleol yn y man mynediad reswm dilys dros ohirio archwiliad, ond rhagwelir y bydd hyn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Gall naill ai'r awdurdod lleol sy'n cynnwys y man mynediad neu'r mewnforiwr wneud cais am archwiliad gohiriedig. Fodd bynnag, yr awdurdod lleol sy'n cynnwys y man mynediad a gaiff benderfynu'n derfynol a ddylid gohirio archwiliad. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad, dylid cydgysylltu â'r awdurdod derbyn er mwyn sicrhau y caiff profion priodol eu cynnal, ac felly dylid gohirio ar sail cydweithrediad a chytundeb llawn yr awdurdodau.

Os yw profion yn amodol ar Benderfyniadau Rheoli mewn Argyfwng neu ar fesurau Rheoliad Rheoli mewn Argyfwng sy'n gwneud mannau mynediad penodedig yn ofynnol, mae'n annhebygol y bydd yn briodol gohirio archwiliad ond gellid bod amgylchiadau lle bod ystyriaethau iechyd a diogelwch sy'n cael blaenoriaeth. Mewn achosion o'r fath, dylid rhoi gwybod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Ym mhob achos, dylid bwyd sydd o risg uchel fod yn destun profion dogfennol a phrofion adnabod perthnasol cyn gohirio profion ffisegol arnynt.

Pan gaiff unrhyw archwiliad ei ohirio, mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r mewnforiwr ddarparu ymlyniad ysgrifenedig bod y llwyth wedi'i selio ac na chaiff ei agor nes bydd yn cyrraedd ei gyrchfan penodedig a nes bo'r awdurdod derbyn yn awdurdodi ei agor. Dylai'r awdurdod lleol yn y man mynediad roi gwybod i'r awdurdod derbyn, drwy'r modd cyflymaf posibl, nad yw'r bwyd wedi'i archwilio, a dylai anfon copi o unrhyw ymlyniad a roddwyd gan y mewnforiwr ymlaen at yr awdurdod.

Dylid cynnal archwiliadau gohiriedig o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn unol â Rheoliad 26 yn y Rheoliadau – dim ond amlinelliad a roddwyd ym Mharagraffau 14.15 i 14.18.

## A.14.15: Profion cyn Allforio o Drydydd Gwledydd

Mae Rheoliad UE Rhif 882/2004 yn cynnwys darpariaethau i'r Comisiwn ganiatáu llai o brofion mewnforio ar gyfer trydydd gwledydd ar BNDA a fewnforir. Caiff trefniadau o'r fath eu cyfyngu i'r trydydd gwledydd hynny lle bo'r Comisiwn yn fodlon bod rheolaethau swyddogol effeithiol yn eu lle i gynnal y profion cyn allforio priodol yn syth cyn allforio i'r UE. Caiff manylion am gynhyrchion perthnasol a thrydydd gwledydd eu rhoi i awdurdodau lleol, fel y bo'n briodol.

Gall y Comisiwn ddiddymu'r statws hwn yng ngoleuni gwybodaeth neu brofiad. Lle bo trefniadau o'r fath yn eu lle, dylai awdurdodau lleol mewn mannau mynediad wirio ardystiadau perthnasol a llwythi i wirio sicrwydd o'r fath. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i lwythi sy'n dod gydag ardystiadau gan labordai heb eu hachredu. Os yw awdurdodau'n pryderu ynghylch unrhyw drefniadau i'r fath ar sail profion a gynhaliwyd, dylent roi gwybod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

## A.14.16: Ffioedd

Mae Rheoliad UE Rhif 882/2004 yn amodi y gellid cyflwyno ffioedd gorfodol ar gyfer mewnforion BNDA ‘risg uchel’ drwy weithredu rheolau pan gaiff y cynhyrchion hyn eu hadnabod ar lefel y Gymuned. Mae hyn yn ddibynnol ar y Comisiwn yn cyflwyno cynigion.

Mewn rhai achosion, gall Penderfyniadau Rheoli mewn Argyfwng gan y Comisiwn wneud darpariaeth ar gyfer ffioedd. Mae Penderfyniad y Comisiwn 2005/85/EC, ar fewnforio cnau pistasio o Iran, yn caniatáu codi ffi ar gyfer rhai darpariaethau sy’n ymwneud â chnau pistasio o Iran. Mae Penderfyniad y Comisiwn 2005/402/EC, ar fesurau yn ymwneud â tislis, cynhyrchion tisli, cwrcwma ac olew palmwydd, yn caniatáu adfer costau ar gyfer darpariaethau penodol yn ymwneud â’r cynhyrchion hyn.

## A.14.17: Gorfodi

Lle bo swyddog awdurdodedig, at ddibenion archwiliadau mewn mannau mynediad, neu archwiliadau gohiriedig mewn STPU, terfynellau rheilffordd rhyngwladol neu gyrchfan arall, yn ystyried bod angen archwilio llwyth er mwyn cadarnhau y cydymffurfir, mae Erthygl 18 yn Rheoliad UE Rhif 882/2004 a Rheoliad 29 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu cadw’r cynnyrch i ddisgwyl canlyniadau unrhyw archwiliad sy’n gysylltiedig â’r rheolaethau swyddogol.

Os bydd swyddog awdurdodedig wedi cadw llwyth bwyd i ddisgwyl unrhyw ganlyniad o archwiliad, dylai hysbysu’r person sy’n mewnforio'r bwyd yn ysgrifenedig neu unrhyw berson sydd â meddiant ar y bwyd sydd â hawl i fod â meddiant arno. Dylai’r hysbysiad nodi na ddylid symud y bwyd o’r lle a ddatgenir, hyd nes y bydd y swyddog wedi gorffen archwilio’r bwyd. Dylai’r swyddog awdurdodedig roi gwybod yn ysgrifenedig i’r person y rhoddir unrhyw hysbysiad amdano.

Nid yw Erthygl 18 yn Rheoliad UE Rhif 882/2004 a Rheoliad 29 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn pennu terfyn amser ar gyfer archwilio llwythi. Maent yn rhoi dewis cadw llwythi ai peidio, os amheuir anghydffurfio. Fodd bynnag, dylid cyflawni archwiliadau o’r fath a/neu gyfnodau cadw cyn gynted ag y bo’n ymarferol er mwyn osgoi ymyrryd yn afresymol â’r fasnach.

Os caiff samplau eu cyflwyno i’w dadansoddi neu eu harchwilio, ac os caiff y llwyth ei gadw i ddisgwyl y canlyniadau, dylai awdurdodau lleol roi gwybod i’r dadansoddwr neu’r archwiliwr am y ffaith honno a sicrhau hefyd y caiff y llwyth ei storio'n briodol ac yn ddiogel. Dylid rhoi gwybod i’r mewnforiwr neu asiant y mewnforiwr am ganlyniadau’r dadansoddiad/archwiliad cyn gynted â phosibl.

Os ymddengys i swyddog awdurdodi wrth archwilio bwyd, bod swp, rhan neu lwyth o fwyd yn methu cydymffurfio â gofynion o ran diogelwch bwyd (Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Adran 8 fel y’i diwygiwyd), mae Rheoliad 30 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu i’r swyddog, ar ôl clywed gan y mewnforiwr, roi Hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol:

- Dinistrio’r swp, rhan neu’r llwyth dan sylw
- Gwneud y bwyd yn destun triniaeth arbennig
- Ailddosbarthu’r bwyd y tu allan i’r Gymuned Ewropeaidd
- Defnyddio’r bwyd mewn modd sy’n wahanol i’r hyn y bwriadwyd y bwyd yn y lle cyntaf

Yn ymarferol, dylid llunio’r opsiynau a nodir yn yr Hysbysiad ar ôl ymgynghori’n briodol â'r person sy’n mewnforio’r bwyd. Dylai’r swyddog awdurdodedig roi gwybod yn ysgrifenedig i’r person y rhoddir unrhyw Hysbysiad amdano am unrhyw ddarpariaethau perthnasol i apelio ar yr adeg y caiff yr Hysbysiad ei roi. Dylai’r Hysbysiad a roddir ganiatáu 60 diwrnod i’r person sy’n gyfrifol ddod i benderfyniad. Lle bo’r rheolaeth swyddogol yn caniatáu ailddosbarthu, os na ail-ddosberthir ar ôl cyfnod o 60 diwrnod, dylid dinistrio'r llwyth, os nad oes cyfiawnhad dros yr oedi.

Mae Rheoliad 34 yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu adfer costau sy’n gysylltiedig â chamau o’r fath gan y person sy’n gyfrifol am y llwyth.

Gallai triniaeth arbennig gynnwys triniaeth neu brosesu o’r fath i sicrhau bod y bwyd yn cydymffurfio â gofynion yr UE neu ofynion y trydedd gwlad lle caiff ei ailddosbarthu. Gallai triniaeth arbennig gynnwys hefyd prosesu at ddibenion ac eithrio defnyddio gan bobl/anifeiliaid. Os caniateir triniaeth arbennig, dylid cydgysylltu ag unrhyw awdurdod neu sefydliad gorfodi perthnasol arall i sicrhau y cynhelir y prosesau angenrheidiol. Gellid defnyddio’r broses hon hefyd os caiff cynnyrch nad sy’n anghydffurfio ei fewnforio’n benodol er mwyn mynd trwy driniaeth i gydymffurfio â chyfraith yr UE.

Dylid ailddosbarthu llwyth y tu allan i’r UE dim ond os yw’r mewnforiwr wedi cytuno ar y cyrchfan arfaethedig ac wedi rhoi gwybod i awdurdod cymwys y trydedd gwlad pam ei fod wedi’i wrthod i’w fewnforio i’r UE. Os caiff y llwyth ei ailddosbarthu i wlad ac eithrio’r wlad wreiddiol, dylai awdurdod cymwys y wlad gyrchfan hysbysu’r awdurdod cymwys sy’n rheoli’r cynnyrch ei fod yn barod i dderbyn y llwyth. Dylid cadw’r llwyth yn swyddogol i ddisgwyl ei ailddosbarthu.

Dylid llywio unrhyw benderfyniad am gymeradwyo defnydd amgen ar nwyddau a wrthodir gydag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan yr UE neu’r Asiantaeth Safonau Bwyd am briodoldeb defnydd amgen neu ailallforio.

Os yw’r rheolaethau swyddogol yn nodi bod llwyth yn niweidiol i iechyd neu’n anniogel, dylid cadw’r llwyth naill ai nes caiff ei ddinistrio neu nes rhoddir y llwyth drwy fesurau priodol i ddiogelu iechyd.

Lle nad oes tystiolaeth i awgrymu y gwnaed ymdrech fwriadol i fewnforio nwyddau sy’n anghydffurfio, a lle bo trefniadau rheoli digonol yn eu lle, gall pyrth ystyried Ildio Gwirfoddol fel opsiwn i ddelio â llwythi o’r fath. Yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, lle caiff bwyd ei ildio’n wirfoddol i’w ddinistrio, dylid rhoi derbynneb a dylai’r disgrifiad o’r bwyd gynnwys y geiriau “ildiwyd yn wirfoddol i’w ddinistrio” a dylai’r person sy’n ildio’r bwyd neu ei g/chynrychiolydd lofnodi’r dderbynneb.

Gall bwyd a fewnforir sy'n methu bodloni gofynion diogelwch bwyd fod yn destun darpariaethau'r Ddeddf Diogelwch Bwyd hefyd, i sicrhau y cymerir camau priodol. Mae darpariaethau o'r fath yn cynnwys pwerau cadw a meddiannu, a weithredir yn unol â'r Cod Ymarfer.

Dylai swyddogion ystyried Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliadau Halogyddion mewn Bwyd (Cymru) 2004 (fel y'u diwygiwyd) ac unrhyw Reoliadau Rheoli mewn Argyfwng perthnasol, a allai ddarparu ar gyfer pwerau cadw penodol a darpariaethau hysbysu mewn perthynas â rhai bwydydd penodol. Dylai unrhyw borth penodedig fod â chyfleusterau digonol i sicrhau y gellir samplu cynhyrchion yn effeithiol, yn hylan ac o dan amodau priodol.

Dylid bod trefniadau yn eu lle i sicrhau y caiff BNDA a gedwir neu a feddiannir ei storio'n briodol, yn enwedig er mwyn osgoi croeshalogi â nwyddau eraill. Dylid trin bwyd sydd i'w ddinistrio neu ei waredu yn y fath fodd sy'n sicrhau nad oes gobaith iddo fynd yn ôl i mewn i'r gadwyn fwyd, e.e. claddu'n ddwfn mewn safle gwaredu gwastraff. Dylid cadw copïau o nodiadau am waredu gwastraff yn y ffeil.

## A.14.18: Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid – Gorfodi

### A.14.18.1: CDOA a gyflwynwyd yn anghyfreithlon

Dylid mewnforio CDOA yn unol â Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Cymru) (Rhif 4) 2004. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i CDOA gael eu mewnforio drwy Safleoedd Archwilio ar y Ffin (SAFf) penodedig a'u bod yn mynd trwy brofion milfeddygol. Rhoddir Dogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin (CVED)12 ar gyfer llwythu sy'n pasio'r profion milfeddygol a dylai hon fynd gyda'r llwyth i'r safle cynfat ar ôl mewnforio, lle dylid ei chadw am gyfnod o flwyddyn. Nodir bod CDOA wedi eu cyflwyno'n anghyfreithlon (wedi eu smyglo) os na chânt eu cyflwyno i'w clirio yn y SAFf mynediad.

Ym mis Ebrill 2003, daeth HMRC yn gyfrifol am ganfod CDOA wedi'i smyglo mewn ardaloedd a reolir gan dollfeydd, gan gynnwys STPU. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau'n dal i fod ar awdurdodau lleol mewn perthynas â nwyddau a gyflwynir mewn Safleoedd Archwilio ar y Ffin, ac yn fewndirol hefyd lle bydd swyddogion yn dod ar draws CDOA anghyfreithlon yn ystod eu gweithgareddau gorfodi rheolaidd (MHS sy'n gyfrifol am CDOA anghyfreithlon a ganfyddir mewn safleoedd o dan eu rheolaeth nhw). Mae Defra wedi llunio canllawiau yn egluro rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys manylion cyswllt perthnasol, asiantaethau gorfodi sy'n ymwneud â rheoli mewnforion anghyfreithlon o CDOA13. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi llunio Canllawiau Gorfodi i Swyddogion Gorfodi ar Gig Anghyfreithlon hefyd[15].

Dylai pob awdurdod lleol sefydlu, gweithredu a chynnal trefniadau i ddelio'n effeithiol â CDOA a gyflwynwyd yn anghyfreithlon. Oherwydd natur y gweithgaredd gorfodi a allai ofyn am weithredu'n gyflym, dylai swyddogion fod ag awdurdod priodol, dylai hysbysiadau templed fod ar gael, a dylai mecanweithiau effeithiol ar gyfer unrhyw samplu neu archwilio tebygol fod yn eu lle. Dylid ystyried trefniadau angenrheidiol ar gyfer cludo, storio,

cyfleusterau a'r trefniant rheoli angenrheidiol ar gyfer dinistrio CDOA drwy losgi ar dymheredd uchel.

Os bydd swyddog awdurdodedig, yn ystod ei (d)dyletswyddau, yn dod ar draws CDOA mewn safleoedd sydd o dan reolaeth tollfa, e.e. mewn ardal borth neu mewn STPU, a bod ganddo/i reswm dros gredu y cafodd ei gyflwyno'n anghyfreithlon, dylai hysbysu HMRC ac, os oes angen ar gyfer rheoli'r llwyth yn ddigonol dros dro, rhoi hysbysiad cadw o dan Reoliad 16(4) yn Rheoliadau CDOA (Mewnforion o Drydydd Gwledydd)(Cymru) (Rhif 4) 2004.

Os deuir o hyd i fewnforion anghyfreithlon o CDOA yn fewndirol mewn ardal/safle sydd y tu allan i reolaeth tollfa, mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i gymryd camau gorfodi. Os bydd swyddog awdurdodedig yn fodlon y cafodd CDOA ei gyflwyno'n anghyfreithlon, dylai roi hysbysiad o dan Reoliad 24 yn Rheoliadau CDOA (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Cymru) (Rhif 4) 2004 ar y person sy'n gyfrifol dros y llwyth neu'r cynnyrch. Dylai swyddog awdurdodedig, drwy hysbysiad o'r fath, ddwyn rheolaeth dros y llwyth neu'r cynnyrch a naill ai:

- Ei ailddosbarthu, drwy'r modd o gludiant y'i cyflwynwyd i'r UE yn y lle cyntaf, i gyrchfan mewn trydedd gwlad cyn pen chwe diwrnod; neu

- Ei ailddosbarthu i'w rendro neu ei losgi yn unol â deddfwriaeth berthnasol ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Er mai'r awdurdod gorfodi sydd â'r penderfyniad terfynol, yn y rhan fwyaf o achosion mae'n annhebygol y bydd yn briodol neu'n ymarferol ailddosbarthu'r cynhyrchion. Os yw ailddosbarthu'n briodol, byddai angen gwneud hyn drwy'r mewnforiwr priodol ac yn unol â rheolaethau priodol.

**A.14.18.2: CDOA sy'n cyflwyno risg i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid**

Os bydd swyddog awdurdodedig, naill ai mewn porth mynediad neu'n fewndirol, o'r farn bod llwyth neu gynnyrch o drydedd gwlad yn cyflwyno risg i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, dylai roi hysbysiad o dan Reoliad 25 yn Rheoliadau CDOA (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Cymru) (Rhif 4) 2004 ar y person sy'n gyfrifol am y llwyth neu'r cynnyrch. Wedyn, dylid dinistrio'r cynnyrch heb oedi'n ddiangen, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

**A.14.18.3: Cadw CDOA yn fewndirol**

Os bydd swyddog am gadw unrhyw CDOA yn fewndirol er mwyn ymchwilio ymhellach i bennu a yw'n ddiogel neu'n cydymffurfio, gellid ceisio cydweithrediad gwirfoddol yn y lle cyntaf. Mewn sefyllfaoedd lle nad yw hyn yn bosibl neu'n briodol oherwydd risg, mae darpariaeth o dan Reoliad 8 yn Rheoliadau CDOA (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Rhif 4) 2004 i swyddog awdurdodedig roi hysbysiad ar y person sy'n gyfrifol am y llwyth i gadw'r cynnyrch nes yr amser y bydd unrhyw hysbysiad pellach yn caniatáu symud y cynnyrch. Er mwyn defnyddio'r ddarpariaeth hon, dylid cymryd sampl, ond nid oes yn rhaid cyflwyno'r sampl i Ddadansoddwr Cyhoeddus/Archwilydd Bwyd.

Os caiff y CDOA o Drydedd Gwlad eu mewnforio'n gywir drwy SAFf mewn Aelod-Wladwriaeth arall, ond os ceir eu bod yn anghydffurfio, er enghraifft os nad ydynt wedi'u nodi â rhif cymeradwyo'r sefydliad gwreiddiol, hyn hytrach na'u bod wedi eu smyglo'n fwriadol, gellir defnyddio'r darpariaethau o dan Reoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 fel y'u diwygiwyd. Mae Rhan III o'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i fasnach o fewn y Gymuned ac mae'n cynnwys nwyddau sy'n deillio o drydedd gwlad ond a gliriwyd yn llawn mewn Aelod-Wladwriaeth, h.y. maent mewn cylchrediad rhydd. Mae Rheoliad 16 yn ymdrin â llwythi sy'n cyflwyno risg i iechyd neu lwythi anghyfreithlon. O dan 16(3), lle bo gan swyddog awdurdodedig reswm rhesymol dros gredu bod nad yw CDOA yn cydymffurfio ag amodau iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd mewn perthynas â mewnforio i Brydain Fawr neu'r Gymuned Ewropeaidd, gellir rhoi Hysbysiad i wahardd symud y llwyth. Mae Rheoliad 16(4) yn darparu y dylid rhoi hysbysiad wedyn yn gorchymyn dinistrio'r nwyddau, neu os bydd ystyriaethau o ran iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd yn caniatáu, yn gorchymyn defnyddio'r nwyddau at ddibenion eraill, fel y nodir yn yr hysbysiad, gan gynnwys eu dychwelyd (gyda chaniatâd awdurdod cymwys y wlad wreiddiol) i'w gwlad wreiddiol. Os yw'r llwyth yn methu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth oherwydd afreoleidd-dra yn y dogfennau yn unig, mae'n rhaid i'r hysbysiad roi cyfnod o saith niwrnod i'r cludwr gynhyrchu'r dogfennau cywir cyn gweithredu (Rheoliad 16(5)).

#### A.14.18.4: Adrodd

Dylai awdurdodau lleol hysbysu cronfa ddata Meddiannu Cynhyrchion Anifeiliaid Anghyfreithlon (ILAPS) Defra pan feddiannir CDOA a fewnforir yn anghyfreithlon14. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys unrhyw achosion lle rhoddir Hysbysiad o dan Reoliad 24 yn Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Cymru) (Rhif 4) 2004.

### A.14.19: Cyfeiriadau

imported.food@foodstandards.gsi.gov.uk

Ffôn: 020 7276 8018
Gellir dod o hyd i'r canllawiau hyn ar wefan yr Asiantaeth www.food.gov.uk

[1] Am wybodaeth a chanllawiau ar fasnachu'n rhyngwladol mewn cynhyrchion anifeiliaid, gweler gwefan Defra www.defra.gov.uk/animalh/int-trde/prod-im/vet-chks

[2] Pecyn Adnoddau Rheoli Bwyd a Fewnforir yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ar gael ar wefan yr Asiantaeth yn:
http://www.food.gov.uk/enforcement/imports/enforce_authorities/resourcepack

[3] Benchmarking the Port Health Function, Canolfan Meincnodi Syniad (martin.goodman@wlga.gov.uk)
http://www.food.gov.uk/enforcement/imports/enforce_authorities/benchmarking

[4] www.food.gov.uk/enforcement/frameagree

[5] Local Authority Delegated Powers, Authorisation of Officers and Use of Credentials, LACORS.

[6] Adran Bwyd a Fewnforir – Ffôn 020 7276 8018 , Ffacs 020 7276 8024, E-bost imported.food@foodstandards.gsi.gov.uk

[7] Cangen Digwyddiadau – Ffôn 020 7276 8448, Ffacs 020 7276 8446, E-bost

drazenka.tubin-delic@foodstandards.gsi.gov.uk neu rajwinder.ubhi@foodstandards.gsi.gov.uk

[8] www.forum.europa.eu.int/Public/irc/sanco/Home/main

[9] www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/referralsproforma.doc

[10] www.food.gov.uk/imports

[11] www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/foodstuff_controls.pdf

[12] Cyflwynwyd y ddogfen hon ar 1 Mawrth 2004 ac mae wedi'i safoni ar draws Aelod-Wladwriaethau'r UE. Rhagflaenydd y CVED oedd y Tystysgrif o Brofion Milfeddygol (CVC).

[13] Canllawiau gorfodi ar gyfer gweithgarwch gwrthsmyglo yn erbyn mewnforion cig anghyfreithlon a chynhyrchion eraill sy'n deillio o anifeiliaid. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â andy.green@defra.gsi.gov.uk, neu ffoniwch 020 7904 8233.

[14] http://ilaps.defra.gov.uk. Dylai Awdurdodau Bwyd sydd heb enwau defnyddiwr a chyfrineiriau gysylltu ag Andy.Green@defra.gsi.gov.uk i gael y rhain.

[15] Food Standards Agency Illegal Meat Enforcement Guidance for Local Authority officers in England and Wales. Gorffennaf 2004. Gellir dod o hyd i'r canllawiau yn: http://www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/meatregsguid/illegalmeatguidance

[16]. The BIP Manual. Cyhoeddwyd gan DEFRA. Ar gael yn: http://www.defra.gov.uk/animalh/int-trde/prod-im/bipmanual.pdf

**Ychwanegiad 1 : Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| SAFf | Safle Archwilio ar y Ffin yn yr UE a leolir mewn porthladd neu faes awyr neu gyswllt rheilffordd neu ffordd rhyngwladol - man mynediad penodedig ar gyfer cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid sydd o drydydd gwledydd. |
| CITES | Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl, a orfodir gan Cyllid a Thollau EM. |
| Llwyth | Gall llwythi gynnwys un math o gynnyrch, neu sawl math gwahanol o gynnyrch, sy'n dod o dan yr un dystysgrif iechyd a/neu fil llwybr hedfan neu fil glanio. Gweler hefyd y diffiniad yn Rheoliadau CDOA. |
| STPU | Sied Teithio Pell Uwch. Cyfleusterau warws a gymeradwyir gan dollfa, lle caiff nwyddau a fewnforir eu storio dros dro gan reolaeth Tollfa. Bwriedir iddynt hwyluso mynediad nwyddau at ddibenion Tollfeydd a gallant fod gryn bellter oddi wrth y porthladd neu'r maes awyr, felly gallant ddod o dan awdurdodaeth awdurdod lleol arall. Gellir cyfeirio atynt fal "cyfleusterau storio dros dro". |
| BNDA risg uchel | Cynhyrchion sy'n amodol ar amodau mewnforio arbennig / rheolaethau argyfwng. Gosodir y rhain mewn deddfwriaeth benodol yn y Gymuned a gartref sy'n ymwneud â chynhyrchion unigol/grwpiau o gynhyrchion a/neu wledydd gwreiddiol. |
| Maniffest | Dogfen/ffeil gyfrifiadurol sy'n disgrifio'r holl gargo a gerir ar long, llong gargo neu awyren. |
| AIP | Awdurdod Iechyd Porthladd. Awdurdodau lleol â chyfansoddiad arbennig yw'r rhain sydd â chylch gorchwyl i weinyddu ystod o swyddogaethau o ran iechyd yr amgylchedd mewn dociau/porthladdoedd. |
| Trefniadau T1 | Datganiad cludo a wneir i Cyllid a Thollau EM. Mae T1 yn arwyddo nad yw'r nwyddau mewn Cylchrediad Rhydd, h.y. eu bod yn dal yn amodol ar reolaethau Tollfa. |

# TABL CYNNWYS


TABL O'R DIWYGIADAU A GYHOEDDWYD .......... 5

RHAGAIR .......... 6

**ADRAN 1: GWEINYDDU .......... 8**

PENNOD 1.1: MATERION RHYNG-AWDURDOD .......... 8

1.1.1: Cyflwyniad .......... 8
1.1.2: Gwasanaeth i Ddefnyddwyr .......... 8

PENNOD 1.2: CYMWYSTERAU A PHROFIAD .......... 9

1.2.1: Cyflwyniad .......... 9
1.2.2: Cydgyfrannu Arbenigedd .......... 9

PENNOD 1.3: GWRTHDARO BUDDIANNAU .......... 10

PENNOD 1.4: COFNODION SEFYDLIADAU BUSNES BWYD .......... 11

1.4.1: Cyflwyniad .......... 11
1.4.2: Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth .......... 11

PENNOD 1.5: COFNODION SEFYDLIADAU BUSNES BWYD .......... 12

PENNOD 1.6: ADEILADAU'R GORON A'R HEDDLU .......... 13

1.6.1: Cyflwyniad .......... 13
1.6.2: Cwmpas Cymhwyso Cyfraith Bwyd (Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006) .......... 13
1.6.3: Cwmpas Cymhwyso Deddf Diogelwch Bwyd 1990 .......... 13
1.6.4: Dull Cynnal ac Amlder Archwiliadau .......... 13
1.6.5: Gorfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 .......... 14
1.6.6: Gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990 .......... 14
1.6.6.1: Atebolrwydd .......... 14
1.6.6.2: Sefyllfa Gweision Sifil neu Weision Unigol y Llywodraeth .......... 14
1.6.6.3: Hysbysiadau Statudol .......... 15

PENNOD 1.7: DIGWYDDIADAU A PHERYGLON BWYD .......... 16

1.7.1: Cyflwyniad .......... 16
1.7.2: Gwybodaeth a Geir yn Lleol a All Ddynodi Problem Ehangach .......... 16
1.7.3: Canllaw ar Gŵynion am Fwyd .......... 16
1.7.3.1: Hysbysiad o Gŵynion am Fwyd .......... 16
1.7.3.2: Cynnwys Awdurdodau Bwyd Eraill .......... 17
1.7.3.3: Ymchwiliad Gwyddonol o Samplau Cwynion am Fwyd .......... 17

**ADRAN 2: CYFATHREBU .......... 18**

PENNOD 2.1: DATGELU GWYBODAETH .......... 18

PENNOD 2.2: RHYBUDDION BWYD .......... 19

PENNOD 2.3: CYFATHREBIADAU A CHANLLAW'R ASIANTAETH .......... 20

PENNOD 2.4: GWYBODAETH I'W CHYFLWYNO I'R ASIANTAETH .......... 21

PENNOD 2.5: CYSWLLT AG AELOD-WLADWRIAETHAU ERAILL .......... 22

2.5.1: Cyflwyniad .......... 22
2.5.2: Rôl yr Asiantaeth .......... 22
2.5.3: Rôl yr Awdurdodau Bwyd .......... 22
2.5.4: Ymholiadau gan Aelod-Wladwriaethau .......... 23
2.5.5: Dogfennaeth .......... 23

2.5.6: Datgelu Gwybodaeth ........ 23
2.5.7: Defnyddio Gwybodaeth mewn Achos Troseddol ........ 23
2.5.8: Diffyg Cydymffurfio â Deddfwriaeth ........ 24
2.5.9: Ffurflen - Hysbysiad o Ddigwyddiad i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ........ 26

**ADRAN 3: GORFODI CYFFREDINOL ........ 28**

PENNOD 3.1: YMAGWEDD AT ORFODAETH ........ 28

3.1.1: Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE): Cod Ymarfer B ........ 28

PENNOD 3.2: HYSBYSIADAU GWELLA HYLENDID / HYSBYSIADAU GWELLA ........ 29

3.2.1: Cyflwyniad ........ 29
3.2.2: Yr Ymagwedd Orfodi ........ 29
3.2.3: Cyflwyno Hysbysebiadau ........ 29
3.2.4: Drafftio Hysbysebiadau ........ 30
3.2.5: Terfynau Amser ........ 30
3.2.6: Ymestyn Terfynau Amser ........ 31
3.2.7: Gweithiau ag Effaith Gyfwerth ........ 31
3.2.8: Cydymffurfio ........ 32
3.2.9: Apeliadau ........ 32
3.2.10: Trafodaethau Eraill gyda'r Awdurdod Bwyd ........ 32
3.2.11: Canllaw Arall ........ 33

PENNOD 3.3: GWEITHDREFNAU GWAHARDD ........ 34

3.3.1: Cyflwyniad ........ 34
3.3.2: Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ........ 34
3.3.2.1: Rheoliad 7 Gweithdrefnau Gwahardd at ddibenion Hylendid ........ 34
3.3.2.2: Rheoliad 8 Gweithdrefnau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid ........ 34
3.3.2.3: Rheoliad 9 Rhybuddion Cymryd Camau Adfer / Rhybuddion Cadw ........ 35
3.3.3: Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ........ 35
3.3.3.1: Adran 11 Gweithdrefnau Gwahardd ........ 35
3.3.3.2: Adran 12 Gweithdrefnau Gwahardd Brys ........ 35
3.3.4: "Amod Risg Iechyd" / "Risg Niwed (ar Fin) Digwydd i Iechyd" ........ 36
3.3.5: Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ........ 36
3.3.6: Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ........ 36
3.3.7: Meini Prawf ar gyfer Gweithredu ........ 37
3.3.7.1: Gweithdrefnau Gwahardd at Ddibenion Hylendid / Gweithdrefnau Gwahardd ........ 37
3.3.7.2: Gweithdrefnau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid / Gweithdrefnau Gwahardd Brys ........ 37
3.3.8: Gofyn am Gyngor Ychwanegol ........ 37
3.3.9: Gohirio Gweithredu Di-oed ........ 38
3.3.10: Cyflwyno'r Hysbysiad neu'r Gorchymyn ........ 38
3.3.11: Dulliau o Gyflwyno'r Hysbysiad neu'r Gorchymyn ........ 39
3.3.12: Tystiolaeth Ofynnol ........ 39
3.3.13: Gorchmynion Gwahardd at Ddibenion Hylendid / Gorchmynion Gwahardd 40
3.3.14: Gwahardd Person ........ 40
3.3.15: Cais i'r Llys ........ 40
3.3.16: Camau i'w Cymryd Cyn Gwrandawiad ........ 41
3.3.17: Gwybodaeth i'w Roi i'r Llys ........ 41
3.3.18: Gosod yr Hysbysiad neu'r Gorchymyn ar yr Adeilad ........ 42
3.3.19: Tynnu neu Ddifwyno Hysbysiadau neu Orchmynion Heb Awdurdod ........ 42
3.3.20: Codi'r Hysbysiad neu'r Gorchymyn ........ 43
3.3.21: Torri Hysbysiad Neu Orchymyn ........ 44
3.3.22: Apeliadau: Gwrthodiad Awdurdod Bwyd i Roi Tystysgrif Nad yw'r Amod Risg Iechyd yn Bodoli Bellach ........ 44
3.3.23: Iawndal ........ 45

PENNOD 3.4: MEDDIANNU A CHADW ........ 46

3.4.1: Cyflwyniad ........ 46
3.4.2: Cyffredinol ........ 46
3.4.3: Pryd i Ddefnyddio Pwerau Cadw a Meddiannu ........ 46

3.4.3.1: Bwyd Nad yw'n Cael ei Gynhyrchu, Ei Brosesu Neu'i ddosbarthu yn Unol â'r Rheoliadau Hylendid ........ 46
3.4.3.2: Bwyd Nad yw'n Bodloni Gofynion Diogelwch Bwyd - Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Adran 9, fel y'i diwygiwyd........ 46
3.4.4: Pwerau Penodol Meddiannu a Chadw ar gyfer Awdurdodau Bwyd Cynghorau Sir........ 47
3.4.5: Cadw Bwyd........ 47
3.4.6: Meddiannu Bwyd........ 47
3.4.7: Rhybudd Condemnio Bwyd........ 48
3.4.8: Gweithredu Heb Archwilio........ 48
3.4.9: Delio gyda Llwythi, Cyfrannau neu Gyflenwadau o Fwyd........ 48
3.4.10: Gweithdrefnau Gwirfoddol........ 49

PENNOD 3.5: RHYBUDDION CYMRYD CAMAU ADFER / RHYBUDDION CADW........ 50

PENNOD 3.6: DARPARIAETHAU RHEOLI TYMHEREDD........ 51

3.6.1: Cyflwyniad........ 51
3.6.2: Ymagwedd Gyffredinol at Archwiliadau Tymheredd........ 51
3.6.3: Cymryd Mesuriadau Tymheredd........ 52
3.6.4: Goddefiant........ 52
3.6.5: Gwirio a Chalibro Thermomedrau Mesur Gorfodaeth etc........ 52
3.6.6: Rhag-oeri Offer........ 53
3.6.7: Paratoi Samplau ar gyfer Mesur Tymheredd........ 53
3.6.8: Mesur Tymheredd Cynnyrch........ 53
3.6.9: Cyfarpar a Ddefnyddir i Fesur Tymheredd Cynnyrch Oer........ 54

PENNOD 3.7: BWYDYDD WEDI'U RHEWI'N GYFLYM........ 56

3.7.1: Cyflwyniad........ 56
3.7.2: Newidiadau Deddfwriaethol........ 56
3.7.3: Rhannu'r Cyfrifoldeb Gorfodi Rhwng Cynghorau Sir a Chynghorau Dosbarth........ 56
3.7.4: Gofynion Tymheredd........ 57
3.7.5: Ymagweddiad Fesul Cyfnod at Orfodi........ 57
3.7.6: Gwiriadau Tymheredd Aer........ 58
3.7.6.1: Gwiriadau Tymheredd Aer: Storfeydd Oer........ 58
3.7.6.2: Gwiriadau Tymheredd Aer: Cludiant........ 59
3.7.6.3: Gwiriadau Tymheredd Aer: Cabinetau Arddangos Adwerthu........ 59
3.7.7: Gwiriadau Tymheredd Annistrywiol........ 60
3.7.8: Mesur Tymhered Distrywiol........ 61
3.7.9: Samplu........ 62
3.7.9.1: Samplu: Storfeydd Oer........ 62
3.7.9.2: Samplu: Cludiant........ 62
3.7.9.3: Samplu: Cabinetau Arddangos Adwerthu........ 63
3.7.10: Gweithdrefn ar gyfer Mesur Tymheredd Cynnyrch........ 66
3.7.11: Delio â Bwyd sydd ar dymheredd Uwch na'r Tymheredd Rhewedig Rhagnodedig........ 67
3.7.12: Manyleb Gyffredinol ar gyfer Offer Mesur Tymheredd........ 67

PENNOD 3.8: GWASTRAFF BWYD........ 69

3.8.1: Cyflwyniad........ 69
3.8.2: Archwilio Busnesau Bwyd........ 69
3.8.3: Ymchwiliadau Mawr........ 69

PENNOD 3.9: GWERTHU O BELL / ARCHEBU DRWY'R POST........ 71

3.9.1: Cyflwyniad........ 71
3.9.2: Lleoliad y Gwerthwr........ 71
3.9.3: Lleoliad y Prynwr........ 71
3.9.4: Gwerthu Bwyd o Bell o'r DU........ 71
3.9.5: Gwerthu Bwyd o Bell o'r UE (Tu Allan i'r DU)........ 72
3.9.6: Gwerthu Bwyd o Drydydd Gwledydd........ 72
3.9.7: Deddfwriaeth Gwerthu Bwyd o Bell Generig........ 73
3.9.8: Cyfeiriadau Eraill........ 73

PENNOD 3.10: DŴR POTEL ........ 74

3.10.1: Cyflwyniad ........ 74
3.10.2: Deddfwriaeth ........ 74
3.10.3: Dŵr Mwynol Naturiol ........ 74
3.10.4: Cydnabod Dŵr Mwynol Naturiol ........ 75
3.10.5: Labelu Dŵr Mwynol Naturiol ........ 75
3.10.6: Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed Potel Arall ........ 75
3.10.7: Labelu Dŵr Ffynnon a Dŵr Potel Arall ........ 75

PENNOD3.11: RHEOLEIDDIO MEINI PRAWF MICROBIOLEGOL........77

3.11.1: Canllaw'r Asiantaeth i Weithredwyr Busnesau Bwyd ........ 77
3.11.2: Datblygu Canllaw'r Asiantaeth Ymhellach ........ 77
3.11.3: Arweiniad Arall ........ 77

PENNOD 3.12: MEWNFORIO BWYD O DRYDYDD GWLEDYDD ........ 78

**ADRAN 4: ARCHWILIADAU ........ 79**

PENNOD 4.1: ARCHWILIADAU ........ 79

PENNOD 4.2: YR ARCHWILIAD ........ 80

4.2.1: Cyflwyniad ........ 80
4.2.2: Hysbysiad am Archwiliad ........ 80
4.2.3: Cyd-drefnu Archwiliadau ........ 80
4.2.4: Nodau Adnabod Pysgod Cregyn ........ 80

PENNOD 4.3: ARCHWILIO SEFYDLIAD CYNNYRCH-BENODOL - GOFYNION YCHWANEGOL ........ 82

PENNOD 4.4: ARCHWILIO LLONGAU AC AWYRENNAU ........ 83

4.4.1: Cyflwyniad ........ 83
4.4.2: Cyffredinol ........ 83
4.4.3: Gwastraff Arlwyo ........ 84
4.4.4: Materion Eraill: Awyrennau ........ 84
4.4.5: Materion Eraill - Llongau ........ 84
4.4.6: Cyfeiriadau Eraill ........ 86
4.4.7: Templed Archwiliad: Awyrennau - Ffurflen Adroddiad Archwiliad Diogelwch Bwyd........ 87

PENNOD 4.5: CAMAU GWEITHREDU YN DILYN ARCHWILIAD ........ 89

**ADRAN 5: SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL ........ 90**

PENNOD 5.1: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 ........ 90

5.1.1: Nodau Adnabod ........ 90
5.1.1.1: Enghreifftiau o Fformatau Nodau Adnabod ........ 90
5.1.1.2: Enghreifftiau o Nodau Adnabod ........ 90
5.1.2: 'Nod Arbennig' ar gyfer Briwgig/Paratoadau Cig/Cynhyrchion Cig: (Erthygl 8 Rheoliad 2073/2005) ........ 90
5.1.2.1: Fformat 'Nod Arbennig' ........ 91
5.1.2.2: Enghreifftiau 'Nod Arbennig' ........ 91

PENNOD 5.2: OPSIYNAU GORFODI MEWN SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 ........ 92

PENNOD 5.3: MATERION YN YMWNEUD Â MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW ........ 93

PENNOD 5.4: MATERION YN YMWNEUD Â CHIG FFRES ........ 94

**ADRAN 6: SAMPLU A DADANSODDI .................................................95**

6.1.1: Cyflwyniad ........................................................................................ 95
6.1.2: Caffael Samplau ................................................................................ 95
6.1.3: Tystysgrif a Roddir gan Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd.. 95
6.1.4: Osgoi Halogi ...................................................................................... 95
6.1.5: Parhad Tystiolaeth ............................................................................. 96
6.1.6: Samplau i'w Dadansoddi ..................................................................... 97
6.1.6.1: Maint Samplau i'w Dadansoddi ......................................................... 97
6.1.6.2: Cynwysyddion ar gyfer Samplau i'w Dadansoddi ................................. 97
6.1.6.3: Cludo a Storio Samplau i'w Dadansoddi ............................................ 97
6.1.6.4: Samplau sy'n Peri Anawsterau o'u Rhannu yn Ddarnau ......................... 98
6.1.7: Samplau i'w Harchwilio........................................................................ 98
6.1.7.1: Maint Samplau i'w Harchwilio ........................................................... 98
6.1.7.2: Trafod Samplau i'w Harchwilio .......................................................... 99
6.1.7.3: Trafod, Cludo a Storio Sbesimenau Ysgarthion i'w Harchwilio ................ 99
6.1.7.4: Cais am Archwiliad ........................................................................... 100

**ADRAN 7: MONITRO ARCHWILIADAU ..............................................101**

**ADRAN 8: ATODIADAU........................................................................102**

ATODIAD 1: RHESTR TERMAU .................................................................. 102

ATODIAD 2: CYSYLLTIADAU Â DEDDFWRIAETH, CANLLAW A FFURFLENNI (HYLENDID BWYD) ........................................................................ 104

ATODIAD 3: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL YN AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 - CYFFREDINOL.................... 107

A.3.1: Cyflwyniad ........................................................................................ 107
A.3.2: Rhannu Cyfrifoldebau Gorfodi ............................................................. 107
A.3.3: Eithriadau o'r Gofyniad am Gymeradwyaeth.......................................... 108
A.3.3.1: Cyflwyniad....................................................................................... 108
A.3.3.2: Eithriadau: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1 (Cwmpas)) ............................ 108
A.3.3.2.1: Erthygl 1(2) Rheoliad 853/2004: Bwyd sy'n Cynnwys Cynhyrchion yn Dod o Blanhigion a Chynhyrchion wedi'u Prosesu yn Dod o Anifeiliaid ...................... 108
A.3.3.2.2: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(3)(a) a (b): Defnydd / Treuliant Domestig Preifat ............................................................................................... 108
A.3.3.2.3: Diffiniad o Adwerthu........................................................................ 109
A.3.3.2.4: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(3)(c), (d) ac (e): Cyflenwi Meintiau Bach yn Uniongyrchol ................................................................................... 110
A.3.3.2.5: Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(5)(a) a (b): Eithriad Adwerthu Cyffredinol ............................................................................................ 110
A.3.3.2.6: Rheoliad 853/2004, Erthygl1(5)(b)(i) a (ii): Eithriadau Adwerthu Eraill 111
A3.3.2.7: Ymlyol, Lleoledig a Chyfyngedig......................................................... 111
A.3.3.3: Eithriadau: Rheoliad 853/2004, Erthygl 4 (Gofyniad am Gymeradwyaeth) ............................................................................................ 113
A.3.3.3.1: Rheoliad 854/2004, Erthygl 4 (2)......................................................... 113
A.3.4: Cymeradywaeth Amodol ..................................................................... 113
A.3.5: Gweithdrefnau Cymeradwyo ................................................................. 114

ATODIAD 4: SIART LLIF Y BROSES GYMERADWYO ........................................ 115

ATODIAD 5: CIG ........................................................................................ 116

A.5.1: Arweiniad .......................................................................................... 116
A.5.2: Cymeradwyo Sefydliadau ..................................................................... 116
A.5.3: Gorfodaeth mewn Sefydliadau Cig......................................................... 116
A.5.3.1: Sefydliadau Cydleoledig ..................................................................... 116
A.5.3.2: Sefydliadau Annibynnol ...................................................................... 116
A.5.3.3: Storfeydd Oer..................................................................................... 117
A.5.3.4: Anifeiliaid Hela Gwyllt ........................................................................ 117
A.5.3.5: Cyd-gynhyrchion Bwytadwy.................................................................. 118

A.5.4: Eithriadau ar gyfer Cymeradwyaeth .................................................................. 118
A.5.4.1: Sefydliadau Adwerthu (Rheoliad 853/2004, Erthygl 1(5)(b)(ii)).............. 118
A.5.4.2: Cyflenwi "Ymylol, lleoledig a chyfyngedig" i sefydliadau eraill................ 118
A.5.4.3: Canllaw ar dorri cig i'w wertgu'n uniongyrchol gan y ffermwyr (e.e. wemn marchnadaoedd ffermwyr) ................................................................................... 119
A.5.4.4: Anifeiliaid Hela Gwyllt............................................................................... 119
A.5.4.5: Lladd ar y fferm a thorri meintiau bach o ddofednod a lagomorffiaid ...... 120
A.5.4.5.1: Pa gynhyrchwyr sy'n elwa o'r eithriad hwn? ........................................ 120
A.5.4.5.2: Ble gellir gwerthu'r cig?........................................................................ 121
A.5.4.5.3: Pa reolau sy'n gymwys? ...................................................................... 121
A.5.5: Cynhyrchion Cig, Briwgig a Pharatodaua Cig - Torri Cig ................................. 122
A.5.6:Paratoadau Cig a Chynhyrchion Cig a Geir Drwy wahanu'n Fecanyddol o Esgyrn neu Ewynnau ………………..………………………………………………………………122
A.5.7: Lladd at ddefnydd domestig preifat .................................................................. 123
ATODIAD 5, YCHWANEGIAD 1: Y Sector Anifeiliaid Hela Gwyllt - Pa Reoliadau sy'n Gymwys i Ba Weithgareddau?……….…...................................................................... 124
ATODIAD 5, YCHWANEGIAD 2: Lladd Da Byw yn Breifat - Canllaw ar Gyfer Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr................................................................... 126

ATODIAD 5A: CANLLAW I SWYDDOGION GORFODI'R GYFRAITH AR FATERION BWYD HALAL ...................................................................................................... 129

A.5A.1: Cefndir ................................................................................................. 129
A.5A.2: Enghreifftiau o ofynion cyfraith bwyd sy'n berthnasol i ofynion *Halal*... 129

ATODIAD 6: MOLYSGIAID DWYGRAGENNOG BYW ............................................. 133

A.6.1: Cyflwyniad ........................................................................................................ 133
A.6.2: Eithrio Marchnadoedd Lleol............................................................................... 133
A.6.3: Tabl ................................................................................................................... 133
A.6.4: Triniaeth â Gwres ............................................................................................. 133
A.6.5: Trefniadau Cydgysylltu ar Bysgod Cregyn ....................................................... 134
A.6.6: Hysbysu ar Ardaloedd Penodedig i Gynhyrchu Molysgiaid Dwygragennog Byw (MDB) ac Ardaloedd i'w Cyfnewid.................................................................................. 135
A.6.7: Monitro Dogfennau Cofrestru ............................................................................ 135
A.6.8: Samplu gan Weithredwyr .................................................................................. 136
A.6.9: Labordai a Ddefnyddir mewn Cysylltiad â Chanolfannau Dosbarthu neu Buro . 136
A.6.10: Samplu Molysgiaid Dwygragennog Byw gan Awdurdodau Bwyd .................... 136
A.6.11: Gwybodaeth am Safonau i'w Gweithredu ....................................................... 137
A.6.12: Molysgiaid a Physgod Cregyn Eraill sy'n Methu Bodloni'r Gofynion ................ 137
A.6.13: Trosglwyddo Molysgiaid Had i Ardaloedd Cynhyrchu Penodedig.................... 137
A.6.14: Hysbysiadau Cau (cau ardaloedd casglu dros dro) ........................................ 138
ATODIAD 6, YCHWANEGIAD 1: Nodyn Arweiniad i Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr - Molysgiaid Dwygragennog Byw/Pysgod......................................................... 139
ATODIAD 6, YCHWANEGIAD 2: Dogfen Gofrestru Batrymol...................................... 142

ATODIAD 7: CYNHYRCHION PYSGODFEYDD ........................................................ 143

A.7.1: Cyflwyniad ........................................................................................................ 143
A.7.2: Awdurdod Cymwys ............................................................................................ 143
A.7.3: Cwmpas Cymeradwyo........................................................................................ 143
A.7.4: Cyflenwi Symiau Bychain o Gynhyrchion Pysgodfeydd yn Uniongyrchol. ......... 143
A.7.5: Amodau yn ystod ac ar ôl Glanio....................................................................... 143
A.7.6: Gwybodaeth am Safonau i'w Gweithredu ......................................................... 144
ATODIAD 7, YCHWANEGIAD 1: Nodyn Arweiniad i Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr - Cynhyrchion Pysgodfeydd ............................................................................ 145

ATODIAD 8:LLAETH AMRWD A CHYNNYRCH LLAETH......................................... 154

A.8.1: Cyflwyniad ........................................................................................................ 154
A.8.2: Gorfodi .............................................................................................................. 154
A.8.3: Gweithredwyr Busnesau Bwyd sy'n Gwerthu Llaeth Amrwd a Hufen................ 154
A.8.4: Cynwysyddion Ailddefnyddiadwy ....................................................................... 154
A.8.5: Gofynion Iechyd ar gyfer Cynhyrchu Llaeth Amrwd .......................................... 155
A.8.6: Meini Prawf a Safonau ar gyfer Llaeth Amrwd .................................................. 155

A.8.7: Gofynion TYmheredd ar gyfer llaeth a Ddefnyddir i Weithgynhyrchu Cynnyrch Llaeth ..... 155
A.8.8: Trin Llaeth Amrwd a Chynnyrch Llaeth â Gwres ..... 156
A.8.9: Profi am Ffosffatas ..... 156
ATODIAD 8, YCHWANEGIAD 1: Canllawiau i Awdurdodau Bwyd yng Nghymru a Lloegr ar Statws Swyddogol Rydd Rhag Tiwbercwlosis a Deddfwriaeth Hylendid Cynnyrch Llaeth ..... 157

ATODIAD 9: CYNHYRCHION ŴY AC ŴY HYLIF ..... 170

A.9.1: Cyflwyniad ..... 170
A.9.2: Cwmpas y Rheoliadau ..... 170
A.9.3: Mathau o Eiddo a Gymeradwyir ..... 171
A.9.4: Wyau budr ..... 171
A.9.5: Allgyrchu neu Fathru ..... 171
A.9.6: Nodau Adnabod ..... 171
A.9.7: Pasteureiddio a Thrin â Gwres ..... 172
A.9.8: Manylebau Dadansoddi ..... 172
A.9.9: Rheoli Tymheredd ..... 172
A.9.10: Storio a Chludo ..... 172
A.9.11: Marchnata Wyau ..... 173

ATODIAD 10: CANOLFANNAU PACIO WYAU ..... 174

A.10.1: Cyflwyniad ..... 174
A.10.2: Cwmpas y Rheoliadau ..... 174
A.10.3: Gofynion Penodol o ran Hylendid ar gyfer Wyau Plisgyn ..... 175
A.10.4: Wyau o'r tu allan i'r DU ..... 175
A.10.5: Marchnata Wyau ..... 175
A.10.6: Cynllun y Llew a chynlluniau sicrhau ansawdd eraill dan arweiniad y diwydiant ..... 175

ATODIAD 11: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL SY'N AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 - TEMPLEDI FFURFLENNI ..... 177

A.11.1: Cais am Gymeradwyaeth ..... 178
A.11.2: Hysbysiad am gymeradwyaeth Lawn / Cymeradwyaeth Amodol ..... 185
A.11.3: Hysbysiad am Benderfyniad i Wrthod Cymeradwyaeth ..... 188
A.11.4: Hysbysiad am Benderfyniad i dynnu Cymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol yn ôl ..... 190
A.11.5: Hysbysiad am Benderfyniad i Ohirio Cymeradwyaeth / Cymeradwyaeth Amodol ..... 192
A.11.6: Hysbysiad am Benderfyniad i Wrthod Cymeradwyaeth Lawn i Sefydliad y Rhoddwyd Cymeradwyaeth Amodol iddo ..... 195

ATODIAD 12: CYMERADWYO SEFYDLIADAU CYNNYRCH-BENODOL SY'N AMODOL AR GYMERADWYAETH O DAN REOLIAD 853/2004 - FFEILIAU AWDURDOD BWYD ..... 198

ATODIAD 13: YMAGWEDD TUAG AT ORFODAETH - GOFYNIAD AR GYFER GWEITHDREFNAU RHEOLI DIOGELWCH BWYD AR SAIL EGWYDDORION HACCP ..... 200

A.13.1: Cyflwyniad ..... 200
A.13.2: Ymagwedd Tuag at Orfodaeth ..... 200
A.13.3: Rheoliad 852/2004 ..... 200
A.13.4: Hyblygrwydd ..... 200
A.13.5: Rôl Awdurdod Bwyd ..... 205

ATODIAD 14: MEWNFORIO BWYD O DRYDYDD GWLEDYDD ..... 207

A.14.1: Cyflwyniad ..... 209
A.14.1.1: Cwmpas ..... 209
A.14.2: Statws y Canllaw hwn ..... 210
A.14.3: Deddfwriaeth Bwyd a Fewnforir (BNDA) ..... 210

A.14.3.1: Rheoliad UE Rhif 882/2004 ........ 210
A.14.3.2: Rheoliadau Rheoliaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 ........ 210
A.14.3.3: Deddfwriaeth arall ........ 211
A.14.3.4: BDNA 'risg uchel' ........ 211
A.14.4: Cynllunio Gwasanaeth ........ 211
A.14.5: Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennir ........ 212
A.14.6: Awdurdodi ........ 212
A.14.7: Cymwysterau / Profiad Swyddogion Awdurdodedig ........ 213
A.14.8: Gwybodaeth ........ 213
A.14.9: Cofnodion ........ 214
A.14.9.1: Nodi a chofnodi mewnforwyr bwyd ........ 214
A.14.9.2: Cofnodion llwythi ac archwiliadau ........ 215
A.14.9.3: Trefniadau ar gyfer mannau mynediad heb bresenoldeb parhaol awdurdod lleol ........ 215
A.14.10: Cofnodi a Threfniadau Hysbysu ........ 216
A.14.10.1: Swyddog penodedig ar gyfer rheolaethau bwyd a fewnforir ........ 216
A.14.10.2: Ffurflenni monitro ........ 216
A.14.10.3: Hysbysu am beryglon bwyd neu ddigwyddiadau ........ 216
A.14.10.4: Hysbysu am fewnforio CDOA yn anghyfreithlon ........ 217
A.14.11: Cydgysylltu / Cyfeirio ........ 217
A.14.12: Archwiliadau Mewndirol ar Fwyd a Fewnforir ........ 218
A.14.12.1: Archwiliadau gohiriedig ar BNDA - rheolaethau mewndirol ........ 219
A.14.13: Samplu Bwyd a Fewnforir ........ 219
A.14.13.1: Ystyriaethau ar gyfer samplu ........ 219
A.14.13.2: Cymwysterau / profiad / hyfforddiant swyddogion sy'n ymgymryd â samplu ........ 220
A.14.14: Bwyd nad yw'n Deillio o Anifeiliaid (BNDA) ........ 220
A.14.14.1: Adnabod ........ 220
A.14.14.2: Gwahardd ........ 221
A.14.14.3: Archwilio ........ 221
A.14.14.4: Archwiliadau gohiriedig ar BNDA ........ 222
A.14.15: Profion cyn Allforio o Drydydd Gwledydd ........ 223
A.14.16: Ffioedd ........ 224
A.14.17: Gorfodi ........ 224
A.14.18: Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid - Gorfodi ........ 226
A.14.18.1: CDOA a gyflwynwyd yn anghyfreithlon ........ 226
A.14.18.2: CDOA sy'n cyflwyno risg i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid ........ 227
A.14.18.3: Cadw CDOA yn fewndirol ........ 227
A.14.18.4: Adrodd ........ 228
A.14.19: Cyfeiriadau ........ 228